Gwedy reydon ryderch. Gwedy ryderch sawyl pen yssel. Gwedy sawyl pen yssel pyrr. Gwedy pyrr. cappoyr. Gwedy cappoyr e doeth **manogan y 6ap en 6renyn. Gwr pr6d hena6s oed h6nn6 ac em** mlaen pob pob peth ya6nder a gwyryoned er r6ng e pobloed. **Ac en ol h6nn6 e doeth bely y 6ap ef en 6renyn a de6 6geyn mly**ned e b6 en 6renyn. ac y h6nn6 e b6 try meyb. ll6d. a chas**walla6n. a nynnya6. ac gwedy mar6 bely e gwnaethpwyt ll6d** e map hynaf yda6 en 6renyn. Ac .. gwedy henny ef a atnewyd**ha6s m6roed ll6ndeyn ac ae kylchyn6s o lawer o tyroed. Ac y gyt** a henny gorchymyn a gwnaeth yr kywda6twyr adeylat tey an**ryded6s ma6r o 6e6n e kaer megys na bey en gwladoed oll** en e6 kylch tey a 6ey kymryt na chyn deket ac wynt. Ar ll6d **h6nn6 Gwr da a wydyat wrth ry6el oed. ac ehelaeth a da am** wuyt a dya6t. Ac oe holl ky6oeth mwyhaf dynas a karey oed **honno. ac 6rth henny e gelwyt kaer lwd. ac odyna kaer l6n**deyn. Ac or dywed gwedy mar6 ll6d clad6 y corff a gwnaeth**pwyt en e dynas h6nn6 kerlla6 e porth a elwyr oe enw ef** gwedy henny porth llwd; eg kymraec; en saesnec e gelwyr **l6descat. De6 6ap a wu yda6. a6arwy. a thene6an. ar rey henny** rac e6 ye6ectyt ny ellynt llywya6 e 6renhynyaeth. ac 6rth henny **e gwnaethpwyt kaswalla6n bra6t ll6d en 6renyn. Ac en** elle gwedy gwysca6 e coron am y pen dechre6 kymryt clot **ac ehelaethrwyd hyt pan aeth y clot tros e gwladoed em** pell y 6rth6nt. ac 6rth henny e ka6as ef e 6renhynyaeth en **k6byl a hep dym yr neyeynt. Ac eyssyoes ny mynn6s ef bot** y neyeynt yn dyran or k66oeth. namyn rody ran 6a6r 6d6nt. **Ac y a6arwy er rodes kaer l6ndeyn a yarllaeth keynt. ac y te**ne6an er rodes yarllaeth kernyw. Ac yda6 ente6 eh6n coron **e teyrnas a thewyssogaeth er holl enys.** Ac ena en er amser h6nn6 megys e keffyr en hystoryae6 gwyr **r6ueyn dy6ot a gwnaeth wul kessar ammera6dyr r6**ueyn gwed6 gorescyn ffreync hyt ar traeth rwytyn. ac odyna //

Peniarth 44 t. 46

drych ar enys prydeyn a gwnaeth a go6yn yr gwyr a oed en y kylch pa gwlat oed honno a pha kenedyl ae presswylyey endy. Ac ena **gwedy gwybot o*hona6* enw e gwlat ar pobyl ae presswylyey** e dywa6t ente6. o 6n kenedyl ed henym ny gwyr r6ueyn ar bry**tanyeyt. kanys o kenedyl tro e doetham ny. eneas gwedy dystryw** tro a wu tat en kyntaf yny. Ac 6d6nt wynte6 e b6 tat br6t6s **6ap syl6y6s 6ap ascany6s. 6ap eneas. Ac onym twyllyr y ne6** deryw 6d6nt dy6onhedyga6 y 6rthym ny. ac ny wdant dym y 6urth **emlad na myl6ryaeth. a ha6d ew kymhell arnad6nt tal6 teyrn**get y wyr r6ueyn. kanys em meyn er eygya6n odyeythyr e byt **e maent en press6wlya6. Ac eyssyoes ya6n ew an6on kennade6 at**tad6nt en kyntaf ac erchy 6d6nt na phellaont y wrth wyr r6**6eyn a thal6 teyrnget 6d6nt megys pa6b or kenedloed en** e6 kylch. a henny hep emlad. rac gor6ot arnam ny ell6ng e6 **gwaet wynt en kereynt yn a chody hen 6onhed en hentat** ny pryaf hen. Ac ena gwedy an6on o wl kessar henny **en y lythyr a gorchymyn ~~hen~~ y kaswalla6n brenyn e bry**tanyeyt gwne6th6r henny en llwyr ac en 6uyd anthey**l6ng wu henny kan kassalla6n ac an6on escry6en a gwna**eth ente6 ar wl kessar ar amadra6d h6n endy. **Casswalla6n brenyn e brytanyeyt en an6on y wl kessar. An**ry6ed ew meynt chwant gwyr r6ueyn a meynt arnad6nt **sychet e6r ac aryant. kanys ny mynnant wy dyodef en bot ny** en dyodef perygyl e weylgy en eyste ac en presswylya6 em **me6n enys en e mor odyeythyr ter6yn e byt hep keyssyaw** kymhell ss6llt arnam ny. or lle er re*6uam* nynhe6 hyt hyn eyryoet **en y 6ed6 en ryd. Ac nyt dyga6n henny he6yt kanth6nt namyn** mynn6 gwne6th6r tragywyda6l keythywet arnam ny. **kewylyd ytty d6h6n a ercheyst ty wl kessar kanys o 6n** gwythen bonhed e dyscynnassam ny a thyty o eneas escwyd**wyn. ac 6n kenedyl. ac 6n 6onhed ac 6n delyet. ac 6n ka**twyn rwymedygaeth bonhed henny a dely6t ty y erchy ac //

Peniarth 44 t. 47
nyt keyssya6 kymhell keythywet arnam ny. kanys er redyt honno en e 6eynt e gnotaassam ny y chynhal hyt hyn pey keyssyey e dywe6 **eh6n y dwyn ragom ny; en e 6eynt e gallem ny g6rthwyneb6** 6d6nt a gwnaem oc en holl all6. y kynhal en rydyt kennym ny. **Ac 6rth henny ednebyd ty wl kessar ed emlad6n nynhe6 tros** en rydyt a thros en gwlat a thyty o doey tros e mor megys ed **wyt en gogy6ada6 dy6ot y gyt ac e sseghych ar tyr enys prydeyn.** Ac ena gwedy gwelet o wl kessar er escry6en a chlybot er attep **a oed endy en e lle paratoy y llyghes a or6c ac arhos gwynt** rwyd 6nya6n en e6 hol y 6ynn6 kywyra6 ar y weythret er hyn **a re dywedassey ar y eyr 6rth kasswalla6n. Ac ena dyrcha6ael** e6 hwylye6 a gwnaethant a dyscynn6 a or6gant em porthloed **aber themys. Ac y gyt ac e da6 e6 lloghe6 yr tyr enachaf ena** casswalla6n a holl kedernyt enys prydeyn y gyt ac ef en dy6ot **y kastell dorobell. ac ena kymryt kyt*kyghor* gwyrda y teyr**nas pa ff6n6t e g6rthledynt e6 gelynyon y 6rth6nt ac y **6rth e6 gwlat. Ac ena e dothoed y gyt ac ef bely y pente6l6** e gwr e gwneyt holl lywodraeth e ky6oeth trwy y kyghor **Ac eno he6yt e dothoedynt y de6 neyeynt ef a6arwy 6ap ll6d** tywyssa6c keynt a ll6ndeyn. a thene6an 6ap ll6d tewyssa6c **kernyw. y gyt a henny he6yt e try brenyn a oed en darestyghe**dyc yda6 nyt amgen crydya6n brenyn e gogled. a Gwerthaed **brenyn gwyned. a Brythael brenyn dy6et. Ac ena o kyghor** e ka6ssant bot en ya6nhaf 6d6nt kyrch6 ll6este6 wl kessar **en kyntaf kyn noget kaffael o*hona6* dy6ot em me6n e wlat** na chaffael 6n dynas nac 6n kastell ohoney. ac en newyd en **e lle emlad ac wynt. kanys o cheffynt wy dy6ot o 6ewn ke**dernyt e gwlat anha6s 6ydey e6 g6rthlad ohoney. Ac ena **o kytssynnyedygaeth pa6b e6 kyrch6 a gwnaethant ar** torr e traeth. en lle ed oed wl kessar ae l6este6 ac ae pebylle6 **Ac ena gossot e bydynoed o pob parth kymysc6 e6 dehe6oed** a gwnaethant ac e6 gelynyon. a newydya6 dyrnode6. //

Peniarth 44 t. 48
ac erbynnyeyt ergydye6 a b6r6 ereyll. Ac ena hep 6n gohyr dygwyda6 o pob parth a gwnaey e gwyr brathedyc a redec a gwnaey e **gwaet ar hyt e dayar en 6n agwed ac e chwythey dehe6 wynt** e tonne6 y ar e weylgy. Ac ena mal ed oedynt e bydynoed en em**kyrch6 o damweyn ed emky6ar6u nynnya6 6ap beli ac** a6arwy 6ap ll6d a gwyr sswyd keynt a gwyr ll6ndeyn y gyt **ac wynt. ar 6ydyn ed oed er amhera6dyr endy. Ac ena en e lle** pan em*ky6arwuant* y gyt gwascar6 hayachen a gwnaeth **bydyn er amhera6dyr kan e brytanyeyt. Ac ena mal ed oedynt** en emff6stya6 o pob parth er rodes e teghet6en fford y nynnya6 **y emkaffael ar amhera6dyr. Ac en e lle y kyrch6 a gwnaeth** a llawenha6 en wuy no meynt a or6c o acha6s kaffael lle **y rody 6n dyrna6t y wr kymeynt kywurd a h6nn6. Ac y gyt** ac y gweles wl kessar ef en y kyrch6 e6elly erbynnyeyt **e dyrna6t a gwnaeth ar e taryan. ac en e 6eynt mwyhaf** e gad6s y nerth yda6 y trewys a chledyf noeth ef ar y pen**ffestyn. ac eylweyth dyrcha6ael y chledyf a or6c er amhera6dyr** a cheyssya6 y 6edr6 en er 6n lle eny rodey dyrna6t aghe6**a6l yda6. ac ena pan weles nynnya6 henny sef a gwna**eth ente6 gossot y taryan en erbyn e dyrna6t. ac ena **glyn6 a gwnaeth cledyf er amhera6dyr er r6ng y taryan** ae penffestyn hyt na all6s er amhera6dyr tynn6 y cle**dyf odyna rac e tor6oed en emkymysc6 y gyt. Ac ena gwe**dy kaffael o nynnya6 cledyf er amhera6dyr en e wed **honno b6r6 a gwnaeth y cledyf eh6n y emdeyth a chym**ryt cledyf er amhera6dyr en y law ac a h6nn6 emlad ae **elynyon. A phwy a trawey a h6nn6 ar 6n dyrna6t e** trawey yda6 y pen ne6 y escwyd ne6 y 6reych ne6 er **aela6t a kaffey a gwahaney y 6rth y corff ar 6n dyrna6t** megys na bey 6n go6yneyc byw

o*hona6*. Ac ena 6al **ed oed ef en e wed honno en llad a ky6arffey ac ef enachaf** labyen6s tewyssa6c en ky6ar6ot ac ef ac en e ky6ranc //

Peniarth 44 t. 49
kyntaf en e lle y llada6d. Ac ena or dywed gwedy~~wed~~ tre6lya ran 6a6r or dyd a dyw en e6 nertha6 e wud6golyaeth a ka6as e bryta**nyeyt ac wl kessar a ffoes en y l6este6. ac odyna ed aeth ae lw kan**tha6 en 6rywedyc essyc en y longhe6 a chymryt e mor en lle am**dyffyn yda6. Ac ena gwedy kaffael o kassawalla6n e wudu**golyaeth tal6 dyol6ch llawer y dyw a gwnaeth a chy6oethogy **y kytemdeythyon pob 6n en herwyd y gweythret o rodyon ma6r** a chy6arwusse6. Ac eyssyoes or parth arall go6al6s oed kanys **nynnya6 y 6ra6t oed en wan or brath aghe6a6l a ka6ssey kan** er amhera6dyr ac nat oed dyhe6 y 6yw. Ac erbyn pen e pym**thec*6et* dyd e b6 6ar6 nynnya6. ac e clad6t en ll6ndeyn. ac eno** e gwnaethpwyt yda6 brenhynya6l arwylyant. ac y gyt ac ef **e dodet e cledyf a d6gassey en er emlad y ar wl kessar. en e bed** y gyt ac ef. Ac esef enw oed ar e cledyf er aghe6 coch. Ac esef **acha6s e gelwyt ef e6elly 6rth na bydey 6yw e nep er anwae**tey arna6. Ac ena gwedy dangos o wl kessar y ke6yn en **ffo a dy6ot ohona6 hyt en traeth ffreync em*erbymya6* a gwna**eth gwyr ffreync ac emlad ac ef ac cheyssya6 b6r6 y arglwy**dyaeth y arnad6nt. kanys tebyg6 a gwneynt y re wanha6 en** 6a6r ef o acha6s relad y wyr or brytanyeyt ae re*kymell* ente6 **ar ffo. Ac y gyt a henny clybot a gwnathoedynt bot casswalla6n** a llynghes 6a6r kantha6 en y emlyt ar e mor. ac o acha6s henny **ed oedynt wynte6 en tebyg6 gall6 gwrthwyneb6 6d6nt en** ha6d. A phan gweles wl kessar e6 bot e6elly en y erbyn ny **mynn6s mynet y emlad pedr6s ac wynt namyn agory y ss6llt** a gwnaeth a rody rodyon ma6r y pa6b onad6nt a or6c ac e6elly **e6 tangnhe6ed6 ac ef. Ac y gyt a henny ada6 redyt a or6c yr** plwyf ac ada6 rody tref e6 tat yr nep ae kollassey onad6nt **a rydyt yr keyth. Ar gwr a oed kynt noget henny megys** llew dywal en e6 plyth en e6 anreythyaw ara6rhon me**gys oen bychan en rody y pa6b y da trache6yn. Ac ny gorffo**wyssws o anhyed a pha6b e6elly eny d6c pa6b en 6n ac ef. //

Peniarth 44 t. 50
Ac ena nyt oed 6n dyn a dywettey dym namyn am ffo wl kessar a b6d6golyaeth e brytanyeyt. Ac ena gwedy mynet dwy wlyned **heybya6 paratoy llynghes eylweyth a gwnaeth wl kessar a mynn6** mynet y em*dyalha* a~~e wl kessar~~ casswalla6n 6ap bely. Ac y gyt ac **e kygle6 casswalla6n henny kadarnha6 e keyryd em pob lle a or6c** a gossot marchogyon ar6a6c em pob porthloed or e bey dyscyn6a **llonghe6 end6nt. y e6 gwarchad6. Ac y gyt a henny ar hyt cana6l** themys e ffford e doeyt y l6ndeyn e perys gwne6th6r polyon hey**yrn blaen*llym* kyn 6rasset a mordwyt gwr ac e6 plym6. ac e6** gossot en kywuch ar d6uyr hyt pan deley llonghe6 er am**mera6dyr en dyssy6yt ar er rey henny e tellynt ac e torrynt. ac** e bodynt. Ac gwedy gwne6th6r henny ente6 eh6nan a holl ye6enctyt **er enys y gyt ac ef en gwarchad6 er ar6ortyr ac en e6 haros.** Ac ena gwedy dar6ot y wl kessar paratoy pob peth or a 6ey **reyt yda6 kychwyn a gwnaeth ac anther6ynedyc o eyryf** marchogyon y y gyt ac ef y keyssya6 dyal ar e brytanyeyt e ke**wylyd ar kollet a ka6ssey ente6 kanth6nt wynte6 kyn no henny.** A henny hep amhe6 a allassey ente6 bey deley y lynghes en yach **yr tyr. kanys pan doethant ar hyt cana6l temys ar e polyon** redywedassam ny wuchot e perygl6s llaw o eyryf onad6nt **ac e bodassant. hyt ar mylyoed onad6nt. ac oc e6 marchogyon.** Ac ena gwedy gwybot o wl kessar henny trossy e6 hwylye6 **a gwnaethant oc e6 holl nerth a dy6ot yr tyr ar 6rys. Ar ny6er** a dyenghys or 6eynt perygyl honno o 6reyd e doethant y gyt **ac ef yr tyr. Ac ena pan weles casswalla6n henny y ar e glan**

or lle ed oed en edrych llawen wu kantha6 gwelet e sa6l a **gweles en body onad6nt a thryst wu kantha6 gwelet er** rey a dyenghys en kaffael e tyr. Ac eyssyos arwyd a rodes cas**walla6 oe kyt6archogyon ac en e lle kyrch6 gwyr r6ueyn** a gwnaethant. Ac ena esef a gwnaeth gwyr r6ueyn ket re **keffynt wy perygyl ma6r ar e d6uyr y gyt ac e ka6ssant** e tyr gwrthwyneb6 en wra6l yr brytanyeyt. a gossot e6 //

Peniarth 44 t. 51
gle6der en lle m6r 6d6nt. a gwne6th6r aer6a dyr6a6r y meynt or brytanyeyt. ac eyssyoes mwy a ledyt onad6nt wy noc a ledynt **wynte6. kanys rac meynt onad6nt a 6odes en er a6on lley oed e6** ny6er. ar brytanyeyt pob a6r mwy wuy 6ydey e6 ny6er. kanys **o pob lle ed em*kyn6llynt*. ac 6rth henny mwy teyr gweyth oed** e6 ny6er. Ac o acha6s henny e ka6ssant e 6ud6golyaeth. Ac 6rth **henny gwedy gwelet o wl kessar re gor6ot arna6 ffo a or6c** oe longhe6 ac echedyc o ny6er y gyt ac ef. a dyga6n o da wu kan**tha6 en lle gowunet kaffael e mor oe amdyffyn. ac en e lle dyrcha**6ael y hwylye6 a or6cpwyt ket bey tymhestla6n e gwynt 6d6nt **ac odyna hwylya6 hyt en traeth moryan. ac ena e kyrch6s hyt** em me6n t6r a gwnathoed ar glan e mor ena ra o6yn gwyr ffreync **o delhey eylweyth ar ffo y 6rth e brytanyeyt megys e dothoed kynt.** Ac ena gwedy kaffael o casswalla6n er eylweyt e wud6golyaeth **dyr6a6r lewenyd a kymyrth enda6 a gossot gwys a gwnaeth** tros wynep enys prydeyn ac erchy y pob g6rda en er enys dy6ot **wynt ac e6 gwraged kanth6nt hyt en ll6ndeyn y tal6 dyled6s** anryded yr dwywe6 tadolyon ac y gwne6th6r gwyl6ae6 anryded6s **6d6nt. 6rth re kanhyad6 or dwywe6 6d6nt wynte6 kaffael b6d6**golyaeth or 6eynt amhera6dyr h6nn6. Ac ena gwedy dy6ot pa6b **hyt en ll6ndeyn hep 6n gohyr hep 6n annot megys ed ar.hadoe.** 6d6nt. ena e llas amrya6al any6eylyeyt. Ac ena ed aberthwy. **de6 6geyn myl o warthec. a chant myl o de6eyt. ac o am.ya...** kenedloed adar er hyn ny ellyt gossot ryf arna6. Ac eythyr ..... **dec myl ar r6geyn or gwyd*6ylet* gwyllt or koet. o pob .y...** nedyl any6eylyeyt. Ac en e lle gwedy dar6ot en kyntaf t..6 . **hanryded yr dwywe6. mynet a gwnaethant wynte6 a herwyd** e6 kynne6a6t bwytta or dryll arall. megys e gwneyt ..a e lle **e gwneler aberth yr dwywe6. Ac ena gwedy dar6ot 6d6nt** bwytta er hyn oede ar ol or nos ac or dyd y tre6lya6 a gwnaethant **trwy amrya6al gwaree6. Ac ena 6al ed oedynt en gwarae e** damweynny6s y de6 gwyr ye6eync da amrysson en gware palet //

Peniarth 44 t. 52
ar neyll onad6nt oed ney yr brenyn ar llall oed ney y a6arwy 6ap ll6d. Ac esef e dar6u amrysson er rygth6nt ell de6 en gwarae palet. ac or am**rysson kynhenn6. ac or kynhenn6 llytya6. ac or em*lytya6*. Ac esef oed** enw ney e brenyn ythael glas. ar llall a elwyt k6helyn. Ac en er **emgeynnya6 h6nn6 sef a gwnaeth k6helyn ney a6arwy 6ap ll6d** espeylya6 y cledyf ac ar 6n dyrna6t llad pen ythael glas ney **e brenyn. Ac ena pan las h6nn6 kynh6ryf ma6r a 6u en e llys oll** or acha6s honno. ar chwedyl a doeth ar caswalla6n. Ac ena kyf**frory en 6a6r a llyd6a6 a or6c am re lad y ney. ac erchy y a6ar6y** dwyn k6helyn rac y 6ron y 6arn6 bra6t lys arna6 am e ky6**la6an re gwnathoed. ac y gwne6th6r ya6n yr brenyn am re am**perchy y lys. Ac ena sef a gwnaeth a6arwy bot en pedr6s kan**tha6 peth oed med6l e brenyn 6rtha6 rac meynt y lyt 6rth y** ney. g6rthep yda6 a dywedwyt bot llys yda6 eh6n ac e mae **en y lys ente6 e dely y ney gwne6th6r ya6n. ac os ya6n a** 6ynney y keyssya6 am k6helyn e mae en ll6ndeyn herwyd **hen ky6reythye6 gossodedyc e delyey gwne6th6r ya6n ae** kymryt. Ac ena esef a gwnaeth caswalla6n gwedy na cha6as **ya6n am y ney 6rth y 6ynn6. tyngh6 y a6arwy e lloscey ac** ed anreythyey y gwlat ony deley y gwne6th6r ya6n yda6 6rth **y kyghor. Ac ena**

llydya6 a gwnaeth a6arwy ac annot gwne6th6r ya6n yda6. Ac ena llydya6 a gwnaeth casswalla6n a brys**sya6 y anreythya6 y ky6oeth. Ac ena pe6nyd ed an6oney a6a**rwy trwy y kereynt ae ky6nessafyeyt ar e brenyn y erchy yda6 **peydya ar llyt a dechre6ssey y kymryt en y erbyn. Ac ena gwedy** na alley o nep fford en e byt kaffael y kerenhyd na pheydya6 **ar llyt a dechre6ssey en y erbyn medylya6 pob peth a gwnaeth** pa ff6n6t e galley kynhal ry6el en y erbyn. A gwedy nat oed **gobeyth o fford arall en y byt gall6 emkynnal sef a gwnaeth** an6on escry6en hyt ar wl kessar ar amadra6d h6n endy. **A6arwy 6ap llwd tewyssa6c ll6ndeyn en an6on annerch** y wl kessar. Gwedy dam6nedyc aghe6. dam6nedyc wuched. //

Peniarth 44 t. 53
Edy6ar yw kennyf ry6el6 a thyty y gyt a chasswallayn 6e ewythyr. A phey na gwnel6n mynhe6 henny tydy a gorescynn6t ar torr cas**walla6n. Ac gwedy kaffael o*hona6* e wud6golyaeth tr6of y e ky**myrth ente6 syberwyt am dyhol ynhe6 om ky6oeth. Ac e6elly **e mae ef en tal6 ymy 6e gwassanaeth. Myfy a kynhelyeys kantha6** ef tref y tat ae ky6oeth. ac ente6 esyd ym dytreftad6 ynhe6. **Ac 6rth henny ed wyf ynhe6 en erchy yth tr6gared ty kanh6r**thwy a nerth y orescyn 6e ky6oeth trache6yn a mynhe6 a pa**raf y tythe6 trwy 6e nerth ynhe6 am porth gorescyn enys** enys prydeyn 6rth de kyghor tythe6. Ac o henny en k6byl nac **amhe6 dym kanyt oes dym twyll enda6. kanys e6elly e ky**nydant e dynyadon. gwedy bo dr6c er rygth6nt kymody onad6nt. **a gwedy ffo kaffael b6d6golyaeth ac e6 mynn6.** Ac ena gwedy gwelet o wl kessar e llythyr h6nn6 ar **annerch kymryt kyghor y kytemdeythyon a or6c ac esef** a ka6ssant en e6 kyghor na chredynt dym o henny hep kaf**fael gwystlon en e blaen. mal e bey dyoge**lach **kantha6 kyr**ch6 enys prydeyn. Ac ena hep 6n gohyr a6arwy a an6ones **yda6 kynan y 6ap eh6n. ac y gyt a henny dec gwystyl ar r6**geyn or meybyon bonhedykaf or a oed en y ky6oeth. oe ke**reynt eh6n ae kenedyl. Ac ena gwedy kaffael e gwystlon o** wl kessar kyn6lla6 y lw a or6c a pharatoy y longhe6 a dy6ot **y do6yr yr a gwnaeth. Ac ena ed oed casswalla6n en dechre6** eyste 6rth l6ndeyn ac en emlad a hy. ac en anreythya6 e gwla**doed en y chylch. Ac en e lle pan kygle6 ef dy6ot amhera6dyr** r6ueyn ae lw kantha6 yr tyr ada6 ll6ndeyn a gwnaeth **ac en e lle mynet en y erbyn ar 6rys. Ac 6al e da6 parth ar** glyn en agos y kaer keynt esef e gwyl ena pebylle6 a ll6**este6 gwyr r6ueyn em me6n e dyffrynt h6nn6. A6arwy** hagen 6ap ll6d ae d6gassey wynt eno. ac odyno e mynnynt **mynet en dyrryb6d am pen cassawalla6n a rydha6 ll6ndeyn** y kantha6. Ac ena ny b6 ohyr pan gweles gwyr r6ueyn //

Peniarth 44 t. 54
e brytanyeyt en dy6ot attad6nt en e lle gwysca6 amdanad6nt a gwnaethant a gossot e6 marchogyon en 6ydynoed. Ac or parth **arall gwysca6 e6 har6e6 a or6c e brytanyeyt ac emkyweyrya6 en** e6 bydynoed. Ac esef a gwnaeth a6arwy ena a phym myl o **6archogyon y gyt ac ef llech6 en e llwyn koet oed ker e6 lla6** hyt pan 6ey odyno e gwneley ente6 nerth yr amhera6dyr pan **6ey reyt yda6 6rtha6. Ac ena gwedy e6 hymky6ar6ot o pob parth** nyt annodassant pob rey onad6nt b6r6 ergydye6 aghe6a6l **oe gylyd. a newydya6 aghe6a6l dyrnode6. Ac ena emkyrch6** a or6c e bydynoed o pob parth ac ell6ng llawer o cre6 a gwaet **y redec. Ac ena o pob parth e dygwydynt e gwyr brathedyc me**gys e dygwydey e deyl y ar e gwyd mys hydref kan e gwynt. **Ac 6al ed oedynt e6elly en emkyrch6. ky6ody a gwnaeth a6a**rwy ae 6ydyn kantha6 oe lech6a a chyrch bydyn kasswalla6n **kanys e 6edyn honno a oed en kynhal nerth a pendogyn emlad** e brytanyeyt. ac or t6 trach e6 ke6yn e6 kyrch6. Ac en e lle hep **all6 se6yll dechre6 ffo ac ada6 e maes a gwnaeth. a**

mynyd oed en agos 6d6nt a llwyn koll em pen e mynyd ar mynyd en dy**ffwys en y kylch ac en karrega6c y estlysse6. Ac ena e ffoes** casswalla6n ar hyn a dyeghys oe lw. Ac ena gwedy kaffael **ohona6 pen e mynyd h6nn6 en 6ra6l emdyffryt a gwnaethant** odyno megys o kastell. Ac ena eyste a gwnaeth er amhera6dyr **eg kylch e mynyd ac e6 gwarchae en e lle honno ar hyt e nos** ac gwarchae racd6nt pob fford or e gellynt dy6ot o*hona6*. **a medylya6 e6 gwarchae en wynt eny 6yd6n mar6 o newyn** kany allassey e6 kymhell o ar6e6 ac emlad. Ac ena em pen er **eyl dyd gwedy nat oed y kasswalla6n dym a essey na bwyt** na dya6t o6ynha6 a gwnaeth rac kaffael y daly ae karchar6 **or amhera6dyr ac na bey ryd byth. an6on kennade6 a gwnaeth** ar a6arwy y ney ac erchy yda6 y tangne6ed6 ac amhera6dyr **r6ueyn. rac kolly e6 teylygda6t oc e6 kenedyl. gwedy e delyt** ef. A mynegy a gwnaeth he6yt y a6arwy ket ry6eley arna6 //

Peniarth 44 t. 55
na mynney ef y aghe6 ef. Ac ena gwedy dywedwyt or kennade6 er amadra6d h6n 6rth a6arwy e dywa6t a6arwy 6rth6nt wynte6 **Nyt ha6d kar6 e brenyn a 6o gwar megys oen pan 6o ry6el arna6** ac 6o dywal megys lleo pan 6o hed6ch. Ar gwr a oed arglwyd a **brenyn arnaf y kyn no hyn esyd ym gwedya6 ynhe6 ara6rhon.** ar g6r esyd en erchy tagnhe6ed y wl kessar ara6rhon a oed da **kan er amhera6dyr kaffael hed6ch kantha6 ente6 kyn no hyn.** Ac 6rth henny na deley ente6 gwne6th6r kam ar gwr a alley **y kynhal ar y ky6oeth ae wur6 y arna6. Ac 6rth henny ny deley** ef gwne6th6r kam a kynydo y ky6oeth y gyt ac ef kanys nyt **eyda6 6n tewyssa6 e 6ud6golyaeth namyn e gwyr a emlado tros**t6nt. Ac eyssyoes my6y ae tangnhe6edaf ef ar amhera6dyr. **Ac ena bryssya6 a gwnaeth a6arwy a dy6ot en e lle ed oed er** amhera6dyr a dygwyda6 ar tal y de6 glyn rac y 6ron. a **dywedwyt 6rtha6 6al hyn. Arglwyd amhera6dyr ep ef dyga6n** e dyeleysty de lyt ar casswalla6n. gwna tr6gared ac ef. Pa peth **a 6ynny y y kantha6 ef amgen no darestwng yt a thal6 te**yrnget y r6ueyn. Ac ena gwedy na rodey er amhera6dyr attep **yda6. dywedwyt a gwnaeth a6arwy 6rtha6 ente6. llyma** hyn a edeweys y yty wl kessar darest6ng casswalla6n. ac gwe**d6 enys prydeyn yt. llyma henny rederyw y mynhe6 y gwne6**th6r. casswalla6n esyd darestygedyc yt. enys prydeyn re deryw **y gorescyn. Peth a delyaf y y gwne6th6r yty e t6 hynt y heny.** Nyt ef a 6ynho crea6dyr nef a dayar dyodef ohonaf y a my en 6yw **karchar6 6e arglwyd ne6 y lad ac ente6 en erchy tr6gared** ymy ac en gwne6th6r ya6n ym or sarhaet re gwnathoed. **Nyt esca6yn llad casswalla6n a my6 en 6y6 er h6n nyt ke**wylyd kenhyf rody 6em porth am nerth yda6 ony bydy ty **6rth 6eg kyghor y. Ac ena rac o6yn a6arwy tagnhe6ed6 a** gwnaeth er amhera6dyr a chaswalla6n kan tal6 teyrnget **pob blwydyn yr r6ueyn. Ac esef oded meynt e teyrnget a** edewys y tal6 try myl o p6nhyoed aryant. Ac o henny allan //

Peniarth 44 t. 56
kytemdeythyon 6uant wl kessar a chaswalla6n a rody rodyon a gwnaethant pob 6n oe gylyd onad6nt. Ac ena e b6 wl kessar **e gayaf h6nn6 en enys prydeyn a phan doeth e gwayanhwyn rac** wynep ed aeth wl kessar hyt en ffreync. Ac odyna e kyn6ll6s **marchogyon llawer o pob lle ac odyna ed aeth hyt en r6ueyn.** Ac ena gwedy mynet espeyt seyth mlyned heypya6 mar6 **wu kasswalla6n 6ap bely ac eg kaer e6ra6c e cladwyt.** Ac en y ol ente6 e doeth tene6an 6ap ll6d en 6renyn e gwr **a oed tewyssa6c eg kernyw. kanys a6arwy a athoed y gyt** ac wl kessar hyt en r6ueyn. Ac gwedy gwysca6 o tene6an **coron e teyrnas am y pen. ry6el6r da wu. a gwr a wnaey** gwyryoned a ya6nder y pa6b wu ente6 tra wu 6yw. **Gwedy ente6 e**

gwnaethpwyt kyn6elyn y 6ap en 6renyn marcha6c gwychyr. ac amhera6dyr r6ueyn ae magassey **ac a rodassey ar6e6 yda6. Ar gwr h6nn6 a wu kymeynt ka**ryat gwyr r6ueyn kantha6 a chet galley attael e6 teyrnget **hyt nas attalyey namyn y rody oe 6od 6d6nt. Ac en oes e** gwr h6nn6 e ganet er arglwyd yess6 cryst e g6r a prynn6s **pym oes byt yr gwaet y kallon. e pobyl oed en rwym** em me6n kadwyn kythre6l eg keythywet. **Ac ena gwedy bot kyn6elyn en 6renyn dec mlyned ar** enys prydeyn. e ganet de6 6ap yda6. 6n onad6nt a **elwyt gwydyr ac arall a elwyt. Gweyryd adar weynyda6c.** Ac ena gwedy treylya6 o kyn6elyn y holl amser ae 6ar6. e **gwnaethpwyt Gwydyr en 6renyn. Ac ena gwedy bot gwy**dyr en 6renyn a ll6dyas ohona6 e6 teyrnget y gwyr r6**ueyn. e doeth Gloe6 amhera6dyr r6ueyn a llw ma6r kantha6** a hamo en pente6l6 yda6. ac o kyghor h6nn6 e kynhelyt **ac e gweyt pob peth or emlade6 a gwnelynt. Ac ena e doe**thant ac e dyscynnassant eg kaer porth ac eystedassant 6rth **e dynas. a dechre6assan kay6 pyrth e kaer a m6r maen.** Ac e6elly e mynney e6 gwarchae eny 6ydynt 6ar6 o newyn. //

Peniarth 44 t. 57
Ac ena gwedy clybot en honneyt dy6odedygaeth Gloe6 amhera6dyr. r6ueyn. kyn6lla6 a gwnaeth gwydyr holl emladwyr **enys prydeyn a mynet en erbyn gwyr r6ueyn y emlad ac wynt.** Ac ena dechre6 brwydyr kalethaf en e byt a gwnaeth ae **elynyon. a mwy a ladey eh6n onad6nt nor ran wuyhaf** oe lw. Ac ena a6r pob a6r e kyrchynt e6 llonghe6 a gwyr **r6ueyn en gwascar6 ac en ffo. pan aeth hamo twyllyr brad6r** a b6r6 y ar6e6 eh6n y amdana6. a chymryt ar6e6 6n or **kymry re ladadoed ac e6 gwysca6 amadana6. ac e6elly annoc** e bryttanyeyt megys 6n onad6nt eh6neyn a dywedwyt **e6 re gor6ot hayachen. kanys em plyth e gwystlon en r6** r6ueyn e magadoed ac y gan er rey henny e dyscassey ente6 **kymraec. Ac ena nessa6 a gwnaeth a dy6ot en e lle ed oed** e brenyn hep o6yn dym o henny arna6 a llad y pen y arna6 **a chledyf. Ac odyna en ky6lym ed aeth em plyth y 6ydynoed** eh6n ar escym6n 6ud6golyaeth honno kantha6. Ac ena **pan weles Gweyryd y 6ra6t henny relad e brenyn en e lle** dyot y ar6e6 eh6n a gwnaeth y amdana6 a chymryt ar**6e6 e brenyn ac e6 gwysca6 amdana6 ac en wychyr annoc** y lw ac emlad eh6n en e6 blaen en 6n agwe a chet bey **ef 6ey Gwydyr y 6ra6t. a nep or llw hep wybot re lad** e brenyn. gwrthwyneb6 a gwneynt y wyr r6ueyn. **ac emlad en wychyr ac wynt ac en kalet. ac gwne6**th6r aer6a trom onad6nt an6eydra6l y meynt. Ac or **dywed Gwascar6 a gwnaeth gwyr r6ueyn en dwy** ran a ffo ac en depryt ada6 e maes. Ac ena e ffoes er ame**ra6dyr ar neyll ran kantha6 or ny6er y e6 llonghe6 a** chymryt e mor en lle kastell ac amdyffyn 6d6nt. hamo **hagen ar dryll arall or llw a ffoes yr koedyd kany cha6as** o enhy ffo yr llonghe6. Ac ena sef a tebyg6s Gweyryd **bot Gloe6 amhera6dyr y gyt ar ny6er h6nn6 ac e6 hem**lyt a gwnaeth o le y le en ffo eny godywa6d ar glan e //

Peniarth 44 t. 58
mor en e lle e gelwyr oe en6 e gwr h6nn6 nordhantwn yr henny hyt hedyw. Ena ed oed porthloed a dyscyn6a adas y llonghe6. ac **ena llawer o longhe6 newytwyr. ac eno e ffoes hamo y keyssya6** mynet en e llonghe6 henny y emdeyth. pa doeth Gweyryd en dys**se6yt am y pen ac ena y lad. Ac yr henny hyt hedyw e trygws** y en6 ef ar e porthloed honno. ac e gelwyr porth hamo. **Ac ena gwedy henny sef a gwnaeth Gloe6 emkyn6lla6 y lw** eylweyth y gyt ac emlad ar dynas er h6n a elwyt ena kaer **perys ac ara6rhon e gelwyr kaer porth ae kaffael a gwnaeth** ae gorescyn. ac en e lle emlyt Gweyryd a or6c re athoed hyt **eg kaer wynt. Ac ena eyste 6rth e dynas ae gwarchae ac gwne**6th6r peyryanhe6 ac emlad ac ef. Ac ena sef a gwnaeth Gwey**ryd gwedy gwelet gwarchae e dynas en y kylch ac emlad ac ef** agory e pyrth a

chyweyrya6 y lw en 6ydynoed a mynet allan **y emlad ac ef. Ac ena sef a gwnaeth Gloe6 pan weles e brytanyeyt en para6t y emlad ac ef;** an6on kennade6 ar Gwey**ryd y tangnhe6ed6 ac ef. Ac esef acha6s oed henny o6yn oed** arna6 glewder e brenyn a chedernyt e brytanyeyt. a gwell **wu kantha6 o kymhenda6t a doethynep keyssya6 e6 gores**cyn no mynet y emlad pedr6s ac wynt. Ada6 a gwnaeth **yda6 hed6ch a d6undep. ac y gyt a henny rody y 6erch y** weyryd en wreycca yda6 hep keyssya6 dym y kantha6 na**myn daly enys prydeyn a dan r6ueyn. Ac ena sef a kygho**res hynafgwyr y ky6oeth y Gweyryd peydya6 ac emlad **a chymryt er hyn ed oed er amhera6dyr en y ada6 yda6. A** dywedwyt a gwneynt nat oed gwaradwyd yda6 daly adan **wyr r6ueyn pan 6ydynt wynte6 en med6 er holl 6yt.** Ac ena hedych6 a gwnaeth Gweyryd ac 6uydha6 yr ama**drodyon henny a darest6ng yr amhera6dyr. Ac ena en e lle** kennade6 a ellygh6s Gloe6 hyt en r6ueyn y kyrch6 y **6erch. ac ente6 a phorth y gweyryd kantha6 a gorescyn**n6s enyssed orc ar enyssed ereyll en e6 kylch ac ae dares- //

Peniarth 44 t. 59
tyngh6s 6rth y arglwydyaeth wynt. Ac ena gwedy mynet e gayaf h6nn6 heybya6 emchwel6t a **gwnaethant e kennade6 or r6ueyn ar 6orwyn kanth6nt** ae rody a gwnaethant ydy oy that. Ac esef oed enw e 6orwyn **keynlles. ne6 ente6 Genylles. kyn teket hagen oed oe phryt ae** theg6ch a dygey pa6b or a edrychey arney en anry6eda6t. Ac y gyt **ac e rodet e 6orwyn yr brenyn kymeynt y kar6s ac na dodey** mess6r ar dym 6rthy. Ac wrth henny e mynn6s gwne6th6r **en clot6a6r ac en anryded6s e lle kyntaf e kysc6s kenthy. ac** erchy a gwnaeth y Gloe6 adeylat dynas en e lle honno. mal **e bey e dynas h6nn6 en tragywada6l en kad6 kof e neythy**a6r honno hyt dyd bra6t. Ac ena ed erchys Gloe6 gwlat lydan **adeylat kaer a dynas en e lle honno. ac oe enw eh6n e gelwyr** e dynas h6nn6 kaer Gloe6 yr henny hedyw. Ac en er amser **h6nn6 pan ed oed Gweyryd adar weynyda6c en 6renyn ar** er enys hon e kymyrth er arglwyd yess6 cryst dyodeyfyeynt **yr er hynn a oed da o pobloed e pressent ac yr rydha6s wynt** o poene6 6ffern. Ac ena gwedy dar6ot adeylat e kaer mal **e dywedassam ny wuchot. a hedych6 er enys oll emchwel6t** a gwnaeth Gloe6 gwlat lydan hyt en r6ueyn. a gorchy**myn y gweyryd adar gweynyda6c llywodraeth er enyssed** oll en y kylch. ac e6 medyant ac e6 harglwydyaeth. **Ac en er amser h6nn6 e dechrwys pedyr epostol seylya6** eglwys katholyc en antyochya. ac odyna e doeth r6ueyn **ac e kynhelys escoba6t endy. ac ed an6ones marc ewange**lyst6r yr eyfft y pregeth6 e6eghyl cryst a escry6ennassey. **Ac ena gwedy mynet er amhera6dyr y emdeyth kymryt a** gwnaeth Gweyryd synnhwyr a doethynep a molyant a **dechre6 atgwne6th6r e dynassoed ar keyryd ar kestyll. a** llywya6 y y gwyr ae ky6oeth trwy e 6eynt ya6nder hon**no megys ed oed y o6yn ar 6renhyned e gwladoed ereyll em** pell y 6rtha6. Ac en e dywed kymeyn o syberwyt a kymyrth //

Peniarth 44 t. 60
enda6 ac ard6str6a6 a thremyg6 gwyr r6ueyn a hep 6ynn6 daly adanad6nt a 6ey hwy no henny. namyn kynhal e 6renhyny**aeth trwyda6 eh6n. Ac ena pan clywyt henny en r6uey an6on** a gwnaethant 6aspasyan6s y hedych6 Gweyryd ac yw dar**est6ng 6rth arglwydyaeth r6ueyn. Ac 6al e da6 6aspasya**n6s yr tyr. Gweyryd a doeth en y erbyn ac nys gad6s y dyscynn6 **ar e tyr ef. Ac esef acha6s oed kymeynt oed e llw a dothoed kan**tha6 ac ed oed y o6yn en 6a6r ae or6th ar wyr r6ueyn. ac **ny lla6assassant kyrch6 e tyr ar y torr. namyn trossy y hwylye6** a dy6ot hyt em porth totyneys yr tyr. Ac ena gwedy dy**6ot yr tyr e doethant hyt eg kaer pen*hwylcoet* er hon a el**wyr exon ac eyste 6rth

honno. Ac gwedy gwarchae onad6nt **e kaer wythnos enachaf Gweyryd ae lw en dy6ot ac en e lle** en emlad. ar dyd h6nn6 hyt wucher e b6ant en emlad ac e **e blyn6s pob 6n or de6 lw. ac ny orwu 6r6n ar y gylyd** onad6nt. A trannoeth e bore e doeth e 6renhynes er r6ng **e de lw ac y tangnhe6ed6s ac y kyghreyry6s wynt. ac** ena ed an6onassant e6 kyt6archogyon hyt en ywerdon. **Ena gwedy mynet e gayaf h6nn6 heybya6 ed emchwel6s** 6aspasyan6s hyt en r6ueyn. ac e trygws Gweyryd en **enys prydeyn. Ac ena gwedy henha6 Gweyryd car6 se**ned r6ueyn a gwnaeth. a llywya6 y ky6oeth en hed6ch **tangnhe6ed6s. kadarnha6 a gwnaeth er hen ky6reythy**e6 yr kynt a gossot ereyll o newyd. rody da en hael a **gwnaey y pa6b or ae keyssyey. Ac 6rth henny y clot a edmyg** a kerd6s en k6byl tros e6ropa. tryded ran e byt oed honno. **y kar6 a gwnaey gwyr r6ueyn. ae o6yn he6yt oed arna**d6nt megys e dywedyt amdana6 ef mwy noc am 6ren**hyned e byt wedy henny. Nyt oed nep dewrach en em**lad noc ef. nyt oed nep ara6ach en hed6ch. nyt oed nep dygry**6ach. nyt oed nep haelach en rody da. Ac gwedy trewlya6** ohona6 y holl amsser e b6 6ar6 ac e clad6t eg kaer gloe6 //

Peniarth 44 t. 61
em me6n temyl a gwnathoed ef en anryded Gloe6 amera6dyr. Ac ena gwedy ente6 e doeth Me6ryc y 6ap en 6renyn. Gwr **oed h6nn6 anry6ed y pr6dder ae doethynep. Ac em pen** espeyt a meyryc en 6renyn e doeth Rodry brenyn scythya **a doeth a llw ma6r kantha6 or ffychteyt hyt eg gogled er** er enys e lle a elwyt er alban. a dechre6 anreythya6 e wlat **ac en e lle kyn6lla6 llw ma6r a gwnaeth me6ryc a dy6ot** en y erbyn ac emlad ac ef ae lad. a chaffael e wud6golyaeth. **Ac ena dyrcha6ael maen ma6r a gwnaeth me6ryc en arwyd** kaffael b6dugolyaeth en e gwlat a elwyr Gwys me6ryc yr **henny hyt hedyw. ac en e maen h6nn6 ed escry6enn6s tytyl** oe koffa6 en tragywyda6l. Ac ena gwedy llad rodry e rodes **me6ryc y pobyl orchy6ygedyc honno ran or gogled y pre**sswylya6 endy. e wlat a elwyr katneysy. Ac ena gwedy nat **oed gwraged 6d6nt sef ed archassant yr brytanyeyt e6 mer**chet ac e6 nythed ac e6 karesse6 en wraged 6d6nt. e b6 **antheyl6ng henny kan e brytanyeyt ac y nakaassant. Ac** ena ed aethant wynte6 hyt en ywerdon ac e kymerassant **odyna gwraged or rey e ganet plant 6d6nt ac ed amyla**assant e6 kenedyl yr henny hyt hedyw. A hyt henny dyga6n **ew or rey henny kany b6 ar6aeth kenhyf traeth6 oc e6** hystorya wy. ne6 ente6 er escotyeyt er rey a kymyrth **e6 dechre6 onad6nt wy ac or gwydyl. Ac ena gwedy** ll6nyeth6 o 6eyryc er enys en holl hed6ch a thangnhe6ed **dechre6 a gwnaeth kar6 pobyl r6ueyn a thal6 e6 teyrn**get 6d6nt en llawen. ac o aghreyfft y tat y..nder. a **tanghe6ed a ky6reythye6 a phob peth en adwuyn a** gwnaeth trwy holl teyrnas enys prydeyn. **Ac ena gwedy eylenwy ohona6 redec y wuched. coel** y 6ap a wu 6renyn. E g6r h6nn6 yr en 6ap yda6 **a 6agessyt en r6ueyn a dyscedyc oed en e6 moes ac e6** de6a6t e6 kar6 en 6a6r a gwnaey. a thal6 teyrnget //

Peniarth 44 t. 62
a gwnaey 6d6nt oe 6od ac ny mynney gwrthwyneb6 6d6nt Sef acha6s oed pob gwlat a phob brenhynyaeth en gwed6 6d6nt **Ny b6 or brenhyned g6r wuy a anrydedey e bonhedygyon ar** dyledogyon kanys e6 kynhal ar er hed6ch ar rodyon amyl **a gwnaey en wastat 6d6nt.** Un map a anet yda6. ac esef oed enw h6nn6 lles 6ap coel me6**ryc. ac gwedy mar6 coel ed 6rd6t lles y 6ap en 6renyn** a holl gweythredoed da y tat a erlyn6s ente6 hyt pan tebygey **pa6b panyw coel oed. Ac ena medylya6 a gwnaeth mynn6** bot en well y dywed noe dechre6. an6on a gwnaeth y ken**nade6 ac escry6enne6 kanth6nt hyt en r6ueyn ar ele6the**ry6s pap. y adolwyn ac y erchy an6on cret a chrystonogaeth **yda6. kanys e gwyrthye6 a gwnaey cryst yr y dyscybylyon** a oedynt en

gole6ha6 y 6ryt ae 6ed6l. Ac o acha6s henny **ed oed ente6 en dody y holl dyhewyt ae enny ar wyr ffyd** a chret. Ac ena pan ka6as e gwy6ydedy pap h6nn6 go6u**net e brenyn de6 credyfwr doethyon a an6ones attaw** Sef oed er rey henny dwywan affagan. y pregeth6 ac y **6ynegy yda6 dy6odedygaeth cryst eg cna6t ae dyodeyfy**eynt yr prynn6 e crystonogyon o law cythre6l. ac oe olchy **ente6 or glan 6edyd ac oe emchwel6 ar cryst. Ac ena gwedy** dy6ot e gwyr henny a phregeth6 yda6 cred6 a or6c a bedyd **a kymryth. Ac en e lle ny b6 6n gohyr pa6b or ky6oeth o** dysc ac aghreyfft e6 breny cred6 a gwnaethant a chymryt **bedy oll. ac e6 tal6 a gwnaeth e seynt henny wynt ar te**yrnas gwlat nef. Ac ena gwedy dyle6 or gwyrda dyscedyc **henny aghcret or enys hon oll hayach e temle6 oed gynt en** anryded yr dwywe6 a kyssegrassant wynte6 yr 6n dyw **teyr person ac oe seynt y gyt ac ef. a gossot end6nt amry**a6al c6uennoed o 6rdolyon y gwassanaeth6 dyw. Ac en er **amser h6nn6 ed oed wyth temyl ar r6geynt en enys pry**deyn ac y gyt a henny teyr temyl oed wuch nor rey henny //

Peniarth 44 t. 63
ac e dygwydey er wyth ar r6geynt 6rth 6edyant ac arglwydyaeth e teyr henny. Er rey henny en k6byl o arch a gorchy **e pap a d6gant o 6edyant e ge6*dwywe6*. ac em pob 6n or** wyth temyl ar r6geynt e gosodassant escop kyssegredyc. ac **em pob 6n or teyr temyl penhaf e dodassant archescop. Ac** esef lle ed oed teyr eysted6a er archescyp en e try dynas **bonhedyccaf en enys prydeyn. nyt amgen a ll6ndeyn. ac eg** kaer e6ra6c. ac eg kaer llyon ar wysc eg gwlat 6organt. **Ac ena er rann6t er wyth escoba6t ar r6geynt en teyr ran** er r6ng e teyr archescoba6t. Ac ena e dygwyd6s en ran **archescop kaer e6ra6c dey6yr a brenych ar gogled oll me**gys y gwahana h6myr y 6rth loegyr. Ac y archescop ll6n**deyn e dygwyd6s lloegyr oll a chernyw a dy6neynt me**gys y gwahana hafren y 6rth kymry. A chymry oll a dy**gwyd6s en ran archescop kaer llyon ar wysc. Ac ena or** dywed gwedy ll6nyeth6 pob peth onad6nt en ya6n em**chwel6t a gwnaethan er athraon glan henny trach e6 ke**6yn hyt en r6ueyn a phob peth or a gwnathoedynt a 6y**nagassant yr pap ac a kadarnha6s ente6 o a6d6rda6t** pedyr ebostyl. Ac ena gwedy kaffael or gwyrda gwyn6y**dedyc henny kedernyt ac a6d6rda6t. e pap y pob peth or** a gwnathoedynt emchwel6t a gwnaethant trach e6 **ke6yn hyt en enys prydeyn a llawer o kytemdeythyon** y gyt ac wynt. Gweythredoed er rey hemy ac e6 henwe6 **a keffyr en e lly6yr a gwnaeth Gyldas o wud6golyaeth** emreys gwledyc. Ar hynn a gwnaeth ef o traetha6t mor **egl6r a h6nn6 nyt reyt y mynhe6 y atnewyd6 ef o ethry**lyth a 6o dyelwach nae escry6enn6 er eylweyth. **Ac ena gwedy gwelet o les 6ap coel e gogoned6s** 6renyn h6nn6 dywyll gwyr ffyd en blode6aw ac **en kynyd6 en y teyrnas emlenwy a or6c o dyr6a6r le**wenyd. ar tyr ar dayar ar ky6oeth a oed kynt em medyant //

Peniarth 44 t. 64
e ge6*dwywe6* gynt a emchwel6s ente6 en ar6er oed gwell ac a rodes em medyant eglwysse6 er arglwyd cryst ac ae **kanhyad6s en tyr da6n tragywyda6l y dyw ar sseynt. A cha**nys mwy e anryded a dyleynt achwaneg6 a gwnaeth ente6 **6d6nt wy tyr a dayar a 6ey amlach ac e6 dylyss6 y dyw** ar sseynt ar eglwysse6 kan holl redyt y wrth pob arglwy**dyaeth dayara6l. Ac ena er r6ng e pethe6 hyn a phethe6** ereyll oe weythredoed da ef eg kaer gloe6 e ter6yn6s **ef y hoedyl or byt h6n ac en er eglwys penhaf en e dynas** e cladwyt en e chwechet wlwydyn a de6 6geynt a chant **gwedy geny map dyw or arglwydes wen 6eyr wyry.** Ac ena nyt oed plant yda6 a deley kaffael e 6renhynyaeth **en y ol ente6 ac e ky6odes ry6el a ther6ys ac ann6h6ndep** er r6ng gwyr er enys eh6neyn ac e gwanha6s arglwydya**eth a medyant gwyr**

r6ueyn arney. Ac ena pan kygle6 gwyr r6ueyn henny ed an6onassant **se6er6s amhera6dyr a dwy leng o wyr kantha6 y** orescyn er enys 6rth r6ueyn trache6yn. Ac ena gwedy y **dy6ot hyt er enys hon emlad a gwnaeth ar brytanyeyt ar** ran onad6nt a darestyng6s yda6. ar ran arall ny gwe**d6s a gwnaeth brwydre6 mynych calet ac wynt ac a** ffoes racda6 trwy dey6yr a brenych hyt er alban. ar **rey henny hagen oc e6 holl la6ur a s6lyen en tewyssa**6c arnad6nt a oedynt en ry6el6 ar er amhera6dyr en **6a6r ac en wychyr trybelyt. Ac esef a gwneynt kyn**n6lla6 attad6nt er hyn mwyhaf a keffynt o wyr er **enyssed en e6 kylch en porth 6d6nt ac en 6ynych ed em**chwelynt kan 6ud6golyaeth. Ac ena gwedy gwelet **or amhera6dyr henny e b6 tr6m kantha6 ac ed erchys** gwne6th6r cla6d a 6ey an6ydra6l y 6eyn y 6eynt ae **dy6net er r6ng dey6yr ac escotlont or mor pwy gylyd** megys na chaffey e6 gelynyon dy6ot attad6nt wynte6 //

Peniarth 44 t. 65
a 6ey nes no henny tros e cla6d h6nn6. Ac ena o kyffredyn tre6l e gwnaethpwyt e cla6d h6nn6 or mor pwy gylyd ac **hyt em pen llawer o amseroed gwedy henny e parha6s h6nn6** en ll6dyas r6thyr e6 gelynyon. A h6nn6 a eylw e beyrd gweyth **esca6l 6ynyd. Ac ena gwedy na alley s6lyen kynnal ry6el en** erbyn er amhera6dyr a 6ey hwy no henny sef a gwnaeth **mynet hyt en scythya y keyssya porth y gan e ffychteyt y** orescyn y ky6oeth trae ke6yn. Ac ena gwedy kyn6lla6 o**hona6 ena holl ye6enctyt e wlat honno y gyt ac ef e doeth** a dyr6a6r lynghes kantha6 hyt en enys prydeyn a dyscynn6 **ac eyste 6rth kaer e6ra6c ae gwarchae ac emlad ar dynas.** Ac ena gwedy klybot henny ar hyt e gwladoed er ran wuyhaf **or brytanyeyt a emedewys ar amhera6dyr ac aethant ar s6**lyen. Ac eyssyoes yr henny ny pheydy6s se6er6s ae darpar **namyn kyn6lla6 gwyr r6ueyn ar hyn a trygassey y gyt ac** ef or brytanyeyt. a mynet en e lle parth a chaer e6ra6c ac **emlad a s6lyen a or6c. Ac ena eyssyoes pan oed calettaf e** 6rwydyr e llas se6er6s ac e brathwyt swlyen en aghe6**a6l. Ac ena e clad6t se6er6s eg kaer e6ra6c. er hon ed oed** gwyr r6ueyn en y chynnhal. De6 6ap hagen a ada6ssey **se6er6s amhera6dyr. Bassyan. a Getta. A Getta hagen or** r6uey ed hanoed y 6an ae tat. a bassyan a hanoed y 6am or **enys hon. Ac ena gwedy mar6 e6 tat e kymyrth gwyr r6**ueyn Getta ac y gwnaethant en 6renyn. kanys or r6ueyn **ed hanoed y tat ae 6am. Ac ena e kymyrth e brytanyeyt** Bassyan. ac y dyrcha6assant wynte6 h6nn6 en 6renyn 6rth **han6 y 6am or enys hon ae 6ot en kar 6d6nt. Ac ena gwed6** henny emlad a gwnaeth e brodyr ac ena e llas Getta ac e **ka6as Bassyan e 6renhynyaeth o nerth e brytanyeyt.** Ac en er amser h6nn6 ed oed en enys prydeyn gwr ye6anc **a elwyt karansy6s. ac nyt oed 6onhedyc namyn o** kenedyl yssel ed hanoed. A h6nn6 gwedy kaffael clot ohana6 //

Peniarth 44 t. 66
en llawer o wrwydre6 ac emlade6. e kychwynn6s racda6 ac ed aeth hyt en r6ueyn ac e keyssyws kanhyat y gan wyr r6ueyn y **gwarchad6 ar6ortyr enys prydeyn ae phorthloede6 rac estra6n** kenedloed ar longhe6 ar e mor. ac ada6 a gwnaeth 6d6nt o da **yr kanhyad6 yda6 henny kymeynt a chet rodynt brenhyny**aeth enys prydeyn. Ac gwedy twylla6 o*hona6* sened r6ueyn oe **amadrodyon twyllodr6s kaffael a gwnaeth er hyn ed oed en y** keyssya6. emchwel6t a gwnaeth trache6yn hyt en enys prydeyn **ac escry6enne6 gwedy e6 hynsseylya6 or amherodryon wynt.** Ac ena gwedy y dy6ot trache6yn e kyn6ll6s atta6 llawer **o ye6nctyt a chedernyt e wlat a chyn6lla6 llonghe6 llawer** a gwnaeth a mynet ar e mor a damkylchyn6 holl traethe6 **enys prydeyn a gwne6th6r kynh6ryf ma6r ar e pobloed a** or6c. Ac odyna ed aey hyt er enyssed ereyll en y kylch ac ed an**reythyey e gwladoed ac e torrey e6 kestyll**

ac e dygey e6 holl anreythye6 ac e6r ac aryant. Ac ena emkyn6lla6 a gwnaeth **atta6 o lw ar espeyt 6ecchan kymeynt ac nat oed ha6d y 6n** tewyssa6c nac y 6n brenyn emlad ac ef na gwrthwyneb6 **yda6. Ac ena o acha6s henny chwyda6 a gwnaeth y 6ryt ae** 6ed6l enda6 ente6 o syberwyt ac an6on kennade6 ar e bryta**nyeyt ac erchy 6d6nt y kymryt ef en 6renyn arnad6nt. ac** ente6 gwedy e lladey wyr r6ueyn a dyfferey er holl enys rac **gormes estra6n kenedloed. ac ae rydhaey wynte6 o keythy**wet gwyr r6ueyn. Ac ena gwedy kaffael ohona6 d6undep **e brytanyeyt ar henny. emlad a gwnaeth a bassyan ae lad** a chymryt eh6n coron e teyrnas. a gorescyn er enys oll. **Ac ena gwedy clybot en r6ueyn henny ed an6ones gwyr** r6ueyn allect6s a theyr lleng o wyr kantha6 y lad e **cre6la6n h6nn6. ac y kymhell teyrnas enys prydeyn 6rth** arglwydyaet a medyant gwyr r6ueyn. Ac ena gwedy **e6 dy6ot yr tyr ny b6 ohyr emlad a gwnaethant a** caransy6s ae lad. a chymryt llywodraeth er enys en y law //

Peniarth 44 t. 67
eh6n. Ac odyna gwedy henny dyr6a6r pla a thymhestyl a gwnaeth ar e brytanyeyt ar emada6ssey a gwyr r6ueyn ac a atho**edynt ar caransy6s. Ac ena tr6m w kan e brytanyeyt henny** kymryt a gwnaethant wynte6 asclepyodot6s tewyssa6c **kernyw ac gwne6th6r h6nn6 en 6renyn arnad6nt. ac o** kyt*kyghor* a chyt*d6undep* mynet en erbyn allect6s ac **gwyr r6ueyn ac emlad ac wynt. Ac en er amser h6nn6** ed oed allect6s en ll6ndeyn en gwne6th6 gwyl6ae6 an**ryded6s oe dwywe6 ef. Ac en e lle pan kycle6 ef bot ascle**pyodot6s ar brytanyeyt y gyt ac ef en dy6ot emada6 **a gwnaeth ente6 ae aberth a dy6ot en e6 herbynt wy** ac emlad ac wynt. Ac ena eyssyoes e gorwu asclepyodot6s **ar brytanyeyt y gyt ac ef ac e gwascarassant tor6oed gwyr** r6ueyn ac y kymhellassant ar ffo wynt ac e lladassant **allect6s e6 brenyn. Ac ena gwedy gor6o or bryta**nyeyt sef ly6y6s Gall6s ketemdeyth allect6s kyn6l**la6 a gal6 er hyn a dyaghassey oc e6 gwyr atta6 a mynet** hyt en ll6ndeyn ac ena kayw pyrth e dynas arnad6nt a **cheyssya6 kynhal e dynas. ar kaer rac e brytanyeyt. a theby**g6 gall6 e6elly gochel e6 haghe6 ter6ynedyc. Ac ena gwe**dy gwelet o asclepyodot6s gwne6th6r onad6nt henny. en** e lle dy6ot a gwnaeth ente6 ac eyste eg kylch e kaer ae **gwarchadw. ac an6on kennade6 y pob gwlat en enys** prydeyn a dywedwyt y 6ot ef en gwarchae gall6s a **gwyr r6ueyn y gyt ac ef en ll6ndeyn ac erchy y pa6b** bryssya6 atta6 en nerth ac en porth yda6. A dywedwyt **bot en ha6d 6d6nt dy6a gwyr r6ueyn os o kyt*d6undep*** ed emledynt ac wynt y gyt ac ef. Ac ena en e lle 6rth y **arch ef e doethant gwyr dy6et. a gwyr gwyned. a** gwyr dey6yr a brenych. a gwyr er alban. ac en llwyr **e doethant a hanoed o kenedyl e brytanyeyt. Ac ena gwedy** dy6ot pa6b hyt rac bron e tewyssa6c erchy a or6c //

Peniarth 44 t. 68
gwne6th6r llawer o peyryanhe6 ac emlad ar kaer. a cheyssya6 dystryw e m6roed en wychyr. Ac ena 6rth y arch **ed aeth pob gwr glew kadarn ac en wychyr emlad ar kaer.** Ac en e lle torry m6roed e kaer a mynet yr kaer a gwne6**th6r aer6a 6a6r o wyr r6ueyn. Ac ena gwelet o wyr** r6ueyn e brytanyeyt en ew llad hep tr6gared annoc **a gwnaethant y Gall6s mynet ac emrody en tr6gared as**clepydot6s ac erchy yda6 e6 hell6ng en 6yw y emdeyth. **Ne6 re daroed hagen e6 llad oll namyn 6n lleng a oed** ettwa en emkynhal. Ac ena oc e6 kyt*kyghor* ed emro**dassant en tr6gared asclepyodot6s. Ac ena 6al ed od ente6** en mynn6 gwne6th6r tr6gared ac wy er r6thrassant **gwyr gwyned 6d6nt ac ar e nant bychan a elwyr** eg kymraec nant Gall6n. ac en saesnec e gelwyr **Gallo*broc* e lladassant kymeynt 6n en 6 dyd.** Ac ena gwedy gor6ot ar wyr r6ueyn e kymyrth **asclepyodot6s coron e teyrnas ac y gwysc6s**

am y pen o annoc a chanhyat gwyr enys prydeyn. A lly6**6ya6 er enys a gwnaet trwy ya6nder a gwyryoned** a hed6ch dec mlyned. Ac ena gwedy henny e ky6o**des en erbyn asclepyodot6s coel yarll kaer gloew** ac emlad ac ef ae lad. a chymryt eh6n coron e teyr**nas ar 6renhynyaeth y gyt a hy. Ac ena gwed clybot** henny o sened r6ueyn re lad asclepyodot6s e gwr **a kynhyrwus sened r6ueyn llawen wu kanth6nt** henny. Ac ena dy6ot kof a gwnaeth 6d6nt e kollet a **kollessynt an6on a gwnaethant constans amhera6**dyr e gwr a orescynn6s er espaen yr r6ueyn. gwr **oed h6nn6 doeth. glew. ac a karey kyffredynolder r6ue**yn em blaen pob peth. Ac ena pan kygle coel bre**nyn e brytanyeyt y 6ot en dy6ot o6ynha6 emlad** ac ef a gwnaeth kanys ef a clywssey y 6rtha6 nat //

Peniarth 44 t. 69
oed 6n brenyn a alley gwrthwyneb6 yda6 an6on kennade6 a gwnaeth en y erbyn ac erchy tangnhe6ed yda6 **kan er am6ot h6n hagen bot en eyda6 ef enys prydeyn** hep keyssya6 dym y kantha6 ohoney namyn e teyrn**get m6ryedyc. Ac ena gwedy dywedwyt e kennad6ry** honno 6urth constans da wu kantha6 ae chanhyad6 **a gwnaeth. ae chadarnha6 a chymryt gwystlon ar henny.**. Ac ena gwedy henny em pen e mys cle6ych6 a gwnaeth **coel o heynt tr6m. a chyn pen er wythnos e bw** 6ar6. coel or heynt h6nn6. **Ac ena gwedy mar6 coel e kymyrth constans co**ron e teyrnas ac e kymyrth helen 6n 6erch oed **y coel en wreyc yda6. Pryt a theg6ch e 6orwyn honno** a orchy6ygey holl 6orynnyon enys prydeyn rac y the**ccet. kywreyn oed em pob kel6ydyt kanys nyt 6n** map nac 6n 6erch oy that namy hy eh6nan ac 6rth **henny e dyscyssey ydy er holl kel6ydode6 eny 6ey ha6s** ydy llywya6 e ky6oeth gwedy ef. Ac ena gwedy **kymryt o constans e 6orwyn honno en wreyc yda6** e ganet map yda6 ohoney ac dodet ar h6nn6 c6stennyn. **Ac ena em pen 6n wlwydyn ar dec e b6 6ar6 constans** eg kaer e6ra6c ac eno e clad6t ac er rodet e 6ren**hynyaeth en lla6 c6stenny y 6ap. Ac gwedy y 6ot** en 6renyn en e lle kymryt haelder a chlot. ac em**dangos megys llew yr rey dr6c. kad6 ya6nder a** gwyryoned er rwng e pobloed. dy6a e lladron **a sathr6 cre6londer er rey enwyr. lla6urya6 y** gwne6th6r hed6ch en y teyrnas. **Ac en er amser h6nn6 ed oed gwr cre6la6n** enwyr en ammera6dyr en r6ueyn. Sef oed **y enw maxen. Ar maxen h6nn6 a gwnaey dwyn** tref e6 tat y ar pob rey or bonhedygyon ar dyledogyon //

Peniarth 44 t. 70
ac e6 hest6ng ac e6 dy6etha. Ac o acha6s henny sef e ffoynt e bonhedygyon ar dyledogyon o r6ueyn ac e doynt **ar c6stennyn hyt en enys prydeyn. ac ente6 en arryded6s** ae herbynnyey wynte6 ac ae gossymdeythyey. Ac ena or **dywed gwedy dy6ot llawer atta6 onad6nt en e wed** honno sef a gwnaeth e gwyr henny y dwyn ar kyffro **6rth 6axen rac a clywey y gwne6th6r o kam o*hona6*** ar dyledogyon r6ueyn. Ac en 6ynych e dywedyt 6rtha6 **ar e wed hon. C6stennyn medynt wy pa hyt e dyode6y** ty en tr6eny ny 6al hyn. Debre y gyt a ny hyt en r6ue**yn a thal yn en tyr. ac dayar. a thref en tat. ac en tey. ac** en trefne6. ac en gwraged. ac en meybyon ac en ky6oeth **a collassam. A gorescyn r6ueyn yty d6h6nan. Ac o acha6s** er amadrodyon henny e kychwynn6s c6stennyn y gyt **ac wynt ac e gorescynn6s r6ueyn. ac gwedy henny e** ka6as arglwydyaeth er holl 6yt en k6byl. Ac y gyt ac **ef e d6gassey ef try ewythred y helen y 6am ef. Sef oed** er rey henny. llywelyn. a thryhayarn. a Me6ryc. ar **rey henny a 6rd6s en 6rdas sened r6ueyn ae medyant.** Ac en er amser h6nn6 e ky6odes e6daf tewyssa6c **gwent ac w e6yas en erbyn e gwyr re ada6ssey** c6stennyn llywodraeth enys prydeyn en e6 llaw ac em**lad ac wynt ac e6 llad a chymryt eh6n e 6renhyaeth.** Ac ena gwedy clybot o c6stennyn henny sef a gwnaeth **an6on tryhayarn ewythyr helen a theyr lleng o wyr** kantha6 y orescyn er enys 6rth amherodraeth

r6ueyn **trache6yn. Ac ena e doeth tryhayarn ae lw kantha6** hyt eg kaer perys: ac erbyn pen de6 dyd y ka6as. Ac **y gyt ac e kygle6 e6daf henny e kyn6ll6s ente6 holl** 6archogyon ar6a6c er enys hon ac e doeth en y erbyn **hyt em maes 6ryen nyt pell y wrth kaer wynt. ac** en brwydyr a wu er rygth6nt ac e gorwu e6daf //

Peniarth 44 t. 71
ac e ffoes trahayarn ac ed aeth en y longhe6. ac ed aeth odyna ar e mor hyt e gogled. ac ena e doeth yr tyr ac anreythya6 **e tre6y ar dynassoed ar kestyll ar wlat a gwnaethant.** Ac ena pan 6ynegyt henny y e6daf kyweyrya6 eylwe**yth y lw a gwnaeth ente6 a mynet parth ac eno a** gwnaeth. ac en e wlat a elwyr westylont ed emlad6s **ac ef ac e kayas trahayarn e wud6golyaeth. ac ed em**lyn6s e6daf hep orffowys ac ef eny d6c y arna6 e dy**nassoed. ar keyryd. ar kestyll. a choron e teyrnas. Ac ena** sef ed aeth e6daf hyt en llychlyn y keyssya6 nerth y **gan G6bert brenyn llychlyn. A phan aeth eno ed ede**wys kan kytemdeythyon yda6 keyssya6 llad trahayarn. **Ac ena e gwnaeth yarll e kastell kadarn y arch ef en** wuy no nep kanys mwyhaf oe kytemdeythyon ae **karey oed h6nn6. Ac esef mal y gwnaeth. dywyrna6t** ed oed trahayarn en kerdet o l6ndeyn. sef ed aeth ente6 **a llech6 a chant marcha6c y gyt ac ef eme6n glyn** koeda6c e ffford e kerdey trahayarn ac ena ky6ody en **dyreb6d ae lad em plyth y kyt*6archogyon*** **a gwnaeth.** Ac ena pan kygle6 e6daf henny emchwel6t a gwnaeth **trae ke6y hyt en enys prydeyn. a gwascar6 gwyr r6**ueyn a chymryt eh6n coron e teyrnas. Ac en e lle kyn6l**la6 ss6llt a gwnaeth o e6r ac aryant ar 6yrr enhyt** nat oed arna6 6n brenyn. ac odyna e kynhelys ef teyr**nas enys prydeyn en dedwyt hyt er amsser e doeth** Gratyan a 6aspasyan yr enys hon. **Ac ena gwedy hen6 e6daf mynn6 ll6nyeth y ky6o**eth en y ol a gwnaeth. a chymryt kyghor y gan **hynafgwyr y ky6oeth a gwnaeth ac y gan y kyghor**wyr pa ansawd e gwneley am henny. 6n 6erch oed yda6 **sef oed enw honno helen ac nyt oed 6n map. a dylyey** kaffael e 6renhynyaeth gwedy ef. Ac ena e b6 rey or //

Peniarth 44 t. 72
gwyr a kyghorey rody y 6erch y 6n dyledogyon r6ueyn ae ky6oeth kenthy eny 6e o kadarn hed6ch e gellynt kynnal e **6renhynyaeth gwedy ef. Ereyll a kyghorey rody coron e teyr**nas y kynan meyryada6c y ney. a rody y 6erch y wr arall ac **e6r ac aryant kenthy dyga6n. Ac ena e doeth karada6c yarll** kernyw a dywedwyt 6rtha6 ac erchy yda6 an6on hyt en r6**ueyn ar 6axen amhera6dyr ar rody y 6erch yda6 ar teyrnas** kenthy. ac e6elly e galley kaffael tragywyda6l hed6ch. kanys **llywelyn ewythyr helen oed tat e maxen h6nn6. ae 6am** a hanoed or r6ueyn. a bonhedyc oed oe 6am ac oe tat kanys **o lyn e brenhyned ed hanoedynt. Ac ena 6rth henny llytya6** a gwnaeth kynan meyryada6c kanys y 6ryt ef oed ar e 6ren**hynyaeth en wastat. Ac ena sef a gwnaeth karada6c an6on** me6ryc y 6ap hyt en r6ueyn y 6ynegy hyn y 6axen 6ap **llywelyn. Ac esef ky6ryw gwr oed Me6ryc. gwas ma6r** tec teledyw. clot6a6r. a glew. a pha peth bynnac a dywet**tey ar y ta6a6t le6eryd en e lle e bey reyt yda6 ae hebryghey** oe corff ae ar6e6. ac ae kadarnhaey. Ac ena gwedy dy6ot **me6ryc hyt en r6ueyn ar 6axen y kymryt a gwnaeth** maxen en anryded6s. Ac en er amser h6nn6 ry6el ma6r **oed ar 6axen kan e de6 amhera6dyr ereyll gratyan6s a** 6aspassyan6s am tryded ran e 6renhynyaeth ed oedynt **en y dwyn y arna6. Ac ena pan weles me6ryc henny e dy** wa6t ente6 6rth 6axen. 6al hyn. Max*en* ep ef pa acha**6s e byd arnat ty o6yn gratyan kanys oes fford yt e gel**ly ty gorescyn arna6 ef er amherodraeth pan 6ynnych **ae dyky6oethy ente6. Debre y gyt a my ep ef hyt en enys** prydeyn. a chymer coron e 6renhynyaeth eno. E6daf brenyn **enys prydeyn hen ew weythyon a**

chlawus. ac nyt eyd6na dym namyn kaffael er ryw gwr ye6anc bonhedyc yr **rody y 6n 6erch yda6 a theyrnas enys prydeyn kenthy** kanyt oes 6n map yda6. a wledycho gwedy ef. Ac 6rth //

Peniarth 44 t. 73
brath6 edelfflet ae kymhell ar ffo. a llad or saesson chwe gwyr a chwe chant a dec myl. Ac em parth e kymry ena e llas Bledrys tewyssa6c **kernyw e gwr oed pennhaf or kymry en er emlad h6nn6. Ac odyna**. ed emkynn6llassant er holl kymry hyt eg kaer lleon y gyt. Ac ena o **kyffredyn kyghor tewyssogyon kymry oll e gwnaethant kat6an** 6ap yago en 6renyn arnad6nt ac odyna ac ef en e6 blaen erlyt **a gwnaethant edelfflet trwy h6myr. Ac ena pan kygle6 edelfflet** henny kyn6lla6 a gwnaeth ente6 holl 6renhyned e saesson y gyt ac ef **a dy6ot en erbyn kat6an. Ac ena gwedy bydyna6 o pob parth** ed aeth kytemdeythyon pob 6n onad6nt ac e6 kymody ac gwne6**th6r tangnhe6ed er rygth6nt. Ac esef a gwnaethant gad6 y edelfflet** or parth tra6 y h6myr ac y kat6an enys prydeyn en k6byl or **or parth h6n y h6myr. a chadarnha6 henny a gwystlon o pob parth** a thygh6 e kyghreyr. Ac odyna allan kystal wu er rygth6nt ac **ed oed pob peth en kyffredyn 6d6nt. Ac ena e damweynn6s g6rth**lad o edelfflet y gwreyc y 6rtha6 ae dyhol oe ky6oeth a mynn6 arall **ac esef ed aeth hythe6 en 6eychya6c hyt en llys kat6an y keyssya6** porth kat6an oy chymody ae gwr ac ny all.. y kaffael ydy. namyn **y thryga6 en llys kat6an eny eghys ar ..p .. en er .n nos e g.**net map y kat6an ac e bedydywt y gyt ac e dodet kadwalla6n a. **6ap kat6an. ac edwyn ar 6ap edelfflet. ac e6 meythryn y gyt 6d6nt.** Ac gwedy e6 bot en gweyssyon ed an6onet hyt en llyda6 ar selyf **brenyn llyda6 y dysc6 marchogaeth a moes 6d6nt. Ac ena em** pen espeyt o amser mar6 wu e6 tade6 ell de6 en enys prydeyn **ac e doethant pob 6n onad6nt en lle y tat en 6renyn. Ac ena dechre6** a gwnaethant wynte6 erlyt e kytemdeythas a wuassey er rwng **e6 tade6 kyn noc wy. Ac ena em pen espeyt gwedy henny an6on** kennade6 a gwnaeth edwyn ar katwalla6n ac erchy kanhyat **yda6 y gwne6th6r coron yda6 e parth atta6 y h6myr ac y daly** llys ac y anryded6 gwyl6ae6 ac y gossot ky6reythye6 megys **y gwneley ente6 en y ky6oeth. Ac ena e dywa6t katwalla6n** na deleyt namyn 6n coron o enys prydeyn ac na ganney endy //

Peniarth 44 t. 74
namyn 6n brenyn. Ac ena llydya6 a gwnaeth edwyn a dywed6yt ket bey dr6c kantha6 y gwnaey. Ac ena dywa6t katwalla6n o gwn**aey coron am y pen en enys prydeyn ed aey ac y lladey y pen adan** e coron Ac ena gwedy llawer o emlade6 e doethant trwy h6myr **ac ed emlatassant. ac e kolles katwalla6n llawer o 6ylyoed oe w..** ac e kymhell6t ar ffo. Ac ena e ffoes hyt en ywerdon. Ac ena gwe.. **gor6ot o edwyn kerdet a gwnaeth ae lw trwy holl ky6oeth kat**walla6n ac e6 llad ac e6 lloscy ac e6 hanreythya6. Ac ena hyt tra ed oe. **edwyn en llygr6 y ky6oeth e6elly ed oed ente6 en keyssya6** dy6ot trae ke6yn ac nys galley kanys dewyn oed y gyt ac ed**wyn a 6ynagey yda6 pob or a delhey ac 6rth henny e lle keyssyey** katwalla6n dy6ot yr tyr e bydey edwyn a llw en y erbyn hep **y ad6 yr tyr. Ac ena gwedy gwelet o katwalla6n henny ed aeth** hyt ar selyf brenyn llyda6. Ac odyna o kyt*kyghor* ed an6onass.. **breynt hyt ney y katwalla6n hyt en enys prydeyn y edrych a** damweynnyey yda6 kaffael llad e dewyn. Ac ena gwedy dy6ot **ohona6 yr enys hon e kymyrth gwysc reyd6s amdana6 ac e** gwnaeth bagyl o hayarn en 6laenllym hyt pan alley a **h6nn6 ...d e d...n . damweynnye6 yda6 y kaffael rac lles**eyrya6 ar dy6odedygaeth katwalla6n. Ac odyna e kerd6s **breynt racda6 hyt eg kaer e6ra6c kanys ena ed oed edwyn** en er amsser h6nn6. Ac 6al e byd e6elly en kerdet em plyth er ag**hanogyon enachaf chwaer yda6 en dy6ot or llys a**

phaeol en y lla6 y kyrch6 d6uyr yr 6renhynes. Edwyn a d6gassey honno **o kaer gwyraghon kantha6 pan wuassey en anreythya e gw..**doed henny. Ac ena 6al ed oed mynet hep y law y hadnabot a **gwnaeth ac wyla6 ae gal6 en yssel. Ac ena sef a gwnaet e 6e..** emchwel6t y hwynep ac adnabot y bra6t a mynet o6yn arney **rac ky6ar6ot damweyn dr6c ac ef. Ac eyssyoes mynet dwyla my**n6gyl yda6. ac ar 6yrrder dywedyt yda6 ansa6d e llys a dan**gos yda6 e dewyn ed oed en y keyssya6 a dothoed ena o dam**weyn y edrych ar rann6 al6ssen yr aghanogyon. Ac ena //

Llanstephan l t. 102
henny er rodes y wyrda ae kyghorwyr kyghor yda6 rody yty y 6erch ae teyrnas kenthy. Ac o kyt*kyghor* e brennyn ar gwyrda ed ellyg**hassant wy 6yfy y 6ynegy yty henny. Ac o mynny dy6ot y gyt a my6y** henny oll a keffy. ac y gyt a henny o amylder e6r ac aryant enys pry**deyn ae marchogyon ae gwyr emlad e gelly kaffael arglwydyaeth** er holl 6yt gwedy e gorescynhyc er amherodryon. O enys prydeyn e **gorescynn6s c6stennyn de kar ty r6uey a llawer ereyll.** Ac ena esef a gwnaeth maxen o kyghor me6ryc kychwyn parth **ac enys prydeyn. ac ar y fford en mynet gorescyn keyryd freync** a gwnaeth a chyn6lla6 e6r ac aryant llawer a marchyon amyl a kyn**n6ll6s atta6. Ac odyna e kychynn6s racda6 ar e mor a doethant y** norhant6n y tyr enys prydeyn. Ac ena pan kygle6 e6daf e6 dyscyn**n6 en y gwlat ef e llw ma6r h6nn6 o6yn ma6r a aeth arna6 te**byg6 e mae gelynyon oedynt. Ac ena gal6 kynan meyryada6c **y ney a gwnaeth atta6. ac erchy yda6 kyn6lla6 holl lw enys pry**deyn atta6 a mynet en e6 herbyn. Ac ena gwedy dy6ot pa6b y gyt **e kychwynn6s kynan en e6 blaen parth ar lle ed oed maxen ae** ny6er ente6. en e6 pebylle6. Ac ena gwedy gwybot o*hona6* bot **e llw ma6r h6nn6 en dy6ot go6al mwyhaf en e byt a wu arnaw.** Ac esef acha6s oed o6yn oed kantha6 amylhet e gwyr ac e6 glewhet **ac nat edoed en tebyg6 kaffael 6n gobeyth hed6ch kanth6nt. Ac** ena gal6 a or6c maxen attaw me6ryc a hynafgwyr y gyt ac ef a **ena kymryt kyghor pa peth a gwneynt en erbyn henny. Ac ena** e dywa6t me6ryc. Nyt oes le arglwyd ep ef y emlad ar gwyr **racc6 kanys nyt yr emlad ac wynt e doetham ema. Namyn erchy** kyghreyr essyd ya6n 6d6nt a llety a hed6ch kanys en hed6ch **e doetham ny. A dywedyn en bot en kennade6 y gan amherodryo.** r6ueyn a negesse6 kenhym ar e6daf. ac en gall doeth twyll6n **wynt eny wyppom ny med6l e brenyn ae ewyllys. Ac ena ryng6** bod y pa6b a gwnaeth e kyghor h6nn6. ac ena dethol de6dec wyr a **gwnaethant en kennade6 ar kynan a cheyg olywyd en llaw pob ..** onad6nt. Ac ena pan weles e brytanyeyt e gwyr anryded6s henny //

Llanstephan l t. 103
ac olywyden en e6 llaw en arwyd kennade6 ky6ody a or6gant en e6 herbyn en anryded6s. Ac en e lle mal e de6ant rac bron kynan y annerch **a gwnaethant ef o pleyt er amherodryon ar sened. Ac ena dywedwyt** a gwnaethant bot negesse6 kanth6nt ar e6daf y gan er amherodron. Ac **ena e dywad6t kynan. Pa acha6s e mae e ssa6l ny6er hon y gyt ac** ef. nyt tebyc henny y kerdet kennade6 namyn y elynyon a 6ynnynt **gorescyn e wlat. Ac ena e dywedassant e kennade6. nyt tec ac nyt gwe**d6s kerdet gwr kymeynt a h6nn6 ac echedyc kytemdeythyon y gyt **ac ef. kanys en ll6ossa6c e mae de6a6t kan wyr r6ueyn kerdet y e6** negesse6. rac ky6ar6ot kewylyd ac at6yd ac wynt y gan e6 dykasso**gyon. Tagnhe6ed a emdygant. tagnhe6ed a geyssyant. er hyn essyd arwyd** yr pan dyscynnassam ny ar e tyr h6n ar dayar ny gwnaetham dym kam **y nep ny gwnaetham treys ar nep. namyn pob peth or a wu reyt yr** en aryant y prynn6 megys gwyr a arwedo hed6ch kanth6nt. Ac **ena 6al ed oed kynan medylya6 pa peth a gwneley ae hed6ch ae** ente6

ry6el6 dynessa6 a or6c karada6c tewyssa6c kernyw ar gwyr**da ereyll y gyt ac ef a chet bey dr6c kan kynan rody kygreyr yr** gwyr a gwnaethpwyt. a dwyn maxen y gyt ac wynt hyt e ll6n**deyn ar e6daf. a datkan6 yda6 en k6byl e6 kerdet.** Ac ena nessa6 a or6c karada6c tewyssa6c kernyw a chymryt me6**ryc y 6ap y gyt ac ef a dy6ot a gwyrda e teyrnas y gyt ac ef hyt** rac bron e brenyn a dywedwyt 6al hyn 6rtha6. Arglwyd ep ef llyma **er hyn a dam6neyst ty o hyr amser ar hyn a ryghey 6od yr nep oed** ffydla6n yty gwedy re kanhyad6 o dyw yt henny. Ty a emkoghoreyst **gyn pa ff6n6t e ll6nyeth6t ty de ky6oeth gwedy ty. kanys hen oed6t** ty a chla6us. Ac ena rey oth wyrda a kyghores yt rody coron e 6ren**hynyaeth y kynan de ney. a rody helen de 6erch yr ky6oetha6c o** wlat arall ac eyr ac aryant en amyl kenthy. Ereyll a kyghores **yt rody de 6erch y 6n o dyledogyon r6ueyn a choron e teyrnas** y gyt a hy. ac e6elly e tebygynt kaffael hed6ch tragywyda6l os **o r6ueyn ed amffynnyt wynt. llyma weythyon dyw gwedy** an6on yt hyt eman er hyn ed oed6t en y dam6na6. gwr bonhedyc //

Llanstephan l t. 104
dyleda6c o amherodron r6ueyn a br*enhyned* enys prydeyn. ac om kyghor y de 6erch a rody ty yda6 ef. Ac o g6rthody **ty henny pa delyet essyd yty ar enys prydeyn mwy noc yda6** ente6. ney yw y c6stennyn wyr coel en brenyn ny e gwr ny al**lassam ny y gwad6 o wyr delyet na bey 6renhynes arnam ny** Ac ena gwedy dywedwyt o karadawc er amadra6d h6nn6 bot **6rth y kyghor a or6c e6daf ac en e lle rody y 6erch yda6 a theyr**nas enys prydeyn kenthy. Ac ena en e lle pan gweles kynan **me6ryada6c henny llydya6 a or6c ac en e lle ada6 e llys a mynet hyt** e gogled a chyn6lla6 llw ma6r atta6 6rth ry6el6 ar 6axen. **Ac ena gwedy kyn6lla6 llw ma6r atta6 e doeth trwy h6myr** ac anreythya6 e gwladoed o pob parth ydy. Ac ena gwedy **dywedwyt y 6axen henny kyn6lla6 a gwnaeth ente6 y lw** a mynet en y erbyn ef ac emlad ac ef a gor6ot arnaw. ac yr hen**ny eyssyoes ny pheydyws kynan ae ry6el namy kyweyrya6** y 6ydynoed eylchwyl ac anreythya6 e gwladoed 6al kynt. Gwey**thye6 e gor6ydey 6axen. Gweythye6 ereyll ed emchweley hep 6n** 6ud6oglyaeth. Ac or dywed gwedy gwne6th6r o pob 6n ona**d6nt kollet oy gylyd. trwy ew kyt ketemdeythyon e kymodassant.** Ac ena em pen e pym blyned syberwyt a kymyrth maxen **o tra chy6oeth amylder e6r ac aryant. a doey yda6. a phara**toy llynghes a gwnaeth a chyn6lla6 holl 6archogyon enys pry**deyn a or6c a mynn6 gorescyn ffreync. Ac wrth henny ed aeth en** kyntaf hyt en llyda6. e gwlat a elwyr ar a6rhon brytaen 6ecchan **ac emlad ar pobyl oed ena o ffreync en kyntaf. Ac esef a gwnaeth** e ffreync ena a hymbalt en tewyssa6c arnad6nt dy6ot en y er**byn ac emlad ac ef. Ac ena en e dyd h6nn6 e llas hymbalt e6** tewyssa6c a pymthec myl oe wyr en er 6ndyd. Ac ena gwedy **gwne6th6r e 6eynt aer6a honno onad6nt dyr6a6r lewenyd** a kymyrth maxen enda6 kanys gwydyat bot en ha6d gorescyn **e gwlat gwedy re lad e sa6l honno oe marchogyon. a galw** kynan a gwnaeth atta6 ac a dan chwerthyn e dywa6t 6rtha6 //

Llanstephan l t. 105
er emadra6d h6n adan chwerthyn. a henny ar neyllt6 odyeythyr e ny6ero*ed*. llyma ep ef 6n or gwladoed gore6 **en ffreync gwedy y gorescyn o*honam* ny. llyma ynny gobeyth ar** kaffael er ranne6 ereyll ohoney bryssywn weythyon y kymryt e **dynassoed ar kestyll kyn mynet e chwedyl ac ehedec at hyt e gwladoed** a chyn6lla6 onad6nt er holl pobloed en en herbyn ac emlad a ny. **Ac o gall6n ny kynnal e gwlat hon kenhym ny nyt oes pedr6s** kenhyf gall6 kaffael holl ffreync en k6byl 6rth en medyant. Ac 6rth **henny na 6yt edy6ar kenhyt kanhyad6 enys prydeyn y my ket bey** gobeyth yty arney hy. kanys pa beth bynnac a kolleysty eno my **ae hynyllaf yty ema. My ath gwnaf**

en 6renhyn ar e gwlat hon eman a hon a 6yd eyl enys prydeyn ynny gwedy henny kanys **my a 6ynnaf en llwys dystryw e kenedyl hon ohoney ae llenwy** o an kenedyl n6h6neyn. dayar ffrwythla6n ew hon megys e **gwelyr y my o yde6. ac a6onyd a physca6t amyl end6nt koedyd** tec amyl endy ac nyt ha6d e credaf bot dayar a 6o hygarach nac **a 6o ffrwythlonach no hy. Ac ena sef a gwnaeth kynan est6ng** y pen. a dyol6ch yda6 en 6a6r. ac ada6 ffydlonder yda6 en tra**gywyda6l a gwrogaeth dyan*wadal.*** Ac ena bydyna6 e6 llw a gwnaethant a mynet hyt en rod6m **ar dynas h6nn6 ar kaer a ka6ssant en er 6n dyd. Ac ena gwe**dy clybot em pob lle cre6londer gwyr r6ueyn ar brytanyeyt **ffo a gwnaey pa6b or gwyr ac ada6 e6 gwraged ac e6 meybyon.** ac ada6 e keyryd ar kestyll en agoret yr brytanyeyt en ryd. Ac **esef a gwnaey e brytanyeyt em pob lle e delynt llad e gwyr en** llwyr ac arbet e gwraged. Ac ena gwedy dar6ot 6d6nt gor**escyn pob lle or wlat kadarnha6 e keyryd ar kestyll o 6archo**gyon enys prydeyn. a gwne6th6r kestyll en e lle gwelynt **bot en reyt 6rth6nt. en amra6ael leoed. Ac ena gwedy kly**bot cre6londer maxen em pob lle. dyr6a6r o6yn racda6 hep **obeyth en e byt oc e6 heneyt. Ac ena o pob lle ffo a gwnaey** e tewyssogyon ar brenhyned yr kestyll ac yr lle kyntaf //

Llanstephan l t. 106
e keffynt kedernyt y emdyffryt racd6nt. Ac 6rth henny gle6der ma6r a kymyrth maxen eda6 o acha6s henny. ac achwa**neg6 y lw ae ny6er kan rody 6d6nt e6r ac aryant en dytla6t.** Ac ena kymeynt o lw a kynn6ll6s atta6 ac e tebygey 6ot **en dygayn yda6 y orescyn ffreync en holla6l. Ac eyssyoes** annot henny a gwnaeth eny darwu yda6 hedych6 e gwlat **honno. ae llenwy or brytanyeyt. Ac ena gwys a ellygh6s hyt** en enys prydeyn ac erchy an6on atta6 kant myl or plwyf ysel **ac y gyt a henny. dec myl ar r6geyn o 6archogyon ar6a6c** y e6 kad6 ac y e6 hamdyffyn en e gwlat honno. Ac ena gwedy **dy6ot hynny oll atta6 e6 rann6 a gwnaeth ar hyt e gwlat** 6d6nt en ky6ya6n. ac gwne6th6r eyl enys prydeyn o honno. **ac ena y rody y kynan meyryada6c. Ac ena e kychwynn6s ente6** maxen ae lw hyt en ffreync ac emlad ae gorescyn a gwnaeth **holl ffreync a holl germanya. ac em pob emlad kaffael b6d6**golyaeth. Ac ena e gossodes kadeyr y teyrnas en e dynas a elwyr **tre6erys. ac odyna emlad ar de6 amhera6dyr. sef oed er rey** henny. Gratyan. a 6alentynyan. a llad e neyll onad6nt a dyhol **e llall y emdeyth or r6ueyn ae dyky6oethy ae orescyn.** Ac en er amser h6nn6 eyssyoes ed oed gwyr ffreync a gwyr **llyda6 a gwasgwyn en ry6el6 ar kynan ac ar e bry**tanyeyt a oed y gyt ac ef en wastat. Ac ente6 eysyssyoes en g6r**thwyneb6 6d6nt wy en 6ra6 ffynedyc ac en tal6 aer6a en** erbyn y gylyd 6d6nt. Ac ena gwedy gor6ot o kynan arna**d6nt. sef a gwnaeth mynn6 rody gwraged oy kyt*6archogy***on ef megys e keffynt plant onad6nt trwy er rey e gellynt **kynhal e gwlat honno en tragywyda6l. Ac hyt na bey nep** kymysc en e byt 6d6nt wy ar ffreync. sef a gwnaeth an6on **kennade6 hyt en enys prydeyn ar d6na6t brenyn kernyw** e gwr a dothoed en ol karada6c y 6ra6t en 6renyn. y erchy **yda6 ef k6ppla6 e neges hon a gwne6th6r. kanys ky6o**etha6c oed ef. ac yda6 he6yt e gorchmynnassey Maxen //

Llanstephan l t. 107
yda6 llywodraeth enys prydeyn. hyt tra adoed ente6 y gwne6th6r y negesse6. A merch oed y d6na6t anry6ed y theg6ch ae phryt. a **honno ed oed kynan en y char6 en wuyhaf or byt ac en y herchy en** gwreycca yda6 eh6nan. **Ac ena pan gweles d6na6t kennade6 kynan ae negesse6** da wu kantha6 a llawen a chyn6lla6 a gwnaeth o pob gwlat **en enys prydeyn 6n myl ar dec o 6erchet bonedygyon a dyledogyon** er enys hon. Ac y gyt a henny o 6erchet meybyon eyllyon try 6geyn **myl a erchys e6 kyn6lla6 ar hyt enys**

prydeyn ac e6 dwyn oll henny hyt en ll6ndeyn. a dwyn llonghe6 o pob pob porthloed hyt **eno 6rth hebr6ng e gwraged henny hyt en llyda6 ar e gwyr** re dywedassam ny wuchot. A henny ket bey da kan lawer o**nad6nt henny. ed oed lawer ereyl onad6nt a oed dr6c kanth6nt** ada6 e6 gwlat ac e6 kenedyl. ac ereyll onad6nt a dewyssynt kad6 **e6 dyweyrdeb ac e6 gwerynda6t em blaen kaffael ky6oeth ar** e wed honno. Ac ena gwedy dy6ot e llonghe6 a bot pob peth en **para6t kychwyn a or6gant ar hyt temys hyt e mor. a cherdet rac**d6nt hyt en agos y traeth llydaw. e ky6odes e gwynt gwrthwy**nep en e6 herbyn a gwascar6 e6 llonghe6 a body llawer onad6nt.** Ac ereyll onad6nt a wury6t em plyth estra6n kenedloed a rey a o**nad6nt a las ac ereyll a karcharwyt. kanys em plyth escym6n lw** Gwynwas a Melwas. E gwyr henny a daroed y gratyan6s a 6alen**tynyan6s dy6ot y ry6el6 ar 6ortyr a germanya a dyr6a6r lyng**hes kanth6nt. Ac esef oed Gwynwas brenyn h6na6t. a Melwas oed **brenyn peyttaw. ar rey henny a ky6arwu ar morynnyon henny** ac en e lle mynn6 kydya6 ac wynt gwedy gwelet onad6nt e6 **teket. Ac ena gwedy na mynn6s e morynnyon henny kyt*d6una6*** ac wynt. esef a gwnaethant e6 merthyr6 en k6byl. or bradwyr **henny. ac e6 llad hep 6n gohyr. Ac ena en e lle gwedy clybot or es**cymm6nedygyon tewyssogyon henny ada6 enys prydeyn hep nep **kadarn nac o 6archogyon nac o wyr dewr en dyffeyth. en e lle** bryssyaw a gwnaethant parth ac eno a chyn6lla6 gwyr enyssed //

Llanstephan l t. 108
en e6 kylch en porth 6d6nt a dyscynn6 en e gogled ac anreythya6 e gwladoed a edewssyt hep kedernyt en e6 gwarchad6. a llad e pobyl **ergrnnedyc lesc. kanys maxen megys e dywetpwyt wuchot a** d6gassey kantha6 e marchogyon ar emladwyr ar gweyssyon **ye6eync dewr. ar byleynll6 llesc a re adawssey. Ac ena gwedy** clybot o 6axen henny ed an6ones ente6 Gratian lla6 rodyat a **dwy leng o wyr ar6a6c y gyt ac ef en porth yr brytanyeyt ac y e6** hamdyffyn. Ac en e lle gwedy e6 dy6ot yr enys emlad a gwnae**thant ar gelynyon. ac gwne6th6r aer6 wychyr ac e6 ffo hyt** en ywerdon. Ac ena en er amser h6nn6 e llas Maxen en r6ue**yn y gan kytemdeythyon Gratian. Ar brytanyeyt a d6gassey** y gyt ac ef a las ac a gwascarwyt. Ar rey dyeghys onad6nt a **doethant hyt en llyda6.** Ac ena pan kygle6 Gratyan lla6 rodyat henny re lad maxen **en r6ueyn e kymyrth ente6 coron e teyrnas a brenhynya**eth enys prydeyn yda6 eh6n. Ac gwedy henny kymeynt o cre6**londer a kymyrth enda6. ac eny emkyn6ll6s e brytanyeyt ac em**6ydyna6 a dwyn kyrch am y pen ae lad. Ac ena pan kygle6 e ge**lynyon a ffoassey ywerdon re lad Gratian. em*kyn6lla6* o pob lle** a gwnaethant o ~~w~~ywerdon a chyn6lla6 er escottyeyt. a gwyr dacia **a gwyr llychlyn y gyt ac wynt a dy6ot hyt er enys hon ac anreythy**aw er enys hon o tan a hayarn or mor pwy gylyd. Ac ena en e lle **an6on a or6gant hyt en r6ueyn y erchy an6on gwyr y e6** hamdyffyn ac ada6 onad6nt tragywyda6l darestyghedygaeth y wyr **r6ueyn o henny o delynt y 6rthlad e6 gelynyon y 6rth6nt. Ac en** e lle e rodet lleng o wyr 6d6nt. Ar rey henny gwedy kaffael ona**d6nt dy6ot a gwnaethant yr tyr a gwne6th6r dyr6a6r dyr6a6r** aer6a or gelynyon. ac e6 gyrry ar ffo o holl ter6yne6 enys pry**deyn a rydha6 e plwyf kywarssanghedyc y gan e6 gelynyon. Ac** ena ed archyssant adeylat m6r er r6ng dey6yr ar gogled or mor **pwy gylyd y attael r6thyr e6 gelynyon eny 6ey henny en am**dyffyn yr kywda6twyr. ac en o6yn ac ar6thred yr gelynyon. //

Llanstephan l t. 109
Ac en er amser hynn6 ne6 re daroed anreythya6 e gogled en llwyr o 6ynych kyrche6 estra6n kenedyl am y phen. Ac ena e kyn6ll6t **kyffredyn tre6l ac e gwnaethpwyt e m6r.** Ac ena e mynegys gwyr rwueyn yr brytanyeyt na

ellynt **wy a 6ey hwy no henny dyodef llawur trost6nt en kerdet** fford hyr trost6nt ar 6or ac ar tyr. ac na doeynt en 6ynychach **no henny y kymryt blynder ac emlad en e6 hamdyn ac wynt ac** e6 gwlat. nam kymerynt eh6neynt dysc ar ar6e6 ac enlad **y amdyffyn e6 gwlat ac e6 gwraged ac e6 meybyon ac ew** da. ac e6 bwuched er hyn oed wuy no henny oll. Ac ena erchy **a gwnaethant kyn6lla6 pa6b or a oed emladwr a gwr ye6anc** en enys prydeyn attad6nt hyt en ll6ndeyn kanys odyna e ky**chwynnynt wy parth ar r6ueyn. Ac ena gwedy dy6ot pa6b** y gyt eno ed erchyt y k6helyn archescop ll6ndeyn pregeth6 **6d6nt. Ac 6al hyn e dechrewys ente6 y amadra6d.** Gwyrda ep ef pan erchyt o arch e tewyssogyon pregeth6 y **chwy mwy y dyly6n wuylaw no dywedwyt en wuchel.** Trwan ew kenhyf er emdy6edy ar gwander ar re damweynn6s **ywuchwy or pan anreythyws Maxen er enys hon oe marcho**gyon ae gweyssyon yeweync. ae hymladwyr. ac nat oes ohona6ch **chwythe6 namyn plwyf agky6rwys ac emlad ac ny wuyr dym** 6rth emlad namyn negesse6 ky6newyt6ae6. a dywyllya6 e **dayar. a phan doeth ech gelynyon e kymellassant arna6ch ada6** ech ky6oeth ac ech da megys de6eyt ar ky6eylyorn hep 6ugeyl 6rthynt **pan deley e bleydye6 en e6 plyth. 6rth henny pa hyt e byd6ch lesc** chwy. pa hyt e keyssy6ch gwyr r6ueyn en 6n gobeyth ywch. **Ne6t edy6ar kan wyr r6ueyn llawurya6 en wastat ~~mor a~~** en kerdet mor a thyr ac en emlad trossoch ac estra6n kenedloed **kynt e made6ant ac e dylyssant ywchwy ech gwlat ac ech** teyrget noc e kymerant blynder pellach trossoch. **Ac ena gwedy dar6ot y k6helyn dywedwyt er amadrodyon** hyn a llawer he6yt en achwanec y henny ed edewys gwyr //

Llanstephan l t. 110
r6ueyn dysc 6d6nt ar gwne6th6r ar6e6. ac erchy 6d6nt gwne6th6r tyroed 6uchel en porth6aew e dyscynney llonghe6 e6 gelyny**on end6nt y dyffryt e gwlat racd6nt. Ac eyssyoes ha6s ew gwne6**th6r eheba6c or barc6ttan. noget en dyssy*6yt* gwne6th6r doeth **dyscedyc or byleyn. A phwy bynnac a rodo dysc ma6r yda6 kynthe**byc ew yr nep a gwascarey mereryt a dan traet e moch. Ac ena **gwedy kychwyn gwyr r6ueyn y emdeyth ac emada6 ar enys hon** hep 6ynn6 dy6ot ydy trache6yn. en e lle Gwynwas **a melwas a emchwelassant oc ew llonghe6 yr tyr** a llawer o 6ydynoed kanth6nt or gwuydyl. ar ffycteyt. ar escot**yeyt a gwyr llychlyn. a gwyr dacya. ac en e lle gorescyn er alban** hyt e m6r. Ac gwedy gwybot or gelynyon henny emynet gwyr **r6ueyn y emdeyth ac nat emchwelynt trach e6 ke6yn ehofnach** e dystrywassant er enys ae hanreythyaw a llad y pobyl lesc oed **endy hep gwne6th6r 6n tr6gared ac wynt. Ac 6rth henny ed** an6onassant kennade6 ac escry6enne6 hyt en r6ueyn hyt ar **agyty6s amhera6dyr ar amadra6d h6n end6nt.** Poenedyc pobyl enys prydeyn en an6on e6 kwyn6an ar **agyty6s amhera6dyr r6ueyn. ac en e lle. e mor essyd en en** kymhell ar torr en gelynyon. ac en gelynyon en en kymhell yr **mor. ac nyt oes yn namyn 6n o de6 aghe6 ae en llad ar e tyr** ae ente6 en body or mor. ac yr henny ny cha6ssannt 6n gwaret **nac 6n kanhwrthwy y gan wyr r6ueyn na thr6anha6 6rth6nt** namyn dy6ot e6 kennade6 a nac kanth6nt trach e6 ke6yn. **Ac ena kymryt kyghor eylweyth a gwnaethant. Sef a ka6ssant** en ew kyghor mynet k6helyn archescop ll6ndeyn hyt **em brytaen 6echan en hon a elwyr llyda6 y keyssyaw nerth** y gan e6 kyt*6rodyr* odyno. Ac en er amser h6nn6 ed oed ald6ur **en 6renyn en llyda6 pedweryd gwr gwedy kynan. e gwr** a rodassey 6axen e gwlat honno en kyntaf yda6 megys e **dywetpwyt wuchot. A phan gweles e brenyn e person an**ryded6s h6nn6 y erbynnyeyt a or6c yda6 gan er anryded a **dylyey //**

Llanstephan l t. 111

a gwedy henny go6yn yda6 estyr y neges. Ac ena e dywa6t k6helyn 6rtha6 6al hyn. Dyga6n ew amlyket yth 6onhed ty ac y gyt a **henny wylaw a dele6t o waranda6 e tr6eny essyd ar e brytanyeyt** de kenedyl ty yr pan espeylyws maxen enys prydeyn oe marchogyon **ac y gossodes en e teyrnas ed wyt ty en y med6 a gwyn y 6yt a gweles** y med6 ohona6t en hed6ch. Gwedy henny e ky6odassant en en erbyn **gwyr er enyssed en en kylch ac anreythyaw er enys oed la6n o** e6r ac aryant a phob da hyt nat ada6ssant dym endy **eythyr e nep a allo empborth ar wyt hely a chyc** any6eylyeyt. Ac ny bw 6n gwr ky6oetha6c ne6 emlad6r da a alley **g6rthwyneb6 6d6nt. Gwyr r6ueyn re deryw 6d6nt blyna6 hyt** na da6 nep onad6nt pellach y an amdyffyn. Ac 6rth henny kanyt **oes ynny lle arall e keyssyom ny na phorth na nerth e kyrchassam ny** ar te tr6gared ty y keyssya6 porth a nerth a chanh6rthwy y kenhyt **ty. kanys ty essyd dyleda6c ar amdyffyn teyrnas enys prydeyn. y gan** estra6n kenedloed. Pwy a dely en well no thyty kaffael coron c6ste**nyn a maxen. kanys te hentade6 ath gorhentade6 a wuant bre**nhyned arney. Ac 6rth henny parota ty de lyghes a debre y gyt a **my6y a chymer teyrnas enys prydeyn kanys my ae rodaf yth** law hy. Ac ena e dywa6t ald6ur 6rtha6 ente6. Ef a wu amser **ep ef e kymer6n y teyrnas enys prydeyn pey et 6ey a rodey ym.** Ny thebygaf en e byt dayar a 6ey ffrwythlonach no hy tra kaffat **hed6ch endy. Ac weythyon nyt edyw e6elly dyreydy a drycdam**weynnyew a ky6eryw a hy megys e mae kas ac ymy ac y tewys**sogyon ereyll. ac em blaen pob peth arglwydyaeth gwyr r6ue**yn ae hargywed6s en e 6eynt honno hyt na eyll nep kaffael he**d6ch endy megys na gorffo arna6 arweyn beych keythywet** a cholly y redyt. Pa dyn kymen ny bey gwell kantha6 kaffael ky**6oeth bychan en ryd noget kaffael gol6t enys prydeyn a dan** keythywet. E gwlat 6echan a gwely ty ema ym llaw y hon**no a 6edaf y en hed6c hep talw gwassanaet na cheythywet** y nep o*honey*. Ac 6rth henny e mae dewyssach kenhyf ynhe6 //

Llanstephan l t. 83 ~~t. 112~~
hyhy kan redyt. Ac eyssyoes kanys 6e hentade6 am gorhentade6 a wu eyd6nt er enys a dywedy ty. my a rodaf yt c6stenyn 6e mra6t **a dwy myl o 6archogyon y gyt ac ef y rydha6 de gwlat ty y kan** estra6n kenedyl os dyw ae kanhyatta yda6. E mae ymy bra6t a el**wyr or enw gwr essyd clot6a6r em mylwryaeth a champe6 ere**yll da h6nn6 a rodaf y y ty a henny o 6archogyonn y gyt ac ef o byd **teylwng kenhyt ty y kymryt. Eyryf a 6o mwy no h6nn6 nys** adawaf kanys pe6nydya6l byg6th essyd arnaf kan e ffreync. Ac **ena breyd wu yr brenyn kaffael gorffen y amadra6d pan rodes** er archescop llawer o dyol6ch. Ac ena en e lle galw a gwnaeth**pwyt c6stenyn yr lle. e dywa6t c6helyn archescop. cryst a orchy**6ycca. cryst a gwledycha. cryst a or6yd. llyma brenyn enys pryde**yn dyffeyth cryst ae kanwrthwyo. llyma en amdyffyn ny. llyma** en gobeyth ny ac en llewenyd ny. Ac ena en e lle hep ohyr parattoy e **e llynghes a gwnaethpwyt a dethol e marchogyon ac e6 rody y k6helyn.** Ac ena gwedy bot en para6t pob peth kychwyn a gwnaethant **ar e mor a dyscynn6 em porth totneys a or6gant. Ac ena hep** 6n gohyr kyn6lla6 a gwnaethant attad6nt holl ye6enctyt enys **prydeyn ac emlad ac e6 gelynyon a gwnaethant. Ac o e6yrllyt** e gwyn6ydedyc gwr h6nn6 e ka6ssant b6d6golyaeth a gor6ot **ar e6 gelynyon ac e6 llad ac e6 gwascar6 ac e6 ffo. Ac odyna em**kyn6lla6 a gwnaethant e brytanyeyt o pob lle hyt eg kaer wudey **ac ena dyrcha6ael c6stenyn a gwnaethant en 6renhyn a dody** coron e teyrnas am y pen. a rody gwreyc yda6 o 6onhedygyon **r6ueyn ac a 6agassey k6helyn archescop ll6ndeyn. Ac ena gwe**dy kysc6 kenthy e b6 try meyb yda6. Constans. e map hynaf. **ac emreys wledyc. ac 6thyr pendragon. Ar brenyn a rodes e** constans e map hynaf yda6 en eglwys amphybal6s eg kaer **wynt oe 6eythryn ac oe wysca6 en 6anach. e de6 6ap ereyll** emreys wledyc ac 6thyr pendragon a

rodes ar k6helyn arches**cop ll6ndeyn ar 6aeth. Ac ena or dywed gwedy mynet de6**dec mlyned heybya6 e doeth 6n or ffychteyt a wuassey en wur //

Llanstephan l t. 113
yda6 kyn no henny ae dwyn ar neyll t6 y wrth pa6b megys ket bey ky6rwch dyrgeledyc yda6 ac ef. ac ena dyspeylya6 kyllell 6a6r a or6c ae lad. **Ac ena gwedy mar6 c6stennyn e b6 ann6h6ndep er rwung e** gwyrda pwy a gwnelet en 6renyn. ac esef acha6s oed rey a **6ynney ethol emreys wledyc ereyll a 6ynney 6ther pendragon.** ereyll a 6ynney ethol rey oc e6 kereynt. Ac ena or dywed gwedy **na d6unassant en 6n ff6n6t dy6ot gortheyrn gorthene6 yarll** gwent ac e6as e g6r oed oe holl la6ur en keyssya6 e 6renhyny**aeth yda6 eh6n hyt ar constans eg kaer wynt en e lle ed oed en** 6anach a dywedwyt 6rtha6 6al hyn. Mar6 ep ef yw de ta ty **ath 6rodyr tythe6 meybyon bycheyn re ye6eync ynt ac ny ellyr** 6rda6 6r6n onad6nt en 6renyn rac e6 ye6anghet. ac ny **gwelaf ynhe6 nep oth kenedyl tythe6 a 6ynho gwyr e teyrnas** y 6rda6 en 6renyn. Ac 6rth henny o bydy tythe6 ep ef 6rth 6e **ac aghwaneg6 6e medyant y am ky6oeth. mynhe6 a trossaf** wuynep e pobyl attat ty ac a paraf de gwne6th6r en 6renyn. **ket boet gwrthwynep de dwyn ty or ryw 6rdas honno. Ac ena** pan kygle6 constans er amadrodyon henny llawenha6 a gwnaeth **ac ada6 yda6 gwne6th6r er hyn a 6ynhey or 6renhynyaeth 6rth** y kyghor eh6n. Ac ena e kymyrth Gortheyrn constans a gwysca6 **brenhyn*wysc* amdana6 ae dwyn kantha6 hyt en ll6ndeyn ac o** 6reyd kaffael kanhyat e pobyl ae 6rda6 en 6renhyn. Ac ena hagen **mar6 wuassey k6helyn archescop ll6ndeyn. ac ny chaffat nep** a kymerey arna6 6rda6 constans en 6renyn 6rth y dwyn or 6enech**tyt ef. Ac eyssyoes yr henny ny pheydyws Gortheyrn namyn kym**ryt eh6n e coron ac o wassanaeth escop y dody am pen constans. **Ac ena gwedy dyrcha6ael constans en 6renyn holl ya6nder a** llywodraeth e teyrnas a rodes en llaw Gortheyrn ac eh6n **en k6byl 6rth y ewyllys a emrodes. kanys amgen dysc a dyscas**sey en e 6ynachloc no llywya6 e 6renhynyaeth. Ac ena gwedy **adnabot o gortheyrn henny medylya6 a gwnaeth pa ff6n6t e galley** kaffael e 6renhynyaeth yda6 eh6n kanys ed oed en y dam6na6 em //

Llanstephan l t. 114
blaen pob peth. De6 6roder constans. emreys gwledyc ac 6ther pendragon meybyon bycheyn oedynt ettwa en ew cr6de6. ac nyt oed **oet arnad6nt e gellynt bot en 6renhyned. Ae y gyt a henny he6yt dy**reydy arall a daroed marw oll re wuessynt hen wyrda ma6r e teyrnas **ac nyt oed nep a gwelyt en hynafg6r namy Gortheyr eh6n. kanys** gweyssyon ye6eync oed pa6b namyn efef eh6n a pha le bynnac e **e bydynt wy oll ef eh6n a kaffey e6 hanryded oll. Ac ena gwedy gody**wes o gortheyrn pob peth o henny en y law eh6n medylyaw **a gwnaeth o pa ethrylyth k6dyedyccaf e galley dyot constans 6anach** or 6renhynyaeth. Ac eyssyoes annot henny a gwnaeth eny ka6as **medyant er holl 6renhynyaeth en y law eh6n. Ac 6rth henny kymryt** a gwnaeth ss6llt e brenyn ae kestyll ae kedernyt en y gwarchad6 **eh6n a dywedwyt a gwnaey kylybot chwedle6 bot er enyssed en** e6 kylch en mynn6 ll6dha6 am e6 pen. Ac gwedy kaffael ohona6 **henny gossot a gwnaeth gwyr ffydla6n yda6 eh6n eme6n e** kestyll em pob lle y ew kad6 yda6 eh6n. Ac ena gwedy **heny oll medylya6 a gwnaeth pa wed e galley gwne6th6r brat** e brenyn. Ac esef a dywa6t 6rth constans bot en reyt yda6 achwa**neg6 ac amlha6 y teylw hyt pan 6ey ha6s yda6 emdyffryt rac y** elynyon. Ac ena e dywa6t constans 6rtha6 ente6. pany rodeys y yth **la6 ty holl 6edyant e 6renhynyaeth. 6rth henny gwna tythe6 pob** peth ar e ll6n e mynnych ty. kan y gwne6th6r ohona6t a dan ffyd**londer ymy. Ac ar henny e dywa6t gortheyrn. ef ar re**

dywetpwyt ymy bot e ffycteyt en mynn6 dwyn gwyr dacya a gwyr llychlyn **y gyt ac wynt y ry6el6 arnam ny. Ac 6rth henny e kyghoraf yty** gwaha6d rey or ffychteyt yth llys y gyt a thy en wastat megys **e bo er rey henny en tangnhe6edwyr er rynghot ty ac e6 kenedyl** ac e gwypych med6l pa6b onad6nt y kan er rey henny. Pa6b **a eyll gwelet meynt brat e gwr. Nyt yr keyssya6 yechyt e brenyn** e dywedey ef e6elly namyn gwybot bot e ffychteyt en dynyon an**wadal anwastat e6 hanyan ac en ha6d annoc 6d6nt gwne6th6r** ky6la6an a llad e brenyn hep ohyr pan 6ynhey ef. Ac o darffey //

Llanstephan l t. 115
damweyn henny mal e kaffey ente6 eh6nan e 6renhynyaeth. Ac ena ed an6ones gortheyrn kennadey hyt en escotlont ac e gwahodes ody**no kant marcha6c or gwyl ffychty. ac gwedy e6 gwaha6d e6 han**ryded6 a gwnaey o wuyt a llyn a rodyon. Ac esef a gwneynt wynte6 **ar hyt er estrydoed ar heolyd dywedwyt ar kywyde6. Gortheyrn esyd** teylwng or 6renhynyaeth. a chonstans nyt teylwng. Ac 6rth henny **sef a gwnaey ente6 mwy wuy e6 hanryded6 ar rodyon eny 6ey wuy** y kerynt ef. Ac gwedy gwybot o*hona6* en hespys re kaffael e6 holl **karyat. e6 medwy a gwnaeth 6d6nt a dywedwyt 6rth6nt y 6ot en** mynn6 ada6 enys prydeyn a mynet y gwlat arall y keyssya6 ky6o**eth a 6ey wuy nor eyda6. a dywedwyt nat oed o ky6oeth yda6 ef 6al** e galley gossymdeythya6 dec marcha6c a de6 6geynt y gyt ac ef. Ac ody **na mynet a gwnaeth en tryst parth ae letty. ac e6 hada6 wynte6** en y6et en e ne6ad. Ac y gyt ac e gwlsant wynte6 henny trysta6 a **gwnaethant en wuy noc e gellyt y cred6 a thebyg6 bot en wyr** a dywedey a dywedwyt pob 6n 6rth y gylyd **onad6nt. Pa estyr e gad6n y e manach h6n en 6yw. pa acha6s** nas llad6n ny ef megys e kaffo Gortheyrn e 6renhynyaeth. Pwy **a dely e 6renhynyaeth en well no Gortheyrn e gwr ac an anrydeda** ny en wastat megys hyn o pob anryded hep gorffowys **Ac ena ky6ody a gwnaethant a chyrch6 esta6ell e brenyn a** llad y pen y arnaw. a dy6ot a b6r6 e pen rac bron Gortheyrn. **Ac ena pan gweles Gortheyrn e pen kymryt a gwnaeth megys trys**tyt arna6 ac wylaw. ac yr henny eyssyoes ny b6assey kyn llawe**nyt eryoet yr pan anet ar dyd h6nn6. Ac ena gal6 a gwnaeth** Gortheyrn gorthene6 ar kywda6twyr ll6ndeyn kanys eno e daroed **gwne6th6r e ky6la6an honno ac erchy 6d6nt daly e bradwyr hen**ny oll ac en e6 karchar e6 llad. kanys gwnaethant pecha6t **kymeynt a h6nn6. Ac eyssyoes ed oed rey ena a tebygassant panyw** Gortheyrn a gwnathoed e brat h6nn6. a bot e ffychteyt en wyryon. **Ereyll ae dyhe6rey ente6. Ac ena eyssyoes hyt tra ed oedet en pedr6**ssa6 am henny e kymerassant tatmaeth6 y 6rodyr ef emreys //

Llanstephan l t. 116
gwledyc ac 6ther pendragon ac e ffoassant ac wy hyt en llydaw e gwlat a elwyr he6yt brytaen 6echan. rac o6yn e6 kaffael o Gor**theyrn wynt ac e6 llad. Ac ena y kymyrth emhyr llyda6 wynt ac** e perys e6 meythryn or anryded e deleynt e6 meythryn. **Ac ena gwedy gwelet o Gortheyrn nat oed nep kynthebyc yda6** en e 6renhynyaeth kymryt a gwnaeth eh6n coron e teyrnas **ae gwysca6 eh6n am y pen. a gorescyn y kyt*tewyssogyon* a gwnaeth.** Ac ena pan kygle6 gwyr er enyssed en y kylch e chwedyl h6nn6 ky**6ody a gwnaethant en y erbyn a mynn6 dyal arna6 e6 marcho**gyon a ladassey o acha6s llad constans onad6n wynte6. Ac 6rth **henny go6al6s oed ente6 mwy wuy peynyd kanys** kolly y 6archogyon a gwnaey en emlad pe6nyd ac wynt **ac or parth go6al ma6r oed arna6 rac o6yn emreys gwledyc ac 6ther** pendragon ar re ffoessynt racda6 megys e dywetpwyt wuchot. **Pe6nyd e doey chwetle6 atta6 a dywedwyt bot er rey henny en** gweyssyon ma6r ac en parattoy llynghes wuyhaf en y byt ac **mynn6 dy6ot trach e6 ke6yn y orescyn er enys 6d6nt**

eh6neyn. Ac en er amser hynn6 e dyscynn6s teyr llong hyr ar ter6yn **swyd keynt en lla6n o 6archogyon ar6a6c de6 6roder** en tewyssogyon arnad6nt. sef oed er rey henny hors a heyngyst. **Ac en er amser h6nn6 ed oed Gortheyrn gorthene6 en llys doro**bern er hon a elwyr kaer keynt ar a6rhon megys ed oed kyn**de6a6t kantha6 mynych6 yr dynas h6nn6. A phan datkanwyt** yda6 henny re dy6ot gwyr ma6r ar6a6c agky6yeth eme6n **llonghe6 ma6r oy gwlat ef. rody na6d 6d6nt a gwnaeth ac** erchy e6 dwyn atta6. Ac en e lle gwedy e6 dwyn edrych a **gwnaeth ar e de6 6roder. kanys ragor oed 6d6nt** o pryt a theg6ch a gosceth a meyn rac nep oc ew kytemde**ythyon. ac odyna edrych ar pa6b oc e6 ny6er a gwnaeth. ac** gwedy henny go6yn pa gwlat e megessyt e kenedyl honno **endy a pha acha6s e dothoedynt wy oe gwlat ente6. Ac ena e** dechrewys heyngyst dywedwyt a rody attep yda6 6al hyn. //

Llanstephan l t. 117
ae tydy 6onhedycaf or brenhyned eg gwlat saxonya yn ganet ny ac yn magwyt. 6n o gwladoed Germanya oed honno. Acha6s en dy6odedy**gaeth ny yth wlat tythe6 ew hynn. yr rody yty ne6 y tewyssa6c** arall en gwassanaeth tros gwne6th6r da y nynhe6. Ac esef acha6s **e doetham ny oc en gwlat. hen de6a6t yr e dechre6 essyd endy. pan** amlhao e kywda6t endy. e da6 tewyssogyon e gwlat oll y gyt **en 6n lle ac dygant holl gwyr yeyeync e gwlat hyt rac e6 bron.** Ac odyna e detholant er rey gore6 a de6rhaf onad6nt a b6r6 pren**ne6 er rygth6nt ar ran a dygwydo e koel*pren* 6d6nt a ellynghyr** ac a kyweyryr en kyweyr o ar6e6 ac ed aant y wladoed ereyll y **keyssya6 ey gossymdeyth. Ac or acha6s honno e doetham** nynhe6 yth gwlat tythe6. Nyn*he6* de6 6roder ym ny **my6y a elwyr heyngyst. ac ente6 a elwyr hors. ac gossodassant** e tewyssogyon ar e ny6er a gwely ty ema en kyndrycha6l. kanys **o lyn brenhyned ed henym ny. Ac 6rth henny 6uydha6 a wu** reyt y nynhe6 yr ky6reythye6 oed gossodedyc en e gwlat yr e de**chre6. ac e doeth hyt de gwlat ty a merc6ry6s en tewyssa6c oc en** blaen. Ac ena pan kygle6 e brenyn dywedwyt enw merc6ry6s **dyrcha6ael y wynep a go6yn pa cred oed kanth6nt. Ac ena e dy**wa6t heyngyst 6rtha6 ente6. Arglwyd ep ef en tada6l dwywe6 **sat6rn6s a j6pyter ar dwywe6 ereyll essyd en llywya6 e byt** a anryded6n ny. ac a crd6n 6d6nt. ac en wuyhaf ed anryded6n **merc6ry6s er h6n a elwyr en saesnec wogen. ac y h6nn6 e kysse**gr6s en ryeny ny dyw merchyr. ar dyd h6nn6 a alwun ny woge**nes dey. yr henny hyt hedyw. Ac gwedy h6nn6 ed anryded6n ny** e dwywes ky6oethokaf er hon a elwyr en saesnec frea. ac y hon**no e rodassant e chwechet dyd or wythnos a h6nn6 a alwun** ny ffrydey. sef ew h6nn6 dyw gwener. Ac ena e dywa6t Gor**theyrn. Dol6r ew kenhyf fy oc ech cret chwy er hon essyd ya6nach** y gal6 en agcret noc en cret. oc ech dy6odedygaeth chwythe6 **llawen wyf. sef acha6s ew henny kanys en amser krynno ym** aghen*reyt* ynhe6 e doetha6ch chwy na dyw na pheth arall //

Llanstephan l t. 118
ac ech an6onho. 6e gelynyon esyd ym go6al6 en 6a6r en er amser h6n. ac o mynn6ch kymryt llawur 6e emlade6 y gyt a my. my **ac ech kynhalyaf y gyt a my en anryded6s ac a rodaf rodyon amyl** ywch a thyr a dayar y ech ky6oethogy. Ac en e lle g6rha6 yda6 a **gwnaethant e gwyr agky6yeyth henny a thryga6 en e llys** y gyt ac ef. Ac ena ny b6 ohyr enachaf e ffychteyt e6 gelynyon **a llw ma6r kanth6nt en dy6ot or gogled a dechre6 anreythya6** e gwladoed. Ac en e lle pan kygle6 Gortheyrn henny kyn6lla6 **y 6archogyon a gwnaeth ente6. a mynet trwy h6myr en e6** herbyn. Ac ena gwedy e6 dy6ot y gyt e kywta6twyr ar **gelynyon bydyna6 o pob parth a gwnaethant ac emlad**

en wychyr kalet. ac ny b6 6a6r e b6 reyt yr kywda6twyr en **dyd h6nn6 emlad hayach. namyn e saesson a emladassant en** 6ra6l kadarn eny kymhellassant ar e gelynyon ffo. hep ohyr. **Ac ena gwedy kaffael o Gortheyrn e wud6golyaeth trwy** e saesson. amlha6 rodyon a chy6arwusse6 a gwnaeth 6d6nt **a rody tyr a dayar a gwnaeth y heyngyst e6 tewyssa6c en rac**lo6yaeth lyndysey megys e galley kynhal y 6archogyon y gyt **ac ef. Ac ena sef a gwnaeth heyngyst megys ed oed gwr doeth** kall estryws gwedy kaffael o*hona6* karyat a chytemdeythas **e brenyn dynessa6 a or6c ar e brenyn a dywedwyt 6rtha6. Ar**glwyd ep ef de elynyon ty essyd en ry6el6 arnat o pob parth **yt; ac echedyc essyd or ath kar. Ac gwyr de ky6oeth essyd en** gogy6ada6 dwyn emreys wledyc ac 6rther pendragon o **lyda6 y orescyn er enys hon arnat ty ac y gwne6th6r em**reys en 6renyn. Ac wrth henny o gwney ty 6e kyghor y **an6onwn kennade6 hyt en germanya a gwahod6n mar**chogyon odyno ettwa y achwaneg6 en ryf nynhe6 6rth **emlad. Ac 6n peth a arch6n yty pey na bey rac o6yn 6e** nacca6. Ac ena e dywa6t Gortheyrn. an6on ty kennade6 **hyt en germanya a gwaha6d odyno e ssa6l a 6ynnych. ac** arch y wynhe6 er hyn a 6ynnych a thy ae keffy. Ac ena //

Llanstephan l t. 119
sef a gwnaeth heyngyst est6ng y pen a dyol6ch yda6 en 6a6r henny a dywedwyt 6al hyn. Arglwyd ep ef ty am ky6oethogeyst y o tyr **a dayar amyl. ac eyssyoes ep ef nyt mal e gwedey anryded6 tewyssa**a6c ne6 gwr ma6r. ac esef acha6s ew dynas ne6 kastel a gwe**dey y rody ymy eny 6e 6rdedygach ym ry6yt em plyth e gwyrda.** Ac ena e dywa6t Gortheyrn. Gwahardedyc ew ymy rody er ryw **rodyon henny ychwy kanys paganyeyt ywuch chwy. ac nat** ednebydedyc ech de6a6t ynny ettwa megys e gwnelwyf y **chwy en kynhebyc ym gwyr ynhe6. rac o6yn 6e kywda6t**wyr. Ac ena e dywa6t heyngyst. Arglwyd ep ef kanhyatta **ymy gwne6thyr kastell en kymeynt ac kyrhaedo 6n karrey** ar e tyr a rodeyst ty ymy megys e gallwyf y o byd reyt ym **gorffowys enda6. kanys ffydla6n wyf ytty. a ffydla6n wu**um yty. ac a 6ydaf o la6 hyn allan. a phob peth a gwnelwyf en **ffydlonder yty y gwnaf. Ac ena e gorchymynn6s e brenyn yda6** ell6ng y kennade6 hyt en germanya ac en ky6lym dy6ot trach **e6 ke6yn a phorth kanth6nt. Ac ena hep 6n gohyr an6on** kennade6 a gwnaeth y germanya. a chymryt a gwnaeth heyn**gyst croen tarw ae holly en 6n karrey. Ac odyna dethol lle car**rega6c kadarn a mess6ra6 ar karrey a gwnaeth lle e kastell **ac en kymeynt a henny gwne6th6r e kastell ar kaer. Ac** 6rth henny henny e gelwyt e lle honno dynas e karrey ne6 **ente6 kaer e garrey. eg kymraec.** Ac en en e lle emchwel6t a gwnaeth e kennade6 o germanya **a de6*na6* llong kanth6nt en llawn o 6archogyon gorde**.thol. a merch heyngyst er hon a elwyt ronwen a d6gant he6yt **y gyt ac wynt. ny ellyt hagen en er holl gwladoed er eyl a 6ey** kyntheby y phryt ae theg6ch ae gosced ydy. Ac ena gwedy ew **dy6ot a dar6ot adeylat e kaer gwaha6d a gwnaeth heyngyst e** brenyn y edrych er adeylat newyd. ar marchogyon newyd **dy6ot. Ac en e lle e doeth e brenyn a ny6er escy6alaf kantha6** a moly a gwnaet er adeylat ky6lym dyssy6yt h6nn6 a chym //

Llanstephan l t. 120
ryt e marchogyon en wyr yda6. Ac ena gwedy dar6ot 6d6nt bwytta. enachaf e 6orwyn en dy6ot or esta6ell a golwurch **e6reyt en y llaw en lla6n o wyn. a dynessa6 a or6c hyt rac bron** e brenyn ac est6ng ar tal y de6 glyn a dywedwyt 6rtha6. **la6yrt kyng wasseyl. Ac y gyt ac e gweles e brenyn e worwyn** anry6ed6 a or6c y theket ac en e lle emlenwy oe sserch ae **charyat. ac or dywed eyssyoes go6yn a gwnaeth yr yeythyd** peth a dywedassey e 6orwyn. a pha peth a deley ente6 y dy**wedwyt en attep ydy. Ac ena e dywa6t er**

yeythyd. hy ath elwys en arglwyd 6renyn ac a heylyws arnat ar **6ess6r annerch. a hyn a deley tythe6 y 6rthep ydy hy**the6. Dryncheyl. Ac yr henny hyt hedyw e tryg6s e de6a6t **em plyth e kymry eg ky6edach. ac erchy yr 6orwyn e6et en** kentaf. ac gwedy henny kymryt e ffyol oe llaw ae hy6et a rody **c6ssan ydy. Ac ena gwedy medwy Gortheyrn ed aeth dyawul en y** gallon kanys mess6r crystya6n oed arna6 ef. a dam6na6 ohona6 **ente6 kydyaw a morwyn hep 6edyd arney. hep cret kenthy. Ac ena** gwedy gwelet o heyngyst 6al ed oed gwr pr6d kymhen esca**6ynder med6l e brenyn. en e lle emkyghor a hors y 6ra6t a gwna**eth ac ar rey hynaf a doethaf oe kytemdeythyon pa peth a gwna**ey am er hyn ed oed e brenyn en y erchy. Ac ena 6n kyghor wu** kan pa6b rody e worwyn yda6 ac erchy yr brenyn sswyd keynt **6d6nt wynte6 en hagwedy. Ac ena hep ohyr e 6orwyn a rodet** yr brenyn. ac ente6 a rodes swyd keynt 6d6nt wynte6. a henny **kanhyat G6rgant e gwr oed yarll arney en er amser h6nn6.** Ar nos honno e kysc6s Gortheyrn y gyt ar 6orwyn escymyn **honno a rygh6 bod yda6 a gwnaeth en wuy no meynt. Ac** acha6s henny or a6r honno allan ed aeth gelynyaeth er ryg**tha6 ae wyrda ac ae 6eybyon. Try meyb oed yda6 kyn no** henny. sef oed er rey henny. kyndeyrn. a Gwerthe6yr. a paschen. **Ac en er amser h6nn6 e doeth Garma6n escop. ar bleyd y** kytemdeyth y pregeth6 geyrye6 dyw yr brytanyeyt. //

Llanstephan l t. 121
kanys llygredyc oed e crystonogaeth en e6 plyth o acha6s de6 peth. sef oed henny o acha6s e saesson paganyeyt a attalyassey e **e brenyn en y lys ac en e6 plyth. ac o acha6s ge6 pregeth a** cham cret pelagyan a lygrassey e6 crystonogaeth ae gwenwyn **en pregeth6 kam cret 6d6nt. Ac ena eyssyoes gwedy dy6ot** e gwyn6ydedygyon wyrda henny a phregeth6 6d6nt adne**wyd6 e6 ffyd ac e6 cret a gwnaethant ac e6 kadarnha6 trwy** pe6nydya6l gwyrthye6 a gwnaey dyw yrd6nt. ar rey henny a **traeth6s Gyldas en egl6r. Ac ena gwedy rody e 6orwyn** yr brenyn megys e dywetpwyt wuchot. e dy*wa6t* **heyngyst 6rth e brenyn. My6y ep ef essyd wey*thyon*** megys tat yt a chyghorwr yt e dylyaf 6ot. ac na dos tythe6 **tros 6e kyghor ynhe6. kanys de holl elynyon a elly ty gor6ot** arnad6nt trwy nerth 6e kenedyl y. Gwahod6n ettwa offa **6e map y ac ossa y ewythyr ef. emladwyr ew er rey henny.** Dyro 6d6nt escotlont ar gogled ac wynt a kynhalyant e **gwladoed henny rac estra6n kenedloed ac a katwant de** ky6oeth y tythe6 en hed6ch or parth h6n y h6myr. Ac ena **e gwnaeth Gortheyrn kyghor heyngyst ac erchy yda6 ef** gwa6d pa6b or a gwypey 6ot en porth ac en kanh6rthwy **yda6 ef e6 dy6ot. Ac ena ed ellyngh6s heyngyst kennade6** hyt en germanya ac e doethant offa a chossa a cheldryc **a thry chant llong kanth6nt en lla6n o wyr ar6a6c.** Ar rey henny a kymyrth Gortheyrn oll en wyr yda6. ac **e6 kynhal en e wlat. Ac em pob brwydyr or a 6ey yda6. ae** elynyon e gor6ydey trwy nerth er rey henny. Ac esef a **gwnaey heyngyst eyssyoes a dan lla6 gwaha6d llonghe6** o germanya en lla6n o wyr ar6a6c a phe6nyd achwa**neg6 y ny6er. Ac ena pan weles e brytanyeyt henny** o6ynha6 a gwnaethant racd6nt ac erchy yr brenyn e6 **g6rthlad or wlat y emdeyth wynt. a dywedwyt na** deley kynhal paganyeyt em plyth crystonogyon kanys //

Llanstephan l t. 122
ky6reyth e crystonogyon a gwahardey henny. Ac y gyt a henny seynt Garma6n a pregethassey yr brytanyeyt erchy 6d6nt g6r**thlad e saesson paganyeyt oc e6 gwlat. Ac ena sef a gwnaeth** gortheyrn escael6ssa6 henny. ac o karyat ronwen y wreyc kyn**hal e sasson en er enys y gyt ac ef. Ac ena pan weles e bryt**tanyeyt henny. sef a gwnaethant wynte6 ena emada6 a Gor**theyrn a chymryt Gwerthy6yr 6endygeyt map Gortheyrn gor**thene6 ac

gwne6th6r h6nn6 en 6renyn arnad6nt a dechre6 **emlad ar saesson ac gwne6th6r aer6ae6 ma6r onad6nt. a phedwar** emlad a wu y Gwerthywyr 6endygeyt ar saesson. ac em pob 6n **e gorw ef. Er emlad kyntaf a wu yda6 ar a6on derwennyd. Ar** wyl a wu yda6 en ryt epyffort. ena ed emky6arwu kyndeyrn **6ap Gortheyrn a hors bra6t heyngyst ac e lladа6d pob 6n y** gylyd onad6nt. E trydyd emlad a wu yda6 ac wynt ar glan **e mor ac ena e ffoes e ssaesson megys gwraged en e6 llonghe6** ac ed aethant hyt en enys thanet y ffo rac e brytanyeyt. Ac esef **a gwnaeth Gwerthy6yr e6 gwarchae ena wynt ac y ar longhe6** emlad pe6nyd ac wynt. Ac ena gwedy na alley e saesson dyo**def e brytanyeyt a 6ey hwy en emlad ac wynt. ell6ng Gorthe**yrn e gwr a wuassey emlad y gyt ac wynt en kennat ar Gwer**thy6yr y 6ap y erchy e6 hell6ng en yach y e6 gwlat. Ac** ena hyt tra ed oedynt e brytanyeyt en kymryt kyghor pa **peth a gwnelynt am henny sef a gwnaethant e saesson en** ky6lym mynet e6 llonghe6 ac ada6 e6 gwraged ac e6 **meybyon a ffo hyt en germanya.** Ac ena gwedy kaffael o Gwerthy6yr e wud6golyaeth dechre6 **a gor6c tal6 y pa6b e6 ky6oeth a thref e6 tat yr** nep e d6gessyt y arnad6nt. a char6 ac anryded6 gwyr y **teyrnas. a theka6 ac anryded6 er eglwysse6 6rth arch** a dysc Garma6n sant. ac e6 hadeylat o newyd. Ac eyssyoes **daly kyghor6ynt 6rth y daeony ef ae weythredoed da a** gwnaeth dyawul a dody eg kallon ronwen y lys6am //

Llanstephan l t. 123
ethrylyth hy a ka6as e kyfreyth a elwyt er rwng e brytannyeyt marcyan. Ar kyfreyth honno em plyth pethe6 ereyll a emchwe**l6s al6ryt 6renyn o brytanec en saysnec ac a elwys mechenlage.** A gwedy mar6 k6helyn llywodraeth e teyrnas a tryga6d en lla6 er racdy**wededyc 6renhynes honno ac oy map er h6nn a elwyt seyssyll.** Ac en er amser h6nn6 seyth mlwyd oed seyssyll. ac wrth hen**ny nyt oed adas y oedran y lywodraeth e teyrnas. Ac o acha6s** henny kanys grym6s o kyghor a doethynep e kymyrth y 6am **holl lywodraeth e ky6oeth en y lla6 eh6n. A phan aeth hythe6** o le6uer e wuched hon seyssyll a kymyrth coron e teyrnas. Gwe**dy seyssyll kyn6arch y 6ap a doeth en 6renyn. Ac en ol kyn6arch** e doeth dan y 6ra6t en 6renyn. Ac en ol dan e doeth Mor6d y 6ap en**te6 en 6renyn a h6nn6 dyr6a6r oed meynt y clot ae haelder pey** nat emrodey y ormod cre6londer. A phan lyttyey nyt arbedey y nep **eny lladhey o chaffey o ar6e6 ac ergydye6 e 6eynt honno. Ac y gyt a** henny teg oed o edrych arna6 a hael en rody ~~rody~~. Ac nyt oed er eyl **a 6ey kyn de6ret ac ef en e teyrnas or a alley emky6erbynneyt ac ef.** Ac en y amser ef e doeth brenyn moryan a llw ma6r kantha6 yr **gogled a dechre6 anreythya6 e gwladoed. Ac en y erbyn e de6th** mor6d a holl kynn6lleyt6a a ye6enctyt e teyrnas oed eyda6 ef **ac en dyannot emlad ac ef. A mwy a ladey ef eh6nan nor rann** wyhaf oe lw. Ac gwedy kaffael ohona6 ef e wud6golyaeth ny **dyeghys 6n en 6yw nys lladey. kanys erchy a gwnaey dwyn at**ta6 er h6nn en ol y gylyd hyt pan 6ey ef eh6n ae lladey oll ac o henny **ed eylanwey ente6 y cre6londer. Ac gwedy blyna6 ohona6 gorffo**wys echedyc a or6c ac gorchymyn e6 blyghya6 en 6yw ac gwedy **e blyghyet e6 lloscy. Ac emplyth henny a phethe6 ereyll oe dywal**der ae cre6londer ef. e damweynny6s ryw

anthyget6en yda6 **y dyal y enwyred arnaw. Ac esef oed henny ryw bwyst6yl a de6th** y 6rth 6or ywerdon ac ny chlywyt eyryoet kyfry6 any6eyl y cre6londer. //

Llanstephan 1 t. 55
a honno hep orffowys a lynghey e tyrdywyllodron a presswylynt kerlla6 e weylgy. Ac gwedy klybot o 6or6d e chwedyl h6nn6 ef a **de6th eh6nan y emlad ar bwyst6yl h6nn6. Ac gwedy trewlya6 oho**na6 y holl ar6e6 en o6er er any6eyl h6nn6 ae sa6yn en agoret **ae kyrch6s ac ae llygh6s megys pysc bychan. Gor6ynnya6n.** Pym meyb hagen a ganadoed yda6 a hynaf oed onad6n Gorbo**nya6n. a h6nn6 a kymyrth llywodraeth e teyrnas. kanys nyt** oed en er amser. h6nn6 gwr ya6nach noc ef. na mwy a karey **Gwyryoned. nac a lywyey e pobyl en karedygach. kanys gwas**tat oed y 6oes ae de6ode6 ae annyan. a dyled6s anryded a taley **yr dwywe6 ac 6nya6n wyryoned yr pobyl. A thrwy holl** teyrnas enys prydeyn templhe6 e dwywe6 en e dynassoed **a atnewydey ac ereyll o newyd a adeley. Ac en y holl amseroed** ef kymeynt wu amylder a ryodres er enys o 6erthed ac go**l6t ac nat oed nep 6n or enyssed en y chylch a kyffelyppyt ydy** kanys annoc a gwnaey e brenyn e tyrdywyllodron y dywl**lya6 e dayar. ac e6 hamdyffyn rac treys e6 harglwydy. Ar** gweyssyon ye6eync dewr ar emladwyr a ky6oethogey o e6r **ac aryant a meyrch ac ar6e6. hyt nat oed reyt y nep gwne6th6r** kam na threys oy gylyd. Ac er rwng e gweythredoed hyn **a llawer o de6ode6 da ereyll. tal6 dylyet yr annyan a or6c. ac or** lle6uer honn ed aeth ac eg kaer l6ndeyn e cladwyt. Arthal. **AC gwedy Gor6ynya6n e de6th arthal y 6ra6t ente6 en 6renyn** ac em pob peth hagen gwrthwynep oed ef y weythredoed y **6ra6t. kanys er rey bonhedyc dyleda6c a la6uryey ef e6 hyst6ng** ar rey an6onhedyc anyleda6c a 6rdey ac a dyrchafey. Er rey ber**tha6c a chy6oetha6c ef ae hanreythyey a chynn6lla6 anther6y**nedyc swllt. Ac gwedy gwelet o wyrda e teyrnas henny ny allassant **y dyodef a 6ey hwy namyn en kyt*d6un* ky6ody en y erbyn ae** 6rthlad o kadeyr e teyrnas. ac 6rda6 elydyr y 6ra6t en 6renyn //

Llanstephan 1 t. 56
er h6nn Gwedy henny o acha6s e tr6gared a gwnaeth ae 6ra6t a elwyt elydyr war. Ac esef oed henny gwedy y 6ot ef en llywya6 **e teyrnas trwy pym mlyned dywyrna6t o damweyn ed oed en hely** en forest llwyn e kalatyr ef a ky6arf6 ac ef arthal y 6ra6t er h6n **a dyholyessyt or 6renhynyaeth Gwedy ry crwydra6 pob gwlat** en keyssya6 nerth a chanh6rth6y y orescyn y ky6oeth tra**che6yn. a hep kaffael dym. Ac gwedy na alley a 6ey hwy dyodef** er aghanoctyt ar dodoed arna6 emchwel6t trache6yn y enys **prydeyn a gwnathoed. a dec marcha6c y gyt ac ef. ac en my**net y owuy e gwyr ry wuessynt kytemdeythyon neyllt6edyc **yda6 gynt ac en kerdet trwy e koet h6nn6 e ky6arf6 ac elydyr** y 6ra6t en dyarwybot. Ac y gyt ac y gweles elydyr ef redec a **or6c a mynet dwyla6 m6nygyl yda6. ar rody llawer o c6ssane6** yda6. Ac gwedy wyla6 a chwyna6 en hyr y tr6eny ae agkyfnerth **ef ae d6c kantha6 hyt eg kaer alcl6t. ac ae k6dyws en y esta6ell.** Ac gwedy henny dychymyg6 a gwnaeth y 6ot en claf. ac an**6on kennade6 a gwnaeth tros pob gwlat en enys prydeyn ac** erchy y pa6b or tywyssogyon a oedynt a dana6 ef dy6ot oy edrych. **Ac gwedy dy6ot pawb hyt e dynas erchy a or6c y pob 6n ar neyll**t6 dy6ot atta6 oy esta6ell en tawel a hep ffrost. kanys ef a dy**wedey bot en argywed6s oy penn o delhynt llawer y gyt ona**d6nt. Ac esef a or6c pob 6n onad6n cred6 henny a dy6ot pob **6n ol en ol megys y harchassey. A megys e delhey pob 6n e gor**chymynney e~~y~~lydyr yr gwassaethwyr oed ossodedyc kantha6 **y henny kymryt pob 6n mal e delhey a llad y penn ony g6rhaey**

eylweyt y arthal y 6ra6t. ac e6elly e gwnaey y pob 6n ar neyllt6. **ac e6elly en ed oed kymher6ed o6yn e tagnhe6edws ef pa6b** ae 6ra6t. Ac or dywed gwedy kadarnha6 e kerenhyd honno **er r6gth6nt elydyr a kymyrth arthal y 6ra6t ac ae d6c kan**tha6 hyt eg kaer efra6c ac eno e kymyrth ef e coron y am y penn //

Llanstephan 1 t. 57
eh6n ae dody am pen y 6ra6t. Ac wrth henny e ka6as ente6 er en6 h6nn6 o henny allan. elydyr war. Ac odyna dec mlyned e b6 **arthal en gwledych6 a pheydya6 a gwnaeth ar drycde6ode6 a** wuessynt arna6 gynt ac odyna allan anryded6 e bonhedygyon **ar dyledogyon ac estwng er rey andyleda6c a thalw y pa6b** ~~y~~ ~~pa6b~~ y dylyet. ac or dywed y 6ar6 ac eg kaer llyr e cladwyt. **AC ena er eylweyth ed etholet elydyr en 6renyn. Ac eyssyo**es hyt tra ed oed ef en erlyt gweythredoed a de6ode6 **Gor6ynya6n y 6ra6t ef er hynaf en holl daeony. e de6 6roder** ye6haf yda6 J6geyn a phered6r a kynn6llassant llw ma6r **ar6a6c o pob parth ac a dechre6ssant emlad ac ef. Ac gwedy** ar6er6 ohon6 or wud6golyaeth wynt a dalyassant elydyr **war ac ae carcharassant ef em me6n twr eg kaer l6ndeyn.** a gossot keytweyt oy kadw. Ac odyna er rannassant e teyrnas **en dwy rann er rygth6nt. Ac esef e dygwyd6s er ran J6geyn** o h6myr hyt e gorllewyn. Sef yw henny lloegyr. a chymry. a **chernyw. Ac en rann pered6r e dygwyd6s o h6myr h6nt** e gogled ar alban oll. Ac gwedy llythra6 seyth mlyned mar6 **wu J6geyn. ar teyrnas oll a dygwyd6s en lla6 pered6r. Ac** gwedy y 6ot en 6renyn ar k6byl o enys prydeyn ef ae llywy**a6d en hygar anryded6s megys ed oed aml6c y 6ot en well** noy holl 6rodyr kyn noc ef. ac na choffeyt ke6ey elydyr rac **dahet arglwyd oed pered6r. Ac eyssyoes kany wuyr aghe6** arbet y nep. hy a de6th o dyssy6yt redec ac a d6c pered6r o **per6ed e wuched honn. Ac en e lle ena e kymerwyt elydyr** oy carchar. ar tryded weyth ed 6rdwyt ef en 6renyn. Ac gwedy **trewlya6 ohona6 holl amsser y wuched ef trwy holl daeony** a ya6nder a gwyryoned or wuched honn ed aeth kan ada6 **agrheyfft gwarder y pa6b or a delhynt en y ol ente6.** AC gwedy mar6 elydyr war e de6th Rys 6ap Gor6ynya6n //

Llanstephan 1 t. 58
en 6renyn. ae ewythyr a e6elych6s ef o synnwyr a phr6der a doethynep. A pheydya6 a gwnaeth ef a chre6londer ac erlyn Gwyryoned **a thr6gared en e pobyl. Ac eyryoet ny chy6eylyornes y gan lwybyr** ya6nder a Gwyryoned. AC gwedy Rys e de6th margan 6ap arthal **en 6renyn. A h6nn6 o dysc y ryeny a gwnaeth ya6nder ac a egl6r6s** kenedyl brytaen o weythredoed da. AC en y ol ente6 e de6th eynny**a6n y 6ra6t. a phell y 6rth annwyde6 y 6ra6t wu h6nn6 en** llywya6 e pobyl. ac en e chwechet wlwydyn e b6rywt ef oe 6ren**hyaeth. kanys pella6 y 6rth ya6nder a Gwyryoned a gwnaeth** a rac*dewyssa6* cre6londer. er hon ae b6ryws ef or 6renhynyaeth. **AC en y le ente6 e de6th ydwal 6ap J6geyn y gar ef. Er h6nn a** emya6nha6s o agrheyfft eynnya6n dylyet a ya6nder a dywyllyey. **AC en ol ydwal e de6th R6n 6ap pered6r. AC en ol R6n e d6th** Gereynt 6ap elydyr. AC en ol Gereynt kadell y 6ap ente6. AC **en ol kadell coel. AC en ol coel porrex. AC en ol porrex cheryn.** AC yr cheryn h6nn6 e b6 try meyb. f6lgen. ac eydal. ac andry6 **a phob 6n or rey henny a gwledych6s en ol y gylyd. AC odyna** e de6th 6ryen 6ap andryw. AC en ol 6ryen e de6th kel6yda6c. **AC en ol kel6yda6c e de6th clytno. AC en ol clytno e de6th Gwr**wst. AC en nessaf y 6rwst Meyrya6n. AC en ol Meyrya6n **bleyd6d. AC en ol bleyd6d e de6th Caph. AC en ol caph e** de6th Oweyn. AC en ol oweyn Seyssyll. AC en ol seyssyll e **de6th Blegywryt. a h6nn6 ny b6 en er ossoed na chynt noc** ef na gwedy keynyad6r kystal ac ef ar rac dahet e caney ac e **gwydyat kel6ydyt e m6ssyc e gelwyt ente6 dyw e gwaree6.** AC en y ol ente6 e de6th arth6ael y 6ra6t ente6. AC en ol arth**mayl e de6th eydol.**

AC en ol eydol e de6th rydyon. AC en ol rydyon e de6th ryderch. AC en ol ryderch e de6th sawyl pen **yssel. AC en ol sawyl a de6th pyrr. AC en ol pyrr e de6th** Capoyr. AC en ol capoyr e de6th Manogan y 6ap g6r pr6d //

Llanstephan 1 t. 59
a hygna6s. ac y ar pob peth 6nya6n wyryoned er rwng e pobyl a gwnaey. Bely ma6r 6ap Manogan. **ACc gwedy mar6 Manogan e de6th bely ma6r y 6ap en y ol** ente6 en 6renyn. a de6 6geyn mlyned e gwledych6s ef ar enys **prydeyn. Ac yr bely h6nn6 e b6 try meyb. llwd. a chasswalla6n.** a nynnya6. A megys y dyweyt rey or ky6arwydyeyt pedweryd **map a wu yda6 lle6elys. A ll6d oed hynaf or rey henny a h6nn6** gwedy mar6 y tat a kymyrth llywodraeth e teyrnas. Ac odyna e b6 **gogoned6s adeylya6dyr keyryd a chestyll. Ef a atnewyd6s** m6roed ll6ndeyn. ac o anry6edyc tyroed ae damkylchyn6s. Ac **gwedy henny a orchymynn6s yr kywda6twyr adeylat tey** endy megys na bey en e teyrnassoed em pell en y chylch en 6n **dynas adeylade6 na they kymryt ac a 6ey endy. Ac y gyt a hen**ny emlad6r da oed a hael ac ehelaeth en rody bwyt a dya6t y **pa6b or ae keyssyey. A chet bey llawer yda6 o keyryd a dynas**soed honn a karey en wuy noe 6r6n. ac en honno e presswyly**ey er rann wuyhaf or wlwydyn. Ac wrth henny e gelwyt hy** kaer l6d. ac or dywed kaer l6ndeyn. Ac gwedy dy6ot estra6n ke**nedyl ydy e gelwyt hy l6ndyne ne6 ente6 l6ndres.** Lle6elys hagen a karey ef en wuyhaf oy 6rodyr. kanys Gwr **pr6d a doeth oed. Ac gwedy klybot o le6elys ry 6ar6 brenyn** ffreync hep ada6 etty6ed namyn 6n 6erch. ac ada6 e ky6oeth **en lla6 honno. ef a de6th at lwd y 6ra6t ac erchy kyghor a nerth** nyt na mwy yr lles yda6 ef. namyn yr keyssya6 achwaneg6 **anryded ac 6rdas. a theylycda6t y e6 kenedyl o galley ef mynet** y teyrnas ffreync y erchy e 6orwyn honno en wreyc yda6. Ac **en lle y 6ra6t a kytsynnyws ac ef ac wu da kantha6 y kyghor** ar henny. Ac en e lle paratoy lloghe6 ac e6 llenwy o 6archogy**on ar6a6c a chychwyn parth a ffreync. Ac en e lle gwedy e6** dyskynn6 an6on kennade6 a or6gant y 6ynegy y wyrda //

Llanstephan 1 t. 60
ffreync estyr y neges e dothoed oy cheyssya6. Ac o kyt*kyghor* gwyrda ffreync a tewyssogyon er rodet e 6orwyn y le6elys a choron e **teyrnas y gyt a hy. Ac gwedy henny ef a lywy6s e ky6oeth en** pr6d ac en doeth ac en dedwyd hyt tra parha6s y oes. **AC gwedy llythra6 talym o amser teyr Gormes a dygwyd6s en** enys prydeyn. ar ny ry klywssey nep or hen oessoed gynt **e6 kyfryw. Kyntaf oed onad6n ryw kenedyl a doeth a elwyt** coraneys a chymeynt oed e6 gwybot ac nat oed amadra6d **or a ky6arffey e gwynt ac ef nys gwyppynt ac wrth henny** ny ellyt 6n drwc 6d6nt. Eyl oed. dyaspat a dodyt pob nos **kal mey wuch pob aelwyt en enys prydeyn. a honno a aey** trwy kallonnoed e dynyon en kymeynt ac e kolley e gwyr **e6 llyw ac e6 nerth. E gwraged a gollynt e6 beychyogy. ar** meybyon ar merchet a gollynt e6 ssynhwyr. ar holl any6ey**llyeyt a adawey en dyffrwyth. Tryded oed yr meynt** 6ey e darmerth ar arllwy a paratoet en llyssoed e bre**nyn ket bey arlwy blwydyn o wuyt a dya6t ny cheffyt** byth dym ohona6 namyn a trewlyt en er 6n nos kyntaf. **Ac eyssyoes kyhoed oed ac amlwg er ormes kyntaf. ar** dwy ormes ereyll nyt oed nep a wypey pa estyr oed 6d6nt. **Ac wrth henny mwy gobeyth oed kaffael gwaret or kyn**taf; noget or eyl ne6 or trydyd. AC wrth henny llwd **6renyn a kymyrth pryder mawr a go6al enda6 kany wy**dyat pa fford e kaffey gwared or gormessoed henny. Ac galw **atta6 a or6c holl wyrda y ky6oeth a go6yn kyghor 6d6nt** pa peth a gwnelynt en erbyn e gormessoed henny. Ac o kyffre**dyn kyghor y wyrda llwd 6ap bely a aeth hyt at le6elys** y

6ra6t brenyn ffreync. kanys gwr doeth a ma6r y kyg**hor oed h6nn6 y keyssya6 kyghor y kantha6. Ac ena pa**ratoy llyghes a gwnaethant a henny en argel ac //

Llanstephan 1 t. 61
en dysta6 rac gwybot or kenedyl honno estyr e negys. nac o nep eythyr e brenyn ae kyghorwyr. Ac gwedy bot en para6t **e llyghes ll6d a aeth end6nt a dechre6 holly e moroed. Ac gwedy** klybot o le6elys e chwedle6 henny kany wydyat ef acha6s na ne**ges llynghes y 6ra6t. en e lle ente6 a kynn6ll6s llyghes or parth** arall dyr6a6r y meynt. ac aeth ar e mor en erbyn y 6ra6t. Ac gwe**dy gwelet o lwd henny; ef a edewys y holl longhe6 ar e weyl**gy allan eythyr 6n llong. ac en er 6n honno e de6th en erbyn **y 6ra6t. Ac en e lle pan weles lle6elys henny ente6 em mewn** 6n llong arall a de6th en y erbyn ente6. Ac gwedy e6 dy6ot y gyt **pob 6n onad6nt a aeth dwyla6 m6nygyl oy gylyd. ac o 6rody**rya6l karyat pob 6n a gressaa6d y gylyd onad6nt. **AC gwedy mynegy o lwd yda6 estyr y neges. y 6ra6t a dywa6t** e gwydyat eh6n pa acha6s ry dodoed yr gwladoed henny. **Ac gwedy henny wynt a kymerassant kyghor y emdydan en am**gen no henny megys nat elhey e Gwynt am e6 hamadra6d **a gwybot or coranyeyt er hyn a dywedynt. Ac ena e perys lle6e**lys Gwne6th6r corn hyr ac trwy e corn dywedwyt. Ac gwedy **bot en para6t e corn lle6elys a dywa6t wrth y 6ra6t er rody ef** yda6 ef ryw pry6et a gad6 rey onad6nt en 6yw y hylya6 rac **o6yn damweynnya6 eylweyth dy6ot er ryw ormes honno. a** chymryt ereyll or pry6et ac e brywa6 em plyth d6fyr ac ef a **kadarnhaey bot en da er rey henny y dystryw kenedyl coranyeyt.** Nyt amgen gwedy e delhey adref or teyrnas eh6n gal6 **pa6b y gyt oy pobyl ef ac o kenedyl e cornayeyt y 6n datlew y** 6ynn6 gwne6th6r tangnhe6ed er rygth6nt. Ac ena Gwedy **delhey pa6b y gyt kymryt e d6fyr h6nn6 ae 6ur6 en kyffre**dyn ar pa6b. ac ef a kadarnhaey e bydynt 6ar6 e coranyeyt. **en k6byl; ac nat eydyga6ey nep oe kenedyl ente6 eh6n.** .R eyl ormes ep ef essyd yth ky6oeth ty. dreyc yw //

Llanstephan 1 t. 62
honno. a dreyc arall estra6n kenedyl esyd en emlad a hy ac en keyssya6 y Gorescyn. Ac wrth henny rac llyt e dyt ech dreyc chwy **e dyaspat engyrya6l honno. Ac 6al hynn e gelly kaffael gwy**bot henny. Gwedy ed elych atref mess6r er enys y hyt ae llet **ac en e lle e keffych pwynt e per6ed en ya6n par clad6 e lle** honno. ac gwedy henny par dody kerwyn en lla6n or med gore6 **a aller y gwne6th6r em me6n e clad h6nn6 a llen o paly** ar wynep e kerwyn. ac gwedy hynny yth person d6*h6nan* **byd en y gwylya6. Ac ena ty a wely e dreygye6 en emlad en** ryth ar6thyr any6eylyeyt. ac or dywed en ryth dreygye6 ed **ant yr awyr. Ac or dywed oll gwedy darffo 6d6nt blynaw o** engyrya6l a gyrat emlad wynt a ssyrthyant en ryth de6 por**chell ar warthaf e llen ac a s6dant ac a tynnant e llen ganth6nt** hyt eg gwaela6t e kerwyn ac a e6yan e med en k6byl. ac **a kyscant gwedy henny. Ac ena en e lle plykca tythe6 e llen** en e6 kylch wy. ac en e lle kadarnhaf a keffych yth ky6oeth **em me6n kyst 6aen clad wynt a ch6d em me6n e dayar.** A hyt tra wuynt wy en e lle honno ny da6 gormes y enys **prydeyn o le arall. ACha6s e tryded ormes yw. Gwr lletry**tha6c kadarn essyd en dwyn de wuyt ty ath darmerthe6 **a h6nn6 trwy y hwt ef ae letryth a gwna y pa6b kysc6.** Ac wrth henny e mae reyt y tythe6 en de person d6*h6nan* **gwylya6 de darmerth ath arlwy. a rac gor6ot o kysc6 ar**nat byt kerwyn en lla6n o d6fyr oer ker dy law. a phan **6o kysc6 en treyssya6 arnat dos em me6n e kerwyn.** AC ena ed emchwel6s llwd tra*che6yn* oy wlat. **ac en dyannot e dy6ynn6s ef pa6b en llwyr oe** ky6oeth ef ac or coranyeyt a megys e dyscadoed yda6 **brywa6 e pryfet a or6c em*plyth***

dwfyr a b6r6 h6nn6 ar pa6b en kyffredyn. ac en e lle er holl coranyeyt en llwyr //

Llanstephan 1 t. 63
a wuant 6ar6 hep edyga6ael nep or brytanyeyt. AC em penn espeyt gwedy henny llwd a perys mess6ra6 **er enys ar y hyt ac ar y llet. ac en ryt*ychen* e ka6as e** per6ed pwynt. ac en e lle honno e perys ef clad6 e dayar **ac en e ffos honno gossot kerwyn en lla6n or med gore6 a** allwyt y kaffael. a llen paly ar y hwynep. Ac ef eh6nan e **nos honno wu en y gwyllyat. ac 6al ed oed e6elly ef a we**les e dreygye6 en emlad. ac gwedy dar6ot 6d6nt blyna6 **a dyffygya6 en emlad wynt a dygwydassant en e kerwyn.** Ac gwedy dar6ot 6d6nt y6et e med kysc6 a gwnaethant **ac en e6 k6sc ll6d a plyg6s e llen en e6 kylch ac en e lle** dyogelaf a ka6as en dynas emreys en eryry em me6n **kyst 6aen y kwdy6s. ac e6elly e peydy6s e dyaspat tym**hestl6s oe ky6oeth. AC gwedy dar6ot henny e brenyn a pe**rys arlwya6 gwled dyr6a6r y meynt. ac gwedy y bot en para6t** ef a perys gossot kerwyn en llawn o d6fyr oer ker y law. ac **ef eh6n en y prya6t person ae gwyly6s. Ac 6al e byd e6elly** en gwyllya6 ef a glyw llawer o amra6aylyon kerde6 a h6n ac **en y kymhell ente6 ar kysc6. Ac en e lle sef a or6c ente6 rac y orthry**m6 ef or kysc6 a llesteyrya6 ar y darpar mynet en e d6fyr. a henny **en 6ynych. Ac or dywed enachaf gwr dyr6a6r y 6eynt en wys**cedyc o ar6e6 tr6m kadarn en dy6ot y me6n a chawell kantha6 **a megys y gnotaassey en dody er holl darmerth ac arlwy or bwyt** ar llyn em mewn e kawell ac en kychwyn y emdeyth ac ef. Ac en **e lle ll6d 6renyn a kychwynn6s en y ol ac dywa6t 6rtha6 6al** hynn. Arho ep ef arho. ket ry gwnelych ty sarhaede6 a **chollede6 ymy kyn no hynn nyt ey weythyon ony barn** de 6ylwryaet ty e trech ac en dew*rach* no my. Ac en dy**annot ente6 a gossodes e kawell ar e lla6r ae arhos ef atta6.** Ac ena gyrat ac angerda6l emlad a wu er rygth6nt a newy- //

Llanstephan 1 t. 64
dya6 dyrnode6 ar tan en ehedec or cledyfe6 ac or ar6e6 ereyll. Ac or dywed e tyghet6en ar rac*weles* damwennya6 e wud6**golyaeth yr brenyn. kan wur6 y ormess6r er rygtha6 ar** dayar. Ac gwedy gor6ot arna6 o grym ac angerd erchy **na6d a or6c. Ar brenyn a dywa6t 6rtha6 ente6. Pa wed ep** ef e gallaf y rody na6d yty gwedy e gny6er kollet a sarhaet a **ry gwnaethost tythe6 ymy. Ac ente6 dywa6t en attep yda6 ef.** Ep ef de holl kollede6 eyryoet or ar ry gwne6th6m y yty my **ae hennyllaf en kystal ac y d6g6m. ac o hynn allan my nys** gwnaf y kyffelyp. Ac y gyt a henny gwr ffydla6n 6ydaf byth **bellach. Ar brenyn a kymyrth henny y gantha6. Ac e6elly e** gwara6t ll6d e teyr gormes henny y ar enys prydeyn. Ac o henny **hyt en dywed y oes en hed6ch ac en detwyd e gwledychws.** AC ena or dywed gwedy mar6 llwd map bely ma6r e k6dywt y **corff eg kaer l6ndeyn ker lla6 e porth a elwyr ettwa eg kymraec** oy enw ef porth llwd. ac en saysnec e gelwyr ef lwdes Gate. De6 **6ap hagen a wuessynt yda6. Sef oedynt er rey henny. a6arwy** 6ap llwd. a thene6an 6ap llwd. Ar rey henny 6rth nat oed oet **arnad6nt megys e gellynt llywya6 e teyrnas e gwnaethpwyt** kasswalla6n 6ap bely y 6ra6t ente6 en 6renyn. Ac en e lle gwedy **y 6rda6 ef o coron e teyrnas. ef a kymyrth enda6 haelder a** dayony a chlot a molyant en kymeynt ac en yd oed y clot ef **en ehedec tros e gwladoed ar teyrnassoed em pell y 6rtha6.** Ac odyna gwedy damweynnya6 yda6 ef en k6byl llywodraeth **er holl teyrnas ac nyt oy neyeynt. Eyssyoes kasswalla6n a** emrodes y warder ac ny mynn6s bot y neyeynt en dyran **or teyrnas namyn rody 6d6nt a or6c ran 6a6r or ky6oeth.** Ac esef ar rodes y a6arwy 6ap llwd kaer l6ndeyn a yarllaeth **swyd geynt. Ac y tene6an er**

rodes yarllaeth kernyw. Ac ente6 eh6nan en pennad6r ar pa6b ac en arweyn coron e teyrnas. //

Llanstephan 1 t. 65
AC en er amser h6nn6 megys y keffyr en hystoryae6 gwyr r6ueyn gwedy dar6ot y wl kessar goreskyn ffreync ef a damwen**nyws y dy6ot hyt ar glan traeth rwten. Ac gwedy ~~gwedy~~ gwe**let ohona6 odyna enys prydeyn go6yn a or6c yr nep oed en y kylch **pa gwlat oed honno a pha kenedyl ae ky6anhedey ac ae presswy**lyey. Ac gwedy kaffael ohona6 gwybot ~~ohona6~~ enw e teyrnas **ar pobyl ef a dywa6t. mwyn herc6lff ep ef o 6n kenedyl ed** henym ny er r6ueynwyr. ar brytanyeyt kanys o kenedyl tro **e kerdassam ny. Eneas escwydwyn gwedy dystryw tro a wu** en hentat ynny en kyntaf. Ac 6d6nt wynte6 e b6 hentat br6**t6s 6ap syl6y6s. ~~6ap~~ ascany6s 6ap eneas. Ac onym twyllyr** y ne6 ry dybonhedassant wy. kanys megys y tybygaf ny wdant **wy dym y wrth 6ylwryaeth wrth e6 bot en presswylya6 eythyr** e byt. em me6n er eygya6n. Ac esca6yn herwyd y tebygaf y 6yd **e6 kymhell wynt y tal6 teyrnget ac y e6 gwne6th6r en tre**tha6l. ac y tal6 gwastat wassanaeth yr r6ueynnya6l teylyg**ta6t. Ac eyssyoes ya6n yw en kyntaf erchy 6d6nt talw teyrn**get y wyr r6ueyn kyn e6 llaf6rya6 nac emlad ac wynt. megys **e mae er holl kenedloed ereyll o amgylch e byt en tal6 teyrnget** 6d6nt. a darestyghedygaeth y sened r6ueyn. rac kody o*honam* **nynhe6 hen 6onhed pryaf en hentat ny ae hen teylycta6t** kan ell6ng e6 gwaet wynte6 megys e maent en kereynt ynn. **Ac gwedy an6on o wl kessar er amadrodyon hynn e me6n llythyr** hyt at kasswalla6n llyd6a6 en 6a6r a or6c ente6. ac an6on lly**thyr hyt at wl kessar ar geyrye6 hynn en e llythyr.** KAsswalla6n brenyn e brytanyeyt en **an6on annerch y wl kessar y gyt ar amadra6d hwnn** Anry6ed yw wl kessar meynt chwant a chybydyaet Gwyr **rwueyn kanys rac meynt sychet arnad6nt e6r ac aryant** na allant dyodef en bot ny megys odyeythyr e byt en dyoed //

Llanstephan 1 t. 66
perygle6 er eygya6n hep gamry6yg6 kymhell swllt a threthe6 arnam. or lle ar ry kynnhalyassam ny eyryoet en ryd dytreth **hed6ch hyt hyn. Ac nyt dyga6n ganth6nt henny namyn** keyssya6 gwaret en rydyt a mynn6 gossot tragywyda6l keythy**wet. kewylyd ytty wl kessar ed wyt en y keyssya6 kanys kyf**fredyn gwythen bonhed essyd yr brytanyeyt ac yr r6ueynwyr. **en llythra6 y gan eneas. ar 6n*ryw* ~~y.~~ kadwyn en rac*egl6ra6*** kadarn kytemdeythas a dyley er rygth6nt. Honno a dyly6t **y cheyssya6 ae herchy ynny. nyt kymhell keythywet arnam** kanys er rydyt honno a ordyfnassam ny ac a dyscassam ny yr **rody ae chynhal. en wuy noc arweyn Gwed keythywet. En** e 6eynt honno e gordyfnassam ny y chaffael ae med6 hyt na **wdam ny 6fydha6 y keythywet. A honno hagen pey keyssynt** e dwywe6 y dwyn y kenhym. ny a lawuryem en 6eynt y **gallem oc en holl nerth oy hatael en e6 herbyn. Ac wrth hen**ny wl kessar byt etnebydedyc yth dyosparth ty en bot ny **en para6t y emlad yth erbyn ty o cheyssy ty dy6ot yr enys** honn megys ed wuyt en gogy6ada6 dy6ot ydy. **AC gwedy gwelet o wl kessar e llythyr h6nn6 en dyan**not paratoy y lyghes a or6c ac arhos Gwynt wrth eylen**wy oy weythret er hyn ar ry dywedassey y kasswalla6n** trwy y lythyr ae kennade6. A gwedy kaffael ohona6 ef **e dam6nedyc wynt dyrcha6ael hwylye6 a gwnaethant ac** y aber themys e de6th yr tyr ae lw gantha6. Ac 6al ed oedynt **e llonghe6 en kaffael e tyr enachaf kasswalla6n a holl ke**dernyt enys prydeyn kantha6 en dy6ot y kastell dorabel **en y erbyn. ac eno e kymyrth kyghor y gyt ae wyrda pa** wed ed emledynt ac ew gelynyon a pha ansa6d y ll6dynt **y kaffael e tyr. Ac eno e dothoed bely pen*teylw* kasswal**la6n a thywyssa6c y 6ylwryaeth a thrwy kyghor e gwr //

Llanstephan 1 t. 67
h6nn6 e gwneyt pob peth en e teyrnas. Ac eno he6yt e dothoedynt de6 neyeynt e brenyn. a6arwy 6ab llwd ty**wyssa6c ll6ndeyn a thene6an yarll kernyw. Eno he6yt e do**thoedynt e try brenyn a oedynt darestyghedyc yda6. nyt am**gen creyd6 brenyn er alban. a Gwerthaed brenyn Gwyned.** a brythael brenyn dy6et. Ar rey henny megys pa6b ar rodes **kyghor en newyd y kyrch6 Gwyr r6ueyn kyn kaffael ona**d6nt 6n dynas nac 6n kastell ar tyr enys prydeyn. ac e6elly **llaf6rya6 y keyssya6 e6 G6rthlad y emdeyth. kanys o cheffynt** wy dywot em*plyth* kedernyt e wlat anha6s a dyryssach **oed e6 gwrthlad. Ac ena o kyt*d6undep* kyghor pa6b wynt** a kyrchassant e traethe6 en e lle ed oed wl kessar ae lw en e6 **pebyllye6. Ac gwedy gossot ena e bydynoed o pob parth wynt** a kymyscassant e6 dehe6oed ac e6 gelynyon. a newydya6 **dyrnode6 ae gylyd. ar ergydye6 en erbyn e lleyll. A hep 6n** gohyr o pob parth e ssyrthynt er rey brathedyc ar ergydye6 **en e6 hemyscaroed. A chyn amlet er redey e tywarchen or** gwaet a chet bey dysse6yt dehe6 wynt en llyngh6 eyry yr **mor. Ac 6al ed oedynt e gwrthwynebedygyon 6ydynoed en** kymysc6 ef a damweynny6s trwy e tynghet6en ky6ar6ot **nynnya6 ac a6arwy 6ap llwd a gwyr ll6ndeyn ar rey** swyd keynt ed oedynt wynte en tewyssogyon arnad6nt **ky6ar6ot a bydyn er amhera6dyr. Ac gwedy e6 hymkymys**c6 y gyt er amherodra6l 6ydyn hayach a wascar6s rac e **brytanyeyt o tew 6ydyn en e6 kywarssangh6. Ac gwedy** e6 bot plyth tra phlyth en de6*dyplyg6* dyrnode6. e damweyn **ar rodes fford y nynnya6 y kaffael en6rya6 ae amhera6**dyr. Ac wrth henny kan dyr6a6r o lewenyd y kyrch6 a **gwnaeth nynnya6 kanys mwy no llawen oed kantha6** kaffael rody 6n dyrna6t yr ryw wr h6nn6. Ac y gyt ac //

Llanstephan 1 t. 68
y gweles wl kessar ef en kyrch6 y tayryan en kyflym a dyrche6ys en erbyn e dyrna6t. ac en e 6eynt y gad6s y nerthoed **yda6 ef a ossodes y cledyf ar nynnya6 ar y penffestyn.** Ac en e lle dyrcha6ael y cledyf a or6c a cheyssya6 er eyl dyr**na6t en ol e kyntaf. hyt pan alley rody aghe6a6l dyrna6t** yda6. Ac megys e gwyl nynnya6 henny ef a dodes y taryan **en erbyn e dyrna6t. Ac ena eyssyoes e tryg6s cledyf wl kessar** em pen nynnya6. ac ny all6s ef kaffael tynn6 y cledyf rac ka**letet e 6rwydyr kan e bydynoed en emkymysc6 ac en newydya6** aghe6olyon dyrnode6. Ac wrth henny nynnya6 a kymyrth cle**dyf wl kessar ac a wury6s y cledyf eh6n y 6rtha6. ac a chledyf** er amhera6dyr en y law er r6thr6s ef y elynyon. a phwy bynnac **a ky6arffey ac ef ar cledyf h6nn6 y trawey. ar neyll 6ydey** ae llad y penn y arna6 ae ente6 y 6ynet en 6rathedyc megys **na bey 6n gobeyth ohona6. Ac 6al ed oed nynnya6 ar wed** honno en dywalha6 en erbyn y elynyon enachaf labyen6s **tewyssa6c en ky6ar6ot ac ef ac en e lle ar e ky6ranc kyntaf** nynnya6 ae llada6d. Ac eyssyoes gwedy llythra6 er rann wuyhaf **or dyd e brytanyeyt o kywarssanghedygyon 6ydynoed a dygynt** r6thre6 glew kalet a dwu en e6 kanh6rthwya6 e wud6go**lyaeth a damweynny6s 6d6nt. ac wl kessar a kymyrth y** longhe6 ae pebyllye6 ae l6este6 en kedernyt yda6. Ac gwedy **dy6ot e nos ef a kyweyr6s y longhe6 ac a aeth end6nt ac a** wu lawen kantha6 kaffael e mor en lle kastell yda6. Ac gwedy **kyghory oe kytemdeythyon yda6 na chynhalyey emlad ar** brytanyeyt a 6ey hwy. ef a wu 6rth e6 kyghor ac a emchwe**l6s trach y ke6yn parth a ffreync.** AC gwedy henny kasswalla6n o acha6s e wud6golyaeth **honno y gyt a dyr6a6r lewenyd a tal6s dyolchdrede6** yr dwywe6. a gal6 atta6 y kytemdeythyon ar kytl6ryessynt //

Llanstephan 1 t. 69

ac ef ac en herwyd breynt pob 6n ae laf6r talw 6d6nt e6 gwassanaeth. o amlhaf rodyon. Ac or parth arall go6al6s oed kanys **nynnya6 y 6ra6t oed en 6rathedyc ac en pedr6s am y 6yw.** kanys wl kessar en wrwydyr ar rodassey dyrna6t hep all6 **medegynyaeth yda6. Ac or dyrna6t h6nn6 kyn penn e pymthec*6et*** dyd gwedy e wrwydyr e b6 6ar6. ac eg kaer l6ndeyn ker llaw porth **e gogled e cladwyt. y gyt a brenhynya6l arwylyant. Ac y gyt ac** ef en e bed e dodassant e cledyf a d6gassey ente6 y gan wl kessar **pan emladassey ac ef. Ac esef oed enw e cledyf h6nn6 aghe6 coch** kanys pwy bynnac a archollyt ac ef ny bydey byw. **AC gwedy emchwel6t o wl kessar y ke6yn ar ffo a dyscynn6** ohona6 ar traeth ffreync medylya6 a gwnaethant e ffre**ync gwrthwyneb6 yda6 a mynn6 gwrthlad y arglwyaeth** y arnad6nt. kanys wynt a tebygynt y 6ot en wannach megys **na bey reyt 6d6nt bot y o6yn ef arnad6nt. kanys chwedle6** kyhoed a dwyedyt em pob lle bot e mor en kyfla6n o lyghes **kasswalla6n en erlyt wl kessar. Ac wrth henny glewach** ed emrodynt y keyssya6 g6rthlad wl kessar oc e6 ter6yne6 **wynt. Ac y gyt ac e gweles wl kessar henny ny mynn6s ef** mynet em pedr6sder emlad ac wynt. namyn agory y trysor **a or6c ar rody da en dy6ess6r y po 6n ar neyllt6 onad6nt** ac e*6elly* e6 dwyn en tanganhe6ed ac en 6n ac ef. Ac y gyt **a henny yr pobyl ada6 rydyt ac yr rey ry kollassey tref e6** tat y hennyll 6d6nt. ac yr keyth ada6 rydyt. Ar gwr a oed gynt **en dywal megys llew. en a6r megys oen gwar en llawen en talw** er eyda6 y pa6b. Ac ny orffowyss6s ef o gwne6thyr e clayardrede6 **henny hyt pan tangnhe6ed6s ef pa6b ac e6 dwyn en 6n ac ef a** chaffael y arglwydyaeth arnad6nt megys kynt. Ac ena eyssyoes **nyt aey 6n dyd heybya6 hep koffa6 b6d6golyaeth e brytanyeyt** a ffoedygaeth wl kessar. a henny kan y watwaredygaeth. //

Llanstephan 1 t. 70

AC ena gwedy llythra6 dwy 6lyned parattoy eylweyth y lyghes a or6c wl kessar 6rth 6ynet tros er eygya6n y keys**sya6 dyal y sarhaet ae kewylyd ar kasswalla6n ac ar e brytanyeyt.** Ac gwedy kaffael o kasswalla6n gwybot bot en wyr henny kadarn**ha6 e keyryd ar kestyll ar dynassoed. ac e6 hatnewyd6 er rey a at6ey**ley onad6nt. a gossot marchogyon ar6a6c y e6 kad6 a gwnaeth. ac **em pob pryf porth en amkylch er enys gossot gwyr ar6*a6c*** a or6c y e6 gwylya6 ac y e6 gwarchad6. Ac eythyr henny ar **hyt kana6l themys e fford ed hwylyt parth a ll6ndeyn ef perys** gwne6th6r polyon heyrn ky6rasset a mordwyt gwr ac e6 ply**m6. a gossot er rey henny a dan d6fyr a phan delynt e llonghe6** megys ed elhey er rey henny trwyd6nt ac e peryclynt o henny. **Ac gwedy dar6ot henny kynn6lla6 a gwnaeth kasswalla6n** holl ye6enctyt er enys ag eg kylch er ar6ortyr arhos dy**6odedygaeth wl kessar ae lynghes kantha6.** AC gwedy dar6ot y wl kessar paratoy pop peth or a oed **reyt yda6 ef a kychwynn6s ar e mor y gyt ac aneyryf** amylder marchogyon kan darmerth6 ac awyda6 gwne6**th6r dam6nedyc aer6a or brytanyeyt. A henny hep amhe6** a gwnathoedynt pey ry delhey e6 llyghes en yach ganth6nt **yr tyr. Ac wrth henny ny allws ef dwyn y dyhewyt ar** . gweythret kanys hyt tra ed oedynt en hwylya6 ar hyt **kana6l themys en kyrch6 parth a ll6ndeyn ed aethant e6** llonghe6 ar e polyon heyrn ar ry dywedassam ny wuchot **a chan er rey henny e dyode6assant dyssy6yt perygyl aghe6**a6l hyt pan 6odassant hyt ar 6ylyoed o 6archogyon. kanys **gwedy tyll6 e llonghe6 ar e polyon heyrn henny e de6th** e d6fyr en me6n a ss6da6 e llonghe6 a dan e weylgy. Ac **gwedy kaffael o wl kessar gwybot henny y gyt a dyr**6a6r o laf6r a gof6t trossy er hwylye6 a or6gant parth //

Llanstephan 1 t. 71

ar tyr. Ar rey a 6uessynt en e 6eynt perygyl honno ac a kausant o 6reyd e tyr. A phan gweles kasswalla6n y ar glann **e tymhestyl honno arnad6nt llawenha6 a or6c o acha6s bo**dy e sa6l a 6odes onad6nt; a thrysta6 o acha6s dyanc er rey **ereyll. Ac gwedy rody arwyd o*hona6* oy kyt6archogyon kyr**ch6 er r6ueynwyr a gwnaethant en dyannot. Ac esef a or6**gant gwyr r6ueyn eyssyoes ket ry ky6arffey pery**gy*l* ac wynt ar er a6on y gyt ac e ka6ssant e tyr en **6ra6l g6rthwyneb6 yr brytanyeyt a chymryt e6 gle6der** en lle m6r y e6 hamdyffyn. ac aer6a dyr6a6r y meynt **a gwnaethant or brytanyeyt. ac eyssyoes mwy wu er hon** a ka6ssant. nor honn a gwnaethant. kanys llawer a 6odes **onad6nt. ac wrth henny lley oed e6 ny6er. Ar brytanyeyt** pob a6r mwyf6y 6ydey e6 ll6 kanys o pob lle ed em**kynn6llynt a mwy teyr gweyth oed e6 ny6er. Ac wrth** henny kan gwanha6 er rey ereyll e ka6ssant wynte6 e **6udygolyaeth. Ac gwedy gwelet o wl kessar ry or6ot arna6** y gyt ac echydyc oe ny6er ed aeth ar ffo en y longhe6. ac chym**ryt dyogel6ch e mor en amdyffyn yda6. Ac gwedy kaffael** gwynt herwyd o*hona6* dyrcha6ael hwylye6 a hwylya6 **hyt en traeth moryan. Ac eno ed aeth em mewn kastell ar** ry gwnathoed rac o6yn ky6ar6ot ac ef e kyfryw damweyn ar ky**6arf6assey gynt ac ef y gan e brytanyeyt. Ac esef e gelwyt e kastell** odnea. Ac esef acha6s y gwnathoed rac o6yn emchwel6t or ffreync **arna6 er eylweyth o delhey ar ffo y wrth e brytanyeyt megys** e weyth arall. Ac wrth henny ry gwnathoed ente6 e kastell h6nn6 **megys e galley ente6 gwrthwyneb6 yr 6rthpwyth pobyl honno** o cheffynt gwrthwyneb6 yda6 megys y keyssessynt gynt. **.C o acha6s kaffael o*hona6* e wud6golyaeth er eylweyth y** ar wl kessar kasswalla6n a kymyrth dyr6a6r o lewenyd //

Llanstephan 1 t. 72
enda6. ac a en6yn6s gwys tros pob lle en enys prydeyn y erchy oy holl wyrda dy6ot hyt en ll6ndeyn ac e6 gwraged y gyt ac wynt. **y tal6 gwylya6l anryded dyled6s y e6 tadolyon dwywe6. trwy er** rey ry ka6ssynt b6d6golyaeth or 6eynt r6ueynnya6l amhera6dyr **h6nn6. Ac gwedy dy6ot pa6b hep waradrygyant amra6aelyon** aberthe6 a or6gant ac y ladedygaeth er any6eylyeyt er amrodassant. **Ac ena aberth6 a gwnaethant de6 6geyn myl o warthec a chan**myl o de6eyt. ac o amra6aylyon kenedloed adar e sa6l ny ellyt **en ha6d y ossot en ryf. Eythyr henny deg myl ar r6geynt o** amra6aelyon kenedloed koedolyon bwyst6ylet. Ac en e lle gwedy **dar6ot 6d6nt perffeythya6 e6 hanryded yr dwywe6. or gwedy**llyon ar gormodyon wynte6 eh6neyn a wuytaassant megys e **gnetteyt en er ryw aberthe6 henny. Ac od yna er hynn a we**dyll6s or nos ac or dyd kanth6nt wynt ae trewlassant trwy **amra6aelyon gwaree6. Ac em*plyth* e gwaree6 henny ef a** damweynny6s de6 was ye6eync arderch a6c. e neyll onad6nt **en ney yr brenyn. ar llall en ney y a6arwy 6ap ll6d kyn**henn6 en gware palet ac or dywed llydya6 am e wud6golyaeth **Ac esef oed enw ney e brenyn hyrlas. ac enw e llall k6helyn.** Ac gwedy emlydya6 ac emkywethyl eskylf6 cledyf a gwnaeth **k6helyn a llad penn hyrglas ney e brenyn. Ac gwedy y lad** kynhyrf6 a or6c e llys oll. ac ehedec e chwedyl at kasswalla6n. **A llydya6 a chyffroy en 6a6r a or6c o acha6s lladedygaeth y** ney. ac erchy a gwnaeth y a6arwy rody k6helyn y dyodef **kyfreyth e llys arna6 rac mynet hyrglas en dy*dyal.* os** kam e lladessyt. Ac gwedy gwelet o a6arwy bot bryt **e brenyn en kyffroedyc en y erbyn pedr6ssa6 a gwnaeth** rody y ney en y ewyllys a dywedwyt bot llys yda6 ef ac **en y lys eh6n e dywedey ef delyw ohona6 ente6 rody** ya6n ae kymryt. o pa6b or a o6ynhey ya6n oy wyr ef. //

Llanstephan 1 t. 73
Ac wrth henny os keyssya6 ya6n a 6ynney ef y gan k6helyn ef a dywedey e mae en y lys ef en ll6ndeyn e dylyey ef **gwne6th6r ya6n tros y ney a henny o**

6reynt a hen dylyet yr kynhoes er hen wyrda. Ac gwedy gwelet o kasswalla6n **na chaffaey ya6n wrth y 6ynn6 ae ewyllys gogy6yda6 a thyg**h6 y a6arwy a gwnaeth ed anreythyey ente6 y ky6oeth ef **o tan a hayarn ony delhey wrth y ewyllys. Ac odyna trwy** lyt a bar bryssya6 a or6c kasswalla6n y anreythya6 ky6oeth **a6arwy. Ac a6arwy hagen pe6nyd trwy kyt*emdeythyon* a cha**rant en keyssya6 arafha6 yrlloned e brenyn. a cheyssya6 made6**eynt y kantha6. Ac gwedy na alley ef o nep fford en e byt kaffael** lleyha6 llyt e brenyn. medylya6 a or6c pa fford e galley ente6 g6r**thwyneb6 yr brenyn a daly en y erbyn. Ac or dywed gwedy nat** oed fford arall yda6 e gallaey ef g6rthwyneb6 yda6. ef a an6ones **kennade6 hyt ar wl kessar a llythyr ganth6nt ar synhwyr hon** end6nt. Y wl kessar a6arwy 6ap ll6d tywyssa6c ll6ndeyn **en an6on annerch ac gwedy dam6nedyc aghe6 dam6nedyc yechyt** a bwched. Edy6ar yw kenhyf y daly yth erbyn ty hyt tra 6uost **ty en kynhal emlade6 en erbyn 6e mrenyn y. kanys pey pey**ty6n y tydy a orwuass6t ar kasswalla6n. e gwr gwedy e **6eynt wud6golyaeth honno a ka6as trwy 6e nerth y a kym**yrth e 6eynt syberwyt enda6 hyt pan edyw en keyssya6 6e **nytreftad6 y am dyky6oethy am dyhol om ky6oeth a gorescyn** yda6 eh6n 6eg ky6oeth. A gwybyd ty nat e6elly e delyey **tal6 ymy. myfy en y ky6oethogy ef ac ente6 ym dyky6oethy** ynhe6. myfy er eylweyth ae kynhelyeys ef ar y ky6oeth. ac ente6 **en keyssya6 6eg gorescyn ynhe6. kanys myfy en k6byl en emlad** yth erbyn ty a gwneyth6m e pthe6 hyn oll yda6. A mynhe6 **a tyghaf y ky6oethe6 nef a dayar hyt nas heydeys hy onyt** na rod6n y 6e ney y dyodef bra6t y lys ef arna6. Ac eny 6o //

Llanstephan 1 t. 74
gole6ach ac egl6rach yth doethynep ty acha6s e wyryoned gwaranda6 ty a my a datkanaf yt er acha6s e mae y 6ar arnaf y. Gwedy **kaffael ohona6 ef e 6eynt wud6golyaeth honno trwy 6e nerth** y e gwnaetham nynhe6 gwylya6l lewenyd ac anryded y en **tadolyon dwywe6. Ac gwedy p**er**ffeythya6 o*honam* ny pob peth** or a perthyney ar e dwywe6 e damweynny6s er rwng de6 **neyeynt yn tyf6 kyfryssed am wud6golyaeth gwarae. palet** Ac gwedy kaffael om ney ynhe6 e wud6golyaeth. enynn6 a **or6c e llall o enwyr yrlloned a dyspeylya6 cledyf a cheyssya6** llad penn 6e ney ynhe6. Ac esef a or6c ente6 gochel e cledyf ac **en e kyfryssed h6nn6 eyssyoes syrthya6 ney e brenyn ar y cle**dyf ac e b6 6ar6. Ac gwedy kennatta6 henny yr brenyn gor**chymyn ac erchy y mynhe6 rody 6e ney y y dyodef bra6t y lys** ef en dyal y ney ente6. Ac gwedy nas rod6n ynhe6 6e ney en y **ewyllys ef e de6th ente6 ae holl lw kantha6 am pen 6e ky**6oeth ynhe6 ae anreythya6 ae losky. Ac wrth henny ed wyf **ynhe6 en erchy de tr6gared ty. ac en keyssya6 porth a nerth** y kenhyt ty y keyssya6 6eg ky6oeth ymy trache6yn hyt **pan 6o trwy 6e nerth ynhe6 am porth e gellych tythe6 gor**escyn enys prydeyn. Ac o hyn na phedr6ssa dym kanys **nyt oes dym twyll na brat en er amadra6d h6nn.** AC gwedy darlleyn e llythyr h6nn6 rac bron wl kessar kyghor **a kymyrth y gan y annwylyeyt hyt na chretey ef oy o6er** amadra6d ac nat aey ef y enys prydeyn ony chaffey ef gwystlon **a 6ey da kantha6 hyt pan 6ey dyogelach kyrch6 enys prydeyn.** Ac 6rth henny a6arwy 6ap ll6d a en6yn6s kynan y 6ap ac **y gyt a henny deg gwystyl ar r6geynt o 6eyby**on **e gwyr bonhedy**kaf en y ky6oeth oe annwylyeyt ae karant. Ac gwedy rody e **gwystlon en hyfryt wl kessar a kynn6ll6s y lw ac a kyweyry6s** y llyghes ac ar e gwynt kyntaf e dyscynn6s em porth rwyt6n. //

Llanstephan 1 t. 75
Ac en er amser h6nn6 ed oed kasswalla6n en dechre6 emlad a chaer l6ndeyn. ac en anreythya6 e gwladoed en y chylch. Ac y gyt **hagen ac e kygle6**

ef ry dy6ot wl kessar y tyr enys prydeyn emada6 a gwnaeth ente6 a ll6ndeyn a bryssya6 a or6c en erbyn **er amhera6dyr. Ac gwedy dy6ot ohona6 hyt ger llaw glyn** oed en agos y kaer keynt ef a gweles en e lle honno llw gwyr **r6ueyn ac e6 pebyllye6 ac e6 ll6este6 gwedy ry dyskynn6 en** e glynn h6nn6. kanys awarwy 6ap ll6d ae d6gassey hyt e **lle honno wynt y keyssya6 dwyn kyrch nos en dyrreb6d** am penn kasswalla6n. Ac ena hep 6n gohyr gwedy gwy**bot or r6ueyngwyr bot e brytanyeyt en dy6ot. en dyannot** gwysca6 amdanad6nt a gwnaethant e6 har6e6 a gossot e6 **marchogyon en 6ydynoed. Ac ena ed aeth a6arwy 6ap** llwd a phym myl o wyr ar6a6c y gyt ac ef ac em me6n **llwyn koet oed en agos 6d6nt emk6dya6 en h6nn6 hyt** pan 6ey odyno e galley gwne6th6r nerth a chanh6rthwy **dy wl kessar. Ac gwedy dar6ot yr brytanyeyt or parth arall** gwysca6 amdanad6nt ac empery. nyt annodassant o pob parth **newydya6 aghe6olyon dyrnode6 ac ergydye6. Emkyrch6 a** gwneynt e bydynoed ac ellwng e6 gwaet y redec. Ac o pob **parth e syrthynt e kalaned en 6eyr6 megys e syrthynt e** deyl y ar e gwyd mys hydref pan 6ey 6a6r e gwynt. Ac 6al **ed oedynt e6elly en emlad enachaf a6arwy 6ap ll6d ae 6edyn** kantha6 en ky6ody oy lech6a ac or t6 en y ol en kyrch6 bydyn **casswalla6n er hon oed en kynhal holl kedernyt e brytany**eyt. ac ar ry daroed y r6ueynnya6l 6edyn y hanreythya6 **or rann 6a6r ohoney. ac ara6rhon hep allel se6yll. en er**byn y chyt*ky6ta6dwyr*. Ac wrth henny kymryt ffo a or6**gant wy ac ada6 e maes. Ac en agos y henny mynyd oed ac** em penn e mynyd llwyn o koll tew a oed. Ac eno e ffoes kas- //

Llanstephan 1 t. 76
walla6n ae wyr. gwedy y dygwyda6 en er rann wanhaf or emlad. Ac gwedy kaffael ohona6 ef gowchelder penn e mynyd **h6nn6 en 6ra6l kynhal h6nn6 a or6gant a gwne6th6r aghe6** y lawer o e6 gelynyon. kanys e6 herlyt a gwnathoedynt er **r6ueynwyr ac a6arwy 6ap ll6d wynt kan brywa6 e6 by**dynoed ac en 6ynych e keyssynt kyrch6 ar e6 torr yr mynd ac **nys gellynt. kanys kerryc e mynyd ae orwchelder a oed amdyf**fyn yr brytanyeyt. a llesteyr yr gelynyon. ac o penn e mynyd **e gwneynt e brytanyeyt aer6a dyr6a6r y meynt oc e6 gely**nyon. Ac wrth henny sef a gwnaeth wl kessar kylchyn6 **e mynyd ae lw a mynn6 gwarchae kasswalla6n en e lle hon**no hyt pan 6ey reyt yda6 ae emrody en ewyllys er amhe**ra6dyr ae ente6 y warchae ena hyt pan 6ey mar6 o newyn.** Oy*a* dyw anry6ed kenedyl e brytanyeyt er rey dwyweyth a **kymhellassant wl kessar amhera6dyr r6ueyn ar ffo e gwr** a daroed yda6 darestwng a gorescyn er holl 6yt 6rth y kyghor **ac yr gwr ny all6s er holl 6yt g6rthwyneb6 yda6. ar bryta**nyeyt eyssyoes ar ffo oedynt en g6rtheneb6 yda6 ef. ac en pa**ra6t y dyodef aghe6 tros e6 gwlat ac e6 rydyt. Ac 6rth henny** e kant l6can em molyant e brytanyeyt or kessar. Ef a dan**gosses y ergrynnedyc ke6ynoed yr brytanyeyt. Ac ena gwe**dy llythra6 espeyt de6 dyd gwedy nat oed y kasswalla6n na ~~**oed**~~ **bwyt na dya6t ofynha6 a gwnaeth gor6ot arna6 em**rody eg karchar wl kessar. Ac wrth henny an6on a or6c kas**walla6n kennade6 hyt at a6rwy 6ap ll6d ac erchy yda6 ef y** tangnhe6ed6 ef ac wl kessar. rac o6yn kolly breynt e ke**nedyl ed hanoed o*honey*. Ac y gyt a henny he6yt mynegy** a gwnaeth yda6 ket ry6eley ef ar y ky6oeth ef hyt na myn**ney ef eyssyoes y aghe6 ef yr henny. Ac gwedy datkana6 or** kennade6 henny y a6arwy. ente6 a dywa6t 6al hynn. //

Llanstephan 1 t. 77
Ny deleyr kar6 e tewyssa6c a 6yd araf a gwar en ry6el megys oen. ac ar er hed6ch a 6yd dywal megys lleo. Oy*a* dwywe6 **nef a dayar 6y arglwyd y e gwr a oed kyn no hyn en med6** ohonaf y ar ara6rhon e mae en erchy ymy y tangnhe6ed6 ef **ar amhera6dyr. er h6nn a 6uassey dam6net kantha6 kyn**

no henny kaffael tagnehe6ed y kantha6 ef. Ac wrth henny e deley **ente6 anryded6 ac aryneygya6 e g6r a kymhell6s y gyt ac ef** amhera6dyr r6ueyn oe ky6oeth ac eylchwyl a all6s y dwyn **ydy trache6yn. Ac 6rth henny ny deleyt gwne6th6r kam** y mynhe6 e gwr a alley ena gwne6th6r e gwassanaeth h6n**n6. ac ara6rhon a allaf y tagnhe6ed6 ente6 ar amhera6dyr.** Ac 6rth henny andoethynep yw yr tewyssa6c gwne6th6r **kodyant a sarhaet oy 6archogyon ef trwy er rey e kaffo en** ente6 e 6ud6golyaeth. kanys nyt e tewyssa6c pye6 e wu**d6golyaeth namyn e gwyr a ellyghant e6 gwaet en em**lad trosta6. Ac eyssyoes my ae tagnhe6edaf ef ar amhera6**dyr. kanys o gwnaeth ef sarhaet ymy. dyga6n o ya6n** yw kenhyf ynhe6 y 6ot ef en erchy 6en tr6gared ynhe6. **Ac en dyannot ena ky6ody a or6c a6arwy 6ap llwd or lle** ed oed a bryssya6 a or6c hyt e lle ed oed wl kessar a dy**gwyda6 ar tal y glynye6 a or6c rac bron er amhera6dyr** a dywedwyt 6rtha6 ar e wed honn: Arglwyd ep ef dyga**6n ar ry gwneythost ty o dyal ar kasswalla6n. gwna wey**thyon tr6gared ac ef. Pa peth a keyssy ty y kantha6 ef am**gen ac 6uydyaeth yty a thal6 teyrnget y wyr r6ueyn o** enys prydeyn. Ac ena gwedy na rodey wl kessar 6n attep **yda6 ef. a6arwy eylchwy a dywa6t 6al hynn. Hynn ep ef** a edeweys y ac a am6odeys a thydy. sef yw henny dar**estwng kasswalla6n a gorescyn enys prydeyn 6rth te** kyghor ty. llyma henny gwedy ry gwne6th6r. llyma //

Llanstephan 1 t. 78
kasswalla6n en darestyghedyc. llyma enys prydeyn om kanh6rthwy y gwedy y goresky**n**. Pa peth a dely**a**f y y gwne6th6r amgen **no henny yty. Nyt ef a gwnel crea6dyr pob peth ymy gwedy e** gw**e**lhwyf y 6y ewythyr y am arglwyd 6renyn en erchy 6en tr6**gared y ac en gwne6th6r ya6n ymy or sarhaet a gwnaeth ef** ymy dyodet ohonaf ynhe6 byth y karchar6 ef a myfy en 6yw. **Nyt eska6yn llad kasswalla6n ne6 y karchar6 a myfy en 6yw. ka**nys nyt kewylyd kenhyf y rody 6e kanh6rthwy am porth am **nerth yda6 ef ony bydy ty wrth 6eg kyghor ynhe6 amda**na6 ente6. Ac wrth henny ena rac o6yn a6arwy wl kessar **a kymyrth kytd6h6ndep a thangnhe6ed a theyrnget pob** blwydyn y kan kasswalla6n o enys prydeyn. AC esef oed **eyryf e teyrnget a telyt or enys honn y wyr r6ueyn pob blwy**dyn teyr myl o p6nhyoed aryant. Ac o henny allan kytemdey**thyon 6uant wl kessar a chasswalla6n 6ap bely. kan rody o** pob 6n onad6nt oy kylyd amra6alyon rodyon a thlysse6. Ac **ena e gayaf h6nn6 e tryg6s wl kessar en enys prydeyn a phan** dechrewys e gwayanhwyn dy6ot ed aeth tros e mor hyt en **ffreync. Ac odyna gwedy henny em penn espeyt kynn6lla6** llw ma6r a gwnaeth o pob lle a mynet hyt en r6ueyn en er**byn pompey6s e g6r oed en kynhal er amherodraeth.** AC odyna gwedy llythra6 espeyt seyth mlyned e b6 mar6 **kasswalla6n ac eg kaer efra6c e cladwyt. Ac en ol kas**walla6n e gwnaethpwyt tene6an 6ap llwd y ney ente6 **6ap y 6ra6t en 6renyn yarll kernyw oed h6nn6 kanys** a6arwy 6ap llwd ry athoed y gyt ac wl kessar parth a r6**6eyn. Emladwr a ry6el6r da oed tene6an a gwr oed a ka**rey ya6nder a gwyryoned ac ae gwnaey a pha6b. Ac en ol **tene6an e gwnaethpwyt kyn6elyn y 6ap ente6 en 6renyn.** marcha6c gwychyr oed h6nn6 ac amhera6dyr r6ueyn ae //

Llanstephan 1 t. 79
....ssey ac a rodassey ar6e6 yda6. Ac wrth henny kymeynt . ... kantha6 ef karyat Gwyr r6uey**n** a chet galley ef attael **e6 teyrnget racd6n hyt nas attalyey.** AC en er amser ed oed kyn6elyn 6ap tene6an en 6renyn en er **enys hon e ganet yess6 cryst en arglwyd ny e gwr** yr y werth6a6r gwaet ef a prynn6s kenedyl dyn o keythy**wet aghana6c dyaf6l. Ac gwedy gwledych6 o kyn6elyn** enys prydeyn trwy espeyt dec mlyned e ganet de6 6ap **yda6. Sef**

oedynt er rey henny Gwydyr oed e map hynaf ydaw a Gweyryd oed e llall. Ac or dywed gwedy eylenwy o kyn6e**lyn dye6oed y wuchwed ef teyrngwyalen e ky6oeth a lly**wodraeth e teyrnas a dygw...s en llaw Gwydyr. Ac gwedy **.tael or Gwydyr h6nn6 e teyrnget a deley y tal6 y gwyr** r6ueyn ef a de6th Gloew kessar er h6nn a oed en kynhal **er amherodraeth a llw ma6r kantha6. Ac y gyt ac ef e do**thoet haymo tewyssa6c y lw ef oed h6nn6 a thrwy kyg**hor h6nn6 e gwneyt ac e ll6nyethyt pob peth or a gwne**lyt. Ac ena gwedy dyskynn6 Gloew kessar em porth kaer **perys ef a dechrewys kayw pyrth e dynas a mwr maen** a ll6dyas e kywda6twyr y dy6ot allan. kanys ef a 6ynney **e6 kymhell y wed6 yda6 ne6 ente6 hep tr6gared e6 gwar**chae en e lle honno hyt pan 6ydynt meyr6 o newyn. **AC gwedy bot en honnedyc dy6odedygaeth gloew kessar yr** enys honn Gwydyr en dyannot a kyn6ll6s holl 6archogyon **enys prydeyn ae holl wyr emlad ac en erbyn gwyr r6ueyn e** de6thant. Ac gwedy gwysca6 a bydyna6 en dyannot kyrch6 gwyr **r6ueyn a or6gant ...ychyr dechre6 emlad a or6c Gwydyr** ... a ladey ef eh6nan ae 6n cledyf oe elynyon noc a ladey er ran **... oe lw. Ac pob a6r e medylyey Gloew kessar ffo a** ... y longhe6 ar r6ueynwyr en holla6l en gwaskar6. pan //

Llanstephan 1 t. 80
aeth e twyllyr gan haymo a b6r6 y ar6e6 eh6n y amd... mryt ar6e6 6n or brytanyeyt a ladydoed amdana6 ac en ryth **6n or brytanyeyt emlad ae wyr eh6n ac annoc e brytanyeyt** y emlad megys ket bey 6n onad6nt 6ey ef a dywedwyt bot e **wud6golyaeth ar Gor6ot en e6 llaw o pherheynt en emlad megys** ed oedynt kanys yeyth e brytanyeyt ac e6 moes a dyskassey ente6 **en r6ueyn em plyth gwystlon e brytanyeyt en r6ueyn. kanys em**plyth e megessyt. Ac odyna trwy blyth e bydynoed dynessa6 a or6c **hyt pan 6yd kerllaw e brenyn gwedy kaffael ohona6 ef lle ...**amser y gyt ae cledyf llad penn e brenyn a or6c. Ac odyna y gyt ar **eskym6n wud6golyaeth honno llythra6 a or6c trwy 6n trwy** arall hyt pan 6yd emplyth y lw eh6n. Ac ena e de6th Gweyryd **brenyn ac gwedy gwelet o*hona6* y 6ra6t gwedy ry lad en e lle** dyot y ar6e6 e eh6n a or6c a Gwysca6 ar6e6 e brenyn amdan...**ac en e lle annoc e brytanyeyt a or6c a gyrr6 grym ac angerd** end6nt ac erchy emkadaraha6 en emlad megys ket bey ef 6ey **Gweyryd. ac ena e brytanyeyt emkadarnhe6 a gwn...** 6rth y annoc ef megys ket bey ef 6ey Gwydyr kanys ... **ettwa ry lad e6 brenyn. Ac or dywed eyssyoes llyth...** er r6ueynwyr en dwy rann ac en depryt Gw... **e maes. Ac ena ed aeth Gloew kessar ar rann oe lw y gyt ac ef** a chymryt y longhe6 en kederny a dyogel6ch yda6 a haymon **rann arall y gyt ac ente6 a ffoassant yr koedyd ac ...** kany cha6ssant o espeyt mynet en e6 llonghe6. Ac ena ...**a gwnaeth Gweyryd bot er amhera6dyr en er rann ...** llw a bryssya6 a or6c ente6 ac e6 herlyt wynt o le pwy gylyd hyt **pan y godywa6d wynt ar glan e mor y lle gelwyr ara6rhon ...** enw ef porth ham6nt. ne6 ente6 s6dhampt6n. kanys eno ed **oed porthloed a dyskyn6a adas y longhe6 ac eno ed oedynt ...** o newyt longhe6. ac en er rey henny e mynnassey haymon ... //

Llanstephan 1 t. 81
end6nt pan de6th Gweyryd en dysse6yt am y penn. ac en dyannot y lad. Ac wrth henny e gelwyr e lle honno yr henny hyt hedyw porth ham6nt. **Ac en henny Gloew kessar Gwedy emkynn6lla6 y kytemdeythyon** atta6 a dechrewys eylweyth emlad a chaer perys er hon a elwyr **ara6rhon porthcestyr. Ac gwedy kaffael e dynas a gwaskar6 y** m6roed erlyt Gweyryd a or6c hyt eg kaer wynt. a damkylchyn6 **e dynas ac y gyt ac amra6aylyon peyryanhe6 emlad ar dynas. a chey**ssya6 y dywreydya6 ae chywarssang6. Ac Gwedy gwelet o weyryd **gwarchae e dynas arna6 kyweyrya6 y lw a or6c ente6 trwy**

nyt m6y nyt lley. or deudec maynaul a dyly uot yn y kymut. pedeyr a uyd o ueybyon eyllyon y borthy kun a meyrch a chylch a dooureth. **ac un kyghelloryaeth ac un uayrony ar lleyll yn ueybyon uchelwyr** rydyon. Ac or

6yth hynny y dyly y brenhyn gwestua pob bluydyn. Sew **yu hynny punt o pob un onadunt. a honno a rennyr. try ugeynt ar** pob trew. or pedeyr a uyd yn y uaynaul ac y*uelly* o petwareran buy gy**lyd y rennyr yny el ar pob er6 or tydyn y ran. a honno a elwyr y punt** tug ar gostecwr a dyly y chymell pob bluydyn. a chymeynt a hynny **or kymut arall. ac y*uelly* y byd kyulaun y cantrew. Meyrydyon a chy**ghelloryon a dylyant kyureythyau eu g6lat. a gwneuthur y dadleu **ac a dylyant hanner o pob peth yn erbyn y brenhyn eythyr o try pheth** gwerth tyr a gwerth lleydyr a gwerth keleyn. kyghellaur a dyly **rann6 y rygthau ar brenhyn. a dewys yr brenhyn. maer y rygtha6** ar kyghellaur. y maer ar kyghellaur a dylyant bot deu was gan**thunt y wneuthur eu negesseu a deu ereyll yr brenhyn. ac a dylyant** d6yn kylch ar eu petweryd ar ueybyon eyllyon y brenhyn d6yweyth **yn y wluydyn a hanner ebedyu meybyon eyllyon a hanner amobyr** eu merchet a dylyant. maer a chyghellaur a dylyant kyweyryau me**ybyon eyllyon ar eu tyr kyuryw pan uo mar6 un onadunt ac a dylyant** cadu dyfeyth brenhyn. a thygu drostau ban uo reyt. ac o dewnydya **ew 6ynt a dylyant eu suyd arna6. ny dyly na maer na chychellaur** bot yn benkenedyl namyn o uchelwyr eu gwlat. ny dylyir pen*kene***dlaeth o uam6ys. pen*kenedyl*** **a dyly pedeyr ar ugeynt gan pob g6r** a uanho cares ydau. canys hytheu ehun a dal y hamobyr. ac a dyly pe**deyr ar ugeyn y gan pob mab a gymero y kenedyl. ac a dyly ymyrru** y gyt ay gar ym pob reyt a del arna6. nyt oed gobyr muryedyc y **uab uchelwr yn dadleu namyn herwyd y mynho yr argluyd y rody** ydau. y uaynaul y taler tung o*honey* ny dyly yr argluyd nay mel. **nay pyscaut canys med a delyr o*honey*. ac y gyt ar med pedeyr ar u- //**

BL Add. 14931 t. 61

geint o bop maynaul a delyr a hunn6 a elwyr aryant y g6ynos ac mal y rennyr y punt tung y rennyr hunn6. ny dylyir gossot ar y may**noleu ryd na maer na chyghellaur na chylch na doowreth na dym .** namyn a dywedassam ny uchot. eythyr kylch maer yr teulu y gay**aw. ny dyly y brenhyn duyn lluyd or wlat allan. namyn 6nweyth** pob bluydyn. ac ny dyly bot yn hunn6 namyn pytheunos a mys yn y **wlat ehun ryd yu ydau lluyd pan uynho. paub a dyly gwneuthur** gweyth kestyll pan uynho y brenhyn. eythyr gwyr y uaertrew. ny **dyly meybyon eyllyon y brenhyn y porthy na porthy y teulu. a chany dy**lyant uynteu porthy ny dylyant 6ynteu nac eu mel nac eu pyscaut **namyn y lys y brenhyn. ac ew a dyly o myn gwneuthur coredeu ar** eu dyuret a llad bydaueu. 6n or meybyon eyllyon a dyly bot yn uaer **bysweyl. 6ynt a dylyant roy pynueyrch yr lluydeu. ac a dy**lyant anrydedu yr argluydes un*weyth* bop bluydyn ar wuyt a dy**aut. ac a dylyant porthy y k6n ar kynydyon ar hebogyon ar ma**cuyueyt pob un onadunt un weyth pob bluydyn. ac o byd alldudyon **gwlat arall yr brenhyn ay yn wyr ydau ay yn arhos gwynt ay am** betheu ereyll ew a dyly os myn eu gossot yn dooureth ar y meybyon **eytllyon herwyd eu gallu. Ar alltudyon hynn a dylyant a dangos**soent o da yr mab eyllt pan deloynt yr ty y gafael oll pan elhoynt o**hana6. ac o chyll y dalu udunt. eythyr try pheth a dylyant y gad6 gan**thunt. e hun nos a dyd. sew yu hynny eu llodreu ac eu cledyueu **ac eu menyc. Ac ny dylyant eyghyau namyn y nos gyntaw o chahant** bara ac un enllyn. meybyon eyllyon y brenhyn a dylyant gwneuthur **seyth tey yr brenhyn. Sew yu y reyn hynny y neuad ar buyt*ty* a che**gyn a hundy a marchty a ty bychan. y brenhyn a dyly o pob byleyndrew **g6r a b6yall y wneuthur lluesteu yn y lluyd. maer y bysweyl ny dy**ly daly dadleu namyn ar wyr y uaerdrew namyn erbynnyau da y **brenhyn y gan y meyrydyon ar kyghelloryon ac ew a dyly rody pede- //**

BL Add. 14931 t. 62

yr ar ugeynt yr gostecwr pan estynher mayrony ydau. gwassanaythwyr y maer ar kyghellaur a dylyant hebrug y da ar y maer bysweyl **y maer bysweyl a dyly kyweyryau llys y brenhyn. oy me6n ac a ber**thyno atey mal eredyc a heu ac arheyl yscrybyl y brenhyn ay hauodyd. **a petheu ereyll a uo reyt. ac ew a dyly cospy gwyr y uaertrew am eu** haghyureythyeu ac eu dyruy ac eu camlur6 ac eu hebedy6 ew ay dyly **ac amobyr eu merchet y wreyc ay dyly. y porthaur a dyly kymell amo**byr ac ebedy6 y reyn hynny. a phedeyr ceynnyauc ydau o bop un onadunt **y maer bysweyl a dyly pedeyr ar ugeyn y gan y porthaur pan estynher** y suyd ydau. ac ew a dyly tyghu dros dyr burth y llys ay hanuot tyr o byd **reyt eu hamdyfyn ac 6y ac a berthyno arnadunt. gwyr y uaertrew** a dyly gwneuthur odyn ac yscubaur yr brenhyn ac eu dywallu pan **uo reyt. 6ynt a dylyant talu t6ng eu tyr yn llau y maer bysweyl. ac** a dylyant y borthy duyweyth yn y wl6ydyn. 6ynt a dylyant dyrnu **a chrassu a medy a llywnu a llad gweyr y cheyssyau gwellt a chyn**nut y gnyuer gweyth y del y brenhyn yr llys. ac uynt a dylyant an**rydedu y brenhyn pan del yr llys herwyd eu gallu. ay yn deueyt ay** yn 6yn ay uynneu. ay ar gaus ay ar emenyn ay ar laeth. O dyryd **mab uchelwr y uab ar uab eyllt argluyd ar ueythryn gan y gannyat** neu gan y dyodew un dyd a bluydyn ohana6 hunn6 a dyly ran mab o **tyr y mab eyllt ac oy da gwedy hynny. O pob maynaul ryd y brenhyn** a dyly keruyn ued nau dyrnuet yn y hyt yn amryscoy6. ac ony chefyr **y med duyn y bragaut. ac ony chefyr y bragaut pedeyr o g6ryw. ny** dyly bot er6 dyfodedyc yn tyr kyuryw. Puy bynnac a dorro teruyn y **rug duy drew oy eredyc. y brenhyn a dyly yr ychen ay hardo ar gwyd** ar heyrn a gwerth y troet deheu yr amaeth a gwerth y lla6 ass6 **yr geylwat. a phedeyr ceynnyauc yr neb pyefo y tyr a chyweyrya6** y teruyn ual kynt. Puy bynnac a ardo tyr yn aghyuarch. talet pe**deyr ceynnyauc yr nep pyeyfo y tyr a cheynnyauc am pob k6ys a ar- //**

BL Add. 14931 t. 63

der ar aghyuarch yr brenhyn. O deruyd ymderuynu y rug deu ur gymreynt am tyr ar neyll rey yn teruynu hyt racu ar lleyll hyt yma a tygu o **bop rey yna y mae yaun yr gyureyth rannu deu hanner. Puy bynnac a dy**co maen teruyn yrug duy drew talet un ugein ar dec y berchen y tyr ach **camlur6 yr brenhyn. ac yuelly am ford a gatwo y teruyn gan emyl y** ford. Messur gwestua y brenhyn yn amser gayaw o uaynaul ryd. Sew **yu hynny pun march or blaut goreu a dyuo ar y tyr a buuch neu ych a do**gyn keruyn o ued nau nyruet yn y hyt ac amryscoy6. ar gymeynt arall **yn y llet. a seyth dreua o geyrch un ruym yn ebran. a huch teyr bluyd ac** enhorob hallt a llet try uys yn y thewet. a llestyr emenyn try dyrnued yn y **hyt hep y uoel. a thry yn y let. ac ony ellyr cafael hynny punt amdaney.** a honno yu y punt tung. a pedeyr ar ugeyn y wassanaythwyr y brenhyn **ony ellyr cafael hynny; duy o uragaut. ony ellyr y bragaut pedeyr o .** g6ryw. a hynny a dau o bop maynaul ryd yr brenhyn. sew ual y rennyr **y punt honno chwe ugeynt yr bara a try ugeynt yr llyn. a try ugeynt** yr enllyn. Or maynolyd caeth y dylyr deu da 6n buyt pob bluydyn. y **gayaw huch deyr bl6yd a llestyr emenyn try dyrnued hyt a thry llet.** a dogyn ker6yn o wrac y bo nau dyrnued ym amryscoy6 a dreua o hyd **un r6ym yn ebran. a chwe thorth o uara goreu a tyuo ar y tyr. o byd** gwenythdyr chwech onadunt yn beyllyeyt. ony byd gwenythtyr **chwech yn rynnyon. pedeyr onadunt parth ar neuad. a duy parth ar** ystauell. Ac yn gyulet ac o elyn hyt ar y durn. ac yn gyn dewet ac na **plycey yr eu daly erbyn y deu emyl. a dyn a geneuho tan yn y neuad yn** y nos honno neu geynnyauc y dyn ay kynneuho drosdau. Messur da**un buyt yr haw mollt teyr bluyd a mannat emenyn cy6let ar dys**gyl letaw a uo yn y trew a chyn dewet ac y bo deu ~~o~~ uoeldyrnuet yn**dau. a chwe thorth ar ugein or ry6 uara a dywedassam ny uchot.** keulau

llaeth a uo o ludyn blyth yn y drew y gyt ac eu godro unwe**yth yn y dyd ac na odroher namyn yr un weyth honno y cossyn a wne //**

BL Add. 14931 t. 64
ler or llaeth hunn6 heb urac heb ebran hep dyn y gynneu tan maer a chyghellaur a dylyant kylch d6yweyth yn y bluydyn a deu was gan bop un **ac yr kyghellaur dewys y ty. ac ny dylyant kylch yr haw.** Rey y*syd* ar pedrus am ueychyogy gwreyc o llygryr pa beth a dylyir **amdana6 ay uynebwerth ay ynteu galanas. kyureyth a dyweyt pa**nyu galanas a dylyir amdanau. a llyna yu yr achaus. yn y tri mys kyntaw **y byd gwyn ew ac yna y byd trayan galanas arnau. yn yr eyl tri mys y** byd rud ew ac y byd deuparth galanas arnau ac yn y tri mys dywethaw **y byd cyulaun ew oy aylodeu. ac o eneyt ac y byd galanas kubyl arna**6. Rey a dyweyt nat yaunach talu galanas gur no galanas gwreyc **cany wys beth yu ew ay gur ay gwreyc y gyureyth a dyweyt bot yn yau**naw barnu yn ol y peth a bot galanas gur arnau a hynny yny uedydyer. **a llyna yr achaus pob dyn a holer y alanas a dylyir y enwy erbyn y hen6.** na gur uo na gwreyc. Ac na ellyr enwy nep erbyn y hen6 yny uedydyer **ac urth hynny y mae dyr y uot ynteu ar ureynt gur yny uedydyer. O hyn**ny yny uo seyth mluyd y dyly y tat tyghu a thalu drostau. eythyr na dyly **talu na dyruy na chamlur6 yr brenhyn drostau. kany dyly y brenhyn** na dyruy na chaml6r6 am anuodeu nac am weythret dyn yn6yt ac **nat oes buyll ganthau ynteu. ew a dyly hagen dyeyssywau y colledyc** or eydau. o ben y seyth blyned allan ew ehun a dyly tyghu dros y weythret. **ay dat byeu talu canys yna yd a a dan lau y beryglaur ac y cymer gwe**deu arnau. Or pan anher mab yny uo pedeyr bluyd ar dec y dyly uot **urth noe y tat. ay dat yn argluyd arna6 ac ny dyly cosp arnau namyn** 6n y dat. ac ny dyly medu un geynnyauc yn hynny o amser namyn a **uedho y tat. ac ny dylyir marudy keuoet maru namyn bot yn eydau** y tat y da. a uo yn y warchadu. y tat yn hynny o amser a dyly atep dros**tau. O byd mar6 y tat y wluydyn gyntaw y ~~bo maru~~ ganer y mab ew** ehun a a y mreynt y dat. ny dylyir talu ebedy mab ny uo pedeyr bluyd ar **dec ay dat yn uy6. Gwedy yd eley y mreynt y dat. ew ay tal. ym pen //**

BL Add. 14931 t. 65
y petwaret ar dec wluydyn y dyly y tat duyn y uab ar yr argluyd ay orchymyn ydau. ac yna y dyly ynteu gurhau ydau a bot urth ureynt y **argluyd ac ehun byeu ateb drostau o bop haul a ouynner yda6 ac ehun** byeu medu y da. ac ny dyly y tat y uaydu m6y noc estraun. ac os maed **gan guynau or mab racdau ew a uyd dyruyauc ac a wna yaun ydau oy** sarhaet. O byd maru mab o bedeyr bluyd ar dec allan ac na bo edyued y**dau y argluyd byeuuyd y da yn gubyl ac a dyly bot yn lle mab ydau. a ma**rudy uyd y ty. ac or oet hunn6 allan y byd un ureynt a bonhedyc canhuy**naul. canyt oes ureynt yda6 namyn y uonhed. ac nat esgyn ynteu y ure**ynt y tat y ny uo maru y dat. ac na byd marchauc nep yny esgynno. gwerth **bonhedyc canhuynaul yu teyr bu6 a try ugeyn m6u o warthec. y sar**haet yu teyr bu6 a try ugeynt o aryant. Os gur ar teulu uyd ynteu **y werth yu pedeyr bu6 a petwar ugeyn m6u. y sarhaet yu pedeyr bu6 a** pedwar ugeyn aryant. Merch wedy bedydyer yny uo seyth ml6yd ny **dyly mynet yn ll6. Or pan anher yny uo deudeg mluyd y dyly uot urth** noe y tat oy deudec mluyd allan y dau broneu a chedor arney ac y blo**deuha ac yna y byd oet y rody y 6r. Ac o hynny allan keny chafo 6r y** dyly medu yr eydy. ac ny dyly bot urth noe y tat onyt ew ay myn ac **ny dyly y tat talu amobyr dros y uerch o*nyt* ehun a ryd rodyat arney.** canys pob rodyat ar wreyc a dyly talu y hamobyr neu ynteu a gymero **kymhendaut y gan y wreyc a roder y ur. O deruyd duyn gwreyc** lathlut o dy y that hyt yn ty arall ac yno kysgu genthy. gur y ty hu**n6 a dyly talu yr amobyr ony chymer uach y gan y gur ay duc yn**

ł llathlut ar y dalu. yn y deudec mluyd y dyly gwreyc blodeuau megys **y dywedassam ny uchot. ac oy deudec mluyd hyt y pedeyr ar dec y dyly** uot heb ueychyogy. ac o bedeyr ar dec hyt yn deugeynt y dyly ymduyn **ac o hynny allan nyt a galanas arney ac nyt a llu arney na bo plant** ydy canys dyheu na byd uyth. Puy bynnac a uynno gwadu mab yn **gyureythyaul nyt reyt ydau y wadu yny dycher ydau yn gyureythyaul. //**

BL Add. 14931 t. 66
gesseuyn canyt reyt y nep atep yn anolo kanys anolo yu pob peth ny uo kyureythyaul. Pa wreyc bynnac a uynno duyn mab yn gyureythy**aul ual hyn y mae ydy y duyn. dyuot hy ar mab yr egluys y bo y** guydua yndy a dyuot hyt yr allaur a dody y llau deheu ar yr allaur **ar creyryeu ar llau assu ar ben y mab ac y*uelly* tyghu y du6 yn y bla**en ac yr allaur honno ac yr creyryeu da y*syd* arney ac y uedyt y mab **nas ry creus tat y callon mam y mab hun yman namyn y gur ar** gur erbyn y hen6 ym kallon y. ual hynny y dylyir duyn mab y gy**mro. Ac ual hyn y dylyir duyn mab y alltud dyuot yr egluys y cy**mero duuyr suyn ay uara eferen ac yna y duyn ydau megys y dy**wetpuyt uchot. yna y mae yaun yr tat gwneuthur un o deu peth** ay kymryt y mab yn gyureythyaul ay y wadu yn gyureythyaul **os y wadu a uyn yaun yu ydau dyuot hyt yr egluys ry dywedassam** ny uchot a dody y lau deheu ar yr allaur ar creyryeu a uo arney ar **llau ass6 ar ben y mab ac y*uelly* tygu y du6 yn y blaen ac yr allaur** honno ac yr creyryeu da ysyd arney ac yr gur ay gwahan6s ew **o creedygaeth tat a mam nas creus y mab hunn6 yg kal**lon gwreyc eryoet ac nat oes dauyn oy waet ew yndau onyt. **o adaw. O deruyd ydau ynteu ceyssyau oet am y l6 nys dyly na**myn hyt trannoeth. O deruyd ydy hytheu ceyssyau oet y geys**syau creyryeu ny dyly hy oet namyn trydyeu. cany dyly hy gey**syau creyryeu namyn yn y kymut hunn6. O deruyd y tat gwa**du mab o genedyl gwedy dycher ydau ny eyll hunn6 gafael tat** uyth wedy hynny. Sew achaus yu y uam ay duc ew yn gyureyth**yaul yr tat ay gwadus ac urth hynny ny eyll hytheu y duyn ew y** tat arall eylweyth uyth. y tat ry gwadus yn gy**ŧ**wreythyaul ny **byd karrdychwel ynteu ar hunn6 byth dray geuyn canyt at**wna y gyureyth a wnel. y mab hunn6 weythyon urth genedyl **y uam yd a y ureynt. ac o llad ew dyn kenedyl y uam ay tal. //**

BL Add. 14931 t. 67
y deuparth yr alanas arnau ynteu yn llourud ac o lledyr ynteu 6ynt a dylyant deuparth y alanas ew a hunn6 a elwyr yn un o dygyn**goll cenedel. arall yu bey darfey y ur llad gur arall. a meychyeu o genedyl** y llowrud ar yr alanas. a chyn talu yr alanas duyn oy uam y llowrud y **tat arall. y gyureyth a dyweyt pany6 y genedyl a ueychyus ar yr a**lanas byeu y talu. O deu achaus o wneuthur hy gywlauan hyt tra uu **ew ar eu breynt huy. ac o dylyu talu or nep a ueychyus. trydyt yu o ro**dy cymraes y alltud. a bot mab ydy or alltud. a llad o hunn6 dyn deu**parth yr alanas a dau ar genedyl y uam. y trayan ar y llowrud a** hynny urth nat oes kenedyl tat ay talo. a hunn6 a elwyr yn war**thec dyuach. urth uot yn dyt dyueychyau ar y gwarthec hynny ka**nys ar warthec y telyr pob tal gynt. y deu uab ry dywedassam ny uchot **un ureynt ac un sarhaet ac unwerth ynt a bonhedyc canhuynaul. Mab** doolew a uyd a mab dyodew. Sew yu mab doolew mab a dyweto gwre**yc ar y thauaut leueryd y uot yn uab y ur ac nas dyco yr dygyn hunn6** a ellyr y wadu pan uynher. Mab dyodew yu mab a dyco gwreyc y ur **yn gyureythyaul. a dyodew or gur hep y wadu un dyd a bluydyn. ny** eyll y wadu o hynny allan yn yr yg byth. ac o deruyd y hunn6 gwne**uthur kywla6an ny ellyr y wadu yn yr yg cany waduyt ar yr yng.** urth y uot yn uab dyodew. ket boet breynt y tat y uab alltudes ay y **wadu ohonau alldut uyd. y mab ket boet alltud a uynno gwadu mab**

cymraes ay wadu bonhedyc canhuynaul uyd y mab. kanys urth ureynt **y uam y byd o hynny allan. tat a eyll gwadu y uab trannoeth wedy** y dywyco y gywlauan. drostau os myn. O deruyd y uab rody da yr **meythryn mab ny dyly y wadu o hynny allan. O deruyd maru y tat** pen kenedyl a eyll y wadu ar y seythuet oy genedeyl ual y gwadey y **tat ac yn yr un egluys a seythwyr o oreu gwyr y genedyl. gan eu ll6** 6ynteu bot yn lan y lv ew. Ony byd penkenedyl un gur ar ugeynt o **oreu gwyr y genedyl oy wadu. kyureyth gwyr powys dec a deuge- //**

BL Add. 14931 t. 68
ynt y wadu mab o genedyl. Ny eyll nep a dyg6ydho tyr y mab yn y la6 y wadu. Ny eyll braut gwadu y gy*lyd*. ac ony byd braut ny eyll **keuynder6. ac ony byd keuenderv ny eyll kyuyrd6. rac y wadu yr** yr eydau onadunt. ac ny dyly nep or a dylyo trew y tat ew gwedy y **gwater ny dylyant y wadu. O deruyd bot rey o genedyl mab yn y ~~6~~**wadu ac ereyl yn y gymryt. yaunaw yu credu yr nep y*syd* yn y gymryt. **gan eu ll6 nat yr gobyr nat yr gwerth y maent yn y gymryt. canys** gnotaw yu gwadu mab yr trew y tat. Pob braut a eyll gwadu y chwa**er onyt yn un lle sew yu hynny pan ranher da y mam neu y tat o che**ys y gwadu hytheu yr y ran or da ny ellyr. ac y*uelly* pob alltud a eyll ~~o~~ **gwadu y uraut. neu y chwaer onyt ran kyuran da ac uynt eu tat neu** eu mam. neu rac dywuyn eu kywlauan. 6al hyn y dylyir kymryt **mab yg kenedyl y tat ehun a eyll y gymryt gwedy as dico y uam ydau** ony byd y tat y pen*kenedyl* ar y seythuet a eyll y gymryt. o oreu gwyr **y genedyl. y pen*kenedyl* byeu kymryt duylau y ~~yn y lau~~ y rung** y duylau ynteu a roy cussan yda6. canys cussan yu aruyd kerennyd. **ac wedy hynny roy llau deheu y mab yn llau yr hynaw or gwyr ereyll.** a roy o hunn6 cussan ydau ac y*uelly* o lau y la6. hyt y gur dywethaw **Ony byd penkenedyl 6n gur ar ugeynt o oreu gwyr y genedyl a ky**mryt y mab or gwyr a uo yn lle yr argluyd erbyn y lau deheu ay roy yn **llau yr hynaw or gwyr a roy or hynaw yn lla6 yr eyl hynaw ac yue**lly o lau y lau hyt y gur dywethaw. herwyd gwyr powys dec a **deugeynt ay kymer. Nau afeyth galanas. kyntaw** yu onadunt mynegy y dyn a ladher yr dyn ay lladho a hunn6 a elwyr **yn tauaut rud. yr eyl yu rody kyghor oy lad. y trydyd y6 kyssynnyau** ay lad am bop un or try affeyth hynny o gwedyr llu canhur ay gwa**ta. Os y adew a wna dyn talet nau ugeynt. Petweryd yu bot yn edrychy**at. Pymhet yu kyweythas ar llowrud. chwechet yu mynet yr **drew y bo y dyn a ladher yndy y gyt ar llowrud. y wadu pob un o hyn- //**

BL Add. 14931 t. 69
ny ll6 deu canwyr neu denau ugeynt ot adeuyr. Seythuet yu bot yn porth orduy. 6ythuet yu daly y dyn yny del y llowrud yu lad. nau6et yu gwe**let y lad. yny uyd; ac nas dyfero. am pob un or try hyny o gwedyr ll6** try chanwyr oy wadu neu try nau ugeyn aryant. Ot adeuyr rey a dy**weyt dylyu or genedyl y da hunn6 ar gwat y gwat y gyt ac ew. sew** achaus yu urth dylyu onadunt huy nyt yn achaus yr affeythyoed hyn**ny y lad eu car 6y dylyu onadunt huynteu hynny o da. ac y wadu gwa**et a gwely a llad eu car dylyu onadunt y reyth ry dywedassam ny u**chot. y gyureyth eysyoes a dyweyt na dyly nep y gwat ar da ac nas** dylyant huynteu y gwat hunn6 ar da. kany ~~r~~ dyly y genedyl namyn **sarhaet eu car ay alanas. ac nat oes yn hynny na dyrchaw na gossot.** na gwaet na gwely na choll eneyt. ar lle ny bo hynny nyt oes na **sarhaet na galanas. ac urth hynny ny dyly y genedyl dym. cam yu** gwneuthur yr affeythyoed uchot ac urth hynny yr argluyd a dyly **camlur6 amdanadunt. herwyd meynt yr affeyth. 6n yn undyblyc** arall yn deudyblyc arall yn try*dyblyc*. cany bu ymlad yno pey ymlad **a uey yno dyruy yr argluyd a uydey. sew oed y messur teyr punt neu** deudec mu6. messur camluru teyr bu6 neu

nau 6geynt aryant. P6y **bynnac a uo llowrud galanas cubyl a dyguyd arna6. ac ual hyn y re**nnyr galanas trayan ar y llowrud ac ar y tat ar uam y gyt ac ew. **o bydan byu. ac o hynny y deuparth arnau ew. ar trayan ar y tat** ar uam. Or trayan a da6 ar y tat duy geynnyauc ar y tat ac un **ar y uam. O deruyd bot plant yr llowrud a bot oet arnadunt y dylyoent** talu kymeynt a dyly ew y dalu a deu onadunt huy. a duy geynnyauc ar **y braut ac un ar y chwaer. Or deuparth a a ar y genedyl y trayan ar** genedyl mam y llowrud ar deuparth ar gendyl y tat. ac y uelly y **cerda yr alanas o uamuys y uam6ys hyt y seythuet uam6ys canys** plant y uam gyntaw a uyd brodyr. a plant yr hen6am a uyd ke**uyndyru. a phlant yr orhenuam a uyd kyuyrdyru. plant y petwaret //**

BL Add. 14931 t. 70

uam a uyd keywneynt. plant y bymhet uam a uyd gorcheyneynt. plant y chwechet uam a uyd gorchau. plant y seythuet uam a uyd ney**eynt ueybyon gorchau. Ac nyt a galanas bellach hynny. keny 6ypet na**myn duy neu teyr buryer yr alanas arnadunt. ac ar ny el arnadunt **huy ranner ar y gwelyeu yd hanuo y tat onadunt huy a dody duy ran** ar y kyph. O ney uab gorchau allan yd a ceynnyauc baladyr ac ysew **yd a honno y gymhorth y llowrud a sew mal y kymhellyr honno cyryt** or llowrud gwas yr argluyd y gyt ac ew. a chreyr ganthau ac yny ky**uarfo ac ew dyn or seythuet dyn allan cymeret lu na heny6 or pedeyr** kenedyl yd heny6 ew onadunt. Ac onys dyry talhet ceynnyauc baladyr. **ac o dyry y lu peytyer ac ew. ny tal gwreyc ceynnyauc baladyr canyt** oes ~~e~~ paladyr ydy namyn y chogeyl ac nys tal yscolheygyon. Ac ny thal **gwreyc galanas o ryd y llu na byd meybyon ydy. Ac nys tal yscolheygy**on heuyt. ac nys tal mab ny uo pedeyr bluyd ar dec. Ual hyn y cy**mellyr galanas y trayan cyntaw yr argluyd yr kymell ar eyl trayan** yr tat ar uam ac eu plant ac o hynny duy ran yr tat ac un yr uam. ac **or hyn a dryc yr plant o bey plant yr llowrud duy ran arnunt. y mab** hynaw byeu mynegy edyuet y dat ay wely a bot y gyt a gwassanay**thwyr yr argluyd yn kymryt yr alanas. oet galanas yu pytheunosu** urth bop argluydyaeth y bo y cenedloed yndunt. urth eu gwyssyau y **gyt y gymhenn6 y tal ar gyhyt arall urth gymhell y tall. ac y eu d6**yn y gyt oy dalu yn try oet y mae yaun talu galanas ac yn try trayan. **deu oet y genedyl y tat. ac un ygenedyl y uam canys deu drayan a uyd** ar genedyl y tat. yn yr oet cyntaw a uo y genedyl y tat y talu 6n oc **eu trayaneu. y dylyant ll6 canhur o oreu gwyr y genedyl arall ar uot** yn uadeuedyc eu car. Ac yn yr eyl oet y talhoent trayan y dylyant **ll6 canhur ereyll or genedyl arall ar uot yn uadeuedyc eu car. ac yn y** trydyt oet y dyly cenedyl y uam talu eu trayan ac yna y dylyant 6yn**teu y gan y genedyl arall ll6 canhur ar uot yn uadeuedyc eu car a chy- //**

BL Add. 14931 t. 71

mot tragywydaul a dyly bot y rygthunt y dyd hunn6 a thyllued tragywydaul y rygthunt. ll6 try chan6r a dau o genedyl y wadu llowru**dyaeth gwaet a gwely a llad dyn. Ac urth hynny y mae yaun ll6 try** chann6r oy uadeu ynteu. Ac yn dylluet y rug y cenedloet ry dywe**dassam ny uchow y wadu llad o fyrnygruyd ll6 chwe chan6r oy** wadu canys deudyblyc yu y alanas ay benyt. urth hynny y byd deudy**blyc y wat pan ladher dyn y serheyr ar sarhaet honno ny dyrcheyw** ac urth hynny y mae yaun talu y sarhaet honno yn gynt nor alanas **ac os gwreycyauc uyd y gur roet trayan y sarhaet ydy ar deuparth yr** ~~ar y~~ brodyr ar ceuyndyru ar cyuyrdyru. ac o byd byd byu y dat cyme**ynt ydau ac y deu uroder. ac o byd by6 y uam kymeynt ac y duy** chwyored a hunn6 yu y dull goreu canys cymeynt a hynny o dynyon **a dyly talu sarhaet y gyt ac ew bey sarhaey ew dyn arall. ereyll a dy**weyt gwedy y del y trayan yr wreyc dylyu cymyscu y deuparth ar ala**nas ay rann6 yr genedyl. yr**

argluyd a dyly trayan cymell y sarhaedeu; mal trayan y galanasseu. Ny dyly yr yscolheygyon nar gwraged ran **o alanas canyt ynt dyalwyr uynt a dylyant y talu dros y plant neu 6yn**teu a watoent na bo plant udunt uyth. rey or yneyt a at y dalu y gyt **ar llowrud; y uam ay dat ay urodyr ay chwyoryd. ac eu etyuet canys** hynny o dynyon a geyf trayan y alanas ew. urth hynny y talant trayan **galanas y gyt ac ew. ac o hynny y dau ar y llourud deu cymeynt ac ar** y tat. ar tat a dyly talu deu cymeynt ac ar uab ydau. Ac ar y uam y dau **kymeynt ac ar uab ydy. ac ar y braut cymeynt ac ar y duy chwyored** ac or hyn a el ar y llowrud y tal ynteu cymeynt a deu uab yda6 a hynny **yu cyureyth hywel. Ny tal gwreyc anuab galanas. ac nys tal wedy** nat ymdyco. Galanas brenhyn aberfrau yu y sarhaet teyrgweyth. **Galanas gwreyc y brenhyn ay uab ay edlyg ay ney ay benteulu trayan** galanas y brenhyn ac eu sarhaet trayan sarhaet y brenhyn. Galanas **merch y brenhyn hanner galanas y braut ay sarhaet y*uelly* kynn //**

BL Add. 14931 t. 72
noy gura. Galanas dysteyn a phencenedyl a chyghellaur na6 mu6 a nau ugeyn mu6 gan eu hardychauael un weyth. Ac eu sarhaet yu nau **m6u a nau ugeynt o aryant. Galanas pob un o suydwyr y llys chwe** bu6 a chwe ugeyn mu6 gan y ardyrchauael un weyth. ac eu sarhaet **yu chwe bu6 a chwe ugeynt aryant. Galanas maer a mab uchelwr.** kymeynt a galanas deu or suydwyr ac eu sarhaet y*uelly*. Galanas **gur ar deylu pedeyr bu6 a petwar ugeyn m6u. y sarhaet pedeyr bu6** a petwar ugeynt aryant. Galanas bonhedyc canhuynaul ac alldut **brenhyn teyr bu6 a try ugeyn m6u. eu sarhaet yu teyr bu6 a try ugeynt** aryant. Gwerth caeth os or hynys hon. punt. os tra mor chwe uge**ynt a phunt. Sarhaet caeth deudec ceynnyauc. chwech yr peys a** teyr yr llaudyr. ac un yr tudleheu ac un y cyman. ac un yr raf. o byd **yg coet roet yr buyall ceynnyauc y cryman. O sarhaa caeth ryd llader** y llau deheu onys pryn y argluyd. kymeynt yu gwerth llau y caeth **a gwerth llau y brenhyn. Nau affeyth lledrat. kyntaw** yu mynegy y lledrat. yr eyl yu cyssynnyau ar lledrat. Trydyd yu rody buy**llur yr lleydyr. Petweryd yu mynet yn y ~~gyghor~~ gyweythas ac arwe**yn y buyllur. Pymhet yu mynet y gyt ac ew a thorry y lle y bo y lle**drat yndau. Chwechet yu bot yn odwr ay erbynnyau atau. Seyth**uet yu ymdeyth dyd neu nos y gyt ar lleydyr. 6ytuet yu cymryt ran **or lledrat. Nauuet yu cymryt gwerth y gan y lleydyr yt kelu arna6.** Am pob un o hynny dyruy a dau ot adeuyr. Sew yu eu dyr6y deu**dec mu6 neu teyr punt a hynny yr argluyd. Ny dylyant talu yr** nep byeyfo y da canyt ynt lowrudyeyt. O ny allant gafael eu dyruy **yr argluyd a eyll eu dehol amdaney. ynteu a eyll kymryt teyr ceynnyauc** yn lle y teyr punt ac yn dec y gyureyth. O gallant 6ynteu gafael y tal **ny dylyant uot yn dyholwyr nac yn anreyth odew. O gwedyr yr af**feythyoed uchot cymeynt yu eu gwat a gwat llowrud. 6al hyn y **gwedyr lledrat yg cyureyth hywel. ll6 deudeg wyr am uarch a try //**

BL Add. 14931 t. 73
ugeynt aryant. canys hunn6 leyhaw march y werth o gyureyth. a hanner hynny yn wyr not ar hanner arall yn wyr dynot. ar deuparth **o genedyl y tat ar trayan o genedyl y uam. Ac yn gynneset ac y ~~gal~~ dy**lyhoent talu y alanas ay gymryt. y wadu eydyon chwe gwyr ac ehun **yn seyuet. ac eu hanner yn wyr nod. y wadu huch neu dauat neu ue**ych ceuyn ll6 pymp wyr ar neyll hanner yn wyr nod ar llall o wyr **dynot ac ehun yn pymhet. ac yna y byd deu hanner y reyth y rug y duy** genedyl cany ellyr trayanu petwar gwyr. y reythyoed hynny nyt a na**myn yn ol gyrr kyureythyaul. Sew yu gyrr cyureythyaul llu y perchen**nauc ar y uot yn wyr ar y dyn racu y lledrat canyt gyrr namyn **gyrr perchennauc. ket dyweto perchennauc lledrat ar y dauaut leue**ryd ar arall

ac nas dyco yr dygyn. Ny barnun ny namyn ll6 yr amdyffyn**n6r. ket gyrro dyn ny bo perchennauc lledrat ar arall ny dylyir namyn** ll6 yr amdyffynn6r oy wadu. cany dyly namyn perchennauc gyrru lle**drat. ket pallo reyth dyn y bo un or affeythyoed huchot arnau ny dyg6**yd namyn yn dyruy ony mynnyr erlyt cyureyth anudon arnau. ket **pallo reyth y llowrud yr meynt y lledrat a dyweter arna6 nyt eneyt** uadeu o thal seyth punt. a chenys talho ny dyly namyn y dyhol. ereyll **a dyweyt y uot yn eneyit uadeu ony cheyf y ~~uerth~~ werth. Puy bynn**nac a dyholer o uraut y gyureyth yaun yu ydau uot yn ur kychwyn **drannoeth ac o hynny allan dywyrnaut urth pob cantrew a uo yr** argluyd ay dyholyo a hunn6 yu oet dyholwr. Ny dylyr dyenydu nep **ny chafer dym yn y lau. Puy bynnac a dalyo lleydyr a lledrat yn y lau** ay ellug ay yr cerennyd ay yr gwerth os adew talet seyth punt ca**nys cen bo eneyt uadeu y lleydyr ny byd eneyt uadeu ew. ony eyll ta**lu dyholyer ynteu ual lleydyr. Pa dyn bynnac a dyholyer o uraut **y gyureyth ay gafael yn y wlat tros yr oet a roet ydau byt eneyt ua**deu ony cheyf ay prynno cany dyly ew y wlat yn oes yr argluyd ay **dyholyo onyt can dygymot ac ew. P6y bynnac y cafer ol lleydyr yn //**

BL Add. 14931 t. 74
dyuot yu ty ac na allo y hebrug yurthau byt anreythodew ac ony byd anreyth dyholyer. Puy bynnac y cafer lledrat yn y dy gan uot y gyuan**hed yndau. ket bo yda6 ew a gatwo y gorf rac y lledrat euo eyssyoes** byeu cadu y ty. ac urth hynny y barnun ny y ty hunn6 yn halaucty **ac a uo y gyt ac ew eythyr adneu cany perchennauc yr adneu cadu ty** arall rac lledrat. ny byd colledyc ynteu or eydau. Nyt oes y cyureyth **lle y dylyer anreyth grybdeyl namyn am lad celeyn. Puy bynnac a** uynho gw~~m~~neuthur dogyn uynac aet ar yr argluyd a dywedet ry **wneuthur lledrat o dyn ny leueys y dyweduyt arnau ay rac y uon**hed ay rac y uedyant. yna y mae yau yr argluyd dyuynnu yr effeyryat **atau a dywedet urthau yr hyn ry dywetpuyt urthau ynteu. ac ell6g** yr effeyryat y gyt ac ew hyt ar drus yr egluys a chroyset racdau na **tygho anudon ac o myn tyghu tyghet yn gyntaw ar drus yr egluys** ar eyl ar y gagell. ar trydyd ar yr allaur. ac odyna doet yr effeyryat **ar yr argluyd a dywedet gafael y cubyl. ar argluyd a dyly tyghu** ry gafael dogyn uynac pan holo y dyn yn dadleu ac yn erbyn hynny **ny ellyr dym. Ny byd eneyt uadeu ew yr hynny namyn lleydyr** gwerth. Ony eyll cafael y werth dyholyer; ual lleydyr. Ereyll a **uynn gadu gwat ydau yr gyrr yr argluyd ual yr gyrr perchen**nauc a hunn6 muyhaw y coyllya gwyr gvynet ydau. O der**uyd y dyn cafael kyc anyueyl ny bo eydau ay can gun ay y cudua** arall ay gymryt ohanau hep gannyat dyruy a uyd hyt yd el nac **o rod nac o wadaul nac o brynu hyt y gan6et llau. ac urth hyn**ny y gelwyr ew cyhyryn canhastyr ac nyt a bellach y ganuet lla6. **Puy bynnac a uynno daly lledrat yn llau arall deuet uch pen y** peth a dalyo a gouynnet puy a wercheydu hun. ony byd nep **ay gwarchatwo kymeret ew gannyat y gymryt yr eydau.** ac wedy y cafo cannyat aet y ford ar yr ynat ac ual y mynaco **yr ynat ydau kymeret ew a damdyghet. O deruyd ydau yn //**

BL Add. 14931 t. 75
daly yr eydau dyuot gwercheytwat a gurthuynebu yda6 gouynnet ynteu puy a wercheyd6 h6n. yaun yu yr gwercheytwat dywedu**yt pany6 ew ay gwercheydu. Ac yna y mae yaun yr haulur dywe**duyt cam yu yty gwarchadu y meuy. Ac yna y mae yaun yr amdyffyn**n6r dyweduyt cubylwat nat oes dym or teu dy gennyw uy. ac y gyt** ac nat oes beth ath wahanus dy ath gollet a pha amser. Sew acha**us y mae yaun guybot hynny. Chwe ford t~~ra~~ yd a da dyn y ganthau.** ac or teyr y gellyr damdug ac or teyr ereyll ny ellyr. Sew y6 y teyr **ny ellyr atneu a benfyc a lloc a kym6ynas. canys nyt yaun holy y lle y** mae a

holy y nep yd aeth athau. y teyr ereyll y*syd* yaun damdug arna**dunt. 6n onadunt lledrat. ar eyl collet o lesget. Ar trydyt yu aghy**uarch. sew achaus y dylyir eu damdug urth nas erbynnyus llau arall **oy lau ew. urth hynny y geyll ynteu damdug yr eydau yn y lle y gwe**lo. Puy bynnac a uynho damdug yr eydau ual hyn y mae ydau y dam**dug. Os peth marwaul a damdug damdyghet ay lau assu ar y le y** mynno ydau. Os anyueyl a damdug damdyghet ay lau assu ar y glust **deheu yr anyueyl ar llau deheu ar y creyryeu. ar llau deheu yr amdyfy**nur ar y glust ass6 yr anyueyl ac y*uelly* tyghet yr haulur nat oed ber**chennauc a dylyey nay brynu nay werthu namyn euo. ac y gyt a hynny** nat aeth y ganthau nac yn rod nac y benfyc nac yn adneu nay wer**thu namyn y duyn o lledrat a ganthau neu o achyuarch neu o golly** ac enwy y dyd yn yr uythnos ar 6ythnos yn y mys ar mys yn y ~~wluyd~~ **tymor ar tymor yn y wluydyn. y anyueyl y cefyr try ardelu geny a** meythryn a chadu cyn coll ac arwayssaw. Os o eny a meythryn **y ceys y ardelu ~~gwadet~~ gwnaet ual hyn. dodet ym pen ceytweyt** bot yn eydau y uam ay eny ay ueythryn ganthau ac nat aeth y ganth**au er pan anet ar y berchennogaeth hyt y dyd hunn6. Sew y ry6** geytweyt a dyly bot ydau cymydauc uch llau ac arall ys llau nyt am**gen gur uch y ureynt ac arall ys y ureynt ac o cheyf hynny dogyn yu //**

BL Add. 14931 t. 76

ydau. Os o gadu cyn coll y dewys y ardelu damdyghet ar llun ry dywedassam ny uchot a gwedy as damdygho dywedet ynteu y uot ganthau **ay uythnos a mys ay tymor yn gynt no chan y llall a bot ydau ew ay cey**du o geyweyt cyureythyaul y uot ar y helu ay uythnos ay mys ay tymor **yn gynt nogyt y colles ew yr eydau. Ac o cheyf hynny dogyn yu. Os** o arwayssaw yd ardelu dywedet puy a ardelu ne a arwayssaw hun **o byt yn y maes cymeret y ardelu a tan y lledrat a byt ryd ynteu. ac o der**uyd yr arwayssaw y gymryt damdyghet yn y lau ew. ac ynteu byeu **os myn ceyssyau y arwayssaw arall neu dyguydet ehun. ac y*uelly* y** geyll lledrat cerdet o lau y lau hyt tray cafo yn y maes ay cymero y gan**thau. O cheyf yn y maes ay cymero y ganthau ac ardelu ohanau o ar**wayssaw yn lle arall roder oet ydau y geyssyau y arwayssaw. nyt **amgen trydyeu yn un gymhut pytheunos ygwlat arall ac y*uelly* y** cerda hyt y trydet lau. Ac or dryded lau kyureyth dyannot. Ac os y dry**dellau a geyf ay cymero ohoney gadael ydy eythyr nat oes amot.** Puy bynnac a doto arwayssaw ym pen arall a phallu y arwayssaw **ydau byt ehun leydyr cyuadew. a hynny herwyd meynt y lledrat** a dalyer ganthau. Y cyureyth hywel y mae hyt ym pedeyr ceynnya**uc y uot yn lleydyr gwerth ac o hynny allan yn eneyt uadeu ereyll a** dyweyt o pob anyueyl petwar troydyauc y uot yn eneyt uadeu. eyssyoes **dyogelhaw yu hyt ym pedeyr ceynnyauc. y lleydyr a werther seyth pu**nt yu y werth. yr hun a uo eneyt uadeu ny dylir dym oy da cany dylyir **dyuwyn a dyal eythyr talu yr colledyc yr eydau. sew achaus urth na** dyly a dau ar*nau* un dylyet. y chyureyth hywel y bu tal am ledrat **ar eyl tal. ac y symudus bledyn uab kynuyn talu y dyn y gollet urth y** damdug. y da y ford y cymynno aet ony byd plant ydau. O byd plant **ny dyly cymynn6 eythyr y dylyedyon a dayret yr egluys. Ny dyly ar**gluyd ebedyu dy a dyenydyo. o dyenydyir y gwlat arall yr argluyd **a dyly y ebedyu. Ny byd galanas am leydyr ac ny byd llys y rug duy ge //**

BL Add. 14931 t. 77

nedyl yr y dyenydu. G6ynwyr o wlat arall a trayano ac argluyd o delyir eu bot yn lladron gwerth. ac o lledyr dylyu galanas amdanunt. **Bradwyr argluyd a fyrnycwyr a phob dyn a uo eneyt uadeu o uraut** y gyureyth ny dylyir galanas amdanunt. Fyrnycwyr o gwadant **eu fyrnygruyd. gwat a dylyant deudyblyc.**

sew yu fyrnygruyd dywuynau y da ydau ehun ac yu berchennauc. sew yu lledrat pob peth a wa**ter or a dycer. sew yu aghyuarch pob peth a dycer yn amsent. ac ny wa**ter. sew yu treys pob peth a dycher y guyd o anuod. sew yu anodeu pob peth **a dycher yn ryth arall. ny dylyir am anodeu namyn dyeyssywau y dyn oy** da. Ny dylyir dyenydu dyn caeth os pryn y argluyd ac ony chefyr dym **yn y lau y argluyd a eyll y dyheurau. ac o achaus hynny yd hys yn deuody** y eu hargluydy dyheurau eu halldudyon. alltudyon tros uor neu o wlat **arall. aghyureyth ny dylyir nac am wuyt nac am dym arall eu dye**nydu namyn yr nep pyeyfo y da eu dyeyssywau hyt ym pen y teyr nos **ar trydyeu. Am ky neu ederyn ny dylyir na dyruy na dyhenyd namyn** camluru ay da yr perchennauc. Nau affeyth tan kyntaw yu **rody kyghor y loscy y ty. yr eyl yu cyssynyau ay losgy. Trydyt yu mynet** o achaus y losgy. Petweryd yu ymduyn y buyllur. Pymhet yu llad **tan. Chwechet yu ceyssyau gosgymon. Seyt6et cynneu y tan y**ny enynho. Uythuet yu rody y tan ar y nep ay llosco. Nauuet yu **gwelet y losgy. Puy bynnac a uynno gwadu yr un o rey hynny** rodet ll6 degwyr a deugeynt. ac os yn lledrat y gyrryr arnau y ne**yll hanner o wyr not ar lleyll o wyr dynot. neu dalet yn gubyl. Puy** bynnac a losco ty a llosgy o hunn6 ty arall talet y ty a enynn6s ac y*uelly* **o ty y dy hyt y cerdo. Puy bynnac a rodo tan ar arall y loscy ac ew gan y** adew talet y trayan. Puy bynnac a gynneuo tan yn ty ny bo eydau **hyt ym pen y teyr nos ar trydyeu goruyt arnau y weythret. Puy byn**nac a gynneuo tan yn odyn ceuoet gan arall y llosgo ac na chyme**ro gret y gan y nep a grasso arney wedy ew talet tra**yan **y gweythret. //**

BL Add. 14931 t. 78

Puy bynnac a dyco tan yn aghyuarch talet ehun y weythret ay aghyuarch. Puy bynnac a archo tan ay rody ydau ew byeu talu y weythret **Puy bynnac a archo benfyc tan deuet heb haul heb arhaul arna6. Try** than ny dywygyr. tan godeyth maurth. a than geueyl trewgord a uo **seyth huryt y rygthy ar tey a hytheu yn beythyndo neu yn tyglys. a tan** enneynt trewgord a uo seyth urhyt y urth y tey ereyll. Puy bynnac a gy**mero peth yu adneu atau talet yr y losgy ual kynt. O deruyd ennyn6** ty y meun trew talet y deu dy nessaw ay herbynnyus atau ac o hyn**ny allan o nessaw y nessaw. Galanas nyt a yn ol tan namyn yn ol lla6** ay llosgo. Pa dyn bynnac a losgo godeythyeu namyn maurth ew ay tal. **Gwedesseu a gymerho atunt wee6. neu belleneu : ereyll athunt ac** eu llosgy 6ynt a dylyant eu talu canys dylyant eu cadu rac pob collet. **Nyt oes cywlauan a wnel tan dyn ar gnaut dyn arall a dywycher** heb weythret dyn y gyt ac ew. O deruyd dyuot moch y ty a gwas**garu yn tan yny losgo y ty a dyang y moch talet perchennauc y moch** eu gweythret. os y moch a lysc cyhydet yu canys deu ueredyc ynt. ac **urth hynny yn y lle y bo cyhydet y chyureyth ny dywygyr namyn ev** bot erbyn yn erbyn. Na dycer nep tan hep ganhyat ac os duc talet **camluru ceny wnel dym ac ew. Na rodet nep tan hep uybot beth** a wnelher ac ew ac os ryd talet trayan y weythret. O deruyd y dyn **yn duyn tan o ty arall ehedec tan y ganthau talet y weythret ony e**yll ar y tan buru ran o*hanau*. O deruyd y dyn mynet y grassu y o**dyn arall hyt ym pen y teyr nos ar trydyeu goruyt arnau. Ny byd** eneyt uadeu neb yr treys sew achaus yn sarhaet yu yr neb a dreyssyer **canys y da a dygyr yny uyd a herwyd y ureynt y dywygyr ydau y** sarhaet ay da. ac yr argluyd y dyruy. Kyuebruyd cassec pede**yr ceynnyauc hyt ym pen y petwaredyd ar dec gwedy y ganher. tra**noeth pedeyr ar ugeyn. ac os ar yt y cefyr cymeynt yu y dywuyn ac **6n y uam. ac y*uelly* y tryc hyt ym pen y wluydyn. ac o cheyph un dyd //**

BL Add. 14931 t. 79

or eyl wluydyn pedeyr ar ugeynt ereyll yny uo uyth a deugeynt ac y*uelly* hyt y trydet wluydyn ac yna yd a yn try ugeynt. ac y dyly uot yn fruyn**dow ac yna y mae yaun gweuthur y dywyll ~~a uynno~~ arnau a dylyo.** nac amus na phalffrey uo na gweynytuarch. Amus yn tyr thymor ny **chyll nay werth nay ureynt yr pory allan. O hanner ebryll hyt hanner** mey a mys hydrew ar y hyt. ac odyna ceny bo ceny bo namyn teyr nos a try**dyeu ym pennyll punt a tal. Palfrey chwe ugeynt a tal. Runsy neu su**meruarch chwe ugeynt a tal. Gweynytuarch try ugeynt. march gwy**llt try ugeynt. ystal6yn cymeynt yu gwerth y duy geyll a duy gas**sec ac arnau ehun y trydet. sew yu hynny nau ugeynt. A dan try he**ynt y dylyir uot am teythy march. rac y dery try gwlyt a rac du ysgyue**ynt teyr lloer a rac lleumeyrch bluydyn. ac a dan l6yc yny uarchocer yn **tyrrua dynyon a meyrch. ac ony luyca yna byt ryd y nep ay gwertho.** ac o lluyca aduerer y trayan gwerth. Gwerth troet march y werth yn **gubyl. ay trayan gwerth ar y lygat. ar trayan ar y llygat arall. am pob** anaw ar uarch trayan y werth a atueryr y am y glust ay goloren. **Puy bynnac a ladho raun march roder uarch arall yn y le y6 bechenna**uc a chatwet ynteu hunn6 yny dyuo y raun ual cynt. Mug march **un werth ay fruyn yu. ay gebystyr un werth ay talgudyn. Puy byn**nac a uenfycyo march y arall a gwynnouy y bleu y ar y geuyn pedeyr **ceynnyauc a tal. O thyrr y croen hyt y kyc uyth geynnyauc a tal. O tyrr** y kyc hyt yr asgurn un ar bymtec a tal. Puy bynnac a dyco march yn **achyuarch pedeyr ceynnyauc esgyn a phedeyr ceynnyauc o pob randyr** or a uarchoco. Ny dylyir dym am dysgynn6 canys yaun y6 dysgynn6 **can esgynhuyt a hynny y berchennauc y march ar camluru yr argluyd.** cet boet maru ganthau ny dyly namyn y lu ehun ry wneuthur **ydau cystal ac yr eydau ehun. os y logy a wna a thaler ydau y loc. O der**uyd y dyn llogy march hyt yn lle ac os tros hynny yd a talet trayan yr **elu y berchennauc y march. ac y*uelly* os da arall ar aghyuarch yr ar //**

BL Add. 14931 t. 80

gluyd. O deruyd clofy march ym benfyc neu gafael bryu arall roder march arall yn y le yny uo yach y march ac ony byd yach trycet gan**thau hunn6. Pedyr pedol ac eu to hoyllyon duy geynnyauc. O gwer**thyr march a thuyll yndau ac na bo dyeythyr y groen ny dywygyr **ony byd un or try heynt. namyn y lu nas guydyat. Gwerth ebole**s pedeyr ceynnyauc hyt y petwarydyt ar dec. ac o hynny hyt ym pen **y wluydyn un ar bymthec. O hynnyhyt ym pen y duy blyned deu**dec ar ugeynt. ac yn y teyr bluyd try ugeynt. ac yna gweyny arney **Gwerth y mug un werth ay chebystyr. keynnyauc. y theythy tynnu carr** yn allt ac y gwayret a bot yn ebolyauc ac ony byd y*uelly* y thray**an gwer atuerher. Am lo or nos y ganer hyt galan gayaw. iiii.** keynnyauc. O galan gayaw allan. ii. keynnyauc. bop tymor hyt yr aust y dyly y hymol **A nauuet dyd yr aust hunn6 y dyrcheyw arney. iiii. keynnyauc. am y llo. ac o hyn**ny allan. ii. keynnyauc. bop tymor hyt nauuet dyd mey ar dyt hunn6 alu a deu**geyn uyd y gwerth. ay llo a dyly ymdeyth nau cam a dydyllu groyssyn** oy phedeyr teth. Gwerth y llo. iiii.keynnyauc. hyt galan gayaw. ac o hynny **allan un werth uyd a phob llo. 6n ar bymthec ar y llaeth a. iiii. keynnyauc.** am y llo. O hanner haw allan y dyly y hynol a gwedy yd ymholy**er y dyrcheyw. iiii. keynnyauc. yn y dyd hunn6. ac o hynny allan. ii. keynnyauc. bop ty**mor hyt hanner maurth neu hyt hanner eblryll ac yna y dyly alu. **a dyguydau y haryant dood6w arney yny uo cubyl y gwerth ac** yna y byd try ugeynt. ac y*uelly* hyt y pymhet lo. a hyt hynny y tryc **yn y theledyuruyd ac o hynny allan damdug. Messur y llaeth te**yr modued yn y waylaut. a chwech ym perued y llestyr. a nau yn **y hyt yn amrysgoy6. Sew baut a dyly messurau y llestyr baut yr** ynat. Gwerth y chlust ~~.~~ ay chorn ay llygat. iiii. keynnyauc. Gwerth y **theth. iiii. keynnyauc. bop bluydyn neu dauat ay hoen ac a allo cudyau y** hoen ay ~~gl~~ gwlan rac

cawat uey a hynny un*weyth*. O byd ryderyc **xxx. bop bluydyn tra uo byu. O byd kynnen am y llaeth y d6yn //**

BL Add. 14931 t. 81
nauuet dyd mey yn lle kyuyewyn ny el un lludyn yn y blaen a gadu yr nep pyeyfo y godro a heb adael dym yr llo a dody yn llestyr **messur y godro ac o byd llaun duyweyth yn y dyd dogyn yn rac o**ny byd y dyeyssywau. o ulaut ceyrch hyt 6yl gyryc ac o hynny hyt **6yl uyhagel o ulaut heyd. o hynny hyt galan gayaw o wlaut** ryc. O deruyd prynnu bu6ch gywlo a cholly chyulodaut reyt **yu ydau rody ll6 y bugeyl ar wreyc ay godroho nat yno y colles** Dynawet guru un gerdet yu a dynawet uany6 pan doter a**dan ben yr yeu. y dyly dyrchauauael arnau. a nauuet dyd chwe**uraur y dyrcheyw arnau bedeyr ceynnyauc ac o hynny hyt ym **pen y bluydyn duy geynnyauc pob tymor a dyrcheyw arna6.** ac ar hynny y tryc hyt yn chwechet weyth. ac o hynny allan **damdug. ac yn gyuweyth y dody yn aradyr. ac ot ard or bore** hyt echwyd nauuetyd chweuraur byt ryd y neb a gwertho ac o**nyt ard yn erbyn y gyuoet gymeyn; xxx. a dylyir y dalu yn y tey**thy ac os y neyll tu yd ard talet bymthec bop bluydyn. lloscurn llo **y wluydyn gyntaw. i. keynnyauc. ar eyl. ii. ar trydet. iii. ar pedwaret** iiii. keynnyauc. ac y*uelly* y byd. Puy bynnac a wertho dynawet ~~uany6~~ **yaun yu ydau y goruot rac try heynt y gwarthec a rac clauyry** yn ragor rac clauyry hyt uyl padryc. y nep ay pryno a dyly eu**cadu yn lle yach ac yn ty ny ry fo clauyry yndau seyth blynet gynt.** Gwerth porchell or nos y ganher hyt yny el yn ton6o. i. keynnyauc. tra uo yn **dynu. ii. keynnyauc. Sew yu hynny try mys. ac o hynny yny el y moch yr co**et ban6 uyd a. iiii. keynnyauc. uyd y uerth. ac o 6yl yeuan hyt y kalan. x6. **Or kalan hyt uyl yeuan. 6i. keynnyauc. eylweyth ac yna yd a yn dec ar u**geyn ual y mam. Teythy huch na bo baetredegauc ac nat ysso y per**chyll ay goruot teyr nos a thrydyeu rac y uynyglauc ac os y*uelly*** y byd aduerer trayan y gwerth cymeynt yu gwerth y hael ay **: gwerth ehun. cymeynt yu gwerth y baeth a gwerth teyr or moch. //**

BL Add. 14931 t. 82
Am oen or nos y ganer hyt galan gayaw. i. keynnyauc. a tal. o galan gayaw hyt ym pen y wluydyn. ii. keynnyauc. a tal. ac yna y tal. iiii. keynnyauc. teythy dau**at blyth ac oen ac goruot hyt galan mey rac yr auat. yny gafo y te**yr gwaly or tauaul newyd am y theythy. iii. keynnyauc. neu dauat hesp **d6y am y hoen ac un am y llaeth. y llygat ay chlust ay corn ay llos**gurn ay theth. i. keynnyauc. am bop un onadunt. Maharaen teyr deueyt **yu y werth. un ar bop ceyll ac un ar y gorf. ac y*uelly* y geyuyr ey**thyr nat oes y hespyn namyn y bot yn hespyn euernyc yu 6n **ulyth. sew yu y theythy ceynnyauc a dymey. Gwerth cath** iiii. y theythy gwelet a chlybot a llad llygot ac na bo tun y hewy**net a meythryn ac nat ysso y chanauon. ac o byd un yn eissyeu** eduryt trayan y gwerth. Pob anyueyl glan y hanner gwerth y6 **y deythy. pob anyueyl budyr y trayan guerth. Gwerth guyd** i. keynnyauc. gwerth ceyllyauc 6yd cymeynt a gwerth d6y 6yd. gwerth **guyd or kymeynt a gwerth y nyth. sew y dyly bot yn y nyth pet**war kyu ar ugeynt. gwerth pop un onadunt dymey neu hyscup **heyd a hynny yny dotwont ac wedy y dotwont. i. keynnyauc. a sew a dal** yr 6yd or. xii. keynnyauc. Yar. i. a tal. keylyauc duy yar a dal. pob kyu ys**gup geyrch neu fyrdlyg yny esgynno. gwedy hynny dymey yny dot**wo a gwedy hynny. i. keynnyauc. a tal. Gellgy brenhyn punt yn gywruys **chwe ugeynt yn aghyuruys.try ugeynt yn y wluyd dec ar ugeynt** yn y gynllust. pymthec or pan anher yny agoro y lygeyt. Mylgy **brenhyn o byd kyur6ys chwe ugeynt. yn aghyuruys try ugeynt** yn y wluyd dec ar ugeynt. yn y gynll6st pymthec or pan anher **yny agoro y lygeyt seyth a dymey. Coluyn brenhyn punt a dal.**

coluyn gur ryd chwe ugeynt. coluyn mab eyllt. iiii. un werth ay **gostauc tom. Gellgy mab uchelwr un werth a mylgy y brenhyn** pa gy bynnac a uo y uab eyllt un gerdet yu ay gostauc tom. Puy **bynnac byeyfo costauc tom. iiii. a tal. bugeylgy a el y bore ymla- //**

BL Add. 14931 t. 83
en yr yscrybyl ac a del y nos yn e hol yr eydyon teledy6haw a tal. Nyth hebauc punt a tal. y gyu rud chwe ugeynt gwedy bo muteyr a gw**en punt os brenhyn byeuuyd. os mab uchelwr chwe ugeynt o byd** muteyr. os kyu rud try ugeynt. huyedyc o byd hebauc pedeyr ar uge**ynt. Nyth llemysten pedeyr ar ugeynt. cyn y mynet ymud deudec** ceynnyauc. wedy yd el ymud pedeyr ar ugeynt. pa ederyn bynnac a **uo y tayauc un werth uyd a yar. Gwerth henlleu pedeyr ar ugeyn.** Gwerth cyntheyd un ar bymthec. taruheyt deudec ceynnyauc. heyt **y gyntheyt deudec ceynnyauc. heyt y taruheyd. uyth geynnyauc. O** deruyd heydya heyt wedy aust. iiii. a tal. a honno a elwyr asgellhe**yt. gwerth modrydaw gwenyn pedeyr ar ugeynt. ac y*uelly* hyt ga**lan gayaw. o galan gayaw allan henlleu uyd a pedeyr ar ugeynt **a dal. asgellheyt nyt a yu henlleu hyt galan mey. ac yna pedeyr a**r ugeynt a tal. trydet hely ryd heyt wenyn ar wrysgen. Gwerth **hyd o galan gayaw hyt 6yl yeuan try ugeynt a tal. a nau ugeyn cam**l6r6 amdanau. ac o uyl yeuan hyt y calan deudec oluyth cyureythy**aul ysyd yndau a try ugeynt ar bop un onadunt. sew yu y goluy**thyon. y duy uanec ay deu gorn. ay tauaut. ay lauron ay gallon. **ay heruth ay a6. ay duy leuyn. ay tumon. ay hydgyllen. ay gol**wuyden. am bop un camlur6 sew yu eyryw hynny ~~deudec m6u.~~ .ixl. o w..... **O deruyd dyuot cun y brenhyn yn ol hyd ay lad. Puy bynnac byeyfo** y tyr cymeret e cun ar hyd a chatwet hyt hanner dyd heb y ulyg**yau os y bore uyd ac ony dau y cynydyon blygyet yr hyt a chatwet** y kyc ar croen a llythyet y cun. a dycet ganthau adrew. Os hanner **dyd catwet hyt naun. os naun catwet hyt wedy gosper. os** wedy gosper catwet hyt y bore. a thanu mantell arnau. Ony **deuant tranoeth dewynydyet y kyc a chatwet y croen ar hydgy**llen yr kynydyon. o deuant kyn dewnydyau y kyc roder chwar**thaur yr nep byeyfo y tyr y chwarthaur dyl6r y bop perchen pen- //**

BL Add. 14931 t. 84
hygen ar chwarthaur rac y b perchen kylla. O deruyd ellug ar hyd pyeyfo bynnac y kun perchennauc y tyr byeu y charthaur dylyr. puy **bynnac a gafo lludyn glan yn uaru ar y tyr ew byeu chwarthaur** ar nep byeyfo y tyr byeu namyn hynny. Puy bynnac a gafo lludyn **maru o byd budyr ar tyr arall. ceynnyauc a geyf ar lludyn yr nep** byeyfo y tyr. ac ny chefyr or man anyueyllyeyt gwyllt namyn hy**nny. Puy bynnac a gafo bydaw. i. a dyly neu y cuyr ar 6ydaw yr** nep byeyfo y tyr. Puy bynnac a dynno annel ar tyr arall heb y gan**nyat. iiii. am agory y tyr a. iiii. am y gayu. ac a uo yn yr annel.** a chaml6ru yr brenhyn. 6n gwerth yu yurch a buch a gauyr ac **yerchel ac eleyn a myn. Croen ych. 6iii. Croen hyd. 6iii. Croen** buch. 6ii. Croen ewyc. 6ii. Croen dauat. i. Croen gauyr. i. Cro**en yurch. i. Croen lywynauc. 6iii. Croen dyuyrgy. 6iii. Croen** bleyd. 6iii. Croen beleu pedeyr ar ugeynt. Croen llostlydan. cxx. **Gwerth derwen. cxx. o byd duy geync. lx. am bop un onadunt.** o bydant gymrasset a cheny buynt gymrasset o bydant o un t6. **Gwerth trausgeyng a gyrcho callon y pren. xxx. ac amyn hynny** bryc uyd. ac nyt oes gwerth arnau eythyr camlur6 yr brenhyn. **am wneythur tull arney. iiii. ar. xx. a hynny y berchennauc y** coet ar camluru yr brenhyn. Gwerth cegynderwen ny del fruyth **arney. iiii. Gwerth colluyn. iiii. ar. xx. o thynnyr un gollen or col**luyn. iiii. pob pren a arwedo fruyth un werth a cholluyn yu. **eythyr eythyr deru ac auall. hymp. iiii. keynnyauc. hyt galan gayaw rac**

uyneb gwedy yd hympyer. o hynny allan. ii. bop tymor yny arwe**do fruyth. ac yna try ugeynt a dal. ac urth hynny y mae un gerdeth** allo buuch. auallen sur. iiii. a tal yny del fruyth arney. a **gwedy y del fruyth. xxx. Pob pren a blanher yn wasgautwyd.** iiii. ar. xx. a tal. Pob pren ny fruytho. iiii. eythyr ywen. **Am y gwenyn gwerth henlleu. iiii. ar. xx. gwerth kynteyt. //**

BL Add. 14931 t. 85
mynyd carreca6c. **Ac ym pen y mynyd yd oed ll6yn coet tew dyrys.** A hyt yno y foes caswalla6n. guedy y dyg6yda6 **yn y ran waethaf or ymlad. A guedy caffael gor**uchelder y mynyd. g6rth6ynebu yn 6ra6l y **eu gelynyon oed yn eu hymlit gan geissya6** driga6 ar eu torr. Ac eissyoes serthed y mynyd. **ae dryss6ch. Ae gerryc oed amdyffyn yr brytan**nyeit. mal y gellynt guneuthur aerua dirua**6r oc eu gelynyon. Ac yna sef a wnaeth ulkess**ar gossot y lu yg kylch y mynyd. y6 warchad6 **rac diang neb odyno. Canys y ued6l oed kym**hell y brenhyn y daryst6g yda6 tr6y newyn //

LlGC 5266 t. 69
yr h6n ny allassei y gymell tr6y arueu ac ymlad. O anryued genedyl 6rytannyeit. A gymellassant **d6y weith y g6r h6nn6 ar fo. yr h6n ny all6s** yr holl uyt g6rth6ynebu ida6. Ac 6ynteu yr a6r**hon yn foedigyon rac h6nn6. Ac y eissoes yn g6r**th6ynebu idaw yn 6ra6l. Ac yn para6t y diodef ag**heu tros eu gulat. A throstunt ehunein. Ac ym** pen yr eildyd guedy guarchae caswalla6n ym **pen y mynyd h6nn6. ac nat oed na b6yt na dya6t.** ouynhau a wnaeth rac newyn bot yn dir yda6 ym**rodi yg kararchar ulkessar. Sef a wnaeth anuon** ar Auar6y y erchi yda6 tagneuedu ac 6lkessar. **Rac colli oe genedyl teilygda6t y teyrnas. guedy** darfei daly caswalla6n. A mynegi a wnaeth ida6. **ket ryuelei talym ar Auar6y yr y daryst6ng ae** gospi na mynnei ef eissoes y agheu ef yr hyny. **A guedy mynegi hynny y auar6y. yna y dywa6t ynteu** nat oed ha6d caru y tywyssa6c. a uyd . guar ar **ryuel megys oen ac a uyd creula6n a dywal** megys llew ar hed6ch. O wi a d6yweu nef a da**yar. yr a6rhon y mae ef ym guedia6 i y g6r oed** argl6yd arnaf ynheu gynheu. yr a6rhon y mae **ef yn damuna6 y tagneuedu tr6y darystygaeth** y ulkessar. y g6r oed da gan 6lkessar kyn no hyn. //

LlGC 5266 t. 70
caffael te tagnhe6ed y gantha6. Ac 6rth hynny ef a dylyei medylya6 ac edrych yn ya6n 6rth **y g6r h6nn6 tr6y yr h6n y gall6s ef d6ywe**ith g6rthlad amhera6dyr ruuein oe tyrnas **ae d6yn idi y trydeweith oe anuod. Ac 6rth hy**nny nyd oed ya6n dadleu a myuy yn gam nac **yn enwir. Can gelleis guneuthur y guassanaeth** h6nn6 yna; ac yr a6rhon. y guneuthum h6nn. **Ac 6rth hynny. anoethineb ac aghymenda6t.** y6 guneuthur sarhaedeu. ac ymgeinuaeu. yr neb **y caffer y uudugolyaeth tr6ydunt yn wastat.** Cany eill 6n tywyssa6c cael budugolyaeth heb **y guyr a ellygant eu guaet yn ymlad drostunt.** Ac yr hynny eissoes. os gallaf i; mi ae tagne**uedaf. ac ulkessar. can dery6 diga6n o dial ar**na6 ef. y sarhaet a wnaeth ef ymi. pan ydi6 **ef yn guedia6 6yn trugared i. A chych6yn** a wnaeth Auar6y. A dyuot gan urys hyt y lle **yd oed ulkessar. A dyg6yda6 yn darystygedic** rc y uron. gan dywed6yt 6rtha6 yr ymadra**6d h6nn. llyma weithyon goleu. ac aml6c** y6. bot yn diga6n ry dieleist dy lit ar Gas**wsalla6n. guna weithyon trugared ac ef.** beth a 6ynny di y gantha6 ef amgen noc **uuydta6t a darystygedigaeth a thalu teyrn //**

LlGC 5266 t. 71
get y ruueina6l teilygda6t o enys prydein. A guedy na rodes ulkessar atteb yda6 y dywa6t A**uar6y 6rtha6 ynteu megys hyn. Tydy ulkes**sar heb ef. hyn a edeweis y yty. guedy y goruyd**et ar gaswall6n darystygedygaeth a theyrng**et yty o enys prydein. llyma gaswalla6n guedy **goruot arna6. llyma enys prydein yn daryst**ygedic yty. tr6y uy nerth i am canhorth6y. **beth a dylyaf y wneuthur yty ymlaen hynny** Nyt ef a wnel crea6dyr nef a dayar. dyod**ef o*honaf* y byth. carcharu caswalla6n uy ar**gl6yd y. ac ynteu yn guneuthur ya6n ymy **am y sarhaet yr wnaeth ymy. ednebyd di ul**kessar nat ha6d llad caswalla6n a miui yn **6y6 y g6r nyt kewilid gennyf rod uy nerth** yda6 ony bydy ty 6rth uyg

kyghor. Ac yna **rac ouyn Auar6y arafhau a wnaeth ulkessar** a thagnheuedu a chaswalla6n. A chymryt teyr**nget pob bl6ydyn y gantha6 o enys prydein.** Sef oed meint y teyrnget. Teir mil o pun**hoed o aryan lloegyr. Ac yna yd aethant yn** gedymdeithyon ulkessa6~~n~~r. A chaswalla6n uab **beli. ac y rodes pob un y6 gilid rodyon ma6r**weirthya6c o eur. ac aryant a thlysseu ma6r**weirthya6c. Ac y bu ulkessar y gayaf h6nn6 //**

LlGC 5266 t. 72
yn enys prydein. A phan dechreuis y guaeanh6yn dyuot y ckychuynn6s parth a freinc. Ac ym **pen yspeit o amser. kynulla6 llu ma6r a wnaeth** ulkessar. Ac ar llu h6nn6 kychuyn parth a ru**uein. yn erbyn pompeius. y g6r oed yn lle amhe**ra6dyr yn yr amser h6nn6. yn daly yn y erbyn yn**teu. A chany pherthyn arnam ni traethu o we**ithredoed guyr ruuein. yn y bo ebryuygedic y **rei hynny. yd ymchuel6n ar yn traetha6t nuhun.** AC ym pen y seith mlyned guedy mynet ulkessar **o enys prydein y bu uar6 caswalla6n uab beli ac** y clad6yt yg caer eura6c gan urenhina6l ar6yl. **AC yn ol caswalla6n y gunaethp6yt Teneuan uab** llud yn urenhin. Canys Auar6y yr athoed ruuein **y gyt ac ulkessar. A h6nn6 a traeth6ys y dyrnas** tr6y garyat. A thagneued. G6r de6r oed teneu**an. ac a garei cad6 unya6nder guiryoned.** A Guedy mar6 Teneuan y gunaethp6yt kynuelyn **y uab ynteu yn urenhin. Marcha6c g6ychyr** trybelit oed h6nn6. A uagassei ulkessar amher**a6dyr ruuein. Ac ae h6rdassei yn arueu. ac** ae d~~u~~isgassei ym mil6ryaeth. A chymeint uu ga**ryat guyr ruuein gan y g6r h6nn6. a chet** atallhei eu teyrnget oe uod. y rodei udunt heb **oruot nae herchi nae chymhell. //**

LlGC 5266 t. 73
AC yn yr amser h6nn6 y ganet yr argl6yd yessu crist holl*gyuoetha6c*. or argl6ydes diweir ueir **wyry uendigeit. y g6r a pryn6s y cristonogyon yr** creu y gallon a oydynt r6ymedic o gad6yneu dy**euyl uffern. A Guedy bot kynuelyn uab teneuan** dec mlyned yn urenhin. y ganet deu uab yda6. **ar hynaf a elwit G6ydyr. Ar yeuhaf a elwit Gue**iryd. adar wenydya6c. A guedy eilenwi diewed y **uuhed o kynuelyn. y gunaethp6yt gueiryd yn** urenhyn. Ac y dechreu6ys attal teyrnget guyr **ruuein. Ac yna y doeth Gloe6 amhera6dyr ruue**in a llu gantha6 hyt yn enys prydein y gym**hell y teyrnget tracheuyn. A tywyssa6c y ymlad**eu y gyt ac ef. sef oed y hen6 lelius hamo. yr **h6nn y gunaei yr amhera6dyr bob peth tr6y** y gyghor. Ac y doethant y porthcestyr yr tir. Ac **yna y dechreuassant caeu pyrth y dinas o 6ur** maen mal na chaei neb o uy6n mynet allan. **Canys eu bryt oed eu guarchae. ac eu kymell tr6y** newyn y weda6l darystygediageth udunt. **A Guedy dyuot y chuedyl ar 6ydyr. kynulla6 a oruc** ynteu holl ymlawyr enys prydein yn y erbyn. A **guedy dyuot y deulu yn gyuagos. a bydina6 o** bob parth. dechreu ymlad a molestu y elynyon **yn 6ychyr a wnaeth G6ydyr. A m6y a ladei ehun //**

LlGC 5266 t. 74
nor ran wuyhaf oe lu. Ac ar hynny yd oed yr amhera6dyr ae lu yn kyrchu y longeu dan fo pan **aeth yr ymelldygedic t6yll6r bra6dr gan ha**mo a chymryt arueu un or brytannyeit yr **ladydoed. ac yn yr arueu hynny annoc y bryta**nyeit. megys ket bei un o*nadunt*. Ac ada6 **udunt y uudugolyaet. o pherheynt y*uelly*. ca**nys yeith a deuodeu y brytanyeit. ar dysgassei **ym*plith* y g6ystlon. oed yn ruuein o enys pry**dein. Ac y*uelly* kerdet yn ystrywus tr6y y byd**inoed yny doeth ger lla6 y brenhin. A phan ga**uas lle ac amser tara6 y pen hyt y mes a **cledyf. A llithra6 . tr6y y bydinoed yny doeth** ar y lu ehun. gan yr ysgymun uudugolyaeth **honno. A guedy guelet o weirit adar weini**da6c ry lad y brenhin. b6r6 y arueu ehun **a oruc. A guisga6 arueu y**

brenhyn. Ac annoc y gedymdeithyon. A gyrru grym ac angerd **yndunt. megys ket bei euo y brenhin. A pha**6b onadunt a uuant 6rth y dysgedigaetheu **cany 6ydynt dyg6ydedigaeth eu brenhyn. A gue**dy ymlad yn drut ac yn galet. guneuthur aer**ua dirua6r y meint oc eu gelynyon. Ac or di**wed llithra6 a oruc guyr ruuein. a fo yn d6y **ran. Ac y kyrch6ys Gloe6 ar neill ran gantha6 //**

LlGC 5266 t. 75
yn 6ri6edic y llongeu. A chymryt y diogel6ch megys o gestyll. A hamo ar ran arall gantha6 a **gyrch6ys y coet. cany chauas o yspeit mynet** y6 longeu. A thebygu a wnaeth Geirid bot Gloe6 **yn fo yr coet gyt a hamo. Ac 6rth hynny ny** orfo6yss6s Gueirit oc eu hymlit o le y le yny **godiwa6d ar glan y mor y lle a elwir oe en6** ef norhamt6n. Ac yno yd oed porthloed adas y **disgynua llongeu. Ac ual yd oed hamo yn caffa**el y llongeu hynny. nachaf weirit ae lu yn dy**uot yn deissyuit am y pen. ac yn y lle honno** y lad. Ac yr hynny hyt hediw y gelwir y porth**loed honno norhamt6n. yn saesnec a phorth ha**mo yg kymraec. A thra yd oed weirid yn ymlit **hamo. yd oed Gloe6 amhera6dyr ruuein guedy** gkynulla6 yr hyn a diaghyssei oe lu ac ymchu**elut tracheuyn. ac yn ymlad ar dinas a elwit** yn yr amser kaer peris. Ac yr a6rhon porce**styr. Ac yn diannot guedy caffael y gaer ae gor**esgyn a guasgaru y muroed. kych6yn a wna**eth yn ol gueirid yr athoed hyt yg kaer wynt.** A guedy y dyuot hyt yno a dechreu ymlad ar **gaer a mynnu guarchae Gueirid endi yny** delhei yn y ewyllis rac newyn. A guedy guelet **o weirid y warchae y*uelly* yn y dinas kywe //**

LlGC 5266 t. 76
irya6 a oruc ynteu y lu yn uydynoed a chyrchu allan 6rth rodi cat ar uaes yr amher**a6dyr ae lu. A phan weles yr amhera6dyr euo** mor diuyg6l a hynny. sef a wnaeth anuon **atta6 y geissya6 tagnheued a duundeb y gantha**6. Canys ouyn oed gantha6 a pherigyl gle6**der a chedernyt y brytanyeit. Ac 6rth hynny di**ogelach uu gantha6. tr6y synnh6yr a doethyneb **eu goresgyn noc ymrodi yn pedrus y ymlad ac** 6ynt. Sef yd anuones gan y kennadeu rodi y **uerch y weirid. yn wreic ida6. gan gynhal bren**hinaeth enys prydein A dan coron ruuein. Ac **o gyt*kyghor* guyrda enys prydein. Ae doethon** y kaffat guneuthur y tagnheued. A chymryt **merch yr amhera6dyr yn wreica yr brenhin** A dywed6yt heuyt nat oed waradwyd ida6 **ef daryst6ng y amheradyr ruuein. pan uei** yr holl uyt yn guedu ida6. Ac y*uelly* tr6y y **ry6 ymadrodyon hynny uuydhau a wnaeth g** gueirid 6rth eu kyghor. A daryst6ng y amhera**6dyr ruuein. Ac yn diannot yd anuones Glo**e6 yn ol y uerch 6rth y rodi y weirid. A tr6y **borth Gueirid a ganhorth6y wedy hynny y gor**esgynn6ys Gloe6 yr enyssed ereill yn y chylch. **A Guedy mynet y gayaf h6nn6 heibya6 a dy //**

LlGC 5266 t. 77
uot y guaeann6yn y doeth y kennadeu o ruuein a merch yr amhera6dyr ganthunt. Ac y dugant ar y that. sef **oed y hen6 Genuissa. Ac anryueda6t oed y theg6ch. O pryt** a gosged. A guedy y rodi y weirid m6y y carei ef hyhy. **nor holl 6yt. Ac 6rth hynny y mynn6ys ynteu anrydedu** y lle kyntaf y kysg6ys genthi. o tragywyda6l goffaedyga**eth. Ac erchi a wnaeth Gueirid yr amhera6dyr adeilat** dinas yn y lle honno y gad6 cof ry wneuthur neithory**eu kymeint a rei hynny tr6y yr oessoed. Ac uuydhau a** wnaeth yr amhera6dyr 6rth hynny ac adeilat dynas **a chaer. A gal6 honno oe en6 ef caer Gloe6 y tragyw**yda6l. Ac yg keffinyd kymry a lloegyr yd adeil6yt y **dinas h6nn6. ar glan hauren. Ac y gelwit caer loe6** yr hynny. hyt hedi6. Ac yn saesnec y gelwir Gloe6ces**tyr. Ac ereill a dyweit y mae o acha6s mab yr amher**a6dyr a anet yno a elwit Gloe6 g6lat lydan y gelwit **y*uelly* hi. Ac eissoes or acha6s**

kyntaf a dywetp6yt yd adeil6yt y gaer. AC yn yr amser yd oed weirid adar **weinida6c yn guledychu yn enys prydein y kymyrth** yr argl6yd yessu grist diodeiueint ym pren croc yr **prynu cristonogyon o geithiwet uffern.** A Guedy adeilat y dinas a hedychu yr enys. ymchuelut **a wnaeth yr amhera6dyr parth a ruuein. A gorch**ymyn y weirid lly6odraeth yr enyssed yn y gylch. y gyt ac ynys prydein. //

LlGC 5266 t. 78
AC yn yr amser h6nn6 y seily6ys pedyr ebostol egl6ys yn gyntaf yn yr Antioechs. Ac odyna y do**eth ruuein. Ac yno y deliis teilygda6t paba6l** esgoba6t. Ac yd anuones Marc ewangelystor hyt **y reifft. y pregethu eueghyl yr argl6yd yessu gr**ist holl gyuoetha6c. yr h6n a scriuenassei e**hun o weithredoed mab d6w. A Guedy my**net yr amhera6dyr ruuein kynryt synh6yr a **doethineb ynda6 a wnaeth Gueirid. Ac atne**wydhau y caeroed ar kestyll. yn y lle y bydynt **y llibina6. A llywya6 y tyrnas tr6y 6rolder A** g6iryoned. megys yd oed y en6 ae ouyn yn **ehedec dros y tyrnassoed ym pell. Ac yn hynny** eissoes kyuodi syberwyt ynda6. A thremygu **argl6ydiaeth Ruuein. Ac atal eu teyrmget ae** chymryt yda6 ehun. Ac 6rth hynny yd anuo**nes Gloe6 6aspasianus a llu ma6r gantha6.** hyt yn enys prydein y tagnheuedu a Gue**irid. neu y gymell y teyrnget arna6 tr6y** darystyghediageth y wyr ruuein. A guedy **eu dyuot hyt ym porth R6ytun. nach we**irid a llu ma6r gantha6 yn eu herbyn. y**ny oed aruthred gan wyr ruuein eu ni**uer. ac eu hamylder. ac eu gle6der. Ac 6rth //

LlGC 5266 t. 79
hynny ni lauasassant kyrchu y tir ar eu torr. A sef a wnaeth guyr ruuein ymchuelet eu **hwylyeu. A chyrchu racdunt yny doethant hyt** yn traeth totynyeis yr tir. A guedy cael o 6as**pasianus ae gedymdeithyon y tir. y kyrchassant** parth a chaer pen*h6yl*coet. yr hon a elwir **yr a6rhon exon. A guedy dechreu ymlad ar** gaer honno. ym pen y seithuet dyd. nachaf **weirid yn dyuot a llu gantha6. ac yn diann**ot yn ymlad ac 6ynt. Ar dyd h6nn6 y llas lla6**er o pob parth. Ac ny chauas yr un y uud**ugolyaeth. A thrannoeth wedy bydina6 o pob **parth. y doeth y urenhines y rygthunt. ac y** tagneued6ys eu tywysogyon. Ac odyna yd an**uonassant eu kytuarchogyon hyt yn ywerdon.** A guedy mynet y gayaf heibya6. ymchuelut **a wnaeth 6aspasianus parth a ruuein. a thri**gya6 a wnaeth Gueirid yn enys prydein. A **guedy nessau Gueirid parth a heneint. caru** guyr ruuein a oruc. a thraethu y teyrnas **tr6y tagnheued a hed6ch. a chadarnhau y** kyureithiau a oed ossodedic yr y dechreu. A **gossot ereill o newyd. A rodi rodyon ma6r** ehelaeth yr ae harchei. Ac y*uelly* yd ehe //

LlGC 5266 t. 80
dee6s y glot tros teruyneu europa. Ac y gyt a hyny y ouyn ae garu a oed ar wyr Ruuein. A m6y a **treythyt Ac a dywedit amdana6 yn Ruuein. noc** am urenhined holl teyrnassoed y byt. A hynny A **dywa6t Juuenal 6rth Nero amhera6dyr Ruuein.** pan y coffa6s yn y lyuyr ef. Ti a geffy heb ef **urenhin creula6n cadarn yth erbyn o enys pry**dein. A heb pedrus Gueirid adar weinida6c oed h6**nn6. Nyt oed yn ymlad g6r gadarnach noc ef.** Nyt oed ar hed6ch g6r arafach. Nyt oed un digri**uach. Nyt oed yn rodi da g6r haelach. A guedy ter**uyny diewed y uuhed. ae uar6. y clad6yt yg caer **Gloe6 y my6n temyl ry wnathoed ehun yn anry**ded y Gloe6 amhera6dyr Ruuein. **A Guedy mar6 Gueirid y doeth Meur6c y uab yn** urenhin. g6r anryued y prudder ae doethineb oed **h6nn6. ac ym pen yspeit guedy y uot yn guledy**chu. y doeth rodric brenhin y fychteit o scithia a **llyghes 6a6r gantha6 hyt yr alban yr tir.**

A dechreu anreitha6 y guladoed hynny. A dyuot **a wnaeth Meuruc yn y erbyn a chynnulleitua** ua6r gantha6 ac ymlad ac ef ae lad. A guedy **caffael o 6euruc y uudugolyaeth. dyrchauael** ma6r a wnaeth yn ar6yd caffael y uudugoly //

LlGC 5266 t. 81
aeth ohana6 ef. yn y wlat a elwit oe en. ef wintymar. sef y6 hynny yg kymraec g6ys Meuruc. Ac yn y **maen h6nn6 yd ysgrifenn6yd gueithredoed Meu**ryc. 6rth gad6 y gof yr hynny hyt hediw. **A Guedy llad ~~y~~ Rodric. y rodes Meuryc ran or alban** yr ~~alban~~ bobyl orchyuygedic ar dothoed y gyt a Ro**dric y bresswyla6 yndi. ar wlat a rodes ef udunt** 6y a elwit catneis. Ar wlat honno diffeith oed heb **neb yn y chyuanhedu. A guedy nat oed wraged ud**unt. sef a wnaethant erchi yr brytannyeit eu **merchet. ac eu caresseu yn wraged udunt. Ac eu na**ccau a wnaethp6t udunt. canyd oed teil6ng ganth**unt rodi eu merchet nac eu ~~merche~~ caresseu ud**unt. Sef a wnaethant 6ynteu mynet hyt yn ywer**don. Ac odyno d6yn guraged udunt. Ac or rei hyn**ny kynydu plant ac etiued a thyuu pobyl. Ar bo**byl honno y6 g6ydyl fichti. A llyna megys y doe**thant ar acha6s y kyn6yss6t yn gyntaf eyroet yn **yr enys hon. Ac yr hynny hyt hediw y maent yn** ormes heb uynet ohonei. A chanyt arueytheis y **traethu or guyr hynny nac or yscotyeit. y rei he**uyt a gynydassant dechreu eu kenedyl or rei hyn**ny ac or g6ydyl. sef y peideis a rei hynny. ac ym**chuelut y traethu om defnyd uuhun. //

LlGC 5266 t. 82
A Guedy tagnheuedu o 6euryc yr enys or mo b6y gilid. dechreu caru guyr Ruuein a wnaeth. ac **ell6ng eu teyrnget udunt. Ac o agreiff a dysc** y tat cadarnhau y kyureitheu. a lluneithu pob pe**th yn ad6yn. ar hyt y teyrnas. . Guedy eilenwi o**hona6 redec y uuched. y doeth Coel y uab ynteu **yn y ol. yn urenhin. Ar guas h6nn6 yn Ruuein** y megessyt. Ac eu moes ac eu deuodeu a dysgassei. **ac 6rth hynny yd oed r6ymedic ynteu o garyat** 6rthunt 6ynteu. Ac yn talu eu teyrnget udunt **heb y warauun. canys yr holl uyt a welei yn yr** amser h6nn6 yn talu teyrnget udunt. ac yn da**rystyghedic udunt. Ac ar uyrrder ny bu yn enys** prydein urenhin well a anrydedei deledogyon y **teyrnas nogyt coel. nac ae catwei yn wastat yn** tagnedussach. Ac un mab a anet y coel sef oed y **en6 lles. A guedy mar6 coel. y doeth lles yn uren**hin. a holl weithredoed da y tat a erlid6ys. ac **a wnaeth. yn gymeint ac y tebygyt y mae ef oed** coel ehun. A medylya6 a wnaeth hyt y gallei bot **yn well y diwed noe dechreu. Ac anuon a wnaeth** ar eleuterius pab. y erchi yda6 anuon atta6 guyr **fydla6n. y pregethu cristonogyaeth yda6 a chret** a bedyd. Canys y g6yrtheu yr wnathoed yr ebe //

LlGC 5266 t. 83
styl yn pregethu ar hyt y byt. yr daroed kyffroi a goleuhau y gallon ef. ae ued6l parth a du6. Ac **6rth hynny yd oed ynteu yn damuna6 guir fyd** o dihewyt y uryt. Ac ynteu ae cauas. A guedy **guelet or pab h6nn6. y gredyuus damunet ef.** ae diffygedigaeth. sef yd anuones atta6 deu wr **gredyuus fydla6n dysgodron. a seiledic yn y glan** gatholic fyd. y bregethu ida6 ac y6 bobyl. dyuot**edigaet yr argl6yd grist yg kna6t. ac eu gol**chedigaet 6ynteu tr6y glan fynna6n uedyd. **Sef guyr oed y rei hynny. D6ywan. a Fagan.** A guedy dyuot y guyrda hynny hyt yn enys pry**dein. a phregethu y les uab coel ae uedydya6** ae ymchuelut ar grist oe holl gallon. dechreu **a wnaeth y bobyl yn y lle redec attadunt. o dysc** ac agreiff eu brenhin. credu y du6. Ac eu bedy**dya6 yn en6 crist tr6y fyd gatholic. ac y*uelly*** eu rifa6 ym*plith* y gleinnion genueinyoed. ac **eu talu y gri**st eu crea6dyr 6ynt. A sef a wnaeth** y guynuydedigyon athraon hynny. guedy daruot **dilyu cam gret or holl enys. y temleu a oed guedy**

seillya6 yr geu d6yweu. kyssegru y rei hynny **ac eu haberthu y wir du6 holl gyuoetha6c. Ac** yr ebestyl ar seint. a gossot yndunt amrauael //

LlGC 5266 t. 84
genueinioed o urdas y glan egl6ys y talu dedua6l wassanaeth y eu crea6dyr yndunt. Ac yn yr am**ser h6nn6 yd oedynt yn enys prydein. yn talu an**ryded yr geu d6yweu. 6yth temyl a*r* ugeint. a **their pryf temyl y ar hynny oed u6ch noc 6ynteu** Ac 6rth gyureitheu y tri lle hynny. y darystyg**ei y lleill oll. Ac o arch yr ebostola6l wyr hyny.** y ducp6yt y temleu hynny y gan y geu d6yw**eu. ac yd aberth6t y du6 ac yr argl6ydes ueir.** Ac ym pob un or 6yth temyl a*r* ugeint gossot **esgob. ac ym pob un or tri lle gossot archesgob** Ac eistedua y tri archesgob oed yn y tri dinas bon**hediccaf yn enys prydein. Sef oed y rei hynny.** llundein A chaer Eura6c. A chaer llion ar 6ysc. **Ac yr tri dinas hynny y darystygynt yr 6yth ar**ugeint. A guedy rannu enys prydein yn teir **rann. y dyg6yd6ys yn rann archesgob caer ef**ra6c. Deiuyr A brennych ar Alban megys y kei**d6 humyr. Ac 6rth archesgoba6t lundein. y doeth** lloegyr a cherny6. Ac odyna kymry oll megys y **keid6 hauren. 6rth archesgoba6t caer llion.** A Guedy daruot yr deu 6rda gatholic hynny llu**nyeithu pob peth y wedus or a berthynei ar y** glan fyd gatholic ymchuelut a wnaethant trach //

LlGC 5266 t. 85
eu keuyn parth a Ruuein. A datcanu y eleuterius pab pob peth or a wnathoydynt. A chadarnhau a **wnaeth y pab pob peth o hynny. A guedy caffael** o*nadunt* y kedernyt h6nn6. yd ymchuelassant enys **prydein. A lla6er o gedymdeithyon dwya6l y gyt** ac 6ynt. A thr6y dysc y rei hynny yn yspeit uech**an y bu gadarn fyd y brytannyeit. A ph6y bynnhac** a uynnho g6ybot enweu y guyr hynny. keisset **yn y llyuyr a ysgriuenn6s Gyldas o uolyant em**reis wledic. Canys peth a ysgriuennei gur kym**meint a h6nn6. o eglur traetha6t nyt reit ym** minneu y atnewydhau ef. A Guedy guelet o les **diwyllwyr cristonoga6l fyd yn kynydu yn y teyrnas** dirua6r lewenyd a gymyrth ynda6. Ar tired. Ar ky**uoeth. Ar brenyeu a oed y temleu y d6yweu yr** kynt. y rei hynny a rodes ef y duw ar seint yn **tragywyda6l. gan eu hachuanegu yn ua6r o tir** a dayar. A breinhyeu. a noduaeu. a rydit. Ac ym*plith* **y gueithredoed da hynny. y teruyn6s lles uab** coel y uuched yg caer gloe6. Ac yd aeth or byt **h6n y teyrnas uab duw. Ae gorff yn anrydedus** a glad6t yn yr egl6ys benhaf oed yn y dinas. Ac **y sef amser oed h6nn6 6n ul6ydyn ar bymthec a** deu ugeint a chant. guedy dyuodedigaeth crst //

LlGC 5266 t. 86
ym bru yr argl6ydes wynuydedic ueir wyry. . Guedy mar6 ~~coel~~ lles ac nat oed ida6 un mab a **wledychei yn y ol y kyuodes teruysc y r6ng y bry**tannyeit ac y guanha6s argl6ydiaeth guyr Ruuein **ar a yr enys hon. A guedy clybot hynny yn Ruuein** sef a wnaethant anuon seuerus senadur. A d6y le**ng o wyr arua6c gantha6 y gymell enys prydein** 6rth eu hargl6ydiaeth mal kynt. A guedy dyuot **seuerus hyt yr enys hon. A bot lla6er o ymladeu cre**ula6n y rygtha6 ar brytannyeit. goresgyn rann or **enys a wnaeth. A rann arall ny all6s y goresgyn.** o uynych ymladeu y goualei 6ynt heb peida6. yny **dyholes dros deiuyr a brennych hyt yr alban. a** sulen y tywyssa6c arnadunt. A sef a wnaeth y **dyholedigyon hynny. kynnulla6 m6yhaf a allassa**nt or enyssed yn eu kylch. a goualu eu ky6da6twyr **tr6y uynych ryuel a bry6dreu. A thr6m uu gan** yr amhera6dyr dyodef eu ryuel yn wastat. sef **a wnaeth erchi dyrchauael mur yn yr alban a** a deuyr a brennych or mor p6y gilid ac eu guar**chae mal na cheffyn dyuot tros teruyn y mur** h6nn6. Ac yna y gossodet treul kyffredin 6r**th**

adeilat y mur h6nn6 or mor p6y gilid ar mur h6nn6 a barha6s tr6y lawer o amser //

LlGC 5266 t. 87
Ae eteliis yn uynych y 6rth y brytannyeit. A guedy na all6s sulyen a uei h6y no hynny gynnal ryuel yn erbyn **yr amhera6dyr. sef yd aeth hyt yn scythia. y geiss**ya6 porth y gan y fychteit y oresgyn y gyuoeth **tracheuyn. A guedy kynnulla6 o*hona6* holl yeu**engtit a de6red y wlat honno. dyuot a wnaeth y **enys prydein. A llyghes dirua6r y meint ganth**a6. A guedy eu dyuot yr tir. kyrchu am ben caer **Eura6c a oruc a dechreu ymlad ar gaer. A guedy** kerdet y chuedyl yn honnyeit tros y teyrnas yd **ymedewis y rann u6yhaf or brytannyeit or a** oed y gyt ar amhera6dyr. Ac yd aethant ar suly**en. Ac yr hynny eissoes ny pheid6ys yr amher**a6dyr ae darpar namyn kynnulla6 guyr Ruue**in. ar hynn a trigassei or brytannyeit y gyt ac** ef. A chyrchu y lle yd oed sulyen ac ymlad ac **ef. Ac yna eissoes pan oed gadarnhaf yr ym**lad y llas seuerus amhera6dyr. A lla6er oe wyr **y gyt ac ef. Ac y brath6yt sulyen yn agheu**a6l. Ac y clad6t seuerus yg caer eura6c. A **guyr Ruuein a gynheliis y dinas arnadunt** yr hynny. A deu uab a edewis seuerus. sef oed **eu hen6 bassianus. a Geta. bassianus hagen a** hanoed y uam or enys hon. ar llall a hano //

LlGC 5266 t. 88
ed y uam o Ruuein. A guedy mar6 eu tat. sef a wnaeth guyr Ruuein dyrchauael Geta yn ure**nhin. ae ganma6l yn u6yhaf 6rth hanuot y tat** ae uam o Ruuein. A sef a wnaeth y brytanny**eit eissoes ethol bassianus yn urenhin. ae ganma6l** ynteu 6rth hanuot y uam or enys hon. Ac 6rth **hynny sef a wnaeth y brodyr hynny ymlad. Ac** yn yr ymlad h6nn6. y llas Geta. Ac y cauas bassi**anus y urenhinaeth tr6y nerth y brytannyei.**eit . yn yr amser h6nn6 yd oed guas yeuanc **yn enys prydein. sef oed y en6 Cara6n. Ac ny ha**noed o lin brenhyned. namyn o lin issel. Ac **eissoes guedy caffael clot o*hona6* yn lla6er o** ymladeu. oe dewred ae fynnyant. kychwyn **parth a Ruuein a oruc y geissya6 kanhyat y** gan sened Ruuein y warchad6 o*hona6* ef. ar **longeu aruortir enys prydein. rac estronyon** genedloed. Ac ada6 o da udunt am hynny di**ga6n pei kenhyetit ida6 brenhynaeth enys** prydein. A guedy t6ylla6 o*hona6* sened ru**uein tr6y y ry6 edewidyon t6yllodrus hyn**ny. A chaffael o*hona6* ynteu ganhyat. yr hyn **yd oed yn y geissya6. ymchuelet a wnaeth** parth ac enys prydein. ae negesseu gantha6 //

LlGC 5266 t. 89
tr6y gedernyt scriuenneu a llythyreu agoret. ac inseilyeu sened Ruuein 6rthunt. A guedy y dyuot **enys prydein. kynnulla6 h amylder a oruc o long**eu. a gal6 atta6 holl yeuengtit enys prydein. A **chylchynu y traetheu. A guneuthur kynn6ryf** ma6r yn y holl teruyneu. Ac y gyt a hynny. d6yn **kyrcheu mynych yr enyssed yn y chylch. ac eu an**reitha6 ac eu llosgi. a distry6 eu kestyll. a llad **eu tir*diwyllodron*. A thra yd oed uelly pa6b or** cribdeilwyr ereill a gyrchei atta6. y 6rhau yda6. **Ac erbyn yspeit uechan kymeeint oed y niuer.** ac nat oed ha6d y un tywyssa6c ym*erbyn* ac ef. **na g6rth6ynebu yda6. Ac 6rth hynny sef a wnaeth** cara6n ymdyrchauael yn syberwyt. Ac anuon **a wnaeth ar y brytannyeit y uenegi udunt bei** gunelynt euo yn urenhin. guedy y darffei yda6 **ef yn gyntaf. guasgaru guyr Ruuein ac eu** llad. y differei ynteu enys prydein guedy hynny **ac y hamdiffynnei rac estra6n genedyl a rac pob** gormes or a delhei idi. A guedy caffael ohona6 eu **duundeb ymlad a wnaeth a bassianus. a guedy y lad** kymryt ehun llywodraeth y teyrnas yn y la6. ca**nys y**

fychteit yr dugassei sulyen gantha6. yr wnathoed ida6 ef brat bassianus. ewythyr bra6t //

LlGC 5266 t. 90
y uam y bassianus oed sulyen. a phan dyleynt y fychteit canhorth6ya6 eu brenhin. nyt ef a wnaethant **6ynteu namyn kymryt guerth y gan cara6n. a** llad bassianus. a sef a wnaeth guyr Ruuein ynuydu **heb 6ybot p6y uei eu gelynyon p6y uei eu guyr** ehunein. ac ada6 y maes a fo. A guedy caffael o ca**ra6n y uudugolyaeth honno. y rodes ynteu yn yr** alban lle yr fychteit y bress6ylya6 ynda6. ac yr hyn**ny hyt hedi6 y maen yno. A guedy clybot yn Ru**uein yr oresgyn o cara6n enys prydein. ar ry lad **guyr Ruuein ac eu guasgaru ac eu dihol. sef a** wnaeth sened Ruuein anuon allectus a their lleg **o wyr arua6c gantha6. 6rth geissya6 llad y cre**ula6n h6nn6. ac y d6yn enys prydein 6rth dar**ystygedigaeth y wyr Ruuein. ac heb un gohir gu**edy dyuot allectus enys prydein. ac ymlad a cha**ra6n ae lad y kymyrth ehun llywodraeth yr enys** yn y la6. ac odyna guneuthur creulonder a molest **ar y brytannyeit. o acha6s yr ymada6 o*honunt*** ac argl6ydiaeth guyr Ruuein a g6rhau y cara6n. **sef a wnaeth y brytannyeit heb allu diodef hyn**ny. duuna6 y gyt. a guneuthur asclepiodotus ty**wyssa6c kerny6 yn urenhyn arnadunt. ac ody**na kynulla6 llu ac ymlad a guyr Ruuein. //

LlGC 5266 t. 91
Ac yna yd oed allectus yn guneuthur g6ylua y6 tatolyon d6weu yn llunden. ac eissoes pan gigleu ef **bot y brytannyeit yn dyuot am y ben. peidya6 a wn**aeth ar abertheu yd oed yn y wneuthur. A mynet **a wnaeth o*dieithyr* y dinas ae gedernyt gantha6.** A guedy bot ymlad y rygthunt. aerua dirua6r y **meint a las o pob parth. o*nadunt*. ac eissoes y gor**uu asclepiodotus. ar brytannyeit. a guasgaru bydinoed **guyr Ruuein. ac eu kymell ar fo. Ac yn yr erlit** h6nn6. llad allectus a llawer o uilyoed o*nadunt*. A **guedy gueled o ~~lliu~~ lilius gallus kedymdeith allectus** ry gaffael or brytannyeit y uudugolyaeth. sef a wna**eth ynteu gal6 atta6. a chynnulla6 yr hyn yr diagh**assei oe gedymdeithyon. a chyrchu caer lundein. A **chayu y pyrth a chynnal y dinas arnunt. o tebygu** gallu gochel eu hagheu y*uelly*. Ac eissoes sef a **wnaeth asclepiodotus eu guarchae yno 6ynt. Ac ody**na anuon ar bob tywyssa6c yn enys prydein. A **mynegi udunt ry daruot yda6 ef llad allectus a lla**wer o 6ilyoed y gyt ac ef. ae uot ynteu yn guarch**ae yr hyn a diaghassei yg caer lundein. Ac 6rth hy**nny erchi y pa6b yn kytuun dyuot atta6. Ac eu holl **porth yn ll6yr ganthunt y geissya6 diwreida6 guyr** Ruuein yn ll6yr or enys hon. Canys tebygei allu //

LlGC 5266 t. 92
hynny yn ha6d hyt tra uydynt yg warchae y*uelly* Ac 6rth y wys honno y doethant pa6b or a hanoed o **genedyl y g brytannyeit. A guedy eu dyuot hyt eno** a guneuthur amrauael beiryannheu. ymlad ar gaer **ac ar muroed a wnaethant. yn drut ac yn galet.** A guedy guelet o wyr Ruuein hynny annoc a wna**ethant y eu tywyssa6c ymrodi ef ac 6ynt yn truga**red asclepiodotus. ac erchi ida6 eu gell6ng y emdeith **or enys heb dim da ganthunt namyn eu heneideu.** can daroed eu llad oll 6ynt namyn un lleng oed **ettwa yn ymgynnhal. Ac 6rth y kyghor yd ymrodass**ant yn ewyllis asclepiodotus ar brytannyeit. Ac ual yd **oedynt yn kymryt kyghor am eu gell6ng sef a** wnaeth guyr g6yned eu kyrchu. ac ar yr un fr6t **a gerdei tr6y lundein. llad gallus tywyssa6c ae holl** gedymdeithyon. Ac oe en6 ef y gelwyt h6nn6 yr **hynny hyt hyt hedi6 yg kymraec nant y keilya6c** Gallobroc yn saesnec. A Guedy goruot ar wyr Ru**uein a daruot eu llad. y kymyrth asclepiodotus** coron y

urenhinaeth a llywodraeth y teyrnas tr6y **ganhyat a duundeb pobyl enys prydein. a thra**ethu y gyuoeth a oruc o 6nyan wiryoned **a hed6ch tr6y yspeit dec mlyned. a guahard** gribdeil y treiswyr. a phlu cledyfeu y lladron //

LlGC 5266 t. 93
a oruc tr6y hynny o amser. Ac yna y kyuodes creulonder diocl**e**cianus amhera6dyr ruuein **tr6y yr h6nn y dile6yt cristonogyaeth o enys** prydein. yr honn a gynnhalyessit yndi yn gyf**an yr yn oes lles uab coel y brenhyn kyntaf** a gymerassei gret a bedyd yndi. Canys max**en tywyssa6c ymladeu yr amhera6dyr creu**la6n h6nn6. A doeth yr enys a llu ma6r gan**tha6. Ac o arch a gorchymyn yr amhera6dyr** y diuaa6d yr egl6ysseu. Ac y llosges. ac 6ynt **ac a all6ys y gaffael o lyfreu yr ysgrythur** glan. ac y gyt a hynny y merthyr6yt eth**oledigyon efferyeit a christonogyon fydla**6n oed u6yd darystygedic udunt. a dan wed **uab du6. mal y kerdynt yn uydinoed y** teyrnas nǽef. Ac yna y damllewych6ys **mab duw y trugared. ar na mynnei uot** kenedyl y brytannyeit yn llychy... llychwin **o tywyllwch pechodeu. namyn goleuhau o*nadu***nt ehunein egluraf lampeu gleinyon uer**thyri udunt. Ac yr a6rhon y mae bedeu y rei** hynny ac eu hesgyrn ac eu creireu yn y lle**oed y merthyr6yt yn guneuthur dirua**6r wyrtheu a digriu6ch. a didan6ch //

LlGC 5266 t. 94
yr neb a edrych arnadunt pei na bei g6ynuanus ac 6ylouus y gristonogyon clybot ry **wneuthur o estra6n genedyl paganyeit ar fyd**la6n gristonogyon. Ac eu pria6t genedyl e*hu***nein. Ac ym*plith* y bonhedigyon bobloed uer**thyri. or guyr ar guraged y diodeu6ys seint **alban o 6erolan. ac y gyt ac ef Julius ac aaron** o gaer llionon ar 6ysc. Ac yna y kymyrth seint **alban. Amphibalus a oedyd a6r pob a6r yn y** d6yn oe uerthyru. ac y cudy6ys yn y ty ehun. **A guedy na thygyei hynny. A gymyrth y wisc** amdana6 e*hunan*. Ac yd ymrodes ym mer**thyrolyaeth trosta6 gan euelychu crist arg**l6yd y g6r a ymrodes e*hun* dros y deueit. **Ac odyna y deu wr ereill tr6y agklywedic** poeneu ar eu corfforoed. A ellygwyt y wlat **nef tr6y urerthyrolyaeth.** AC yna y kyuodes coel yarll caer gloe6 yn **erbyn asclepiodotus. A guedy ymlad ac ef** y llada6d. ac y kymyrth e*hun* coron y teyrn**as. A guedy mynegi hynny y sened ruuein** llawenhau a wnaethant o agheu y brenhin. **A gynhyruassei eu hargl6ydiaeth. A guedy d6yn ar gof //**

LlGC 5266 t. 95
o*nadunt* eu collet yr pan collessynt argl6ydiaeth enys prydein. sef a wnaethant anuon **constans senadur. y g6r a oresgynassei yr yspaen** 6rth Ruuein. g6r doeth a gle6 oed h6nn6. A **g6r a lauuryei yn wuy no neb y achuanegu** kyffredin argl6ydiaeth ruuein. A phan gigl**eu coel bot y g6r h6nn6 yn dyuot. brenhin** y brytannyeit. ouynhau a wnaeth ymlad ac ef **canys kly6ssei nat oed neb a allei 6rth6ynebu** ida6. Ac 6rth hynny pan doeth constans yr tir. **sef a wnaeth coel anuon ata6 y erchi tagnef**ed. Ac y gynnic darystygedigaeth o enys prydein **ida6. gan adu y coel y urenhinaeth a thalu y gno**taedic teyrnget y wyr Ruuein. A guedy datca**nu hynny y constans y rodes taghneued udunt ac** y kymyrth g6ystlon y gan y brytannyeit ar hy**nny. a chyn pen y mis guedy hynny y cleuych**6ys coel o 6rthr6m heint. A chyn pen **yr 6ythuet dyd y bu uar6.** A guedy mar6 coel y kymyrth constans **coron y teyrnas. ac y kymyrth un uerch oed y** coel yn wreic ida6. sef oed y hen6 elen uerch **a honno un elen luyda6c. ac ny chaffat //**

LlGC 5266 t. 96

yn yr enyssed a gy*ffelypei* y bryt y uor6yn honno ae theg6ch. ac nyt oed yg keluydodeu **a g6ybot. a allei kyffelybu idi. Canys y that a** baryssei y dyscu y*uelly* 6rth nat oed etiued na**myn hi. mal y bei ha6s idi llywya6 y teyrnas** guedy ef. A guedy kymryt o constans helen **yn wreic ida6. Sef y ganet mab ida6 o*honei*.** sef y dodet ar y mab custennyn. Ac ym pen y deg **mlyned wedy hynny y bu uar6 constans. ac y** clad6yt yg caer Eura6c. Ac yd edewis y guste**nnyn y urenhinaeth. Ac ym pen ychydic o ys**peit bl6ynyded. ymdangos a wnaeth custennyn **bot ynda6 bonhed ma6r. a dylyet. ac ymrodi** y haelder a dayoni. A guneuthur ya6nder yn y **argl6ydiaeth ac ymdangos mal llew dywal y** rei dr6c. a megys oen guareda6c y rei da. **AC yn yr amser h6nn6 yd oed g6r creu**la6n engirya6l yn amhera6dyr yn Ru**uein. sef oed y en6 maxen. Ar bonhedigyon** a gywarsagei ac a dystrywei o gyffredin ar**gl6ydiaeth Ruuein. sef a wnaeth y bonhed**igyon ar dyledogyon hynny. guedy eu di //

LlGC 5266 t. 97
hol or creula6n amhera6dyr h6nn6 6ynt o tref eu tat. dyuot ar gustennyn hyt yn enys prydein. **ac ynteu ae haruolles yn llawen uonhedigeid.** Ac eissoes guedy dyuot lawer or rei hynny ar **gustennyn. y gyfroi a wnaethant yn erbyn y** creula6n wr h6nn6 gan g6yna6 6rtha6 yn **6ynych eu halltuded ac eu trueni. A chan annoc** ida6 goresgyn maxen a dihol. Canys o genedyl **Ruuein yd hanoed gustennyn. Ac nat oed ac eu** dylyhei 6ynteu yn gystal ac euo. Ac 6rth hyn**ny adol6yn ida6 dyuot y gyt ac 6ynt y oresgyn** tref eu tat. Ac y eturyt eu dylyet udunt. Ac **y waret gormes o Ruuein. A thr6y y ry6 ym**adrodyon hynny kyffroi a oruc custennyn. a **chynnulla6 llu ma6r. a mynet y gyt ac 6ynt hyt** yn Ruuein. A goresgyn yr amherodraeth yn eida6 **ehun. Ac odyna y cauas llywodraeth yr holl uyt.** Ac yna y duc custennyn y gyt ac ef tri ewyth**red helen. A sef oed y rei hynny. llywelyn. a thra**hayarn. a Meuryc. Ar try wyr hynny. a osso**des ef yn 6rdas sened Ruuein. Ac yn yr am**ser h6nn6 y kyuodes Eudaf yarll ergyg //

LlGC 5266 t. 98
ac yeuas yn erbyn y tywyssogyon ry ada6sei gustennyn yn cad6 llywodraeth yr enys hon **a dana6. A guedy ymlad o eudaf ar guyr hyny** ac eu llad kymryt ehun coron y teyrnas. a **llywodraeth yr enys yn g6byl. A guedy myn**egi hynny y gustennyn. sef a wnaeth ynteu **anuon trahayarn ewythyr helen. a their lleg** o wyr arua6c y gyt ac ef y oresgyn yr enys **tracheuyn. A guedy dyuot trahayarn yr tir.** yr lle a elwir caer peris. y cauas y dinas h6nn6 **kyn pen y deu dyd. A phan gigleu eudaf hynny.** sef a wnaeth ynteu kynnulla6 holl ymladwyr **yr enys hon a dyuot yn y erbyn hyt yn em**yl caer wynt. yn y lle a elwit maes uryen. **Ac yna y bu 6r6ydyr y rygthunt ac y gor**uu eudaf ac y cauas y uudugolyaeth. ac yn yd **oedynt 6ri6edic a lladedic y wyr. y foes traha**yarn. ac yd aeth yn y longheu. Ac yna tr6y uor**a6l hynt. yd aeth yr alban. A dechreu anrei**tha6 y guladoed. ac eu llosgi a llad y bilein**llu. A phan doeth ar eudaf y chuedyl h6n**n6 sef a wnaeth ynteu yr eil weith ky //

LlGC 5266 t. 99
nnulla6 llu a mynet yn y ol ef hyt yr alban. Ac yn y wlat a elwir westimarlont rodi br6y**dyr y trahayarn. Ac eissoes kylya6 or 6r6ydyr** honno a wnaeth eudaf heb uudugolyaeth. sef **a wnaeth trahayarn yna erlit eudaf o le y le ar** hyt enys prydein. yny duc y arna6 y dianassoed **ar keyryd. ar kestyll ar guladoed a choron y te**yrnas. A guedy digyuoethi eudaf sef yd aeth hyt **yn llychlyn. Ac eissoes tra yd oed ef ar y dihol** h6nn6. sef a wnaeth ada6 gan y gedymdeith**yon ay gereint llauurya6 y geissya6 diua tra**hayarn. A sef a wnaet yarll y castell cadarn ca**nys m6y y carei ef eudaf no neb. 6al yd oed**

trahayarn diwarna6t yn mynet o lundein sef **a wnaeth yr yarll h6nn6. a chan marcha6c y** gyt ac ef llechu y my6n glyn coeda6c. y ford **y doei trahayarn. Ac yn y lle honno ym*plith*** y gytuarchogyon y llas trahayarn. A phan **gigleu eudaf hynny. ymchuelut** a wnaeth tracheuyn hyt yn **enys prydein. A guasgaru y** Ruueinwyr o*hanei* a guis //

LlGC 5266 t. 100
ga6 ehun cororn y teyrnas. Ac ar uyrder ymgyuoethogi a wnaeth o eur ac aryant a **chyuoeth hyt nat oed ha6d caffael neb a uei** arna6 y ouyn nay aryeneic. Ac o hynny all**an. y kynheliis eudaf enys prydein hyt yr am**ser y buant gracian a uala6nt yn anherodron **yn Ruuein. AC yg kylch diwed y oes ymgyg**hor a wnaeth eudaf ae wyrda pa wed yd a**da6ei y gyuoeth guedy ef. Canyt oed etiued** namyn un 6erch. A rei a gyghorei ida6 rodi y **uerhc y un o dylyedogyon Ruuein. ar teyrn**as genthi mal y gellit kynnhal yr enys yn **gadarn. ac yn dagneuedus rac lla6. Ac ereill** a gyghorei ida6 rodi y uerch y urenhin o **wlat arall. a diga6n o eur ac aryant gen**thi. a rodi y kyuoeth oll guedy ynteu. y kynan **meyryada6c nei eudaf. Ac eissoes y kyghor**es karada6c yarll kerny6 yr brenhin gua**ha6d atta6 maxen wledic. A rodi y** h6nn6 y uerch ae gyuoeth **genthi wedy ef. canys o hyn**ny y tebygei caffael tragywyd**a6l hed6ch. canys mab oed y //**

LlGC 5266 t. 101
maxen h6nn6 y lywelyn ewythyr helen luyda6c megys y dywetp6yt tracheuyn y uynet or enys **hon y gyt a chustennyn uab helen. A mam 6axen** o dylyedogyon Ruuein yd hanoed. Ac yno y gany**doed ynteu. Ac ar uyrder ac oe uam ac oe dat** o urenhyna6l genedyl yd hanoed. A chynhyruu y **llys yn ua6r a wnaeth kynan meirada6c nei** y brenhin. o acha6s ry rodi or yarll y kyghor h6**nn6. yr brenhin. canys y uryt ef ae ued6l oed** 6rth urenhynaeth. Ac yn irlla6n yd edewis y **llys. Ac yna eissoes sef a wnaeth karada6c yarll** kerny6. anuon meuryc y uab hyt yn Ruuein. **y uynegi hynny y uaxen. sef kury6 wr oed** ueuryc guas ma6r tec teledi6 clotua6r oe **de6red ae haelder. A pha beth bynnac a dywe**tei ar y taua6t. ef ae cadarnhaei oe weithret **ae arueu. a guedy dyuot meuryc rac bron** maxen kymeredic uu gantha6 ef ym mlaen **pa6b yn anryded. ac yn yr amser h6nn6. teruysc** a ryuel ma6r a oed y r6ng maxen ar deu am**hera6dyr ereill oed yno. sef oed y rei hynny.** Gracian. a 6ala6nt. y urodyr ef. Canys y rei **hynny yr daroed udunt g6rthlad maxen o //**

LlGC 5266 t. 102
tryderan yr amherodraeth. a hynny a oed 6rthr6m gantha6 ynteu. A guedy guelet o ueur**yc uaxen yn gywarssaghedic y gan yr am**herodron. sef a wnaeth meuryc dywed6yt **6rtha6 yr ymadra6d h6n. Maxen heb ef** pa acha6s y dyodefy di dy dremygu ual hyn **a ford ititheu y ymwaret. Debre enys pryd**ein. a chymer coron y teyrnas ae brenhinaeth. Ca**nys eudaf urenhyn ysyd hen a chlauus. ac nyt** oes dim a damuno namyn caffael dyleda6c o **ruuein 6rth rodi y un uerch yda6 ae uren**hinaeth genthi. canyt oes ida6 etiued namyn **hi. ac 6rth hynny y cauas yn y gyghor ef ae** wyrda rodi yti y uerch ae teyrnas genthi. **Ac or acha6s h6nn6 ym anuonet ynheu hyt** yma. ac o mynny ditheu dyuot y gyt a my**uy yno pob peth o hynny a uyd para6t yt. A** guedy keffych hynny o amylder eur ac ary**ant. a marchogyon enys prydein ae chynnif**wyr y gelly goresgyn yr amherodron ac ody**na yr holl uyt. Canys o enys prydein y cauas** custennyn dy gar di amherodraeth Ruuein //

LlGC 5266 t. 103

ac odyna yr holl uyt. A llawer y gyt ac ynteu o enys prydein a gynydassant Ruuein. **AC 6rth yr ymadrodyon hynny y kychuynn6s** maxen y gyt a meuryc uab carada6c hyt yn **enys prydein ac ar y ford eissoes yn mynet y** darystyg6s caereu freinc ae dinassoed. Ac y gor**esgynn6s 6ynt. A chynnulla6 swllt llawer a wn**aeth 6rth y rodi y uarchogyon y amlhau y teu**lu. A guedy goresgyn o*hona6* freinc. ac amyl**hau y lu kychwyn a wnaeth ar y mor ~~ar y~~ ~~**mor**~~ **ar g6ynt yn hyr6yd yn y ol. A dyuot nor**hamt6n yr tir. A phan gennatta6t hynny yr **brenhin. dyruawr ouyn a aeth arna6 o tebygu** y mae gelynyon oedynt. a uynnynt goresgyn **y kyuoeth. A gal6 atta6 a wnaeth kynan me**irada6c y nei ac erchi ida6 kynnulla6 holl **ymladwyr y teyrnas. a mynet yn eu herbyn.** Ac yn yd oed gynnulledic llu dirua6r y ueint. **kychuyn a wnaeth kynan meirada6c parth a** norhamt6n. yn yd oed pebylleu maxen ae lu. **A guedy guelet o uaxen llu kymeint a h6n**n6 yn dyuot yn eu herbyn. ouynhau a wnaeth //

LlGC 5266 t. 104
o pob un o d6y ford. o ueint y llu ac o wybot gle6der y brytannyeit. Ac nat oed gantha6 yn**teu un gobeith o tagneued. A gal6 y hynafgwyr** a wnaeth atta6 a meuryc uab carada6c y erchi kyg**hor am hynny. Ac yna y dywa6t meuryc argl6yd** heb ef. nyt oes le yny y ymlad ar guyr racc6. ac **nyt yr mynnu ymlad y doetham yman. nac yr** kyfroi y guyr racc6 yn dybryt yn an herbyn heb **acha6s. namyn tagneued ysyd ya6n y erchi udunt** a llety yny wypom ued6l y brenhin amdanan. ae **ewyllis. A dywed6n yn bot a chennad6ri gennhym** y gan amherodron Ruuein. ar eudaf urenhin en**ys prydein. Ac y*uelly* tr6y ymadrodyon clayar ke**yss6n tagnheuedu ac 6ynt. A guedy bot yn ryng**ad6y bod y pa6b o*nadunt* y kyghor h6nn6. sef a** wnaeth meuryc kymryt deudegwyr o wyr ll6y**don adwyn. a doethon. a cheing or oliwyd yn y lla6** deheu y pob un onadunt. a dyuot hyt rac bron **kynan. A guedy guelet or brytannyeit y guyr ad6yn an**rydedus hynny yn arwein oliwyd yn eu deheu**oed yn ar6yd tagneued a hed6ch. sef a wnaeth**ant kyuodi yn anrydedus yn eu herbyn. Ac //

LlGC 5266 t. 105
y gyt ac y doethant rac bron kynan y hannerchassant o pleit amherodron Ruuein ae sened. A myn**egi ida6 a wnaethant ry anuon maxen a chenn**ad6ri gantha6 y gan amherodron ruuein ar eu**daf urenhin enys prydein. Ac yna y gouynn6s** kynan meirada6c pa acha6s yr dothoed llu kym**eint a h6nn6 gantha6 ynteu. a dywed6t a wnaeth** nat oed tebic hynny y gerdedyat kennadeu na**myn y elynyon a uynnhynt anreitha6 g6ladoed.** Ac yna y dywa6t y kennadeu nat oed tec na **guedus. kerdet g6r kyuurd a h6nn6 yn anogo**nedus heb luosgr6yd o gedymdeithyon anryded**us y gyt ac ef. Canys uelly y mae teil6ng y gyt** a phob un o amherodron Ruuein. rac cael peri**gyl a chewilid y gan eu gelynyon. kerdet llawer** o toruoed a bydinoed y eu kad6 y ford y kerdont **tagneued a geissant. tagnheued a dyborthant. Ac ar**6yd y6 hynny. yr pan doethant yr tir yr enys hon. **ny wnaethant na grym na sarhaet na threis y** neb namyn yr eu heur ac eu haryant prynu eu **kyureidyeu megys kenedyl dybortha6dyr hed6ch.** heb ge*issa6* dym y gan neb. nac y dreis nac **yn rat. Ac ual yd oed kynan meirada6c yn pedru //**

LlGC 5266 t. 106
ssa6 beth a wnelhei ae ymlad ac 6ynt ae hedychu dynessau a wnaeth atta6 carada6c yarll kerny6. **ar guyrda ereill y gyt ac ef. A chyghori hedychu** ac 6ynt. A chet bei dr6c gan kynan rodi hed6ch **udunt a wnaethp6t. A d6yn maxen y gyt ac 6ynt** hyt yn llundein. ar eudaf urenhin y brytannyeit. **a**

datcanu ida6 mal yr daroed. Ac yna kymryt a wnaeth karada6c yarll kerny6 g6yrda y gyt ac ef. **a guedy eu dyuot rac bron y brenhin dywedut a** wnaeth ual hyn. Argl6yd heb ef llyma yr hyn yd **oed y guyr ath garei ti yn y damuna6 eryoet. a** du6 yn llunyeithu hynny hedi6 ac yn y anuon hyt **yman. o acha6s dy uot titheu yn cad6 fydlonder** 6rth du6. sef yw hynny. tidi a uuost yn ymgyg**hor ath wyrda. pa beth a wnelut y helen dy uerch.** ath gyuoeth. can yt oedut ti yn ymdreigla6 yn hen**eint ual nat oed ha6d yt tuhunan llywya6 y te**yrnas. a uei h6y no hynny. Ac yna y bu rei a gyg**horei yt rodi coron y teyrnas ae llywodraeth y ky**nan meiryada6c dy nei. a rodi dy uerch y dyle**da6c o wlat arall. canys ouyn oed ganthunt** dyuot darystghedigaeth y teyrnas o delhei ure //

LlGC 5266 t. 107
nhyn agkyuyeith arnadunt. ereill a gyghores yt rodi dy uerch y un o dyledogyon y teyrnas ual y bei **urenhin wedy ti. Ac eissoes y ran wuyhaf oth wyr**da ath gyghores. y gyeissa6 un amherodron Ruuein **y rodut dy uerch ath gyuoeth ida6 guedy ti. canys** y*uelly* y tebygynt cael hed6ch os ruueina6l am**herodraeth ac eu hamdiffynnei. A llyma hediw ar**gl6yd wedy ry anuon o duw y guas yeuanc h6n **yman yt ti. yr h6n a heny6 o ruueina6l amher**rodron a brenhinolyon urytannyeit. Ac y h6nn6 **om kyghor i y rody ti dy uerch ath gyuoeth gue**dy ti. Ac y gyt a hynny edrych bot yn gystal y dy**lyet ar teu ditheu ar enys prydein canys car a**gos yw y custennyn. a nei y coel yn brenhin **ninheu. Ac y uerch y g6r h6nn6 nyt oed dy**lyet guarauun y urenhynaeth. Ac uuydhau a **wnaeth eudaf yr kyghor h6nn6. Ac o gyffredin** kyghor enys prydein. y rodet helen uerch eudaf. **ar teyrnas genthi y uaxen uab llywelyn. A** guedy guelet hynny o kynan meirada6c. blyg**hau a oruc ynteu a llidya6. a mynet odyno** hyt yr alban. a chynnulla6 atta6 llu dirua6r //

LlGC 5266 t. 108
atta6 y geissya6 ryuelu ar uaxen. Ac ar llu h6nn6 gantha6 dyuot tr6y h6mur a dechreu anreitha6 **y guladoed hynny o bob parth. A guedy mynegy hy**nny y uaxen. kynnulla6 a wnaeth ynteu y llu m6y**haf a all6s. A mynet yn y erbyn a rodi cat ar uaes** y kynan meirada6c ae erru ar fo. Ac eissoes ny phe**yd6s kynan namyn ymgynnulla6 y lu eilweith** ac anreitha6 y g6ladoed ual kynt. A gueitheu gan **uudugolyaeth. gueithyeu ereill hebdi yd ymchue**lei uaxen y 6rtha6. Ac or diwed eissoes guedy gu**neuthur o bob un o*nadunt* colledeu ma6r y6** gilid kymodi a wnaethant tr6y eu kedymdeithyon **a dyuot yn un garyat. Ac ym pen yspeit pym mly**ned syberwhau a wnaeth maxen o amylder eur **ac aryant. a swllt a marchogyon. A chynifwyr** Ac yn y lle paratoi llyges a oruc. A chynnulla6 **atta6 holl ymladwyr enys prydein. ac a all6s** y gaffael o leoed ereill. A guedy bot pob peth **yn para6t. ch. kychwyn a wnaeth parth a llyda6** y wlat a elwir yr a6rhon bryttaen uechan. **A guedy y dyuot idi dechreu ymlad ar bob..** oed yndi o freinc. ac yn y dyd h6nn6 y llas //

LlGC 5266 t. 109
hymlath eu tywyssa6c. a phymtheg mil o wyr arua6c y gyt ac ef. A guedy guelet o uaxen ueint yr aerua **yr wnathoydit o*nadunt*. A g6ybot o*hona6* bot yn** ha6d guedy hynny eu daryst6ng yn g6byl. gal6 **kynan meirada6c a wnaeth atta6. Ac a dan chuer**thin dywedut 6rtha6 ual hyn. ar neilltu o*dieith***yr y bydinoed. kynan heb ef llyma un or gulado**ed goreu yn freinc guedy y ry daryst6ng ynn. go**beith ynn weithyon gaffael y lleill. Ac 6rth hynny** bryssywn y kymrit y kestyll ar caeroed. ar dinassoed. **kyn mynet y chuedyl yn honneit dros y guladoed.** ac ymgynnulla6 pa6b y gyt yn an herbyn. canys **o chaff6n y teyrnas hon. nyt oes pedrus gennyf** caffael holl freinc yn einim. Ac

6rth hynny na uit **ediuar gennyt kanhyadu imi dy dylyet ar enys** prydein. ket bei gobeith yt y chaffael. canys pa **beth bynnac ry gollych ti eno. minheu ae hen**illaf yty yma. Ac yn gyntaf mi ath wnaf yn ure**nhin ar wlat hon. Ac ae llanwun oc an kenedyl nu**hunein. guedy darfo ynn b6r6 estra6n genedyl o**honei yn ll6yr. ac odyna hon a uyd eil bryttaen. A** hyt y guelir ymi g6lat fr6ythla6n y6 honn o ydeu //

LlGC 5266 t. 110
amrauael. ac auonoed kyula6n o pysga6t. a choedyd tec a forestyd adas y eu hely. A herwyd y guelir y **mi nyt oes wlat garueidach no hon. Ac ada6 a** wnaeth kynan yna kad6 tragywyda6l fydlonder **yda6 ynteu gan uuydhau ida6 a diol6ch yr hynn ry ad6sei.** Ac yna eilweith kyweirya6 a wnaethant eu llu yn **uydinoed. a mynet hyt yn rod6m. Ac yn diannot** goresgyn y dinas. canys guedy clybot or freinc **creulonder guyr Ruuein ar bryttanyeit. sef a** wnaethan ada6 y guraged ar meibon. A fo yr **kestyll ar keyryd cadarn. ereill yr coedyd ar ker**ryc ac yr mynyded ar lleoed diffeith. y geissya6 **amdiffyn eu heneit. Ac nyt arbedei wyr Ruuein** hagen ar bryttannyeit. nac y ua6r nac y uych**an. nac y hen nac y yeuanc. or a geffynt nam**yn yr guraged e*hunein*. A guedy daruot udunt **goresgyn yr holl wlat. a distry6 y pobloed. ac eu** dileu yn ll6yr. cadarnhau y kestyll. ar caeroed **ar tyroed a wnaethant o uarchogyon enys pry**dein. A guneuthur ereill o newyd. yny oed gy**meint eu houyn ar ba6b or a gly6hei eu creu**londer tros teyrnas freinc. ac yd oedynt pa6b //

LlGC 5266 t. 111
ar fo. rei yr kestyll ac yr dinassoed cadarn. ereill y wladoed y byt y geissya6 nodet am eu heneideu. **Ac yna anuon g6ys a wnaeth maxen hyt yn enys** prydein. 6rth gynnulla6 canmil or pobyl issaf **eu breint. or meibyon eillyon ar tirdyllodron. ar** llauurwyr. ac y gyt a hynny. deg mil ar ugeint **o uarchogyon yn argl6ydi arnadunt 6ynteu. Ac y** eu hamdiffyn rac gormessoed a rac eu gelynyon. **A guedy dyuot hynny o niuer hyt ar uaxen. ef** ae rann6s tros 6yneb llyda6. Ac a dangosses y ba6b **y rann ae achub ar neilltu. Ac yna y guna**e**th** maxen llyda6 yn eil bryttaen. Ac y rodes y kyn**an meirada6c hi. A guedy daruot lluneithu** y wlat honno y*uelly*. y kychuynn6s ynteu a **rann arall or llu parth ac eithauoed freinc.** Ac y darystyng6s 6rth y argl6ydiaet o g6byl. **tr6y ur6ydreu ac ymladeu. Ac y gyt a hynny.** holl germania a dan y theruyneu a oresgynn6s. **A guedy bot pob lle o hynny yn darystyngedic ida6.** y gossodes eistedua y teyrnas yn y dinas a elwit **treueris. Ac odyna y dechreuis ryuelu ar y deu** uroder. Gracian a 6ala6nt. oedyn amherodron //

LlGC 5266 t. 112
yn Ruuein. A guedy llad y neill y diholes y llall o Ruuei ymdeith. AC yn yr amser h6nn6 yd oed **wyr freinc a guasguyn a pheita6 yn ryuelu ar** kynan meirada6c. ac ar y bryttannyeit ereill. **oed yn llyda6. tr6y uynych ymladeu. Ac ynteu yn** 6ra6l. ac yn 6ychyr. yn ymdifrit. ac yn ymgyn**hal racdunt h6y. gan talu aerua dros y gilid.** Ac yna guedy hedychu y rygthunt. medylya6 **a wnaeth kynan keissya6 dywedi yw gyt*uar***chogyon o wraged dylyeda6c 6rth hilya6 pla**nt. a gynhalyei y wlat ar kyuoeth yn tragy**wyda6l. Ac ual na bei neb kyuathrach y ryg**thunt ar freinc na chymysc yn y genedyl.** namyn eu bot yn ya6n 6ryttannyeit. sef a **wnaeth kynan anuon ar duna6t urenhin** kerny6 y erchi y uerch yn wreic ida6 ef. **canys honno yd oed yn y charu yn wuyhaf** gureic. herwyd y bonhed. ae dylyet. ae phryt. **ae gosged. ae theg6ch. ae diweirdeb. Ac y am** hynny erchi ida6 a wnaeth kynan tr6y ly**thyreu kynnulla6 a 6ei wedw o uerchet** diledogyon enys prydein 6rth eu rodi yw dy //

LlGC 5266 t. 113
lyedogyon ynteu. Ac achuanec y hynny. erchi ida6 a wnaeth kynnulla6 m6yhaf a allei. o wra**ged guedw ereill. a uei is eu breint. no rei** hynny. 6rth eu rodi yn llyda6 y gyury6 ac **a dyleynt. Sef oed y duna6t h6nn6 bra6t** y carada6c y g6r a dywedadoed uchot. ac yr **dothoed yn lle y ura6t yn urenhin. A phen**haduraf oed heuyt yn enys prydein. canys **ida6 y gorchymynassei 6axen. tywyssogyaeth** a llywodraeth y teyrnas yr pan athoed o*ho***nei hyt tra uei ynteu dieythyr yn guneuthur** y gyureideu. A Guedy dyuot ar duna6t y gen**nad6ri honno. uuydhau a wnaeth 6rthi. Ac anuon** guys yn diannot. a oruc tros 6yneb enys prydein. **y gynnulla6 y guraged hynny mal yd archadoed.** Sef eiryf a gynnull6t o uerchet dylyedogyon. **un uil ar dec. Ac o wraged oed is eu breint. y am** uerchet y tirdiwyllodron ar bileinnieyt deu ug**ein mil. Ac erbyn dyuot y gynnulleitua honno** hyt yn llundein y kynnull6t a gaffat o longeu **yg kylch traetheu enys prydein. 6rth anuon y** gynnulleitua honno megys yd erchessit hyt //

LlGC 5266 t. 114
yn llyda6. A chet bei llawer ym*plith* hynny o wraged. a chuenychei uynet y*uelly*. y eu rodi y wyr **y wlat arall. eissoes yd oed lawer. A oed well ganth**unt eu mar6 yn eu gulat e*hun*. no mynet **y wlat arall. gan ada6 eu ryeni ac eu kenedyl.** ar wlat y ganadoed yndi. Ac ereill o*nadunt* a **dewissei cad6 eu diweirdeb. ac eu guerynd**a6t. yg wassanaeth duw gan diodef acha**noctit. ym mlaen mynet wlat arall. y ar**uer o digrif6ch a drythyll6ch. ac edyllder **kna6t. Ac yna pan oed y llyghes yn para6t.** Ar g6ynt yn hyr6yd. dodi a wnaethp6t y gy**nnulleitua honno o wraged yndunt. a dech**reu h6ylla6 ar hyt temys. Ac ual yd oedynt **wedy ry dyuot hyt yn agos y traeth llyda6** nachaf g6ynt kythra6l g6rth6yneb udunt **Ac yn enhyt uechan. eu guasgaru. ac eu bodi** y rann wuyhaf o*nadunt*. Ac ereill o*nadunt* **a 6yry6t y enyssed ag*kyfyeith*. ym*plith* estro**nyon genedloed. Ac yno y merthyr6t ac y **llas. rei o*nadunt*. ereill o*nadunt*. a eteliit** yg keithiwet. ereill yg carchar. Ac ereill o //

LlGC 5266 t. 115
nadunt a gyuaruu a dirua6r lyghes. A anuonassei Gracian amhera6dyr. hyt yn Germania. **y ryuelu ar yr aruordir yn erbyn y neb a** wedassei y 6axen. Ac ar ae conhorthwyei. A sef **g6yr oed tywyssogyon a*rnadunt*. G6inwas.** a Melwas. A G6inwas oed urenhin ar y w**lat a elwit huna6t. A Melwas oed urenhin** peita6. A guedy ymgyuaruot or morynyon **ar ysgymunedic pobyl honno. yn y mord6y** h6nn6. guedy guelet o*nadunt* eu teccet. **keissya6 a wnaethant ymrewydu 6rthunt.** y eilenwi eu godineb. A guedy na mynn6s **y morynyon kytsynhya6 ac 6ynt yn yr ewy**llis honno. sef a wnaeth ~~sef a wnaeth~~ y brat**wyr hynny eu llad y rann wuyhaf o*nadunt*.** Ac yn diannot odyna pan glywsant bot enys **prydein yn anreithedic oe marchogyon ac** yn wedw oe hymladwyr. sef a wnaethant **bryssya6 eu hynt parth ac ynys prydein. A** chymryt y gyt ac 6ynt y borth wuyhaf a **allassant y chaffael or enyssed yn y chylch.** a dyuot yr alban yr tir. A dechreu anreith //

LlGC 5266 t. 116
ya6 y guladoed. oed heb lywa6dyr nac amdyffynn6r arnadunt. A llad y bileinllu ar tirdywyllodron. **Ac yna eissoes guedy mynegi y 6axen y trueni** h6nn6. yd anuones ynteu Gracian rodgymryt **a dwy leng o wyr arua6c y gyt ac ef y am**diffyn y brytannyeit. A guedy dyuot Gracian **hyt yn enys prydeim. a dechreu ymlad ar gelyn**yon. guneuthur dirua6r aerua a oruc o*nadunt*. **Ac eu kymell ar fo hyt yn ywerdon. Ac yn yr am**ser h6nn6 y llas maxen yn ruuein. ac y guas**gar6t a oed y gyt ac ef or brytannyeit. Ac y** foassant hyt yn llyda6

ar ~~kyt y~~ kynan meirada6c. **A phan gigleu Gracian rodgymryt ry lad maxen** yn ruuein. kymryt a wnaeth ynteu brenhin**aeth enys prydein. a guisga6 coron y teyrnas** am y ben ehun. A guedy y uot yn urenhin **kymeint uu y creulonder. ae syberwyt yny** uu reit yr brytannyeit. or diwed kyuodi yn y **erbyn ae lad. A phan gigleu y racdywededigy**on elynyon uchot. a foassynt ywerdon ry lad **Gracian. kynnulla6 a wnaethant 6ynteu y g6**ydyl. ar yscoteit. a guyr denmarc. ar llychlyn //

LlGC 5266 t. 117
wyr y gyt ac 6ynt. a dyuot hyt yn enys prydein. ae hanreithya6 o tan a hayarn or mor b6y gilid. **Ac 6rth hynny anuon llythyreu a wnaeth y bry**tannyeit hyt yn ruuein. a dagreua6l g6ynuan**eu yndunt. gan ada6 tragywyda6l darystyng**edigaeth. ac uuydta6t. a theyrnget udunt. yr ell**6ng canhorth6y atadunt. ac eu rydhau y gan eu** gelynyon. Ac yna yd anuonet lleng o wyr arf**a6c atadunt. A guedy eu dyuot hyt yn enys** prydein. Ac ymlad ar gelynyon. eu dihol a wna**ethant o holl teruyneu enys prydein. ac eu g6r**thlad. a rydhau y gywarsaghedic bobyl. or tru**an geithiwet ormessa6l honno. Ac yr g6rthlad** gormessoed a gelynyon yd archassei seuerus am**hera6dyr gynt. guneuthur mur y r6ng** deiuyr ar alban or mor b6y gylyd. canys yr **alban y gnotaei dyuot yn gyntaf pob gormes** or a delhei enys prydein. Ac yna eilweith y **ca6ssant 6ynteu yn eu kyffredin gyghor. g6yr** ruuein. a rei enys prydein. adnewydhau y **mur h6nn6. a g6plau or mor b6y gylid.** A Guedy daruot k6plau y gueith h6nn6 y //

LlGC 5266 t. 118
h6nn6 y menegis guyr ruuein. yr brytannyeit. hyt na ellynt h6y kymryt perigyl a llauur. **ac aneiryf treul ar wyr ac arueu a meirch.** ac eur ac aryant. ar uor ac ar tir. yn keissy**a6 amdifin pobyl mor lesc ac wynteu. y** gan cr6ydredigyon ladron. a gormessoed. a bot **sened ruuein yn blina6 o treulya6 eu da. ac** eu swllt mor wastat a hynny yn kerdet mor **a thir. ac yn diodef agheua6l perigleu trost**unt. a bot yn well ganthunt dilyssu eu teyrn**get no hynny. Ac y gyt ~~a hyt~~ a hynny. bot yn** ya6nach udunt ehunein kymryt dysc ac aruer **ar ymlad. mal y gellynt amdyffin eu g6lat. ac** eu guraged ac eu plant. ac eu goludoed ac eu **rydit a thros eu buched ehunein na dodi eu** goglyt ac eu hymdiret yn wastat yg wyr ru**uein. A guedy daruot mynegi yr ymadrodyon** hynny yr brytannyeit erchi a wnaethant ky**nnulla6 holl yeuegtit enys prydein. ae holl** ymladwyr. ac eu d6yn hyt yn llundein yn **eu herbyn 6ynteu. canys yt oedyn 6ynteu** yn mynnu ymchuelut y ruuein tracheuyn //

LlGC 5266 t. 119
A guedy eu dyuot yn ll6yr hyt yn llundein. y gorchynn6t y kuhelyn archesgob llundein pregethu **udunt. A mynegi yr ymadrodyon yd oed wyr** ruuein yn y ada6 ganthunt. Ac uegys hyn y **dechreuis yr archesgob y ymadra6d.** ARgl6ydi heb ef. ket archer ymi pregethu y **chui. ys m6y ym kymhellir y wylya6. nogyt** y dywedut pregeth. ac ymadra6d uchel. rac tru**anhet gennhyf yr ymdiwedi ar wander. a dam**weiny6s y chui. guedy yspeila6 o 6axen enys **prydein oe marchogyon ae hymladwyr. Ac a di**enghis o*hona6ch* chuitheu pobyl y6ch aghyfr6**ys heb 6ybot dim 6rth ymlad namyn yn achu**bedic. o amrauaelyon negesseu. A chyfnewituaeu. **a diwyllodraeth y dayar yn wuy noc yn dysc ym**ladeu. Ac 6rth hynny pan doeth a6ch gelynyon **am a6ch pen. ywch kymellassant y ada6 a6ch** keibeu. a megys deueit kyueilornus heb uu**geil arnunt a6ch guasgaru. cany mynassa6ch** kymysgu a6ch d6yla6. ac arueu nac ar dysc ym**lad. Ac 6rth hynny. pa hyt y keiss6ch chui. bot** ruueina6l argl6ydiaeth yn un gobeith ywch //

LlGC 5266 t. 120
ac yd ymdired6ch yn estra6n genedyl ny bei de6rach. na chadarnach no chui pei nar atte**wch y lesged goruot arna6ch. ednebyd6ch hef**yt bot guyr ruein yn blina6 ragoch. ac yn **ediuar ganthunt y gniuer hynt a gymer**assant tros uor a thir gan emlad ac eu gely**nyon drossoch yn wastat. ac y weithyon y ma**ent yn dewissa6 madeu eu teyrnget ywch **ym mlaen dyodef kyfry6 lauur a h6nn6 dro**ssoch bellach. pei byde6ch chui yn yr amser **y bu y marchogyon yn enys prydein. beth a** tebyge6ch chui. ae yr hynny y tebyg6ch chui **fo dyna6l anyan y 6rthy6ch. A geni dynyon** yg g6rth6yneb anyan megys bei genit or **bilein marcha6c. ac or marcha6c bilein. Ac** yr hynny eissyoes disgynnu dyn y gan y gilyd. **ny thebygaf i colli onadunt eu dyna6l any**an yr hynny. Ac 6rth hynny canys dynyon y**wch gune6ch megys y dyly dynyon. gelwuch** ar grist. hyt pan uo euo a rodo ywch gle6der **a rydit. A guedy teruyny ar hynny or arches**gob y ymadra6d ae parabyl. ar y wed hon. ky //

LlGC 5266 t. 121
meint uu y kynnuryf yn bobyl ar niuer. megys y tebyg6t yn deisyuyt. eu bot wedy **eu kyflenwi o gle6der. Ac yn ol y parabyl** h6nn6 y rodes y ruueineit cadarnyon dysg**ediaetheu ar ymladeu yr ergrynedic pobyl** honno. Ac ada6 agreifft udunt y wneuthur **arueu. Ac erchi udunt adeilat kestyll a thy**roed ar glan y mor. yn y porthloedeu y bei **disgynuaeu y llongeu. 6rth gad6 eu g6lat o**nadunt rac eu gelynyon. Ac eissoes ha6s yw **guneuthur heba6c or barcut. nogyt gune**uthur bilein yn dysgedic ar uyrrder. A **ph6y bynnac a rodo dysc o anodun doethin**eb ida6. kynhebic y6 yr neb a wasgarei ge**meu ma6rweirtha6c. a dan draet moch. Ac** yna kychuyn a oruc guyr ruuein y emdeith. **megys ar odeu na delynt trach cheuyn yr e**nys hon. Ac ar hynn yn y lle nachaf y racdyw**ededigyon elynhon uchot. Guinwas. a Melwas** yn dineu or llongeu. yr tir. a llawer o nif**eroed ganthunt. or g6ydyl. ar yscoteit. ar** fychteit Ar llychlynwyr. A gur denmarc. A //

LlGC 5266 t. 122
phob kenedyl or a ellessynt y gaffael y gyt ac 6ynt. A goresgyn yr alban yn diannot o **uy6n y mur. A guedy g6ybot o*nadunt* ry uy**net guyr ruuein y emdeith heb obeith ymchu**elut tracheuyn. ehofnach noc y gnoteynt yd** ymrannassant y dystry6 y mur. Ac yna y gosso**det y6 amdiffyn ynteu y bileinieit diaruot. Ag**kyur6ys ar ymlad. para6t ar fo. bei lleuessynt. **Ac ny orffo6yssei y gelynyon o wur6 agheuolyon** ergydyeu yn eu plith. Ac o wur6 bacheu g6rthuyny**a6c 6rth linynneu. Ac y*uelly* tynnu y trueinn**yon uileinllu hyt y lla6r or kestyll ac or caero**ed. Ac yna tr6y amry6 poeneu. y gorffennit eu** hagheu. A diga6n o didan ac o da oed gan y neb **a gaffei y ry6 agheu h6nn6 arna6. rac y ryw** amrauael poeneu a welynt y wneuthur ar eu **kereint. ac ar eu kedymdeithyon yn eu gwyd.** O wi a duw. ma6r a beth y6 guelet dwywa6l **dial ar y bobyl am eu hen pechodeu. Canys pei** bydynt yna y sa6l uarchogyon a dugassei 6axen **gantha6 tr6y y ynuydr6yd ae syberwyt. ny deu**ei pobyl y enys prydein a allei oruot arnadunt. //

LlGC 5266 t. 123
Ac aml6c 6ot yn wir hynny. hyt tra uuant; 6ynt6y a oresgynnynt y g6ladoed ar brenhin**aetheu o 6ng ac o bell y 6rthunt. Ac a gynhely**ynt enys prydein heuyt yn araf ac yn hed6ch. **Ac y*uelly* hagen y damweinha pan ada6her** y urenhynyaeth yr bilein creula6n. A pha beth **weithyon a dywedaf ui. namyn yna yd ede**wit y dinassoed ar keyryd yn wac. ac yn diffe**ith guedy daruot yr gelynyon llad y kyw**da6twyr. Ac 6rth hynny. y cauas guedillyon **y pobyl truan**

honno yn eu kyghor. anuon llythyreu hyt yn ruuein ar Agitius ~~y g6r~~ **y g6r oed amhera6dyr yn y mod h6n.** Kwynuuan ac ucheneidyeu y brytannyeit yn em**dangos y Agytius amhera6dyr ruuein. ac yn** mynegi ida6 bot y mor yn eu kymell yr tir. ar torr **eu gelynyon y eu llad. A bot eu gelynyon yn eu ky**mhell yr mor y eu bodi. Ac y*uelly* mynegi nat oed **udunt namyn un o deu peth. ac eu bodi or mor.** ae eu llad ar y tir. Ac ymchuelut a wnaeth y ken**nadeu tracheuyn y trist. heb eu guaranda6. A** mynegi hynny y eu kywda6dwyr. //

LlGC 5266 t. 124
Ac yna y ca6ssant oc eu kyffredin gyghor ell6ng kuhelyn archesgob lundein hyt yn llyda6 y geissy**a6 porth a nerth y gan eu kereint. Ac yn yr am**ser h6nn6. yd oed aldwr yn urenhin yn llyda6. **yn pedweryd guedy kynan meirada6c. A gue**dy dyuot kuhelyn hyt yn llyda6. ae welet or bre**nhin ef yn wr d6ywa6l credyuus ad6yn megys** yd oed. y erbynneit a wnaeth ida6 yn anrydedus. **Ac amouyn ac ef acha6s ac ystyr y neges ae dy**uotedigaeth ac yna y dywa6t kuhelyn 6rtha6 **Argl6yd heb ef diga6n y6 damllywychedicet ytti** a thi a allut kyffroi ar dagreu ac 6yla6 o glybot **y trueni yd ym ni y brytannyeit yn y diodef yr** pan anreith6s maxen enys prydein oe marchogy**on ae hymladwyr yn ll6yr ac y gossodes yn y wlat** hon. yr hon yd wyt titheu yn y llywa6 ac yn y **medu. A guyn y uyt a weles pei guledychut tith**eu hyhy byth tr6y hed6ch. A guedy y hyspeilya6 **y*6elly* oe marchogyon y kyuodassant yn an her**byn ninheu y guedillyon truein a edewit yno **yr enyssed oc an kylch ar enys oed gyula6n o** eur ac aryant a goludoed ereill y hanreitha6 //

LlGC 5266 t. 125
yn gyn ll6yrhet ac nat edewit dim yndi or y gallo neb ymosymdeitha6 yndi. eithyr y neb **a allo ymborth tr6y hely. canyt oed gedernyt** ymladwyr a allei 6rth6ynebu udunt. Ac y gyt **a hynny neur dery6 y wyr Ruuein blina6 y we**ithyon mal na chaff6n y ganthunt 6ynteu we**ithyon neb amdiffin. Ac 6rth hynny yd ym ni**nheu yn guedia6 dy drugared ditheu. hyt pan **rodych ~~u~~ ditheu nerth a chanhorth6y ac amdi**ffyn o*hona6t* tuhun y teyrnas. yd wyt dylyed**a6c arnei. cany dyly neb y coronhau yn well no** thi o coron gustennyn. a maxen wledic. canys y **guyr hynny ysyt ryeni yt. Ac 6rth hynny par**ota dy lynghes a debre y gymryt teyrnas enys **prydein. A minheu ae rodaf hi y r6ng dy d6yla6** ti. Ac ar hynny yd ateba6d aldwr yr archesgob. **A 6rda heb ef. ef a uu a~~-uu~~ amser na 6rthod6n** i teyrnas enys prydein o bei ae rodei ym. canys **mi a tebygaf nat oed un teyrnas fr6ythlonach** na guell no hi tra gaffet yn hed6ch. Ac yr a6rhon **eissoes canys kyuaruu dryc tyghetueneu a hi.** cas y6 gennyf ui a chan pob tywyssa6c. A thros //

LlGC 5266 t. 126
pob peth or a gyuery6 a hi. dryc argl6ydiaeth guyr ruuein yn 6uyhaf a argyweds idi. **hyt na eill neb tywyssa6c kynnal y theil**yngda6t heb arwein ruueina6l geithiwet **arna6. gan talu teyrnget udunt ohonei. Ac** 6rth hynny 6rda heb ef p6y ny bei well **gantha6 gyuoeth bychan y lle arall yn ryd heb** geithiwet. noc un ma6r yn y lle y bei y dyly**et gan tragywyda6l geithiwet. Ac 6rth hyn**ny y mae dewissach gennyf ynheu y kyuoeth **bychan a welyt di yma gan rydit no teyrn**as enys prydein a dan geithiwet. Ac eissyoes heb **ef canys yr enys a dywedy ti a uu eidu uy** ryeni inheu. minheu a rodaf yn ganhorth6y **yti custennyn uy mra6t. a d6y uil o uarch**ogyon y gyt ac ef. y edrych a uynno du6 **ida6 gallu rydhau yr enys honno. y gan or**mes estra6n genedyl. ag*kyfyeith*. A chym**eret h6nn6 coron y teyrnas a bit urenhin** yno o myn du6 y ganhyadu ida6. A rac by**g6th ryuel ysyd arnaf inheu y gan freinc** nyt ada6af ynheu yt ti yr a6rhon o uarch //

LlGC 5266 t. 127
ogyon m6y no hynny. Abreid uu o daruu yr brenhin teruynu y ymadra6d. pan rodes kuhel**yn archesgob llundein llawer o diolycheu ida6.** am hynny. Ac yn y lle gal6 custenyn. A dywedut **6rtha6 ual hyn. crist heb ef a oruyd. crist a wled**ycha ac a orchyuycca. llyman urenhin enys pry**dein. diffeith crist ae canhorth6yho. llyman an** amdyffyn. ac an gobeith. ac an llewenyd. Pa beth **wedy hynny. yn y lle guedy bot yn para6t y llog**eu ar y traeth. ethol y marchogyon ac eu riua6. ac **eu rodi y kuhelyn archesgob llundein.** Ac yn diannot guedy bot pob peth yn bara6t. **kychwyn ar y mor a wnaetant. A dyuot y porth** totneis yr tir. ac yn diannot kynnulla6 y llu m6**yhaf a allassant y gaffael yn enys prydein. a chy**rchu eu gelynyon. A guedy ymlad ac 6ynt. **try6 euyrllit y guyuydedic 6r h6nn6 cael y** uudugolyaeth. A guedy mynet hynny yn honny**eit tros y teyrnas ymgynnulla6 a wnaeth yr** holl 6rytannyeit. hyt yn circestyr. a guisga6 **coron y teyrnas am ben custennyn uendigeit.** ae 6rda6 yn urenhin ar enys prydein. a rodi //

LlGC 5266 t. 128
gureic ida6 a hanoed o dylyedogyon ruuein ac a uagyssyt yn llys kuhelyn archescob llunde**in. Ac or wreic honno y bu tri meib ida6. sef oed y** rei hynny. Constans. Ac emreis wledic. Ac 6thyr **pen dragaon. Ac yna y rodes ef constans y mab** hynaf ida6. ym mynachloc amphibalus yg ca**er wynt ar uaeth. ac y6 wneuthur yn uyn**ach. ar deu uab ereill. emreis wledic ac 6thyr **pen dragon. A rodet ar uaeth ar kuhelyn arch**escob llundein. Ac ym pen y deudeg mlyned wedy **hynny. y doeth un or fychteit yr uuassei wr** ida6 gyn no hynny. A gal6 y brenhin atta6 me**gys y gyfr6ch yn lle ysgyualaf. A guedy gyrru** pa6b y 6rthunt y lad a chyllell. **AC yna guedy llad custennyn uendigeit. y kyuo**des anundeb y r6ng guyrda y teyrnas am **wneuthur brenhin. canys rei a uynnynt gu**neuthur emreis wledic yn urenhin. ereill **a uynnei 6thur pen dragon. ereill a uynnynt** wneuthur un oc eu kenedyl. Ac or diwed gue**dy na duunynt ar hynny. sef a wnaeth gorth**eyrn gortheneu. yarll oed h6nn6 ar went ac //

LlGC 5266 t. 129
ergyng a yeuas. 6rth geissya6 y urenhinaeth ida6 ehun or diwed. mynet hyt yg kaer wy**nt. yn y lle yd oed constans yn uynach. y mab** hynhaf y gustennyn uendigeit. oed h6nn6 a **dywedut 6rtha6 ual hyn. Constans heb ef. dy** tat ti y*syd* uar6. ath urodyr y*syd* ry yeueinc **6rth wneuthur brenhin o*nadunt*. Ac ny we**laf innheu oth lin ditheu a allo bot yn uren**hin. Ac 6rth hynny o bydy ditheu 6rth gyg**hor ac achuanegu kyuoeth a medyant y minheu. ar y **urenhinaeth. minheu a ymcheulaf 6yneb** y bobyl. ar kyuoeth parth ac attat titheu. Ac **a baraf dy dynnu or abit h6nn6. ket boet g6**rth6yneb gan yr urdas ath wneuthur yn **urenhin. A phan gigleu constans yr ymadra**6d h6nn6. llawenhau yn ua6r a wnaeth ac **ada6 tr6y aruoll rodi ida6 pob peth or a uynhei.** ac na wnelhei dim or urenhinaeth namyn **6rth y gyghor. Ae gymryt a wnaeth gortheyrn** gortheneu a tennu yn diannot or uynechtit. **ae wisga6 o urenhina6l dillat. A dyuot ac ef hyt** yn llundein. Ac yna o ureid cahel canhyat y //

LlGC 5266 t. 130
pobyl oe dyrchauael yn urrenhin. Ac yn yr amser h6nn6 mar6 uuassei kuhelyn arches**cob llundein. ac 6rth hynny ny chaffat un** escob a gymerei arna6 y gyssegru ynteu **6rth ry tynnu or creuyd. Ac eissyoes yr hyn**ny nyt ebryuyg6s gortheyrn y gueithret **h6nn6. namyn mynent ehun yn lle escob. a**

chymryt coron y teyrnas ae dodi am ben con**stans. ac y*uelly* y urda6 yn urenhin.** A Guedy dyrchauaael constans yn urenhin. y ro**des ynteu holl ly6odraeth y teyrnas yn lla6** gortheyrn. Ac ehun heuyt a ymrodes ym pob **pet 6rth y gyghor. canys amgen dysc a dysc**assei ef yn y cla6styr no llywya6 brenhina**eth. A guedy caffael o gortheyrn medyant** kymeint a h6nn6 yn y la6. medylya6 a oruc **pa ansa6d y gallei caffael ehun y urenhina**eth. canys hynny yd oed yn y damuna6 ac yn **ystrywa6 oe holl dihewyt. damwein truan** heuyt ry daroed yr uar6 hynaf guyr **y teyrnas ae chyghorwyr yn llwyr. megys** nat oed un gur mor arbennic a gortheyrn //

LlGC 5266 t. 131
a megys meibyon oed pa6b o wyrda y teyrnas oll y 6rtha6 ynteu. Ac euo a gaffei anryded pa6b **o*nadunt* hwy. canys ef a uedei y kyghor. A** guedy guelet o ortheyrn y uot yn caffael pob **peth 6rth y ewyllys. medylya6 a wnaeth oe** holl ethrylith pa wed y gallei diot constans **uynach or urenhinaeth. Ae chymryt ida6 ehun.** Ac yna y kymyrth y swllt ar tryzor ar kestyll **ar caeroed ar dinassoed cadarn. yn y uedyant** ehun. gan uenegi yr brenhin bot dygyuor **lluyd am eu pen or enyssed. A guedy caffael** o*hona6* gan y brenhin pob peth o hynny **6rth yb uynnu. Gossot na wnaeth ynteu y ann**wyleit ehun ae diwydyon y warchad6 y lleo**ed hynny. Ac odyna medylya6 a wnaeth pa wed** yd ystrywei urat y brenhin. A dywedut 6rth **constans ual hynn. Argl6yd heb ef. reit oed iti** achuanegu dy deulu mal y bo dibryderach yt. **Ac y bych ehofnach rac dy elynyon. Ac yna y** dywa6t constans 6rtha6 ynteu. ponyt yth la6 **di heb ef. y rodeis i holl uedyant a llywodraeth** y teyrnas. Ac 6rth hynny. guna ditheu pob //

LlGC 5266 t. 132
peth or a uynnych gan gad6 fydlonder i minheu. Ac yna y dywa6t gortheyrn. ef yr dywetp6t **imi bot y fychteit yn mynnu d6yn guyr** llychlyn a denmarc yn un ac 6ynt 6rth ry**uelu arnam ninheu. Ac 6rth hynny y kygho**raf ui yty guaha6d rei o*nadunt* 6ynteu **yn wyr yt. ac yth lys yn wastat mal y bont** gymeruedwyr y rot ac eu kenedyl. ac y gall**ont chuedleuha. A g6ybot med6l eu kenedyl** ar t6yll ar brat ~~yth erbyn~~ a ystrywer yth erbyn **odyno. A pony wel6ch chui urat gortheyrn.** canyt o acha6s kynnal yechyt y brenhin yd **ystrywei ef yr ymadrodyon hynny namyn** g6ybot bot y guyr hynny yn ysgafnach eu **hann6yt noc ereill. a bot yn ha6t ganthunt** wneuthur kyulauan. a bot yn ha6d ida6 yn**teu eu kyffroi hwy yn erbyn y brenhin. oe** lad. a g6ybot guedy darffei hynny. y caffei **ynteu ehunan y urenhinaeth. A guaha6d A** wnaeth gortheyrn can marcha6c or fychteit **o ysgothlont yn wyr yr brenhin. Ac eu hanry**dedu a wnaeth udunt. o amraualyon rodyon //

LlGC 5266 t. 133
eur ac aryant. a dillat. a meirch A thlysseu ma6rweirtha6c. yny yt oedynt 6ynteu or dywed yn y **gymryt ef yn lle brenhin. Ac yn uuydhau yn y** wassanaeth. Ac yna y kenynt kywydeu ida6 ar hyt **yr heolyd. Gortheyrn ysyd teil6ng o amherodra**eth. Ac o teyrnwialen enys prydein. A chonsta**ns y*syd* anteil6ng. Ac ynteu wuy wuy yn eu** harydedu hwy. Ac yn y diwed guedy g6ybot **o ortheyrn. ry gaffael eu caryat. ac eu rybuch**et yn llwyr. guedy eu medwi nosweith. y dyw**a6t 6rthunt y uot ef yn ada6 enys prydein. y** geissya6 kyuoeth a uei wuy ac amlach yn lle **arall. cany allei ef herwyd y dywedei kynnal** dec marcha6c a deu ugeint yn diwall or bych**ydic kyuoeth oed ida6. A guedy dywedut 6rthunt** kymeint a hynny. mynet parth ae lety. yn **trist. ac eu hada6 6ynteu yn y neuad yn yuet.** A guedy guelet or fychteit hynny tristau a **wnaethant 6ynteu yn wuy noc yd oed ha6d** y gredu. o tebygu pany6 o pruder

yr dywed**assei ortheyrn 6rthunt. A dywedut a wnaeth**ant y rygthunt ehun. pa acha6s na lad6n ni //

LlGC 5266 t. 134
y mynach h6n megys y caffo gortheyrn wedy hynny cadeir y teyrnas. p6y a dylyei urenhin**aeth yn well noc ef. canys teil6ng y6 o pob an**ryded. Ac argl6ydiaeth. y g6r ny orffowys oc **yn anrydedu ninheu yn wastat.** AC yn diannot kyuodi a wnaethant. A d6yn eu **ruthyr am ben ystauell y brenhin ae lad a chy**mryt y ben ae d6yn hyt rac bron gortheyrn. **A phan weles ynteu hynny. megys tristau o** dieithyr. ac 6yla6. Ac eissyoes ny buassei la6enach **ynteu eiryoet. o uy6n noc oed yna. Ac eissyoes** gal6 a wnaeth atta6 ky6da6t*wyr* llundein. **canys yno y gunathoedit y gyflauan honno. ac** erchi udunt daly oll y bratwyr hynny. ac odyna **eu dienydu 6rth yr wneuthur onadunt kyfla**uan gymeint a llad y brenhin. A rei o wyr y te**yrnas a dywedei pany6 gortheyrn yr wnatho**ed y brat h6nn6. ac nas gunaei y fychteit oc **eu dechymyc ehunein ereill ae diheurei. Ac** eissoes sef a wnaeth tatmaetheu y meibyon **ereill. emreis. ac 6thyr pen dragon. fo ac 6ynt** hyt yn llyda6 rac ouyn gortheyrn rac na //

LlGC 5266 t. 135
bei oc eu etiued A dalyei y teyrnas o diuetheit y rein hyny. Ac yn yr amser h6nn6 yd oed emyr llyda6 **yn urenhin ar lyda6. Ar g6r h6nn6 a aruolles** y meibyon hynny yn llawen. Ac a beris eu meith**ryn mal y dylyit meithryn teyrned** AC yna pan weles gortheyrn nat oed a allei ymgy**uerbynneit ac ef. sef a wnaeth ynteu kymryt** coron y teyrnas. ae guisga6 am y ben ehun. A gore**sgyn y tywysogyon ereill. Ac eissyoes guedy clybot** y 6rad6rya**e**th honno ym pob lle yn honnyeit. sef **a wnaeth guyr yr enyssed ym*duuna6* y gyt 6rth** ryuelu ar ortheyrn. Canys y fychteit yr dyuynassei **or alban attadunt. y dial eu kytuarchogyon yr** parassei Gortheyrn eu llad. Am ry lad onadunt 6y**nteu constans uab urenhin custennyn uendigeit. Ac yna** dirua6r oual a phryder oed ar ortheyrn. or neill **parth o acha6s y uot yn colli y wyr. tr6y beunyd**ya6l ymladeu a br6ydreu. Ac or parth arall rac o**uyn emreis wledic ac uthyr pendragon. Canys** y rybud trae gilid a doei atta6. y uenegi eu bot yn **dyuot a llyghes dirua6r y meint ganthunt y or //**

LlGC 5266 t. 136
esgyn ac y dial agheu eu bra6t arna6. Eman y doeth y saesson yn gyntaf yr enys hon AC yn yr amser h6nn6 nachaf teir llong hir **yn disgynnu yn s6yd geint. yr tir yn lla6n o** uarchogyon arua6c. a deu wr yn deu uroder **yn tywyssogyon arnadunt. sef oed eu henw.** hors. a heingyst. Ac yn yr amser h6nn6 yd oed **gortheyrn yn y dinas a elwit dorobern. sef** oed y dinas h6nn6 caer geint. A chennadeu **a doeth ar ortheyrn. y uynegi ida6. ry dyuot guyr** ma6r hyd6f. heb 6ybot pa le pan hanoedynt **y my6n llongeu hiryon. A rodi na6d a wnaeth** Gortheyrn udunt. Ac erchi eu d6yn atta6. A **guedy eu dyuot rac bron y brenhin. Arganuot** yn y lle a wnaeth y deu uroder oed tywysso**gyon ar y lleill. Canys ragor oed arnadunt** o pryt. a gosged. a th6f. a theled6rwyd rac **y lleill. A guedy edrych ohona6 arnadunt. go**uyn a wnaeth pwy oedynt. A pha le pan han**oedynt. A pha dayar y megyssyt arnei. A pha** acha6s. A pha neges y dothoedynt y6 teyr**nas ynteu. Ac yna y rodes heyngyst atteb** ida6 dros y gedymdeithyon. Canys hynaf oed. //

LlGC 5266 t. 137
A megys aeduetaf A doethaf. A phrudhaf. Ac yn y wed hon y dechreuis y ymadra6d. O tydy 6onedicaf or **brenhined. yg wlat saxonia yn ganet ni. ac**

yn mag6yt. un y6 honno ynteu o wladoed Germania. **Acha6s yn dyuotedigaeth ninheu y6. y rodi yn gua**ssanaeth yty. neu y tywyssa6c arall a wnel da yn. **Ac nyt oes acha6s y yn g6rthlad oc yn g6lat.** namyn a dywed6n yty heuyt. sef y6 hynny g6lat **uechan gyuyng. y6. A phan amlaho y phobyl mal** na anhont yndi. sef y6 eu kyneua6t. kynulla6 holl **wyr yeueinc y wlat rac bron eu tywyssa6c. A b6r6 prenn**eu y rygthunt. A megys y del y coelbren 6dunt. yd **etholir. Ac yd ellygir y wladoed y byt y my6n llon**geu. megys y guely dy. y geissya6 gossymdeith. Ac **y*uelly* rydhau eu g6lat. o tra amlder ky6da6t.** Ac yr a6rhon argl6yd heb ef yd amla6s ky6da6t **yndi yny uu reit ethol yr yeuengtit a wely di** yma rac dy uron. Ac erchi udunt uuydhau **6rth y gyneua6t ar gyureith oed ossodedic yr** y dechrereu yndi. A ninheu y deu uroder a we**ly di yn tywyssogyon arnadunt. canys o lin** brenhined yd hanym. sef y6 uy en6 i heingyst. //

LlGC 5266 t. 138
A hors y6 hen6 uy mra6t. A hynny argl6yd y ryuu reit y ninheu uuydhau yr gyureit yr uu**assei yr y dechreu. Ac y doetham hyt dy uren**hinaeth di. yn yd oed mercurius an d6w yn an **tywyssa6. A phan gigleu y brenhin kyrb6yll mer**curius dyrchauael y 6yneb a oruc. A gouyn pa ry6 **gret oed ganthunt. Ac yna y dywa6t heingyst.** Argl6yd heb ef an tatolyon dwyweu a anryded**6n nyt amgen. saturnus. a iuppiter. Ar dwyw**eu ereill y*syd* yn llywya6 y byt. Ac eissyoes yn **benhaf yd anryded6n mercurius yr h6n a alwn** ni yn an yeith wogen. Ac y h6nn6 y parth6ys **yn ryeni y petwaredyd or 6ythnos Ac a alwn** ninheu oe enw ef wogenes. A h6nn6 a elwir **yg kymraec dy6 merchyr. Ac yn nessaf y h6nn6** yd anryded6n y d6ywes gyuoethocaf or d6ywesseu. **yr hon a elwir effread. Ac y honno y kyssegr6s** an ryeni y chuechet dyd or 6ythnos. Ac yn an ye**ith ni y gelwir fridei. sef y6 hynny yg kymra**ec dyw guener. Ac yna y dywa6t gortheyrn. Am **a6ch cret chui. yr hon y*syd* ya6nach y gal6 yn** angret. noc yn gret dolurus yw gennhyf ui. //

LlGC 5266 t. 139
llawen 6yf inheu hagen 6rth a6ch dyuodedigaeth chui. canys amser ym reit 6rthi6ch yr dody6ch. **na du6 ar a6ch dycco na pheth arall. Canys uyg** gelynyon y*syd* ym kywarsagu o bob parth. Ac 6rth **hynny o mynn6ch chuitheu kymryt kyt lauur** a miui. ymlad am gelynyon. minheu a6ch kyn**halyaf chui. yn anrydedus ym teyrnas. Ac a6ch** kyuoethogaf o amrauael donyeu. a rodyon eur **ac aryant. a meirch. a thir a dayar a daoed ereill.** Ac yn diannot uuydhau a wnaethant 6ynteu. y hy**nny a g6rhau yr brenhin. Ac ada6 fydlonder ida6** tr6y aruoll. A thrigya6 y gyt ac ef yn y lys. Ac yn y **lle nachaf y fychteit y elynyon yn dineu or alban.** a llu dirua6r y ueint ganthunt. Ac yn anreitha6 **y guladoed ac yn llad eu pobyl. A phan gigleu** Gortheyrn hynny kynnulla6 y uarchogyon a **wnaeth ynteu a mynet yn eu herbyn. A guedy dy**uot y deu lu y gyt. ac ymlad ny bu uar reit yr **ky6da6dwyr ymlad y dyd h6nn6. canys y saesson** a ymladassant yn gyn wrolet ar gelynyon a oed**ynt yn pylu y ky6da6dwyr. yny uu reit ud**unt ymchuelut ar fo yn gewilyduus. //

LlGC 5266 t. 140
A Guedy caffael o ortheyrn y uudugolyaeth y dyd h6nn6 tr6y y saesson. ynteu a amla6s rodyon yn y **lle udunt 6ynteu. Ac y heingyst eu tywyssa6c y rodes yn swyd lindysei tir a daear megys y gallei ymossymdeithya6 ohona6 ac ef ae gytuarchogyon.** **Ac odyna mal oed heingyst yn** wr doeth. call. ystrywus A guedy g6ybot ohona6 **ee cael kedymdeithyas y brenhin. ae garyat. sef** a wnaeth ymadra6d yn y wed hon. Argl6yd heb **ef. dy elynyon di ysyd yn ryuelu o bob parth. A** hyt y guelir ymi heuyt bychydic o wyr dy

teyr**nas ath gar. canys eu canm6haf a gly6af ui yth** ogyuada6. am d6yn emreis wledic. o lyda6 am **dy ben yth diot oth urenhinaeth. Ac 6rth hynny.** os da gennyt titheu. ac o byd ryngad6y bod yt. **kyghor yw gennyf ui. Anuon kennadeu hyt uyg** wlat i y waha6d marchogyon ettwa odyno me**gys y bo m6y a chadarnach an niuer ninheu 6rth** ymlad ath elynyon ditheu. Ac mal y bo dibryder**ach ititheu. Ac y gyt a hynny heuyt un arch a** archaf inheu yty pei na bei ouyn uy naccau o**honei. Ac yna y dywa6t Gortheyrn. Anuon di dy** gennadeu yn diannot hyt yn Germania. y waha**6d odyno kymeint ac a uynnych. Ac odyna ar**ch y minheu. a pha beth bynnhac a erchych //

LlGC 5266 t. 141
nyth necceir o*hona6*. Ac yna yst6ng y ben a wnaeth heingyst. A diol6ch hynny ida6. a dywedut 6r**tha6 ual hyn. Tydy argl6yd heb ef am kyuoetho**geist i. ac a rodeist ym eisteduaeu amyl ehalaeth **o tir a dayar. Ac eissyoes nyt megys y guedei an**rydedu tywyssa6c a hanfei o lin brenhined. Sef ach**a6s y6. ti a dylyut rodi ymi ae dinas ae castell y** gyt ac a rodut. megys ym guelyt inheu yn anry**dedus ym*plith* y tywyssogyon. Canys teilyngda6t** yarll neu uar6n. oed ya6n y rodi y tywyssa6c a **hanfei o lin tywyssogyon. Ac yna y dywa6t Gor**theyrn ida6 ynteu yn atteb. A 6rda heb uyg gua**hard i a wnaethp6t rac rodi y ry6 rodyon hyny** yt ti canys estra6n genedyl a phaganyeit y6ch **ac nat adwen inheu ettwa a6ch moes chui nac** a6ch deuodeu megys y gall6yf ych kyffelybu **am ky6da6dwyr. canys pei dechreu6n i a6ch** anryedu chui megys pria6t ky6da6t yr enys **guyrda yr enys a gyuodynt ym herbyn ac a 6rth**6ynebynt ym. Ac yna y dywa6t heingyst. Arg**l6yd heb canhyata ditheu yth was guneuthur** ar y tir a rodeist kymeint ac yd ymgyr //

LlGC 5266 t. 142
haedo carrei y damgylchynu o hundy mal y bo dyogelach ym ymgad6 y my6n h6nn6. rac uy **gelynyon. canys fydla6n uum ac 6yf. ac uydaf** yt. A pha beth bynnac a wnel6yf ui yno yn fyd**londer yty y gunaf. A chanhyadu a wnaeth y bre**nhin ida6 hynny a gorchymyn a wnaeth ida6 **ell6ng kennadeu hyt yn Germania. y erchi bry**ssya6 ar borth odyno. Ac yna heb un gohir ell6ng **a wnaeth heingyst hyt yn Germania. A chymryt** croen tar6 a wnaeth ynteu. A holldi h6nn6 yn **un garrei. ac odyna ethol y lle cadarnhaf a all6s y** gaffael ar y tir a rodessyt ida6. Ac ar garrei hono **messura6 lle castell. A dechreu y adeilat yn dian**not. A guedy daruot adeilat y gaer. y gelwit yg **kymraec caer y garrei. ac yn saesnec tancastre.** ac yn lladin castrum corrigie. Ac or enw h6n6 **y gelwit yr hynny hyt hediw.** AC ymchuelut a wnaeth y kennadeu o Germania **a deuna6 llong ganthunt. ~~yl~~ yn lla6n o etholedig**yon uarchogyon arua6c. A merch heingyst gan**thunt. sef oed y hen6 hi Ronwen. Ac nid oed** yr eil a gyffelypit idi. rac y theccet. A guedy dy //

LlGC 5266 t. 143
uot y niuer h6nn6. sef a wnaeth heingyst guaha6d Gortheyrn ~~yr a~~ y edrych yr adeilat diessyuyt yr wna**thoedyt ac y edrych y marchogyon newyd dyuot.** A guedy dyuot y brenhin yno a niuer bychan gan**tha6 moli a wnaeth y gueith newyd. A chymryt** y marchogyon newyd dyuot yn wyr ida6. A guedy **daruot udunt b6yta o urenhina6l anregyon nachaf** y uor6yn yn dyuot or ystauell. A gorulch eur yn y lla6. **ae loneit ynda6 o win. Ac y*uelly* dyuot hyt rac bron** y brenhin. A guedy adoli ida6 ar tal y deu glin. kyua**rch guell ida6. a heilya6 arna6 ual hyn. Lauart ki**ng wasseil. A phan weles y brenhin pryt y uor6yn **anryuedu a wnaeth y theccet. Ac yn y lle ymlenwi** oe charyat a gouyn yr yeith beth a dywedassei y **uor6yn. A pheth a dylyei ynteu y dywedut yn 6rth**eb idi hitheu. Ac yna y dy yr yeithyd 6rtha6. Argl6yd **heb ef hi ath elwis di**

yn argl6yd ac yn urenhin. yn y hyeith hi. Ac y*uelly* yth anryded6ys. yr hynn **a dylyy ditheu y 6rtheb idi hi. hynn yw. sef yw** hynny. Drincheil. Ac yna y dywa6 Gortheyrn 6rthi **drincheil. Ac erchi yr uor6yn yuet y g6in. Ac yr** hynny hyt hediw y mae y deua6t honno wedy //

LlGC 5266 t. 144
yr ada6 ym*plith* y kyuedychwyr yn enys prydein. Ac yna guedy medwi Gortheyrn neidya6 a wna**eth diawul ynda6. A pheri ida6 gytsynhya6 ar pa**ganes ysgymun heb uedyd arnei. A sef a wna**eth heingyst mal oed ystry6us. adnabot ysga6n**der ann6yt y brenhin. Ac ymgyghor ae ura6t **ac ae gedymdeithyon. am rodi y uor6yn wrth e**wyllis y brenhin. Ac o gyt gyghor y ca6ssant y **rodi yr brenhin. Ac erchi ida6 ynteu swyd geint** yn y hagwedi hi. Ac yn diannot y rodet y uor6yn **yr brenhin. ac y rodes ynteu s6yd geint yn y ha**gwedi hi. heb 6ybot yr g6r oed yarll yno. sef **oed y hen6 G6rgant. Ar nos hon honno y kys**g6yt gan y uor6yn. A mwy no messur y kar6ys **Gortheyrn o hynny allan. A thri meib yr uuassei** y ortheyrn kyn no hynny. sef oed eu hen6. kyn**deyrn. a Guertheuyr uendigeit. a phasken.** Ac yn yr amser h6nn6 y doeth Garmon esgob a **lupus tra6cens y bregethu geir dwu yr brytan**nyeit. canys llygredic oed eu cristonogyaeth yr **pan dothoed y paganyiet yn eu plith. Ac yna gue**dy pregethu or guyrda hynny. yd adnewydha6t //

LlGC 5266 t. 145
y fyd ym*plith* y brytannyeit. canys pa beth bynnac a dywetynt ar eu taua6t. 6ynt ae kedernheynt tr6y **y peunydya6l wyrtheu. ac anryuedodeu a wnaei du**w yrdunt. Ac yna guedy rodi y uoruyn yr brenh**in y dywa6t heingyst yr ymadra6nd h6n. miui** heb ef ysyd megys tatmaeth a chyglor6r yty. **ac o bydy di. 6rth 6yg kyghor i. ti a orchyuygy dy** holl elynyon. trwy uym porth ui am kenedyl. Ac **6rth hynny gohod6n etwa offa uy mab attam** ac olla y keuynder6. canys ryuelwyr goreu yn y **byt ynt. Ac uuydhau a wnaeth Gortheyrn 6rth** y kgyhor h6nn6. Ac yna yd anuones heingyst **hyt yn Germania. ac y doethant odyno offa ac** olla. a cheldric. a thry chan llong ganthunt yn lla6n **o uarchogyon arua6c. A hynny oll a aruolles Gorth**eyrn yn llawen. ac a urd6s pa6b onadunt yn y **lle o rodyon ma6rweirtha6c. canys ym pob ky**uranc y bydei orchyuyga6dyr dr6ydunt. Ac yuel**ly beunyd eissyoes yd achuanecaei heingyst y lu** tr6y d6yll a brat ganedic gantha6. A guedy ad**nabot hynny or brytannyeit. daly ouyn a wna**ethant ac erchi yr brenhin eu gyrru o teyrnas //

LlGC 5266 t. 146
enys prydein. cany wedei y gristonogyon kedymdeithocau a phaganyeit. nac ymgymyscu ac 6ynt. **canys kyureith a dedyf cristonogyaeth ae gua**hardei. Ac y gyt a hynny. kymeint oed eu niuer **ac nat oed ha6d adnabot p6y a uei cristya6n** p6y a uei pagan. Ac y gyt a hynny seint Garm**a6n a orchymynassei udunt. dihol y paganyeit** saesson oc eu plith. Ac eissyoes sef a wnaeth Gorth**eyrn o garyat y wreic ar saesson ysgaelussa6** y brytannyeit. A guedy guelet hynny or brytann**yeit sef a wnaethant 6ynteu ymada6 a Gorth**eyrn. a chymryt Guertheuyr uendigeit y uab **ynteu. ae urda6 yn urenhin arnadunt. A dech**reu ymlad ar saesson. a guneuthur aeruaeu **ma6r creula6n o*nadunt* megys yd oed da** gan duw y wneuthur o*nadunt*. A phedeir **br6ydyr a uu y wertheuyr ar saesson. Ac ym pob** un y goruu ef. yr ymlad kyntaf a uu ida6 **ac 6ynt ar auon derwennyd. Ar eil a uu ar** ryt epifort. Ac yna yd ymgyuaruu kyndeyrn **uab Gortheyrn. A hors bra6t heingyst. Ac y** llada6d pob un o*nadunt* y gylyd. y trydyd ym //

LlGC 5266 t. 147

lad a uu ar glan y mor. ac yna y foes y saesson yn wreiga6l y eu llongheu. ac yd aethant hyt yn enys **tanet y geissya6 ymgad6 yndi. Ac eissyoes guedy** eu damgylchynu o wertheuyr ac eu blinhau o be**unydya6l ymlad mal na ellynt y diodef. sef a w**naethant anuon Gortheyrn. yr uuassei y gyt ac 6y**nt ym pob br6ydyr yn borth udunt. hyt ar wer**theuyr y uab y erchi ida canhyadu udunt uynet **y eu g6lat yn ryd. A thra ytt oedet yn kymryt ky**nghor amdanunt. sef a wnaethant kymryt eu llo**gheu ac ada6 eu guraged ac eu meibyon a fo. hyt yn Germania.** A Guedy caffael o wertheuyr y uudugolyaeth honno. **dechreu a wnaeth ynteu talu y ba6b y dylyet yr da**roed yr saesson y d6yn y arnadunt. Ac anrydedu **y wyr a chad6 ya6nder ac 6ynt. Ac y gyt a hynny.** adnewydhau yr egl6ysseu ac eu hanrydeu 6rth gyg**hor Garma6n escob. Ac eissyoes kyghoruynnu a** wnaeth diawul 6rth y daeoni ae gyurarchuel. A **dodi yg callon Ronwen y lysuam med6l y geissy**a6 ystry6a6 y agheu. A guedy medylya6 o*honei* **pob ystry6. or diwed sef a wnaeth rodi guen6yn** ida6 tr6y la6 un oe wassanaethwyr. A guedy ky //

LlGC 5266 t. 148

mryt y guen6yn o*hona6*. kleuychu a wnaeth yn deisyuyt o orthrum heint. Ac yn y lle dyuynnu **atta6 holl wyrda y teyrnas. A guedy eu dyuot ra**nnu udunt a wnaeth a gynnullassei o eur ac a**ryant a daoed ereill. A mynegi udunt y uot ef** yn mynet y ganthunt y agheu. A pha6b o*nadunt* **6ynteu yn griduan ac yn dryc*yruerthu*. Ac yn**teu yn eu didanu h6y. Ac yn eu kyghori. Ac yn an**noc yr guyr yeueinc dewr bot yn 6ra6l fyn**edic y ymlad tros eu g6lat. Ac y amdiffyn y teyr**nas rac estra6n genedyl. A guedy eu hannoc y*ue*l**ly yn herwyd y gallei.** erchi a wnaeth dineu del6 **euydeit tr6y tana6l geluydyt. ae gossot yn y por**thloed y gnotaei y saesson disgynnu yndi. A gue**dy bei uar6 ynteu y ira6 ac ireidyeu guerthua**6r A gossot y gorff ar y del6 honno. yr aruthred **yr saesson. Ac ef a dywedei wertheuyr uendigeit** hyt tra welynt h6y y del6 honno ae gorff ef ar**nei hi. na leuessynt dyuot y tir enys prydein. ca**nys ef a gredei na leuessynt h6y dyuot ar y dorr **ef yn uar6. y g6r yr wnathoed udunt yn y uy**wyt y gniuer defnyd ouyn ac aruthred yr //

LlGC 5266 t. 149

wnathoed ef. Ac eissyoes guedy y yar6 ef. kyghor **oed** waeth a wnaethant 6ynteu. kymryt y gorff ae cla**du yn llundein. A Guedy mar6 guertheuyr uen**digeit y doeth Gortheyrn Gortheneu y6 gyuoeth **tracheuyn. A guedy caffael o*hona6* y urenhin**aeth. o arch ac annoc y wreic anuon a wnaeth **hyt yn Germania. y erchi y heingyst dyuot trae** geuyn enys prydein. yn ysgyualafhaf a gallei **o niuer rac ouyn geni teruysc eilweith y** rygthunt ar brytannyeit. Ac yna pan gigleu he**ingyst ry uar6 guertheuyr. kynnulla6 a wnaeth** ynteu try chan mil o uarchogyon arua6c. A chyw**eirya6 llyghes ac ymchuelut trae geuyn hyt yn e**nys prydein. A guedy g6ybot or brytannyeit eu ry dy**uot niuer kymeint a h6nn6. sef a ga6ssant yn eu** kyghor ymlad ac 6ynt. kyn eu dyuot yr tir. a diff**ryt y porthloedeu racdunt. A guedy anuon oe uerch** atta6 ynteu hynny. sef a wnaeth ynteu ystrywa6 **bredychu y brytannyeit tr6y ar6yd tagneued. Ac an**uon kennadeu ar y brenhin y uynegi ida6. nat y **eissya6 trigya6 yrn yr enys yr dothoedynt y sa6l ni**uer h6nn6 y gyt ac ef namyn o tebygu bot Gue //

LlGC 5266 t. 150

rtheuyr ettwa yn uy6 yr dugassei hynny gantha6 y6 amdiffyn racda6. Ar niuer a uynno Gortheyrn o*nad***unt atalyet yn wyr ida6. Ac ar ny mynno ellyget** y emdeith yn diannot. A guedy datcanu hynny yr **brenhin. rodi**

tagnheued udunt a wnaeth. Ac erchi yr kiwda6dwyr ac yr saesson dy6 calan mei oed yn **agos dyuot hyt ym maes kymry y eu tagneuedu** ac y wneuthur kymot y rygthunt. Ac aruer a **wnaeth heingyst yna o newyd geluyd t6yll a brat** ac erchi y pob un oe gedymdeithyon d6yn kyllell hir **ganth6nt y my6n eu hossaneu. y gyt ac eu hesgei**ryeu. Ac yna pan uei dibryderhaf gan y brytanny**eit yn guneuthur eu dadleu. rodi ar6yd o heingyst** sef oed yr ar6yd. Nymyd o6yr sexes. A phan dywe**tei ef yr ar6yd h6nn6 6rthunt h6y. kymryt o** bob un y gyllell a llad y bryt6n nessaf ida6. Ac yn y **dyd teruynedic. ar amser gossodedic. 6ynt a doeth**ant pa6b yn y gyueir. A guedy dechreu y dadleu a **guelet o heingyst yr a6r a uu amcan gantha6. ef** a dywa6t yn diga6n y uchet o hyt y lef. Nymyd **o6yr sezes. A sef oed hynny yg kymraec. kymer6ch** a6ch kyllyll. Ac ar hynny sef a wnaeth y saesson //

LlGC 5266 t. 151
dispeilya6 eu kylleill a chyrchu ty6yssogyon y brytannyeit. yeirll. a bar6nyeit a marchogyon urda6l. ac eu **llad megys deueit. A sef niuer a las yna. y r6ng ty**wyssogyon a guyrda ereill. tri 6geinwyr a phetwar **canh6r. Ac yna y kymyrth eidal escob guynuydedic** corfforoed y guyrda hynny merthyri. ac y clad6s her**wyd dedyf cristonogyaeth yn agos y gaer carada6c** yn y lle a elwir salsbri. y my6n mynwent gerlla6 **mynachloc ambri abat y g6r a uu seilya6dyr ar** y uynachloc honno yn gyntaf. Ac ny dothoed gan y **brytannyeit yr dadleu h6nn6 un aryf. canyt oed** yn eu bryt guneuthur namyn tagneued. Ac ny **thebygynt 6ynteu bot ym mryt y saesson amgen** no hynny. Ac eissyoes y doeth y bratwyr yn arua6c. **Ac eissyoes y kerryc a uu amdiffyn ya6nda yr brytanyeit.** AC yno y doethoed eidol yarll caer Gloe6. A guedy gue**let o h6nn6 llad y gedymdeithyon y*uelly* tr6y urat.** sef y cauas ynteu pa6l da cadarn. ac ar pa6l h6nn6 **pa un bynnac or saesson a tra6hei yny bei 6ri6edic** y ben ae emenhyd y hanuonei parth ac uffern. Ac **yna ar pa6l bendigeit h6nn6 y bry6ei ef y benn y** un y arall y ysg6ydeu y 6rth y gorff. y arall y d6ylya6 //

LlGC 5266 t. 152
ae ureichyeu. y arall y traet ae esgeiryeu. Ac ny orffowyss6s eidol or ruthyr h6nn6. yny lada6d deg **wyr a thrugeint or saesson. ar pa6l h6nn6. A guedy** guelet ohona6 na allei ef ehun g6rth6ynebu yr niuer h6**nn6 kymryt y fo yny doeth hyt y dinas ehunan. A lla**wer a syrth6s yna o pob parth. Ac eissyoes yr ysgym**un uudugolyaeth honno a gauas y saesson. Ac yr hy**nny eissyoes ny ladassant Gorthe~~n~~yrn. namyn y gar**charu a chymell arna6 rodi udunt. y dinassoed ar kest**yll. A chadarn leoed enys prydein. yr y ell6ng. Ac yna **y rodes Gortheyrn udunt pob peth or a uynnassant** yr y ell6ng~~6ng~~. A guedy kymryt kedernyt Ac aruoll **y gantha6 yd ellyg6yt. Ac yna y kymyrth y saesson y ga**ntha6 llundein. A chaer eura6c. a lincol. a chaer wynt. **gan lad eu ki6da6twyr megys y lledit deueit guedy** ys ada6hei eu bugeil. A guedy guelet o ortheyrn y **truan aerua honno ar y pryodoryon y gan yr ysgym**un pobyl. sef a wnaeth ynteu kilya6 parth ac emylyeu **kymry cany 6ydat beth a wnaei yn erbyn yr ysgy**mun pobyl honno. A galw atta6 holl doethyon a henu**ryeit y gyuoeth. a gouyn udunt beth a wnaei 6rth** hynny. Ac yna y kyghoret ida6 adeilat y castell cadar //

LlGC 5266 t. 153
nhaf a allei yn y lle cadarnhaf a gaffei megys y bei h6nn6 yn amdiffyn ida6. can collassei oll y lleoed cadarn oe gyuo**eth. A guedy cr6ydra6 ohona6 llawer o leoed y geissya6** y ry6 le h6nn6. or diwed y doeth hyt ym mynyded ery**ri. A guedy caffael ohona6 lle y bu adas gantha6 y wne**uthur y gastell. kynnulla6 a wnaethput holl seiri me**in or a all6t eu caffael ~~ac eu caffael~~ ac eu d6yn hyt**

yno. A guedy dechreu gossot y gr6ndwal o*nadunt*. kymeint **ac a wnelynt y dyd or gueith trannoeth pan gyuotit** ~~yr~~ neu daruydei yr daear y lyngcu. heb 6ybot dim y **6rtha6. m6y no cheny ryffei eiryoet uch y dayar. A** guedy mynegi hynny y ortheyrn. gouyn yw dewinyon **a wnaeth beth a wnaei hynny. Ac yna yd erchis y dewi**nyon ida6 keissya6 mab heb tat. ida6. a llad h6nn6 a chy**mysgu guaet h6nn6 ar calch. Ac ira6 y mein heuyt ar** calch ar guaet h6nn6. A dineu y guaet yn y gr6ndwal. **hyt pan sauei y gueith y*uelly*. Ac yna yd anuonet ym** pob lle y geissya6 kyury6 uab a h6nn6. A guedy dyuot deu **or kennadeu hynny hyt y dinas a elwit guedy hynny** caer uyrdin nachaf y guelynt b6rn o weissyon yeue**inc yn guare yn dr6s porth y dinas. A sef a wnaeth y ke**nnadeu dynessau ar y guare. ac edrych arnadunt. //

LlGC 5266 t. 154
Ac eisted yn lludedic dyffygya6l. ac ymwranda6 am y neges yd oedynt yn y cheissya6. A guedy bot y gueissyon yue**lly yn guare yn hir. daruot a wnaeth y r6ng deu o**nadunt. ar neill o*nadunt* a elwit duna6t. ar llall **myrdin. Ac yna y dywa6t duna6t 6rth urydin. pa** acha6s heb ef. yd amryssony di a miui nac y kynne**enny canys dy tygheduena6l heb dat ida6 6yt ti.** a minheu a han6yf o 6renhina6l lin. o*blegyt* mam **a that. A phan gigleu y kennadeu yr ymadrodyon** hynny. dyrchauael eu h6yneb a wnaethant ac edry**ch ar 6yrdyn. A gouyn yr dynyon oed yn eu kylch** p6y oed y guas. Ac 6ynteu a dywedassant. na wyd**ynt pa dat yr ganassei ef y uam ynteu. heb 6ynt.** yssyd uerhc y urenhin dyuet. Ac yn y dref yma **heb 6ynt y mae yn uynaches ym*plith* mynach**esseu ereill yn egl6ys bedyr **AC yn y lle kychwyn a wneth y kennadeu ar g6ns**tabyl y gaer ar dinas. Ac erchi ida6 o bleit y bren**hin anuon myrdin ae uam yn diannot hyt ar** y brenhin. 6rth wneuthur y ewyllis o*nadunt*. A **guedy eu dyuot rac bron y brenhin. y haruoll yn** anrydedus a wnaeth y brenhin y uam uyrdyn. can //

LlGC 5266 t. 155
g6ydat y hanuot o urenhina6l anedigaeth. Ac odyna gouyn a wnaeth idi p6y oed tat y mab. Ac yna y dyw**a6t hitheu. Argl6yd heb hi. b6y y6 uy y eneit i. nat** adnabum i 6r eiryoet. Ac na 6ybum p6y a gre6ys **y mab h6n ym callon. namyn hyn un peth a wn.** pan ytt oed6n ym*plith* uyg kedymdeithesseu yn **yr hundy. nachaf y guel6n yn dyuot attaf yn drech** g6r yeuanc teccaf yn y byt. Ac yn dodi y d6yla6 am**danaf. Ac yn ymgaru a mi. Ac or diwed kydya6 a** mi am hada6 yn ueichya6c. A g6ybydet dy brud**der di ath doethineb. argl6yd urenhin na bu y** mi eiryoet acha6s a g6r namyn hynny megys **y g6yp6n i bot tat ida6 ef ef. amgen no h6nn6.** Ac anryuedu yn 6a6r hynny a oruc y brenhin. Ac **erchi d6yn meugant dewin atta6. y ouyn ida6 a** allei hynny bot yn wir. A guedy dyuot meugant **yr lle a datcanu ida6 y gyuranc honno. ynteu a dy**wa6t y keffyt yn llyureu y doethon. ac yn llawer **o istoriaeu ereill. bot lla6er o dynyon a ry6 anedig** honno udunt. Apulenis heb ef. a dyweit pan drae**tha o du6 ar seint. bot ry6 genedyl yn press6yl**ya6 y r6ng y lleuat ar dayar. a rein hynny a //

LlGC 5266 t. 156
alwnn ni dieuyl gogwydedic a rann yndunt or dayar. ac o annyan dyna6l. a rann arall o annyan egyly**on. a phan y mynnont y gallant gymryt dyna6l fig**ur a drech ar*nadunt* a chydya6 ar guraged y*uelly*. **ac atuyd un or rei hynny a doeth ar y wreigda hon** ac ae beichoges pan gaffat y guas yeuanc h6n **AC yna guedy guaranda6 o uyrdin yr ymadrodyon** hynny. nessau a wnaeth ar y brenhin. ac adoli ida6 a **gouyn pa acha6s yr dugessit ef ae uam hyt yno.** ac yna y dywa6t Gortheyrn 6rtha6 ynteu. 6y ne**winyon a archassant ym keissya6**

mab heb tat ida6 ac a guaet h6nn6 ira6 y gueith. ac y*uelly* y dywe**dynt y seuyll. Ac yna y dywa6t myrdin. Argl6yd heb** ef. arch di d6yn dy dewinyon di rac y mron i. a mi **a brofaf arnadunt bot yn gelwyd a dywedassant. Ac** anryuedu a wnaeth y brenhin y ymadra6d. Ac erchi **d6yn y de6ynyon rac y uron. A guedy eu heisted rac y** uron myrdin a ouynn6s 6dunt beth oed yn lles**teirya6 y gueith canys y mae heb ef beth yn ymgelu** ny at yr gueith seuyll. Ac ny all6s y dewinyon atteb **ida6. ac yna y dywa6t myrdin. Argl6yd heb ef arch** di d6yn dy weithwyr yma a thi a geffy llynn a //

LlGC 5266 t. 157
dan y dayar. a h6nn6 ny at yr gueith seuyll. A guedy guneuthur y clad a chaffael y llynn. yna **y dywa6t myrdin eilweith 6rth y dewinyon. Dy**wed6ch chui d6yllwyr kelwyda6c anhyedwyr **pa beth ysyd a dan y llynn. Ac yna tewi a wnaeth**ant megys ket bydynt mut. Ac yna y dywa6t **myrdin Arglwyd heb ef. Arch di disbydu y llynn** dr6y frydyeu. A thi a wely deu uaen geu yn y **waela6t. Ac y my6n y deu uaen d6y dreic yn kys**gu. A chredu a wnaeth y brenhin hynny ida6. canys **dywedassei wir am y lynn kynn no hynny. Ac er**chi disbydu y lynn. Ac am bob peth o hynny. an**ryuedu doethinab myrdin a wnaei. a pha6b or a** oed y gyt ac ef. yn credu bot d6wa6l gyuoeth **a g6ybot a doethineb ynda6. Eman y dechreu proff6ydolyaeth myrdi.** Pan yt oed Gortheyrn gortheneu yn eisted ar glan **y lynn guehynedic y kyuodassant d6y dreic o**hona6. or rei yd oed un guynn ac arall cohc. Ac **guedy dynessau pob un y6 gilid onadunt. dech**reu girat ymlad a wnaethant. a chreu tan oc **eu hanadyl. Ac yna g6rthlad y dreic coch ae //**

LlGC 5266 t. 158
chmhell hyt ar eithauoed y lynn. A dolurya6 a oruc hitheu. a llidya6 yn ua6r. a chymell y dreic **wenn dracheuyn. Ac ual yd oed y dreigeu yn ym**lad yn y wed honno. yd erchis y brenhin y uyrdin **dywedut beth a ar6ydocaei hynny. Ac yn y lle sef** a wnaeth ynteu guehynny y yspryt. gan 6yla6 **a dywedut. Gwae hy y dreic coch. canys y haball ysyd** yn bryssya6. E gogoueu a achub y dreic wenn. **yr hon a ar6ydocaa y saesson a ohodeist di. E dreic** .ch. a ar6ydocaa kenedyl y brytannyeit. yr honn **a gywersengir y gan y wenn. 6rth hynny y** mynyded a westyteir 6al y glynneu; ac auon**oed y glynneu a lithrant o waet. Diwyll y** gristonogaeth a dileir; a ch6ymp yr egl6ysseu **a ymdywynnic. En y diwed y racrymhaa y gy**warsangedic. Ac y dywalder yr estronyon y **g6rth6ynepa. Canys baed kerny6 a ryd canhor**thwy; a mynygleu yr estronyon a sathyr dan **y draet. Enyssed yr eigya6n a darystyngant ida6** a guladoed freinc a uedha6t. Ty Ruuein a o**uynhaa y dywalder ef; ae diwed a uyd pedrus. //**

LlGC 5266 t. 159
Eg geneu y bobyl yd anrydedir; ae weithredoed a uyd b6yt yr ae datcano. Chuech wedy ef a ymlyn**ant y deyrnwialen; a guedy 6ynteu y kyuyt pryf** germania. E mora6l uleid a dyrcheif h6nn6; **yr h6nn a gedymdeithocaa ll6yneu yr affric.** E creuyd a dileir eilweith; a symudedigaeth yr **eisteduaeu penhaf a uyd. Teilygda6t lundein** a adurnocaa caer geint; A bugeil caer eura6c **a uynychaa y teyrnas lyda6. Myny6 a wisgir o** 6antell gaer llion; a phregeth6r ywerdon a uyd **mut o acha6s mab yn tyuu yg callon y 6am.** Ef a da6 gla6 guaet; A girat newyn a lifya **y rei marwa6l. Pan delont y petheu hynny** y dolurya y dreic coch; Ac yny bo llithredic lla**uur y grymhaa. Ena y bryssya direidi y dreic** ~~coch~~ wenn; Ac adeiladeu y gardeu a diwreidir. Seith **dygya6dyr teyrnwialen a ledir; Ac un o*nadu***nt a uyd sant. Crotheu y mameu a r6ygir; **ar meibyon a enir kynn oet. Dirua6r boen** a uyd yr dynyon yny

atuerher y rei eissywedic. **A wna y petheu hyn. a wisc g6r euyda6l; A thr6y //**

LlGC 5266 t. 160
honno. yd aeth y brenhin hyt yg caer alclut **y atnewydhau tagneued tr6y y deyrnas. A chy**meint o wironed a ya6nder a wnaeth dros 6y**neb y teyrnas Ac nas gunathoed un brenhin** kynn noc ef. A thr6y holl diewoed a hoedyl uthyr **bendragon ouyn ac ergryt. A uydei ar ba6b** or a wnelhei y cam nac ae canmolei. cany by**dei drugared yn y dial. A guedy daruot yda6 hedychu** yr alban a dan y theruyneu yd aeth odyno hyt **yn llundein. Ac yno y gossodes ef octa ac eo**ssa y geuynder6 yg carchar. A guyr neilltu**edic y eu cad6. Ac ual yd oed g6ylua y pasc** yn dynessau anuon a wnaeth y brenhin ke**nnadeu y bob lle tr6y enys brydein** y dyuynnu pa6b or guyrda yeirll a **bar6nyeit a marchogyon urda6l hyt yn llu**ndein. 6rth anrydedu yr 6ylua honno tr6y **lewenyd megys y dylyit. a guisga6 coron** y deyrnas am benn y brenhin. a rodi y **ya6n y ba6b ae dylyet. Ac ymgynnulla6 //**

LlGC 5266 t. 210
a wnaeth pa6b 6rth y guys h6nn6 a dyuot hyt yn llundein o bob lle dros 6yneb enys bryde**in. Ac anrydedu a wnaeth y brenhin yr 6ylua** honno megys y darparassei gan lewenyd. A **dirua6r lewenyd a gymyrth pa6b yndunt o** welet y brenhin yn eu haruoll ac yn eu her**bynneit mor llawen a hynny. A chymeint o** dylyedogyon a doethant yna. 6ynt ac eu gura**ged ac eu meibyon. ac eu merchet. ac yd o**ed deil6ng yr ry6 wled honno. Ac ym*plith* y **guyrda hynny y dothoed Gorlois yarll ker**ny6. Ag eigyr uerch amla6d wledic y wre**ic y gyt ac ef. Pryt y wreic honno hagen** ae theg6ch a orchyuygei holl wraged enys bry**dein. A phan weles y brenhin y wreic honno** ym*plith* y guraged ereill ym*lenwi* a wna**eth oe charyat yn gymeint ac na hanb6**yllei o dim namyn treig*la6* y holl ued**6l ae holl enni ae holl dihewyt yn y hanryde**du hi. idi hi yd anuonyt y gol6ython ar an**regyon. idi hi heuyt yd anuonyt y goruleh**eu eureit ar guirodeu yndunt. Ar heil my**nych. ar geiryeu tiryon. A guedy cael g6y //**

LlGC 5266 t. 211
bot hynny or yarll y g6r hitheu. llidya6 a wnaeth ac ada6 y llys heb ganhiat y brenhin. A chy**meint uu y lit. Ac na all6t y ymchuelut trache**yn nae waha6d rac ouyn colli y wreic yr h**on a garei ynteu y wuy no dim. daeara6l. Ac** 6rth hynny llidya6 a wnaeth y brenhin am ry **ada6 y lys heb y ganhyat. Ac anuon yn y ol ac** erchi ida6 dyuot y wneuthur ya6n yr bren**hin. Canys un o sarhaedeu brenhin y6 ada6** y lys heb ganhyat A guedy nat ymchuelei yr **neb. tygu a wnaeth y brenhin tr6y y uar ae lit.** yd anreithei holl gyuoeth gorlois. Ac yna heb **un gohir tra yd oed y llit h6nn6 yn parhau y** rygthunt kynnulla6 llu ma6r a wnaeth y **brenhin a chyrchu kerny6. A dechreu llosgi** y dinassoed ar kestyll ar treui. Ac yr hynny **eissyoes ny lauass6s Gorlois ymerbynneit ac ef.** Canys llei oed y niuer noc un y brenhin. Ac 6**rth hynny sef y cauas ynteu yn y gyghor ka**darnhau y gestyll. Ac y*uelly* arhos porth **atta6 o ywerdon. A chan oed m6y y oual am //**

LlGC 5266 t. 212
y wreic noc amdana6 ehun. sef a wnaeth y gossot hi yg castell tintagol. ar glan y traeth yn y lle cadarnh**af oed yn y gyuoeth. Ac ynteu a aeth yg castell dy**molt. rac eu caffael y gyt o dryc damwein ell deu. **A phan gigleu y brenhin hynny. sef a wnaeth ynteu myn**et parth ar castell yd adoed Gorlois ynda6. A **guedy y gylchynu dechreu ymlad ac ef. ae war**chae. mal na chaffei neb na dyuot ida6 na my**net o*hona6*. A guedy mynet yspeit 6ythnos he**ibya6. coffau a wnaeth uthyr bendragon caryat **Eigyr. A gal6 atta6 6lffin o ryt garada6c y** gedymdeitheith ae gytuarcha6c. a mynegi id**a6 y ued6l yn y wed hon. Dyoer heb ef ma6r** y6 ynof ui caryat Eigyr. Ac nyt diheu gen**hyf na choll6yf uy eneit ony chahaf y wreic** 6rth uyg kyghor. Ac 6rt hynny heb ef. dyro **ym gyghor**

dr6y yr h6n y gall6yf eilenwi uy ewyllis. Canyt oes bedrusder genhyf uy abal**lu oe charyat onys caffaf. Ac yna y dywa6t** 6lfin 6rth y brenhin. Argl6yd heb ef p6y **a allei rodi kyghor yti. pryt na bo ford yn y** ~~y~~ byt y ym*gaffaffael* a hi. canys y castell y //

LlGC 5266 t. 213
mae hy ynda6 y*syd* ar ben carrec yn y weilgi yn gaedic or mor o bob parth ida6. Ac nyt oes neb kyury**w ford yn y byt y galler mynet ohona6 na dyuot id**a6. namyn ar hyt ethrykyg un garrec kyuyng **ysyd or castell hyt y tir. Ar garrec honno trywyr** arua6c ae catwei rac holl teyrnas **enys brydein. Ac ei*ssyoes* argl6yd heb yr** 6lfin. pei myrdin uard a rodei y weithret **6rth dy ued6l di mi a debygaf y gallut gaffael** y wreic 6rth dy gyghor. Ac yn y lle erchi a wnaeth **y brenhin dyuynnu myrdin atta6. canys yn y llu** yd oed. A guedy dyuot myrdin erchi a wnaethp6t **ida6 rodi kyghor yr brenhin. tr6y yr h6n y gallei** gaffael eigyr 6rth y gyghor. A guedy g6ybot o uy**rdin meint oed garyat y wreic ae serch yn y bre**nhin. dolurya6 yn ua6r a wnaeth a dywedut 6rth**a6 ual hyn. Argl6yd heb ef o mynny di gaffael y** wreic 6rth dy uynnu mal yd 6yt yn y damun**a6. reit y6 yt aruer o geluydodeu newyd ny** chlywyt eryoet yth amser di. Canys mi a 6nn gel**uydyt tr6y yr hon y gallaf ui rodi drech Gorlois** arnat ti. hyt na bo neb a adnapo nac a wypo na **bo Gorlois uych. Ac 6rth hynny os titheu ae mynn //**

LlGC 5266 t. 214
minheu ath rithaf di yn rith Gorlois. Ac a rithaf 6lfyn yn rith Jurdan o dindagol. guas ystauell gorlois **oed h6nn6. A minheu a gymeraf drech arall arnaf** ac a deuaf yn drydyd y gyt a chui. Ac y*uelly* y gelly **di yn ehouyn dibryder mynet y gastell** tindagol. A chaffael y wreic 6rth dy **gynghor. A gorchymyn a wnaeth** y brenhin y6 ann6ylyeit warchad6 y castell yn da **a chynnal yr ymlad. ac ymrodi a wnaeth ynteu y** geluydodeu myrdin. Ac yna y gossodes myrdin ar**na6 ynte6 drech gorlois. Ac ar 6lfyn drech Jurdan** o dindagol. Ac ynteu uyrdin ehun yn ryth brythael **arall. megys na bei neb or ae guelei a 6ypei na bei y** guyr hynny uydynt yn eu guir drech. Ac odyna **kymryt eu hynt a wnaethant parth a chastell** tintagol. A phan oed gyuli6 g6r a ll6yn y doethant **yno. A guedy mynegi o*nadunt* yr portha6r bot** yr yarll yn dyuot. agori y pyrth a wnaeth yn di**annot. Ac eu hell6ng y my6n. Canyt oed neb or ae** guelhei a 6ypei na bei yr yarll uei. Ar nos hon **hono kysgu a wnaeth y brenhin y gyt ac eigyr gan** ymrodi y6 damunedic serch. canys y fals drech a //

LlGC 5266 t. 215
dodassei uyrdin arna6 yr d6yllasei y wreic. ac y gyt a hynny y geiryeu t6yllodrus dechymygedic a dywed**ei ynteu. canys dywedut 6rthi a wnaeth ry dyuot ef** yn lledrat or castell cany allei yr dim uot heb y gue**let rac meint oed y ymgeled amdanei. 6rth 6ybot** pa ansa6d a pha lunyeith a uei arnei. ac ar y gastell. **A chredu a wnaeth hythe6 yr ymadrodyon hynny a gune**uthur y uynnu ef. Ar nos hon honno y cauas hitheu **ueichogi. Ac or beichogi h6nn6 y ganet arthur y** g6r clotuorhaf ac arderchocaf a uu or genedyl we**dy hynny megys y dangossant y weithredoed.** AC yna hagen wedy g6ybot nat yd oed y brenhin ym**plith y llu. sef a wnaethant yn ag*kyghorus* ymlad** ar muroed a cheissya6 eu distry6. a chymell y guar**chaedic yarll allan y rodi cat ar uaes udunt. A he**uyt y gunaeth yr yarll yn agkyghorus mynet a**llan a niuer bychan o uarchogyon gantha6. gan** debygu gallu rodi cat ar uaes y holl lu y brenhin. **Ac ual yd oedynt yn ymlad o bob parth. yn y lle** ym*plith* y rei kyntaf y llas Gorlois. Ac y guasgar6yt **y gedymdeithyon. Ac y caffat y castell yd oedynt** 6rtha6. Ar golut hagen oed ynda6 nyt tr6y un //

LlGC 5266 t. 216
ya6n goelbren y rann6yt. namyn herwyd y bei de6red pa6b ae gedernyt yn y gribdeilya6. A guedy da**ruot y gyuranc honno y doethp6t y uenegi hynny** y eigyr rylad yr yarll ar gaffael y castell. A phan **weles y kennadeu eissyoes y brenhin yn drech Gor**lois yn eisted ar neilla6 yr yarlles kewilydya6 a **wnaethant yn 6a6r. A ryuedu yn wuy no meint** guelet yno yn eu blaen y g6r yd oedynt yn dyw**edut ry lad. cany 6ydynt dim or medeginyaetheu** yr wnathoed uyrdin ar y brenhin. A phan gigleu **uthyr datcanu y chuedleu hynny sef a wnaeth** ynteu chuerthin. A dodi y d6ylya6 am 6unygyl **yr yarlles a dywedut 6rthi ual hyn. Dyoer ar**gl6ydes heb ef nym llas i etwa. Ac eissyoes dol**urus y6 gennyf ry gael uyg castell ar lad uy** guyr. Ac 6rth hynny ouyn y6 gennyf dyuot y **brenhin am an penn ninheu a chael y castell h6n** heuyt. Ac an cael ninhe6 yn deu ynda6 ef. Ac 6rth **hynny heb ef minheu a af yn ewyllis y brenhin** rac kyuaruot a ni a uo guaeth no hynny. Ac **ar hynny kychuyn a wnaeth y brenhin or castell** a mynet ar y lu. A b6r6 drech Gorlois y arna6 **a mynet yn y drech ehun. A guedy mynegi id //**

LlGC 5266 t. 217
a6 yn wir yn daroed. dolurya6 yn ua6r a wnaeth o angheu Gorlois. Ac eissyoes or parth arall llawen uu **o acha6s bot eigyr yn ryd ellyngedic a r6ym y bri**odas. Ac odyna ymchuelut a wnaeth y brenhin par**th a chastell tindagol y6 gymryt yn eida6 ehun.** ac y gymryt eigyr heuyt yn wreic ida6. Ac ody**na allan y trigassant y gyt yn r6ymedic o dirua**r garyat. Ac y ganet udunt mab a merch. ac ar**thur oed en6 y mab. ac anna oed en6 y uerch.** AC ym penn yspeit wedy mynet dydyeu ac am**seroed heibya6 cleuychu a wnaeth y brenhin o or**thr6m heint A nychda6t. A guedy y uot llawer o di**ewed yn y cleuyt h6nn6. blina6 a wnaeth y guyr** oed yn guarchad6 octa ac eossa ac eu hell6ng or **carchar. a mynet y gyt ac 6ynt hyt yn Germania.** Ac 6rth hynny kynnruuf a gymyrth yr holl deyrnas. canys **peunyd y dedkenyt y 6rthunt eu bot yn paratoi** llyghes ac yn ymchuelut tracheuyn y oresgyn en**ys brydein. Ac ar hynny y doethant 6ynteu a llyg**hes dirua6r y meint ganthunt a lluossogr6yd o **niuer y gyt ac 6ynt y dir yr alban. A dechreu llo**sgi y wlat ae hanreithya6. Ac yna y gorchymynn**6yt y leu uab kynuarch llu enys brydein. 6rth //**

LlGC 5266 t. 218
ymlad ar gelynyon hynny yarll oed h6nn6 a marcha6c prouedic clotua6r. a doeth a phrud y oet ae synn6yr. Ac **6rth ueint y glot ae uolyant. y rodassei y brenhin anna** y uerch yn wreic ida6. A llywodraeth y deyrnas yn y la6 **tra yt oed ynteu yn glaf. A guedy mynet lleu uab kyn**uarch a llu enys brydein gantha6 a dechreu ymlad ar **gelynyon. yn uynych y foei ef racdunt h6y yr dinas**soed. ac yn uynychach y kymellei ynteu 6ynteu y ar **fo y 6rtha6. weithyeu yr diffeith. weithyeu ereill y eu** llongeu. A mynych gyuragheu a uu y rygthunt heb **6ybot pieiffei y uudugolyaeth. canys syberwyt y ki**wda6twyr ehun oed yn eu guanhau. canyt oed dec **ganthunt uuydhau 6rth gyghory yr yarll.** A Guedy anreitha6 yr enys hayach. mynegi a wnaeth**p6t hynny yr brenhin. A llidya6 a wnaeth ynteu yn** wuy noc y diodeuei y heint. ac erchi dyuynnu y **holl wyrda atta6. A guedy eu dyuot rac y uron** eu hagreiffya6 a wnaeth ~~a oruc~~ yn dost ac yn drut **am eu syberwyt. A thr6y y lit tyngu yd aei e**hun oc eu blaen yr ymlad. Ac yn y lle erchi pa**ratoi gelor ~~gelor~~ ida6 6rth y arwein cany ellit** yn amgen y hynny y d6yn rac y gleuyt ae wa**nder. A guedy bot eu reideu yn bara6t gossot //**

LlGC 5266 t. 219

a wnaethp6t y brenhin ar yr elor. a dyuot ac ef hyt y dinas a ~~6~~ elwit uerolan. yn y lle yd oed y saesson yn y **distry6. A guedy clybot or saesson bot y brenhin bryttanneyt yn** dyuot ar elor gan y brytanyeit. sef a wnaethant eu **hysgaelussa6. a megys anteilyngu ymlad ar neb a** arwedit ar elor. o wyr kyuurd ac 6ynteu. Ac 6rth hy**nny sef a wnaethant mynet yr dinasi y my6n. ac o syber**wyt megys na bei ouyn arnynt ada6 pyrth y di**nas yn agoret yn eu hol. Ac eissyoes guedy mynegi** hynny y uthyr bendragon. sef a wnaeth ynteu er**chi mynet am benn y dinas ae gylchynu ac ym**lad ac ef. Ac uuydhau a wnaeth y kiwda6dwyr 6r**th arch eu brenhin. A dechreu ymlad ar muryoed** yn wra6l ac yn llidya6c. A megys yd oed y ky6da6t**wyr wedy yr oruot hayach ar y muryoed. Ac yn** guneuthur aerua ua6r or saesson. pei na 6rth6y**nepit udunt ar y diwed. sef a wnaeth y saesson** daly ediuar6ch am yr wnathoedynt ac ymdifryt **rac y brytannyeit. Ac or diwed eissyoes megys yd** oedynt yn ymlad o bob parth yn drut ac yn **galet. y doeth ~~y doeth~~ y nos. yr hon a wahan6ys** pa6b onadunt y 6rth eu harueu. Ac yna pan we**les y saesson bot eu syberwyt yn argywedu udunt. //**

LlGC 5266 t. 220

a bot bryttanneyt hayach wedy ry oruot arnadunt. sef a wnaethant medylya6 ac aruaethu pan uei dyd trannoeth my**net allan or dinas a rodi cat ar uaes udunt. A ph**an dyborthes yr heul y dyd drannoeth yd aeth y sae**sson allan or dinas megys y darparessynt a gossot eu** marchogyon tr6y uydynoed. A phan weles y brytan**nyeit hynny. llunyeithu a wnaethant 6ynteu eu** marchogyon tr6y uydinoed ac yn diannot kyrchu **y saesson. A g6rth6ynebu a wnaethant 6ynteu yn wr**a6l. Ac eissyoes guedy treulya6 llawer or dyd yn y wed **honno. y syrth6s y uudugolyaeth yn lla6 y brytanny**eit. A guedy llad octa ac ossa dangos eu kefneu a **a oruc y lleill ar fo. A chymeint o lewenyd a gym**yrth y brenhin ynda6 yna. Ac ual yd oed gynt heb **allu ym*dreigla6* ar yr elor heb nerth dynyon. yna** hagen kyuodi a wnaeth ehun yn y eisted heb gan**horth6y neb rac llewenyt. yn un agued a chet bei** deisyuyt yechyt a delhei ida6 yn yr a6r honno. **Ac a dan chuerthin yn llawen dywedut yr yma**dra6d h6n. E bratwyr t6yllwyr am gelwynt i **yn urenhin hanner mar6. 6rth uy mot yn gor**wed ar yr elor yn glaf. guir oed hynny. y*uelly* yd **oed6n inheu. heb ef. ac eissyoes ys guell gennyf //**

LlGC 5266 t. 221

ui uy mot yn hannenr mar6 gan oruot ohonaf arnadunt h6y. nogyt uy mot yn yach gan oruot o**nadunt h6y arnaf ui. Canys guerthuorach y6 mer**wi yn glotua6r gan anryded no buchedocau yn **gewilyduus gan waradwyd. AC yna wedy goruot** ar y saesson megys y dywetp6t uchot. yr hynny ny **pheidyassant h6y ac eu dryc ystry6. namyn mynet** hyt yr alban ac yno ryuelu heb orfowys. Ac yna y **mynassei uthyr eu herlit. megys y dechreuassei** ac y buassei darpar gantha6. Ac eissyoes nys gad6s **y wyrda ida6. Ac nys kyghorassant. canys trymach** uu y heint arna6 a guannach guedy y uudugoly**aeth honno no chynt. Ac or acha6s h6nn6 glewach** oed y gelynyon. a m6y y llauuryynt y ryuelu ar **y kiwda6dwyr. Ac o bob ford ymrodi y eu gnotaedic** urat. gan geissya6 goresgyn yr enys ae distry6. **Ac ym*plith* pob peth prydu a medylya6 a wnaetha**nt o bob ford guneuthur brat y brenhin yn gyn**taf. A guedy diffygya6 pob ystry6. A phob dechy**myc udunt. sef a wnaethant keissya6 y ure**dychu a guen6yn. A sef a wnaethant anuon ke**nnadeu yn rith achanogyon hyt yn uerolan **y dinas yd oed y brenhin ynda6 yn glaf. //**

LlGC 5266 t. 222

6rth 6ybot ansa6d y llys ae cherdedyaat. A guedy eu dyuot yno a chaffael ansa6d pob peth yn ll6yr. ym*plith* **y petheu hynny 6ynt a 6elsant fynna6n fynon6s** gloe6 eglur. Ac or d6uyr h6n6 y gnotaei y brenhin yuet **pryt na allei rac y heint yuet o neb ry6 lynn arall** yn y byt. Ac yna guedy caffael or ysgymunedigyon **uratwyr g6ybot hynny. sef a wnaethant 6ynteu** yn y lle kyrchu parth ac yno. a damgylchynu y fyn**nha6n a llenwi kylch y glanneu o wen6yn. megys** y bei llygredic a guen6ynic a retei ohonei o d6uyr. **Ac yna guedy yuet or brenhin . y d6uyr guen6yn**ic llygredic h6nn6. oe uryssedic agheu y gorwed**6ys. Ac y gyt ac ynteu m6y no chant o dynyon** a lewes y d6uyr a uuant ueir6. ~~Ac yna guedy~~ **Ac yna guedy g6ybot eissyoes or kewda6twyr** y t6yll h6nn6 ar brat. sef a wnaethant 6ynteu llen**wi y fynha6n or daear. a guneuthur cruc ma**6r ar y guarthaf. Ac yna guedy honni mar6**olaeth y brenhin ymgynulla6 a wnaeth yr ar**chesgyb ar esgyb. ar abadeu ar athraon ar ys**golheigyon. o bob lle dr6y holl deyrnas enys bry**dein. Ac odyna kymryt y gorff ae d6yn yn **anrydedus. hyt ym mynachloc ambri. Ac yno //**

LlGC 5266 t. 223
y my6n cor y ke6ri ger lla6 emreis wledic y ura6t y cladassant tr6y urenhina6l ar6ylyant. **ac yuelly y teruyna hystoria 6thyr pendragon. am arthur Eman y dechreu historia arthur.** A Guedy mar6 6thyr bendragon yd ymgynullass**ant holl wyrda enys brydein. yeirll. a bar6yneit** a marchgyon urda6l. ac abadeu ac esgyb. hyt **yg caer uudei. Ac o gytsynhyedigaeth pa6b** yd archassant y dyuric archesgob caer llion **kyssegru arthur uab uthyr yn urenhin arnad**unt. canys eu haghen ac eu kymellei. canys. **pan gigleu y saesson mar6olaeth uthyr bendrag**on yd anuonassant 6ynteu ar eu kenedyl hyt yn **germania y geissya6 porth. Ac yr dothoet attad**unt llyghes ua6r a cholgrim y dywyssa6c ar**nadunt. y geissya6 distry6 kenedyl y brytannyeit** yn oreu ac y gellynt. Ac yr daroed udunt gore**sgyn or parth dra6 y bumyr sef oed hynny try**deran yr enys. A guedy guelet o dyuryc aghen **y bobyl ae thrueni. kytdolurya6 ac 6ynt a wna**eth a chyssegru arthur. a guisga6 coron y de**yrnas am y benn. A phymtheg ml6yd oed ar**thur yna. Ac ny chlywssyt ar neb kynn noc **ef y ry6 deuodeu oed arna6. o nerth a cheder //**

LlGC 5266 t. 224
nyt a gle6der a daeoni. A chymeint o rat a rodassei du6 ida6. Ac nat oed yn eithauoed byt or ae cly6ei nys carei **y*noethach* or ae guelei. A hynny yn anedic gantha6.** A guedy y hardhau o urenhina6l ar6ydon y deyrnas. **ymrodi a wnaeth y haelder hyt nat oed ha6d ida6 ca**ffael o da kymeint ac a oed reit ida6 y rody yr sa6l uarchogyon **a lithrei atta6. Ac eissyoes p6y bynnac a uo gantha6** haelder anyana6l y gy a phrouedic uolyant. ket boet **eissyeu arna6 ar dalym. ny at duw wastat achanoctit** y argywedu ida6. Ac 6rth hynny sef a wnaeth arthur **can oed ynda6 molyant yn kedymdeithocau haelder a** daeoni. llunyeithu ryuel ar saesson. hyt pan uei oc eu da **6ynteu ac og eu s6llt. y gallei ynteu kyuoethogi y uar**chogyon ae deulu. A ya6nder a dysgei y hynny. canys **ef a dylyei holl urenhinaeth enys brydein. o wir** dreftada6l dylyet. A chynnulla6 a wnaeth holl yeueng**tit enys prydein. a chychuyn parth a chaer eura6c.** A phan gigleu colgrym hynny kynulla6 a wnaeth **ynteu y gyt ac ef y saesson ar yscoteit ar fychteit.** A dyuot yn erbyn arthur hyt yg glann dulas. **Ac yn yr ymlad h6nn6 y perigl6s y deu lu o boparth yn** 6a6r. Ac eissyoes y uudugolyaet a gauas arth**ur a chymell colgrym ar fo hyt yg caer //**

LlGC 5266 t. 225
Eura6c. A guarchae y dinas arna6. A phan gigleu ~~b.~~ baldulf a oed a chuemil o wyr arua6c gantha6 **ry fo y ura6t ae warchae yg caer eura6c. sef a wna**eth

ynteu kyrchu parth ac yno. A hynny o niuer gan**tha6 y geissya6 ell6ng y ura6t. canys pan ymladassei** arthur a cholgrym. yd oed ynteu yna ar glan y mor **yn arhos dyuotedigyaeth cheldric dywyssa6c a llu** gantha6 o germania yn borth udunt. A guedy dyuot **baldulf hyt ar deg milltir y 6rth y gaer sef a wna**eth medylya6 d6yn kyrch nos am ben arthur ae **lu. Ac nyt ymgel6ys hynny eissyoes y arthur. sef** a wnaeth ynteu anuon cad6r tywyssa6c kerny6 a **chuechan marcha6c a their mil o bedyt gantha6 y** raculaenu y ford y tebygynt eu dyuot. A guedy caffa**el o cad6r y ford y deuynt. d6yn kyrch a wnaeth am** eu pen ac eu guasgaru. ac eu kymell ar fo. A dir**ua6r tristit a goual a gymyrth baldulf ynda6.** 6rth na all6s ganhorth6y ye ell6ng y ura6t or guar**chae yd oed ynda6. A medylya6 a wnaeth pa wed y** gallei cael kyffuryf y ymdidan ae ura6t. canys **ef a tebygei y gellynt caffael holl rydit a guaret** pei keffynt kyffuryf y gyt y ystrywa6 beth a **wnelynt. A guedy nat oed ford amgen. sef a wna //**

LlGC 5266 t. 226
eth eillya6 y ben a guneuthur dywygyat eirestyn arna6. A chymryt telyn yn y la6 a cherdet tr6y pebyllyeu **arthur ac ymdangos yn eirestyn. A guedy na thebygei** neb y uot yn d6yll6r mal yd oed. dynessau a wnae**th y chueric parth ar gaer a dan ganu y delyn. A** guedy y adnabot or rei guarchaedic ef. sef a wna**ethant estynnu raffeu ida6. Ac 6rth y rei hynny** y dynnu y my6n attadunt. A guedy guelet o*hon***a6 y ura6t. mynet d6yla6 myn6gyl ida6. yn un** furyf a chet kyuotynt o ueir6. A guedy medyly**a6 o*nadunt* pa wed y gellynt ymrydhau odyno.** nachaf eu kennadeu yn ymchuelut o germania **a chuechan llong ganthunt yn lla6n o uarchogyon** arua6c. A cheldric yn tywyssa6c arnadunt. Ac yn **disgynnu yn yr alban. A guedy clybot o arthur hy**nny. sef y cauas yn y gyghor nat eistedei 6rth y **gaer a uei h6y no hynny rac pedrusder ymlad** a chynnulleitua gymeinti a honno o delynt am **y benn. A mynet a wnaeth odyno hyt yn llun**dein. A gal6 atta6 holl wyrda y deyrnas. yeirll a **bar6nyeit a marchogyon urda6l. Ac esgyb ac** abadeu ac athraon. Ac o gyt gyghor y c6nsli //

LlGC 5266 t. 227
h6nn6 yd anuonet kennadeu hyt ar howel uab emyr oe llyda6 oed urenhin yn llyda6. y uenegi **ida6 yr ormes oed ar y brytanyeit gan genedyl sa**esson paganyeit. nei uab chuaer y arthur oed h6**nn6 o emyr llyda6 y tat. A phan gigleu howel y** ryuel oed ar y ewythyr sef a wnaeth paratoi llyg**hes ac ethol pymthegmil o uarchogyon arua6c y gyt** ac ef. Ac ar y g6ynt kyntaf a gauas yyn y ol kych**6yn parth ac enys brydein. A dyuot norhamt6n yr** tir. Ae aruoll yn anrydedus a wnaeth arthur ida6 **mal y dylyit y 6r kuurd a h6nn6. A guedy mynet** ychydic o dioed. kychwyn a wnaethant odyno parth **a chaer l6ytcoet. Am ben y paganyeit oed yn y chy**warsangu. Ar dref honno ysyd yn lindysei ar ben **mynyd y r6ng d6y auon. Ac a elwir o en6 arall** lincoll. A guedy eu dyuot hyt yno ymlad a wna**ethant yn diannot ar saesson. Ac yn yr undyd h6n**n6 y dyg6yd6s chuemil or saesson y r6ng eu llad **ac eu bodi. Ac 6rth hynny y foassant yn gewilydus** ac ny orffowyss6s arthur oc eu hymlit odyno hyt **yn ll6yn kelydon. Ac yno yd ymgynnullassant 6ynteu** oc eu fo o bob lle. Ac y medylyassant eilweith 6rth //

LlGC 5266 t. 228
6ynebu y arthur. A guedy dechreu ymlad o bob parth aerua ny bu uechan a wnaethant or brytanyeit. gan **eu hamdiffyn ehunein. Ac aruer o gysga6t y deri yn** gochel ergydyeu y brytanyeit. A guedy guelet hyny **o arthur sef a wnaeth erchi trychu y guyd or pa**rth h6nn6 yr ll6yn. A gossot y guyd hynny

yn **gae yn eu kylch mal na ellynt mynet odyno.** yny ymrodent yn ewyllys arthur. neu ynteu y**ny uydynt uar6 o newyn. A guedy guneuthur y** cae rannu y bydinoed yg kylch y ll6yn. ac y*uelly* **y bu6yt yn eu guarchae teir nos a thridyeu. A gue**dy nat oed dim b6yt gan y saesson. sef a wnaeth**ant rac eu mar6 o newyn. anuon kennadeu y a**dol6yn y arthur eu gell6ng y emdeith yn ryd y eu **llongeu. Ac ada6 ida6 ynteu eu heur ac eu hary**ant. ac eu holl s6llt. A theyrnget phob bl6ydyn id**a6 heuyt o germania a g6ystlon ar hynny. sef** y cauas yn y gyghor kymryt hynny y ganthu**nt. A rodi canhyat udunt y uynet y emdeith yn** ryd. Ac ual yd oedynt yn r6ygya6 moroed yn **mynet parth ac eu gulat y bu ediuar gan**thunt guneuthur yr amuot h6nn6 ac ar**thur. Ac yn y lle trossi eu h6ylyeu parth ac enys //**

LlGC 5266 t. 229
prydein a dyuot y traeth totneis yr tir. A dechreu anreitha6 y guladoed o hynny hyt ym mor hauren a llad **y bileinllu ac odyna kerdet racdunt hyt yg caer uad**don. A dechreu ymlad a hy. A guedy mynegi hynny **y arthur. ryuedu a wnaeth medu eu t6yll arnadu**nt yn gymeynt ac y torrynt eu hamot mor ebr6yd **a hynny. Ac yn diannot crogi eu g6ystlon. Ac yma**da6 a wnaeth ar ysgotyeit yd oed yn eu kyw**arsangu. a mynet parth ac yno. Ac eissyoes goua**lus oed am ry ada6 howel uab emyr llyda6 yn **glaf yg caer alclut. A guedy guelet ohona6 y pa**ganyeit yn ymlad ar gaer y dywa6t yr ymadra6d **h6n. keny bo teil6ng gan yr ysgymunedigyon sae**sson bratwyr anudonyl cad6 aruoll a miui. eissyoes **miui a gatwaf fyd 6rth du6 gan geissya6 dial** arnun h6ynteu guaet an kiwda6twyr. Guisg6ch **a6ch arueu a chyrch6ch ynn yn 6ra6l y t6yllwyr** paganyeit racc6. a chan ganhorth6y crist ny a or**uyd6n arnadunt. . Guedy dywedut o*hona6* ef** yr ymadra6d hynn6 y kyuodes dyuric, archesgob **cae llion ar wysc. a seuyll ar ben bryn goruchel a** dechreu y ymadra6d ual hyn. A wyrda heb ef y rei **y*syd* arderch a6c o gristyonoga6l fyd broffes cath //**

LlGC 5266 t. 230
olic coffe6ch guaet a6ch kywda6twyr ysyt ellyngedic y gan ysgymun estra6n genedyl paganyeit **saesson. canys guaradwyd tragywyda6l y6 y6ch ony** lauury6ch y geissya6 dial a6ch kenedyl arnadunt. Ac 6rth **hynny ymled6ch dros a6ch gulat a diodeu6ch ag**heu drosti o byd reit y6ch. A ph6y bynnyac a dam**weinho yda6 yr agheu honno ida6 yn ymlad dros y** wlat ae gyt*urodyr*. ef a ymryd ehun yn wir **aberth y du6. gan euelychu crist y g6r a ymrod**es yn aberth dros y bobyl. A guedy kymryt bendi**th y gan y guynuydedic archescob. bryssya6 a w**naeth pa6b yn y gyueir y wisga6 eu harueu. **Ac yna y guisg6yt am arthur lluryc oed tei**l6ng y urenhin. Ac am y ben y dodet helym eur**eit a dreic yn ysgythredic arnei. A guenn tary**an arthur a ossodet ar y ysguyd. Ac yn honno yd **oed del6 yr argl6des ueir canys ym pob lle cal**et ac yg y gal̲wei arnei ac y coffaei. Ac ar y glun **y dodet caletu6lch y cledyf goreu yr h6n a wnath**odit yn enys auallach. Gleif a rodet yn y la6 yr hon **a elwit Ron. Goruchel oed honno a llydan ac adas** y aeruaeu. A guedy daruot guisga6 a bydina6 o **bob parth. sef a wnaethant ymgyrchu ac yna y //**

LlGC 5266 t. 231
llas llawer o bob parth. Ac ual yd oed yr heul yn yst6ng ar dyd yn dyuot daruot ar nos yn ~~mynet~~ dyuot. Achubeit **a wnaeth y saesson myned oed yn agos udunt** a chymryt h6nn6 yn lle castell udunt. A ymdiret y **eu kedernyt ac yn amylder eu niuer. Ac eissyoes** pan arwed6s yr heul y dyd trannoeth. esgynnu a **wnaeth arthur ae lu pen y mynyd. A llawer oe wyr** a golles yn esgynnu pen y mynyd. canys ha6s oed **yr saesson ymlad o oruchelder y mynyd noc yr bry**tanyeit yn y 6rth6yneb. argywedu udunt h6y. **A guedy**

treulya6 llawer or dyd yn ymlad yn y wed honno. llidya6 a blyghau a oruc arthur o welet y **saesson yn ymlad mor 6ra6l a hynny. ac nat yd oed** yn caffael y uudugolyaeth. Ac ar hynny tynnu ca**letwulch oe wein a wnaeth arthur gan al6 en6** du6 ar argl6ydes ueir Ac o uuan ruthyr kyrchu **yn y lle tewaf y guelei uydinoed y saesson. Ac ny** orffowyss6s yny lada6d ehun ae un cledyf deng **wyr a thrugeint a phetwar cann6r. A guedy guelet** hynny or brytanyeit gleuhau a wnaethant **a guneuthur aerua diuessur y meint or saesson.** Ac yn y 6r6ydyr honno y llas colgrim a baldulf **y ura6t. A llawer o uilyoed y gyt ac 6ynt. A guedy //**

LlGC 5266 t. 232
guelet o cheldric yr aerua drom honno oe gedymdeithyon. sef a wnaeth ynteu kymryt y fo. **A Guedy caffael o arthur y uudugolyaeth honno. sef** a wnaeth anuon cad6r tywyssa6c kerny6 y erlit **y saesson ry ffoassei. tra uryssyei ynteu parth ar al**ban yn erbyn yr yscotyeit oed wedi ry dyuot am **ben caer alclut. y lle yr edewssyt howel uab emyr** llyda6 yn glaf. Ac 6rth hynny y bryssyei ynteu rac **caffael y gaer am ben howel. Ac yna y kychuyn**6s cad6r a dengmil o uarchogyon arua6c gan**tha6. ac nyt yn unya6n yn eu hol y kerd6s nam**yn achubeit eu llongeu. A guedi eu caffael ac eu **bri6a6. ymchuelut ar y elynyon. ac eu llad heb** drugared. A rei onadunt a gyrchei dirgel6ch **y ll6yneu ar coedyd. ereill yr mynyded ar gogo**ueu y geissya6 yspeit rac eu hagheu. A guedy **nat oed un diogel6ch udunt. sef a wnaethant** kyrchu enys tanet yn yd oed ladedigyon eu **bydinoed. Ac eu herlit a wnaeth cad6r hyt yno** gan wneuthur aerua dirua6r o*nadunt*. Ac **ny orffowyss6s yny lada6d cheldric. A chymell y** lleill y daryst6ng 6rth y gyghor. **A Guedy guneuthur tangneued ac 6ynt y kerd //**

LlGC 5266 t. 233
6s parth a chaer alclut y lle yr daroed y arthur y rydhau y gan yr yscotyeit ar fychteit. Ac odyna **y kychuynassant parth a mureiff yn ol yr ysco**tyeit ar fychteit. ar ymladassei teir gueith ac **arthur. ac a foessynt hyt yno. Ac yno yr atha**edynt y my6n enyssed oed y my6n llynn llumo**n6y y geissya6 diogel6ch ac amdiffyn or lle cadarn** h6nn6. canys yn y llynn h6nn6 y mae tri uge**in enys. a thri ugein auon a da6 ida6. ac ny** ret o*hona6* namyn un. Ac y my6n yr ynyssed **hynny y mae tri ugein carrec. a nyth eryr** ym pob carrec. Ac un weith pob bl6ydyn yd ym**gynnullant y gyt. Ac y dangossynt ar eu lleisseu** y damweinyeu a delynt yr deyrnas o hynny **hyt ym pen y wl6ydyn. A hyt y lle honno y foas**sei yr yscotyeit ar fychteit ac ny dygrynoes **udunt. canys kynnulla6 llogheu ac ysgraffeu** a wnaeth arthur ac eu kylchynu. ac eu guar**chae y*uelly* a wnaeth tr6y yspeit pythe6nos.** yny uu 6ar6 hyt ar uilyoed onadunt o newyn. **Ac ual yd oedynt dywarna6t y*uelly* nachaf Gi**llam6ri urenhin ywerdon. a llyghes anueidra**6l y meint gantha6 yn dyuot yn borth yr ge //**

LlGC 5266 t. 234
nedyl druan boenedic yd oedit yn y guarchae. A sef a wnaeth arthur ymada6 ar fychteit. ac ar **yscotyeit. Ac ymchuelut eu harueu yn y g6ydyl** ac eu llad heb drugared. Ac eu kymhell ar fo. A guedy **fo y g6ydyl ymchuelut a wnaeth ar yr yscotyeit ar** fychteyt y uynnu eu dileu hyt ar un. Ac ual yd **oed wedy ymrodi y greulonder yn erbyn y gened**yl honno. nachaf esgyb y druan wlat honno. ae **heffeireit. ae hathraon. ae hysgolheigyon yn troet**noeth. ac esgyrn y seint ac a chrogeu ganthunt. **yn dyuot y wedia6 trugared arthur. dros y dru**an bobyl honno. A guedy eu hadoli ida6 ar tal **eu glinyeu y wedia6 dros adlibyn y bobyl boene**dic honno. Ac adol6yn yda6 gadu udunt y ran

uechan **a oed ganthunt or enys y arwein. tragywyda6l** geithiwet a dana6 ynteu. A chffroi a wnaeth yn**teu ar warder a thrugared. A rodi yr guyrda** seint hynny eu ~~trugaret~~ hadol6yn. **A Guedy daruot hynny. sef a wnaeth howel uab** emyr llyda6 edrych ansa6d y lynn. a ryuedu y sa6l **auonoed a deuei ida6. ac na redei o*hona6* nam**yn un. Ar sa6l enyssed. ar sa6l kerryc. ar sa6l **nythot eryrot. sef a wnaeth arthur dywedut //**

LlGC 5266 t. 235
6rtha6 bot llynn arall yn y wlat honno oed wuy y anryued no honno. sef ansa6d oed arna6 6gein **troetued oed yn y hyt. ac ugeint yn y let. a phy**mp yn y dyfnet. A hynny yn pedrogyl. A phedeir **kenedyl o bysga6t yn y pedeir cogyl. Ac ny cheff**it byth ~~u~~yrun o*nadunt* yn ran y gilid. namyn pob **rei yn eu ran ehun. Ac y mae llyn arall heb ef yn** emylyeu kymry ar glan hauren. sef y6 y hen6 llyn **llywan. a phan lanwo y mor hyt atta6 y ll6ng yn**teu megys morger6yn. Ac ny byd kyuu6ch ac **y cudyho y glanneu yr meint uo y llan6 A phan** dreiho y mor yd chuydha ynteu megys mynyd **ma6r a dan taflu o*hona6* y tonneu a gymerho** ynda6. A ph6y bynnac a uei yn seuyll yn agos ida6 **ae 6yneb atta6. breid uydei o gellynt ymdianc. heb** eu lyncu or llynn. o bei eu keuyn ar y llynn hagen **ny bydei perigyl udunt yr nesset uydynt ida6.** A Guedy daruot hedychu ar ycotyeit yd aeth y bre**nhin hyt yg caer eura6c y anrydedu g6ylua y** nadolyc oed yn dyuot. A guedy y dyuot yno a **gulet distry6edigaeth y glan egl6ysseu ohona6** a guedy ry 6rthlad y guynuydedic sampson ar**chescob ar d6yolyon wyrda ereill. effeireit a //**

LlGC 5266 t. 236
dyagoneu ac ysgolheigyon. a gadwyr yr egl6ys gatholic. A guedy peidya6 a d6ywa6l wassaneth o g6**byl. dolurya6 a wnaeth yn ua6r. A guedy gal6 y wyr y** gyt. o gytsynnyedigaeth pa6b y gossodes ef priaf **y gaplan ehun yn archescob yg caer eura6c. Ac** y peris adeilat yn anrydedus yr egl6ysseu llos**gedigyon. o newyd. Ac y peris gossot yndunt** cwuenhoed credyuus y talu g6assanaeth dwy**wa6l yg kyfnodedic amser yn he~~n~~rwyd gossode**digaeth y fyd glan gatholic. Ac yr dylyedogyon **ry daroed yr saesson eu diwreidya6 gossot pa**6b o*nadunt* yn y dylyet ae uedyant. **AC yno yd oed tri broder a hanoydynt o uren**hina6l uonhed a dylyet. sef oed y rei hynny **lleu uab kynuarch. Ac uryen uab kynuarch.** Ac Araun uab kynuarch. A rei hynny a dyly**ei tywyssogyaeth y guladoed hynny ac a oed** ~~yn~~eydunt kyn dyuot y saesson y eu goresgyn. **Ac yna y rodes arthur y Araun uab kynuar**ch brenhinaeth ysgothlont. Ac y leu uab kyn**uarch y rodes yarllaeth lodoneis ac a berth**ynei 6rthi. Canys yr yn oes emreis wledic y **rodessit anna uerch uthyr chuaer ~~a~~ y arthur //**

LlGC 5266 t. 237
yn wreic ida6. yr hon oed uam walchmei a medra6t. A guedy hynny y rodes y uryen uab kynuarch reget **a dan y theruyn. A guedy daruot llunyeithu pob lle** ~~peth~~ a d6yn yr enys ar y hen teilyngda6t. A ro**di y ba6b eu dylyet. y kymyrth y brenhin wreic** a hanoed o. dylyedogyon Ruuein. A guenh6yuar **oed y hen6. Ac yn llys cad6r yarll kerny6 y ma**gadoed. A phryt a theg6ch y wreic honno a orch**yuygei holl wraged ~~teyrnas~~ enys prydein.** AC erbyn dyuotedigaeth yr haf rac 6yneb. sef **a wnaeth arthur paratoi llyghes 6rth uynet** y oresgyn ywerdon. A guedy y dysgynni ar tir yw**erdon. yna y doeth Gillam6ri urenhin ywerdon ac** aneiryf o luosgr6yd y gyt ac ef yn y erbyn. A gue**dy dechreu ymlad. sef a wnaeth y genedyl noeth** tdruan diaryf heb un gohir ymchuelut ar fo. **Ac yna y deliit Gillam6ri ac y kymel6t y daryst6ng** y arthur. Ac o agreiff h6nn6 y doeth yr holl ty**wyssogyon g6ydyl oc eu bod y**

6rhau ida6. A guedy daruot ida6 goresgyn ywerdon y kychuynn6s **ae lyghes parth ac islont A guedy ymlad ae pho**byl y goresgynn6s. A guedy clybot yn yr enyssed **ereill nat oed un wlat a allei 6rth6ynebu ida6 //**

LlGC 5266 t. 238
sef a wnaeth dodlan urenhin Godlond. A Guinwas urenhin orc dyuot oc eu bod y 6rhau y **arthur. ac y rodi teyrnget ida6 y ganthunt. A** guedy llithra6 y gayaf h6nn6 heibya6 ymchuelut **a wnaeth arthur enys prydein. Ac atnewydhau** y hansa6d. a chadarnhau tagnheued yndi. A y bu **ar untu yndi. heb uynet un lle o*honei* deudec mly...** A Guahaud as wnaetp6t atta6 guyr prouedi6yc clot**ua6r y o wladoed ereill y achuanegu y teulu. A** chymeint oed syberwyt llys arthur ae te6lu o uoes. A **g6ybot. a haelder. a daeoni. a dewred. a milwraeth.** ac nat oed dim gan neb or ae clywhei ony all**ei ymgyffelybu 6rthi. Ac nyt oed dim gan** un dylyeda6c o pedryuannoed byt ony bei un **dywygyat ac un o teulu arthur. A guedy ehedec** dros pedryuannoed byt y ry6 6r oed. yd oed **pa6b or brenhinhed yn ergrynu rac o6yn eu goresg**yn ohona6. sef a wneynt cadarnhau eu kest**yll. ac eu keyryd. ac eu dinassoed a guneuthur** ereill o newyd rac y ouyn. A guedy clybot hy**nny o arthur. ymdyrchauael a wnaeth ynteu** o glybot bot y ouyn ar ba6b yn gymeint a **hynny. A medylya6 a wnaeth goresgyn yr holl //**

LlGC 5266 t. 239
Europa. sef oed hynny. trydedran yr holl uyt A pharatoi llyghes a wnaeth a mynet parth a lly**chlyn y6 goresgyn y laeu uab kynuarch oed nei** y sichelim urenhin llychlyn yr uuassei uar6. Ac **a gymynnassei y urenhinyaeth y leu y nei. sef** a wnathoed y llychlynwyr y 6rthot. ac urda6 Ri**c6lff yn urenhin arnadunt. sef a wnathoed** h6nn6 cadarnhau y kestyll ar dinassoed o pob **peth or a uei reit. gan uedylya6 gallu daly yn** erbyn arthur. Ac yn yr amser yd oed walch**mei uab y racdywededic leu uab kynuarch** ac oet deudeg ml6yd arna6 yg wassanaeth **suplicius pap.. wedy ry anuon o arthur y e**wythyr ef hyt yno y dysgu moes a deuo**deu a milr6yaeth. Ac y gan y pap h6nn6 y kym**yrth arueu yn gyntaf. A guedy dyuot arthur **mal y dywetp6t uchot hyt yn traeth lychlyn** nachaf Riculff yn dyuot a llu ma6r gantha6 **yn y erbyn. A guedy ell6ng llawer o pob parth** o greu a guaet a llad Ric6lff a llawer y gyt **ac ef y cauas y brytanyeit y uudugolyaeth.** A dechreu a wnaethant dodi tan yn y dinas**soed ac eu llosgi. ac ny orffowysassant yny dar //**

LlGC 5266 t. 240
uu udunt goresgyn llychlyn a denmarc. ac eu daryst6ng 6rth argl6ydiaeth arthur. A guedy daruot **hynny. y gossodes arthur lleu uab kynuarch yn** urenhin yn llychlyn. Ac odyno yd aeth ynteu ae **lyghes hyt yn freinc. A guedy eu dyuot y tir fre**inc dechreu anreithya6 y guladoed o pob parth **udunt. Ac yn yr amser h6nn6 yd oed frollo yn** tywyssa6c ar freinc a dan les amhera6dyr Ru**uein yn y llywa6 yn tretha6l a dana6. A guedy clybot** o ffrollo dyuotedigaeth arthur. ac yd oed yn y **wneuthur ar freinc. sef a wnaeth kynnulla6** holl uarchogyon arua6c freinc a dyuot yn erbyn **arthur. Ac ny all6s seuyll yn y erbyn canys kym**eint oed lu arthur ac nat oed ha6d eu rifa6 **y r6ng enys prydein. ar enyssed ereill a oresgyn**assei. A ran oreu o uilwyr freinc a oed y gyt ac **ef heuyt. A guedy guelet o frollo ry syrtha6 yn y** ran waethaf or ymlad. sef a wnaeth ada6 y maes. **Ac y gyt ac ychydic o niuer kyrchu paris. A guedy** ymgynnulla6 y wasgaredigyon bobyl atta6. sef a **wnaeth cadarnhau y gaer arna6. A mynnu y chy**nnal yn erbyn arthur. A thra yd oed frollo yn y **wed honno yn arhos parth ida6. nachaf arthur yn dy //**

LlGC 5266 t. 241
uot yn deissyuyt am ben y gaer a rannu y lu yn y chylch oe guarchad6. mal na cheffyn dyuot ohon**ei namyn 6rth y gyghor. Ac ar ben y mis sef a** wnaeth frollo dolurya6 o welet y bobyl ym mer**wi o newyn. sef a wnaeth anuon ar arthur y** ouyn ida6 a uynnei eu dyuot ell deu y łle ny **chaffei neb wneuthur canhorth6y yr un o*nad*unt** m6y noe gilid. Ac ymlad o*nadunt* oll deu **ar 6n a orffei kymerei gyuoeth y llall ae wyr yn diymlad** yr deulu. sef acha6 y kynygy6s hynny. G6r ma**6r aruthyr oed frollo ac anuedra6l y dewred. ae** gedernyt. ae gle6der. ac o acha6s hynny ma6r **oed y ymdiret y goruydei. ar arthur a chaffael** rydhau y bobyl. A llawen uu arthur 6rth y gen**nad6ri honno. A guedy cadarnhau yr amot h6**nn6 6ynt a doethant ell deu hyt y my6n enys **oed yn yr auon odieithyr y gaer. Ac eu lluoed** o pob parth yn edrych pa damwein a uei y rygth**unt. A guedy eu dyuot ell deu yn gyweir adur**nedic o ardercha6c arueu. ar deu uarch an**ryued eu meint. ac eu buanhet. mal nat oed ha**6d g6ybot p6y bieffei y uudugolyaeth. A gue **dyrchauael eu har6ydyon. gossot a wnaeth pob un //**

LlGC 5266 t. 242
ar y gilid oe holl nerthoed. sef a wnaeth arthur gan ochel dyrna6t frollo yn ethrylithus gossot ar**na6 ef yg goruchelder pen y uron. yny yd oed y ar** y uarch yr lla6r. Ac yn gyulym kyuodi a wnaeth **frollo. A gossod ar uarch arthur ae gleif dyrna6t agheu**a6l. yny syrth6s yr lla6r. A phan weles y brytany**eit eu brenhin yn dyg6yda6 a thebygu ry lad breid** uu eu hattal heb dorry y gygreir. a mal yd oedynt **yn mynnu torri teruyn eu hed6ch nachaf ar**thur yn kyuodi. Ac yn dyrchauael y taryan yn **erbyn dyrna6t frollo. gan y gyrchu ynteu yn** gyulym. A guedy eu dyuot y gyt ac ymgyuogi yn **hir. gossot a wnaeth frollo ar arthur yn y tal** a phei na phylei y cledyf yn ar a6ch yr helym ar pen**festin ef a uuassei agheua6l. A guedy guelet** o arthur y waet yn redec. ac yn cochi y taryan **ae arueu. ennynnu o flemychedic lit a wna**eth. a gal6 y nerthoed ae 6rhydri. a gossot ar **frollo. a thr6y y helym ae penfestin. ae holl ar**ueu. yny uu e cledyf tr6yda6 hyt y lla6r Ac yn**teu yn deu hanner o pob parth yr cledyf.** A guedy bot yn honnyeit hynny o bob parth **yr deu lu agori a wnaethp6t pyrth y gaer ae //**

LlGC 5266 t. 243
rodi y arthur. A g6rhau ida6 o ba6b yn diannot ac yn llawen. A guedy y uudugolyaeth honno. sef **a wnaeth rannu y lu yn d6y ran. A rodi y howel** uab emyr llyda6 y neill ran 6rth oresgyn pe**itya6. A ran arall gan arthur ehun 6rth daryst**6ng y guladoed ereill yn y gylch a uei 6rth6ynep **ida6. A mynet a wnaeth howel hyt yg guasguyn** a pheita6. ac angy6. A guedy llawer o ymladeu a **goresgyn y caeroed ar kestyll ar dinassoed ky**mell y brenhin y darystyngedigaeth ida6. A gue**dy mynet yspeit na6 mlyned heibya6. guedy dar**uot goresgyn holl teruyneu freinc y doeth ar**thur hyt ym paris y daly llys. A gal6 atta6 a** wnaeth archesgyb ac esgyb. ac athraon a lleygy**on o holl teruyneu freinc. Ac yna y rodes arthur** y uedwyr y ben trullyat yarllaeth nordmandi. **Ac y gei y ben s6ydwr yarllaeth angy6. Ac yr gur**da dylyedogyon ereill oed yn y wassanaeth y gulat**oed ereill yg*kylch* hynny. Ac yn y wed honno** hedychu pa6b yn y gyueir Ac eu guneuthur **yn uodla6n. A guedy daruot lluneithu y gulatoed** hynny pan yd oed guaean6yn yn dyuot y doeth **arthur trae geuyn hyt yn enys prydein. //**

LlGC 5266 t. 244
A Guedy y dyuot enys prydein. darparu a wnaeth tr6y dirua6r lewenyd daly llys yn enys prydein. **a guisga6 coron y pria6t teyrnas am y ben. A gal6**

pa6b or brenhined ar tywyssogyon a oresgynnassei **hyt ar y wled honno. sef amser oed hynny y sul**g6yn. Ac aruaethu a wnaeth aruoll pa6b tr6y le**wenyd y atnewydhau tagnheued y rygthunt.** tr6y y teyrnassoed. A guedy menegi ohona6 y ued**6l y6 ann6yleit. oc eu kytgyghor y ca6ssant darpa**ru y wled honno. yg caer llion ar 6ysc yg gulat **uorgant. Canys teccaf lle oed h6nn6 yn enys pry**dein a chyuoethocaf o eur ac aryant. A goludoed **ereill. ac adassaf y anrydedu g6ylua gymeint a ho**nno. canys or neill parth yr dinas yd oed yr auon **uonhedic honno yn arwein y llogheu hyt y dinas ar** brenhined yndunt o pedryuannoed byt. Ac or parth **arall yr dinas yd oed y gueirglodyeu ar ll6yneu ar coed ar** foresteu yn y theccau. ac o uy6n y gaer ar dinas **yd tei breinha6l goreureit. Ac euo oed eil dinas a** gyffelybit y Ruuein oe theccet y thei ac amlet y **chyuoeth o eur ac aryant a meint y syberwyt.** A d6y egl6ys arbennic a oed heuyt yn y dinas yn **anryded Julius uerthyr a mynachloc guerydon //**

LlGC 5266 t. 245
yndi. Ar llall yn en6 aron y gedymdeith a my..chloc canonwyr yndi. a honno oes trydyd arc. .. **gobty enys prydein. Ac yn yr amser h6nn6 ard..** cha6c oed dinas caer llion o deu can yscol ac ..**thraon yn canu yndun o amrauael geluydodeu.** A chymeint a paratoet yna o darmerth. ac a oed **teil6ng y anrydedu y ry6 wled honno. Ac yna yd** anuonet y bob gulat or a oresgynnassei arthur y **waha6d y brenhined ar tywyssogyon. ar yeirll ar ba**r6nyeit ar marchogyon urda6l ar guyrda y lys ar**thur y gymryt eu ya6n ac eu dylyet ac eu breint.** Ac yna y doethant or alban Araun uab kynuarch **urenhin yscothlont. 6ryen uab kynuarch uren**hin reget. kadwalla6n lla6hir urenhin G6yned **Meuryc urenhin dyuet. Cad6r urenhin ker**ny6. A thri archesgoyb o enys prydein. Archescob **llundein. ac archescob caer eura6c. ac dy6ryc archesc**ob caer llion ar 6ysc. A h6nn6 oed benhaf yn **enys prydein. A legat y gan pab ruuein. Ac y am** hynny ty6yssogyon y dinassoed ma6r bonhedic. Morud **yarll caer Gloe6. Mor yarll caer 6yragon. Jonatal o** dorcestyr. a boso o ryt*ychen*. Marchrut o gaer weir **y dinas a elwir warwic. Ewein o gaer lleon. Pe**redur uab prud. Gruffud uab nogoet. Regyn uab //

LlGC 5266 t. 246
...6d kynuarch o gaer geint. Anarawt o am6yth.. Gualla6c o salsbri. 6ryen o gaer uadon. Dun**..t uab post prydein. keneu uab coel. Edelyn** .ab coleda6c. kyngar uab angan. Mascoet clo**fa6t. Run uab noython. kynuelyn uab truny**at. Caryel uab cadell. kenyllt uab noethon. Ac **y gyt a hynny llawer o wyrda ereill. a oed ry hir** eu datcanu. Ac or enyssed y doeth Gillam6ri uren**hin ywerdon. A Gillam6ri urenhin islont. Doldan** urenhin Godlond. Guinwas urenhin orc. lleu **uab kynuarch urenhin llychlyn. Echel urenhin** denmarch. Ac o freinc y doeth holdin. tywyssa6c **R6yt6n. Guitart tywyssa6c peita6. lodgar tyw**yssa6c bol6yn. Bedwyr pen trullyat arthur ty**wyssa6c nordmandi. A burel tywyssa6c cenoman.** kei ben s6yd6r arthur tywyssa6c angy6. E deu**dec gogyuurd o freinc. A Gereint carnwys yn eu** blaen. howel uab emyr llyda6 A llawer o wyrda **oed yn darystygedic ida6. A chymeint o adurn mul**oed a meirch a guisgoed. ac arueu. a oed gan ba**6b o hynny ac yd oed ulin y datcanu. Ac ar uyrr**der ny thrig6s un tywyssa6c or parth h6n yr **yspaen ny delhei 6rth y guys . h6nn6.** A Guedy ymgynnulla6 pa6b yr gaer. a dyd yr wyl //

LlGC 5266 t. 247
ua yn dyuot. y gelwit y tri archescob yr llys 6rth wisga6 y teyrnwisc am y brenhin. A choron y teyrnas **am y ben. Ac y dyuric archescob y gorchymynn6t** yr efferen. canys yn y archescbty yd oedet yn daly **y llys. A**

guedy guisga6 am y brenhin. kych6yn a wnaethp6t ac ef yn urdasseid parth ac egl6ys yr **archesgobty. Ar neill archescob or parth dehei id**a6 yn kynnal y wisc. Ar llall or parth ass6. Ac araun **uab kynuarch urenhin yr alban. A chadwalla6n** lla6hir urenhin G6yned. A Meuryc urenhin dyuet. **A chad6r urenhin kerny6. yn herwyd eu breint** ac eu dylyet yn arwein petwar cledyf eureit yn **noethon yn eu lla6 o ulaen y brenhin yn mynet yr** egl6ys. Ac o bob parth udunt y c6uenhoed o uynych **a chanonwyr ac ysgolheigyon. yn amrauael urdasso**ed yn eu processio. yn canu amrauael geinyadaeth. **ac orgean. yn d6yn eu brein yr uam eglwys 6rth effe**ren. Ac or parth arall y hynny yd oedet yn d6yn y urenhines **yn wisgedic o urenhina6l wisc. a choron o la6rwyd** am y phen. Ac esgyb ac athraon yn y chylch yn y d6yn **y egl6ys y mynachesseu 6rth efferen. Ac oe blaen hith**eu yn herwyd eu breint ac eu dylyet pedeir gruaged y bren**hined a dywetp6t uchot yn arwein pedeir colom**en purwynnyon yn eu lla6. Ac y gyt a hynny yr //

LlGC 5266 t. 248
holl y wraged gan dirua6r lewenyd yn y chanlhyn hitheu parth ar egl6ys 6rth efferen. A guedy dar**uot y processio ym pob un or d6y egl6ys. kymeint** oed yr orgean ar geinnyadaeth. a rac digriuet oed **eu guaranda6. hyt na 6ydynt y marchogyon yr dotho**ed yno pa un gyntaf or d6y egl6ys a gyrchynt rac **dahet y kenit ym pob un onadunt. namyn kerdet** yn doruoed or egl6ys p6y gilid. Ac ny magei ulinder **udunt pei treulit yr holl dyd tr6y wassanaeth yr** efferenneu. A guedy daruot k6plau d6ywa6l wassa**naeth ym pob un or d6y egl6ys. guaret a wnaeth**p6t y am y brenhin ar urenhines eu brenhinolyon **wisgoed. a guisga6 amdanunt ysga6n wisgoed.** Ac odyna yd aeth y brenhin yr neuad ar guyr oll y **gyt ac ef. ar urenhines yr ystauell ar guraged oll** y gyt a hitheu. A guedy gossot pa6b y eisted yn her**wyd eu anryded. y kyuodes kei pen s6ydwr yn ad**urnedic o ermynwisc. a mil o dylyedogyon y gyt ac ef o un **adurn a guisc ac ynteu. y wassanaethu or gegin.** Ac or parth arall y kyuodes bedwyr pen trullyat **a mil y gyt ac ynteu yn adurnedic o amrauael ac** amli6 wisgoed. y wassanaethu or uedgell tr6y amra**ualyon . lestri gorulycheu a phioleu eur ac aryant //**

LlGC 5266 t. 249
A chyrn buelin goreureit y walla6 amraualyon wirodeu y ba6b herwyd y dirperei y anryded. Ac or **parth arall y hynny yn neuad y urenhines yd** oed aneiryf o wassanaethwyr. yn adurnedic o am**raualyon ac amli6 wisgoed yn rodi eu guassana**eth yn anrydedus yn herwyd kynneua6t. Ac **yna yd oed aml6c ry dyuot enys prydein y6 hen** ansa6d ae chyuoeth ae drythyll6ch yn gymeint ac **nat oed un teyrnas a ellit y chyffelybu idi. Ac a uei** o uarcha6c clotua6r o un ~~r6ysc~~ ryw wysc ac arueu yd arue**rynt. Ar gorderchwraged o un ry6 dywygyat yd** ~~yd~~ aruerynt h6ynteu. Ac ny bydei teil6ng gan un **wreic kymryt un g6r yn orderch idi yna nam**yn un a uei prouedic teir gueith ym mil6ryaeth. **Ac y*uelly* diweirach yd ymwnaei y guraged. A** chlotuorach yd ymwnaei y marchogyon y mil6ryaeth. **A Guedy daruot b6yta ac yuet a chyuodi y ar hordeu** mynet allan a wnaethant odieithyr y dinas. rei **y ware pedyt a marchgyon. ereill y torri peleidyr** ereill y taflu dysgleu pl6m yr awyr. ereill yn ym**wan. ereill yrn b6r6 maen ereill yn g6are g6yd**b6ll. A thra yt oedynt h6y odieithyr y gaer yn y chua**ryeu hynny. yd oed y g6raged m6yhaf a gerynt** y ar uann y gaer yn edrych arnadunt. Ac yn ym //

LlGC 5266 t. 250
dangos udunt. mal y bei wuy ynni pa6b o*nad* *unt* h6ynteu yn y guaryeu. A ph6y bynnac a uei **uuduga6l yn y wg6are yn diannot y talei y bren**hin ida6 y

gyuar6s. A guedy treulya6 teir nos **a thri dyeu yn y wed honno. yn y petweryd dyd y** gelwit ar ba6b yr un lle. y talu eu guassanaeth **y ba6b yn anrydedus herwyd y dirperei. Ac yna** y rodet dinassoed a chesteyll a chaeroed. a gulato**ed. a brenhinaetheu. ac archescobo~~d~~aetheu ac escobo**datheu. yn y lle y bydynt yn wac. Ac yna y g6rth**odes dyuric y archescoba6t. ac yd aeth hyt yn enlli** y penydya6 ac y g6plau dioed y uuched. Ac y gosso**det dewi ewythyr y brenhin yn archescob yn y lle** ynteu. A theil6ng oed ynteu y hynny. herwyd y lei**ndit ae uuched ae santolyaeth. Ac yn lle y guynuyde**dic sampson archescob caer eura6c y gossodet tei**la6 escob llan daf. herwyd y uuched ae deuodeu da** yn y ganhorth6ya6. Ac yna y gunaethp6t morgant yn **escob yg caer uudei. a Julian yg caer wynt. Ac edel**nyrth yg caer alclut. Ac ual yd oedynt yn llunyeith**u pob peth o hynny yn dylyedus. nachaf y guelynt** deudengwyr o wyr aeduet eu hoet. Ac anrydedus **eu gued. a cheing or oliwyd yn y lla6 deheu y pob** un onadunt. yn ar6yd eu bot yn gennadeu. A //

LlGC 5266 t. 251
guedy eu dyuot rac bron arthur y annerch o bleit amhera6dyr ruuein. a rodi llythyr yn y la6. Guedy **ry ysgriuennu yn y mod h6nn. llythyr amhera6dyr ruuein.** Lles amhera6dyr ruuein yn anuon y arthur yr hy**nn a haed6s. Anryued y6 gennyf dy greulonder di** ath ynuydr6yd ath syberwyt. na choffey ry wneuth**ur y sa6l sarhaedeu a wnaethost y ruueinnya6l** amherodraeth. pan atugost yn gyntaf teyrnget **enys prydein y ganthunt. yr honn a gauas ulke**ssar ac amherodron ereill g6edy ef ~~kyn noc~~ ef. a chyn no **minheu. Ac odyna goresgyn freinc a b6rg6yn. A** holl enyssed yr eigya6n y rei oed tretha6l a theyrn**geda6l y ruueina6l amherodraeth. tra yt oedynt yn** racuedu arnadunt. Ac 6rth hynny yd ym ninheu **yn ryuedu eithyr mod h6yret yd 6yt yn ymchu**elut ar dy synnh6yr. ac yn ymadnabot a thuhun **~~an~~. canys dirua6r g6l y6 guneuthur codyant y** sened ruuein. Ar holl uyt yn dylyu bot yn darystyg**edic idi. Ac 6rth hynny. can barn6s sened ruuein** bot yn ya6n y titheu guneuthur ya6n or sa6l sar**haedeu hynny. ninheu a arch6n ytty dyuot hyt** yn ruuein erbyn du6 a6st nessaf. y wneuthur **ya6n or sa6l sarhaedeu hynny mal y barnho sened** ruuein arnat. Ac ony deuy di yno yn y racdywede //

LlGC 5266 t. 252
